DULL GOLYGU'R TESTUN BEIRNIADOL

Gan ragdybio y daw dydd yn y dyfodol lled agos pryd y bydd modd gweld delweddau digidol o lsgr. BL Add 22356—a phob un o'r llawysgrifau cyfraith eraill, am hynny—yn hwylus ddigon trwy gyfryngau electronig, cyflwynir yma destun beirniadol o'r llyfr cyfraith hwnnw. Wrth ei baratoi, ceisiais gadw cydbwysedd rhwng adlewyrchu natur y testun gwreiddiol ar y naill law, tra'n ei gyflwyno mewn modd a fydd yn hwyluso ei ddarllen a'i ddeall ar y llaw arall. Dichon imi lithro i anghysonderau wrth geisio rhodio'r llwybr canol hwn, ond dylai maint a natur yr ymyrraeth olygyddol fod yn eglur o'r nodiadau hyn ar ddull y golygu, ynghyd â'r nodiadau ar odre dalennau'r testun ei hun.

Rhennais y testun cyfraith yn draethigau a pharagraffau ac adnodau, ac ychwanegais deitlau (rhwng bachau petryal) i'r traethigau er hwylustod.[1] Rhifwyd adnodau'r testun, o 1 hyd at 2546, gan osod rhif uwchysgrifol o flaen pob adnod. Nodais rifau ffolio'r llawysgrif rhwng bachau petryal.

Rhennais eiriau, ac ychwanegais briflythrennau ac atalnodau, yn ôl yr arfer cyfoes (ond gan geisio dilyn awgrym atalnodi'r gwreiddiol i'r graddau yr oedd hynny'n bosibl). Ychwanegais rhwng bachau betryal unrhyw eiriau neu lythrennau y bernais eu bod yn angenrheidiol i'r synnwyr, a nodais unrhyw ddiwygiadau testunol eraill mewn troednodiadau, gan ddefnyddio'r cyfeirnod †, ††, etc., ynghyd â rhif yr adnod er hwyluso'r cyfeirio. Y mae byrfoddau wedi eu hestyn mewn teip *italig*.

Derbyniais yn ddistaw gywiriadau i'r testun a wnaethpwyd gan y copïydd ei hun, ond nodwyd unrhyw gywiriadau a wnaed gan lawiau diweddarach mewn troednodiadau. Mae / mewn troednodyn yn dynodi diwedd llinell yn y llawysgrif, ac y mae] neu [yn dangos lle y 'llyncwyd' gair neu ran o air yn y rhwymiad. Mae * mewn troednodyn yn dynodi llythyren nad oedd modd ei darllen â sicrwydd.

Ni wahaniaethir yn y testun beirniadol hwn rhwng y gwahanol ffurfiau ar *r* ac *s* a geir yn y llawysgrif, ond dilynwyd y gwreiddiol yn fanwl yn ei ddefnydd o *6* ac *w* am /u/. Yr unig arwydd anghyffredin arall sydd yma yw'r ychydig enghreifftiau o *ȝ* am /x/ derfynol.

[1] Er mwyn hwylustod, defnyddiais yr un teitlau a phenawdau ag a ddefnyddiwyd gan olygyddion *LlBleg*, etc., lle bynnag yr oedd hynny'n bosibl.

CYNNWYS TESTUN *S*

adnod yn y testun hwn	**tudalen yn y testun hwn**		**ffolio a llinell yn y llsgr.**
		Deunydd Bleg.	
1–8	1	Rhaglith	4^{1}–$4v^{13}$
9–12	1	Swyddogion y Llys	$4v^{13}$–5^{6}
13–20	2	Sarhaed y Brenin	5^{7}–$5v^{9}$
21–2	2	Sarhaed y Frenhines	$5v^{9–13}$
23–5	2	Yr Edling	$5v^{13–19}$
26–8	2	Braint	$5v^{19–27}$
29–32	2	Tair Colofn Cyfraith	$5v^{27}$–6^{12}
33–73	3	Naw Affaith Galanas	6^{13}–8^{8}
74–87	4	Naw Affaith Tân	$8^{9–25}$
88–91	4	Tân Damweiniol	8^{25}–$8v^{8}$
92–116	5	Naw Affaith Lledrad	$8v^{9}$–9^{25}
117–35	5	Y Naw Nyn Credadwy	9^{25}–10^{6}
136–9	6	Dyledion	$10^{7–13}$
140–86	6	Mach	10^{13}–12^{28}
187–209	8	Gwerth Aelodau	$12v^{1}$–13^{22}
210–54	9	Sarhaed, Galanas a Gwerth	13^{22}–15^{17}
255–63	10	Gwestfa	15^{18}–$15v^{12}$
264–80	11	Dadl Tir	$15v^{13}$–$16v^{2}$
281–94	11	Dadannudd	$16v^{3}$–17^{17}
295–309	12	Dyddiau Hawlio	17^{18}–$17v^{27}$
310–47	12	Rhannu Treftadaeth ac Etifeddu Tir	18^{1}–20^{12}
348–62	14	Trioedd ynghylch Tir	20^{13}–21^{3}
363–8	15	Tresmasu etc.	$21^{3–25}$
369–72	15	Braint o du Mam etc.	21^{25}–$21v^{13}$
373–5	15	Anrhaith	$21v^{13–17}$
376–8	16	Ffiniau	$21v^{18–25}$
379–82	16	Moch mewn Coed ac Ŷd	$21v^{25}$–22^{9}
383–9	16	Amserau Penodedig	$22^{9–22}$
390–7	16	Amrywion	22^{22}–$22v^{13}$
398–408	16	Dirwy	$22v^{14}$–23^{14}
409–14	17	Adnau	23^{15}–$23v^{6}$
415–26	17	Taeogion (ac eraill)	$23v^{7}$–24^{16}
427–34	18	Gwadu Eiddo	$24^{17–27}$
435–55	18	Tystion	$24v^{1}$–25^{19}
456–75	19	Meiri a Chyngellorion	25^{20}–26^{9}
476–86	19	Ebediw	26^{9}–$26v^{1}$
487–553	20	Gwragedd	$26v^{2}$–$30v^{6}$

554–59	23	Saith Esgobty Dyfed	30v[7–24]
560–80	23	Llwgr Ŷd	30v[24]–31v[28]
581	24	Pethau Unwerth	32[1–7]
582–3	24	Cynnen a Rhaith yn erbyn Lleidr	32[7–12]
584–616	24	Meirch	32[13]–33[13]
617–19	25	Cyhuddo o Ledrad	33[14–22]
620–79	25	Buchod ac Ychen	33[23]–35[8]
680–6	26	Defaid a Geifr	35[9–18]
687–98	26	Moch	35[18]–35v[17]
699–703	27	Cathod	35v[18]–36[4]
704–8	27	Gwyddau ac Ieir	36[4–9]
709–36	27	Hela	36[9]–37[9]
737–56	28	Cŵn	37[10]–38[5]
757–61	29	Hebogau	38[6–14]
762–74	29	Gwenyn	38[15]–38v[13]
775–90	29	Adeiladau	38v[14]–39[18]
791–859	30	Offer, Dodrefn, Arfau etc.	39[18]–40v[12]
860–2	31	Arferion Cyfraith	40v[12–25]
863–9	31	Brawdwr Llys	40v[26]–41v[4]
870–81	31	Brawdwr a Brawd	41v[4]–42[5]
882–911	32	Swydd a Braint Brawdwr	42[6]–44[11]
912–16	33	Cyngaws	44[11–20]
917–44	34	Camfarnau	44[20]–46[7]
945–52	35	Rhaith Gwlad a Dedfryd Gwlad	46[7–25]
953–67	35	Gwarant	46[26]–47v[5]
968–1224	36	Trioedd	47v[6]–59[13]
1225–33	45	Deol	59[13]–59v[27]

Deunydd ychwanegol (y gynffon)

1234–58	46	Cynnal Gorsedd Gyfreithiol	60[1]–61v[22]
1259–96	47	Arferion Cyfraith	61v[23]–63v[26]
1297–1304	49	Lledrad	63v[27]–64[16]
1305–11	49	Camddosbarth	64[17]–66[5]
1312–22	51	Gorsedd Ddygynnull	66[6]–67[26]
1323–30	52	Tremyg	67[27]–67v[28]
1331–50	52	Dadl	68[1]–70[21]
1351–71	55	Tir	70[22]–71[23]
1372–8	56	Siartr Hywel Dda	71[24]–71v[18]
1379–83	56	Brawd	71v[18]–72[5]
1384–6	56	Tir	72[6–26]
1387–8	57	Mach	72[27]–72v[11]

1389–92	57	Y Tair Uchel-lys	72v[12–28]
1393–1401	57	Mach	73[1]–73v[11]
1402–55	58	Amrywion	73v[12]–76[15]
1456–63	60	Tir Eglwysig	76[16]–77[4]
1464–75	61	Cyfraith y Crefyddwyr	77[4]–77v[25]
1476–1532	61	Amrywion	77v[26]–80v[6]
1533–89	64	Profi Ynadon	80v[7]–83[4]
1590–1600	66	Tir	83[5]–83v[7]
1601–22	66	Amrywion	83v[7]–85[2]
1623–56	67	Damweiniau	85[2]–87[24]
1657–82	69	Trioedd	87[24]–88[23]
1683–1712	70	Amrywion	88[23]–89v[24]
1713–57	72	Mach	89v[24]–92v[11]
1758–64	74	Amrywion	92v[11]–93[14]
1765–81	74	Cyfraith Dyfnwal Moelmud a Mesur	93[15]–94[16]
1782–99	75	Dadl	94[17]–95v[20]
1800–6	76	19 o Bethau Angenrheidiol	95v[21]–96[6]
1807–13	77	Pedair Allwedd Ynadaeth	96[7–20]
1814–21	77	Ceidwaid	96[21–26]
1822–8	77	Llwon	96[27]–96v[11]
1829–30	77	Oedi Cyfraith	96v[11–21]
1831–57	78	Amrywion	96v[22]–99[22]
1858–60	80	Y Tri Llyfr Cyfraith	99[22]–99v[8]
1861–4	80	Hawl	99v[9]–100[15]
1865–9	80	Dadl Llys ac Eglwys	100[16]–100v[1]
1870–87	81	Dadl Tir a Daear	100v[2]–101v[9]
1888–92	82	Adnau	101v[10–27]
1893–1914	82	Trioedd etc.	102[1]–103[27]
1915–24	83	Damweiniau	103v[1]–104[1]
1925–59	84	Amrywion	104[1]–106[28]
1960–66	85	Lledrad	106v[1–22]
1967–99	86	Gwadu Mab	106v[23]–108[22]
2000–117	87	Trioedd	108[22]–116v[18]
2118–26	94	Amrywion	116v[18]–117v[27]
2127–46	95	Trioedd	117v[27]–118v[18]
2147–68	95	Damweiniau	118v[18]–120v[3]
2169–94	97	Trioedd	120v[3]–122[2]
2195–216	98	Trefn Cyfreitha	122[3]–123[1]
2217–226	99	Amrywion	123[1–23]
2227–36	99	Damweiniau	123[24]–124[1]
2237–306	99	Llwgr Ŷd	124[2]–127v[22]
2307–29	102	Mach	127v[22]–128v[19]
2330–48	103	Tir	128v[20]–129v[11]

2349–59	104	Hawl Lledrad	129v[11]–130v[16]
2360–74	104	Cyfar	130v[17]–131[27]
2375–6	105	Dau Ddyddiad Pwysig	131v
2377–81	105	Cyd-etifeddion	132[1]–132v[28]
2382–472	106	Gwyddor Cyfraith Hywel Dda	133[1]–140v[28]
2473–8	112	Amrywion	141[1–18]
2479–86	112	Geiriau'r Seithwyr Doethion	141[19–27]
2487–90	112	Gwenyn	141v[1–12]
2491–510	112	Amrywion	141v[13]–142v[27]
2511–17	113	Damweiniau	143[1–27]
2518–24	113	Llunio'r Gyfraith	143v[1]–144[18]
2525–46	114	Ffyrdd y Gyfraith	144[19]–145v[4]

CYFREITHIAU HYWEL DDA
YN ÔL
Llawysgrif BL Add. 22356 (*S*)

[RHAGLITH]

[4] [1]Howel Da o rad Du6, mab Gadell, brenhin Kymry oll, a 6elas [y] Kymry yn kamarver o gyfritheu a devodeu, a dyfynn6ys atta6 6heg6yr o bop kym6d yg Kymry o'e deyrnas o a6dyrda6d ac ygnadiaeth, a holl egl6yss6yr y deyrnas a arverynt o delygda6d bagleu, megis archessgob Myni6 ac essgub ac abadeu a phriore, hit y† lle a el6ir y Tu G6ynn yn Nyfed. [2]Y tu h6nn6 a beris ef y adail o 6ial g6nion yn lletu ida6 pann delei y Dyfed y hella, ac 6rth hynny y gel6it ef y Tu G6ynn. [3]A'r brenhin a'r gynnellidfa honno a drigassant ynno tr6y yr holl Ra6ys y 6edia6 Du6 tr6y dyr6est pryffeith, ac y erchi rad ar darpar y brenhin y 6ellahu kyfreitheu a devodeu Kymry. [4]O'r eniver honno pann dervynna6d y Gra6ys y de6issa6d y brenhin y deudeg llyc deuthaf o'e 6yr a'r vn essgolheic deuthaf, a el6it yr Athra6 Blege6ryt, y lynieithu ac y ssanh6yra6† ida6 kyfreitheu, arveroed a defodeu ynn bryffeith ac ynn nessaf y gellit y'r 6ironed a ia6nder. [5]Ac yd erchis y hessgrivenny ynn deir rann: ac ynn gyntaf, k*yfreith* y lys beynnydia6l; yr eil, k*yfreith* y 6lad; trydyd, arver o bop vn ohonnynt. [6]G6edy hynny y dechreu6ys g6nneuthur tri† llyfur k*yfreith*: vn 6rth y lys beynnydia6l [4ᵛ] bress6l†† y gyd ac ef; arall y lys Dynnef6r; trydyd y lys Aberffra6; megis y kaffei teir rann Kymry, G6ynned, Po6ys, Dehebarth, a6dyrda6d k*yfreith* ynn eu plith 6rth eu reit ynn bara6d pob ams*er*. [7]Ac o gyghor y doethon hynny, rei o'r hen gyfreitheu a gannhali6yd; ereill a 6ella6yd; ereill a dilea6d [a] gossod kyfreitheu ne6yd yn y lle. [8]Ac ynna y kyhoydes y gyfreith y'r bobyl yn g6byl, ac y kadarnha6d y a6dyrda6d ydynt ar y gyfreith, ac y dodes ef melldith Du6 a'e eidia6 ynteu a'r† h6nn Gymry oll ar y neb nyss katt6ai rac lla6 megis y gossoded ynna, ony ellit y g6ellay o gyfyndeb g6lad ac argl6yd.

[SWYDDOGION Y LLYS]

[9]Kyntaf y dechre6ys y brenhin k*yfreith* y lys beunydia6l, ac o'r dechreu y gossodes ped6ar ss6yda6c ar hygeint ynn y lys, nid amgen: Pennteulu, Offeirad telu, Distein, Ygnad llys, Hebogyd, Penng6astra6d, Pennkynnyd, G6as ystavell, Distein brenhines, Offeirad brenhines, Bard teulu, Gosteg6r llys, Dryssa6r neyad, Dryssa6r ystavell, Mor6ynn estavell, G6astrad af6yn, Cannh6llyd, Trylliat, Medyd†, S6yd6r llys, Coc, Troeda6c, Medic llys, G6astra6d af6yn brenhines. [10]Dlyed y ss6ydogion hynn y6 kaffel brethyn6isg y gann y brenhin a lliein6isc y gann y vrenhines teir g6eith ynn y vl6ydyn, y Nadolic [5] a'r Pask a'r Ssylg6yn. [11]Brenhines a geiff trayann gan y brenhin o'r enill a del ida6 o'e dir, ac velly y dyly ss6ydogion y vrenhines y trayan gann s6ydogion y brenhin. [12]Kylch a dyly y vrenhines a'r morynion a'r meibion ar vileineit y brenhin pann el y brenhin y maes o'e dir ehynan.

1 † phrior / ehit yr
4 † olynitheu ac ys ssanh6yra6
6 † t / tri
6 †† bre [4ᵛ] bress6l
8 † ar yr
9 † Med / edyd

[SARHAED Y BRENIN]

[13]G6erth brenhin y6 tal y sarhaed teir g6eith gann dri drychafel. [14]Teir sarhaed brenhin ynt: vn y6 tori y na6d—llad dyn ar na6d y brenhin; eil y6, pann del deu vrenhin ar [y] keffinyd y ymaruoll, or lledir dyn ynn y g6yd, sarhaed brenhin y6; trydyd y6 kamarver o'e 6reic. [15]Tri ry6 sarhaed yssyd y bop g6r g6reiga6c: vn y6 y dar6 ar y gorff; eil y6 bod arall ynn kamarver o'e 6reic; trydyd y6 tori na6d y dyn a allo rodi na6d o gyfreith.

[16]Val hyn y telir sarhaed brenhin: kann mu yg kyfir pob kantref o'e deyrnas; a g6ialen ariaint kyhyd ac o'r lla6r hyt yg gen y brenhin pann eistedo ynn y gadair, kyn vrassed a'e hirvys, a thri bann erni a thri deni kyn vrassed a'r 6ialen; a ffiol eur† a annho lla6nn diod y brenhin yndi, a chla6r eur erni kyfled ac 6ynneb y brenhin; kynde6ed vydant y ffiol a'r kla6r ac e6in ameth a amaetho seith mlyned neu blisgin 6y g6yd. [17]Ynn y mod h6nn6 y telir sarhaed y brenhin y bo eistedua arbenic y danna6, megis [5v] Dinef6r dan vrenhin† Daehebarth neu Yberffra6 dan vrenhin G6yned. [18]Ony byd eiste[d]ua arbenic ida6 ni cheiff onyd g6arthec. [19]Braeint argl6yd Dinef6r y6 kaffel dros y sarhaed g6arthec g6nion klystgochion a annho ol yn ol r6g Aergoel a llus Dinef6r, a thar6 r6g pob vgeint mu ohonnynt vn lli6 a'r g6arthec. [20]Ni thelir eur ynnamyn y vrenhin Dinef6r neu vrenhin Ab[e]rffra6†.

[SARHAED Y FRENHINES]

[21]O dri mod y serheir y vrenhines: pan*n* dorer y na6d; neu pann dra6er tr6y lid; neu pann† dynner peth o'e lla6 gan dreis. [22]Trayan g6erth sarhaet y brenhin a delir y'r vrenhines, heb eur a heb ariant agen.

[YR EDLING]

[23]Pennaf yr edling g6edy y brenhin a'r vrenhines. [24]G6erth yr edlig: kyffelub vyd y 6erth y 6erth y [brenhin]† euthyr y trayann yn eisseu. [25]G6erth pob vn o'r ettifedion ereill a berthynont 6rth y deyrnas: trayan g6erth y brenhin; ac velly g6erth sarhaet pob vn ohonynt, heb eur, heb ariant.

[BRAINT]

[26]Tri ry6 dyn yssyd: brenhin, a breur, a bilain, ac eu haelodeu. [27]Aelodeu brenhin ynt: y rei a berthynont y vrenhina6l vreint, kanys pieiffont; ac ohonynt oll brenhinolaf y6 yr etlig, kanys ef a leher ynn y lle y g6rthrychir teyarnas ohonna6 6rth gyfeistedia6 llus. [28]Eissoes, o'r pann gameront tir, eu breint a fud 6rth vreint y tir a gynhalyont.

[CYFRAITH Y WLAD—TAIR COLOFN CYFRAITH]

[29]Peida6 6ethion a 6nna6n a chyfreitheu [6] s6ydogion llys y brenhin kanyt oes aruer na reit 6rthunt, namyn blinder eu hyscrifennu a chosti memr6n a du yn diffr6yth. [30]A dechreu a 6nna6n o gyf*reith* g6lat, ac yn gyntaf o teir kolofyn k*yfreith* kans pennaf ynt, nid amgen:

16 † eur er / ni
17 † vremhin
20 † abr / rffra6
21 † p / pann
24 † *Ar ymyl y ddalen mewn llaw ddiweddarach.*

galanas a'e na6 affeith, tan a'e na6 affeith, lledrat a'e na6 affeith. [31]Beth† bynnac a 6neler ygkylch y tri g6eithret hynny, affeith y6 6rth lad neu losc neu letrat. [32]Ac 6rth hynny y tri na6 affeith, ach6yson ynt tr6y† y g6neir y g6eithretoed hynny tr6y gytssynnya6, kan*n*s kytsynnya6 y6 yr holl affeitheu; rei tr6y ol6c, ereill tr6y eireu, ereill tr6y 6eithret.

[NAW AFFAITH GALANAS]

[33]Kyntaf o na6 affeith galanas y6 taua6trydyaeth: menegi lle y bo y dyn a vynho ef y lad. [34]Eil y6 rodi kynghor y lad y dyn. [35]Trydyd y6 disg6yl brat ar y dyn. [36]Pet6ryd y6 dangos y'r lloffryd y dyn a vynei ef y lad. [37]Pymhet y6 mynet yg ketymdeithas y llofryd pan el y lad y dyn. [38]Whechet y6 dyfod gyt a'r llofrud y'r tref y bo y dyn a lather yndi. [39]Seithuet y6 kymhorth y llofrud o lad y dyn. [40]Wythuet y6 arr6yda6 y dyn a lader hynny del y dyn a'e llado. [41]Na6uet y6 edrych ar lad y dyn gan y odef. [42]Dros bop vn o'r tri kyntaf o'r affeithoed hyn or adefir, y telir na6 vgeint ariant; a ll6 kanh6r y 6ady gell6g g6aet or gofynnir. [43]Dros bop vn o'r eil tri y telir deu na6 vgeint; a ll[6] deu kan6r y 6adu llofrydiaeth. De6i Brefi! [6^{v}] [44]Dros bop vn o'r tri di6ethaf y ro[d]ir tri na6 vgeint ariant; a ll6 truchan6r y 6ady llofrydiaeth.

[45]P6y bynnac a 6atto llofrudiaeth a'e holl affeitheu, ll6 deg6ur a deu vgeint a dyry. [46]A reith g6lad† y6 honno, a 'di6ad koet a maes' y gel6ir. [47]Ac velly heuyt, y neb a 6atto llofrydiaeth ar 6ahan y 6rth yr haffeitheu, neu vn affeith heb amgen, ll6 deg6ur a deigeint a dyry. [48]Ac velly y mae am losc, ac am ledrat, ac ae haffeitheu. [49]Or holir y llosc o treis neu o letrat, ac or lloscir dyn yn y tan h6nn6, tri dyn diofraeda6c a vud yn y reith, o varchogaeth, a lliein, a g6reic.

[50]P6y bynnac a adefo galanas, ef a'e genedl a'e talant sarhaet y dyn a lader a'e alanas yn g6byl. [51]Ac yn gyntaf y tal y llofrud sarhaet y dyn y tat a'e vam a'e vrodyr a'e ch6ioryd; ac os g6rega6c vyd, y 6reic a geff y gann y rei hynny trayan g6erth sarhaed y g6r.

[52]G6erth dyn a la[d]er, yn deir rann y renir ar y rei a'e talo. [53]Yr rann gyntaf a disgin ar y llofryd a'e dat a['e] vam a'e vrodyr a'e ch6ioryd, a'r d6y rann ar y gennedl. [54]Y rann gyntaf a renir yn deir rann: vn ar [y llofrud] yhynnan a'r d6y ar y tad a'r vam a'e vrodyr a'e ch6ioryd; ac o'r g6yr hynny, kymeint a dal pob vn a'e gilid; ac velly o'r g6raged, euthyr na thal vn 6reic namyn† kymeint a hanner [7] ran y bra6t. [55]A ran gyntaf honn, y tad a mam a brodyr a ch6ioryd y lladedic y telir. [56]A'e sarhaet velly, kany ledir neb heb sarhaet. [57]Y d6y ran a dodet o'r dechreu ar genedyl y llofrud a rennir yn teir ran: y d6y ran ar genedyl y tat, a'r tryded ar genedyl y vam. [58]Y kyfry6 gereint a talho galanas gyt a'r llofrud, y kyffelybyon o bleit y lladedic a'e herbynyant, o'r gorhenga6 hyt y gorcha6.

[59]Val hyn*n* yd en6ir achoed kenedyl a talhont alanas neu a'e kymeront: kyntaf o'r na6, tat a mam y llofrud neu y lladedic; eil y6 hentat; trydyd y6 gorhentat; pet6ryd y[6] brodyr a ch6ioryd; pymhet y6 kefynder6; whechet y6 kyferdyr6; seithuet y6 kyfnieint; wythuet y6 gorchyfnieint; na6uet y6 gorcha6. [60]Aelodeu yr achoed hynny ynt: nyeint ac e6thred y llofrud neu y lladedic. [61]Nei y6 mab bra6t neu ch6aer neu gefynder6 neu gyferder6. [62]E6ythyr y6 bra6t tat neu vam neu hentat neu henvam neu orhentat neu orhenvam. [63]Hynn

31 † *Gadawyd gofod ar gyfer priflythyren liw (B), ond nis llanwyd.*
32 † tr6ydy
46 † g / g6lad
54 † mamyn

y6 meint ran*n* pob vn o'r rei hynny oll: y neb a vo nes o vn ach y'r llofrud neu y'r lladedic no'r llall, h6n*n*6 a dal neu a gymer deu kymeint a'r llall; ac velly y mae am bop vn o'u seith rad di6ethaf, ac aelodeu yr holl radeu.

[64]Plant y llofrud neu y lladedic, ny dylyant talu dim na'e erbyn*n*ia6 o tal galanas, kanys [7[v]] rann y llofrud, yr h6nn a dal m6y noc vn arall, a seif drosta6 ef a'e plant; a phryder y plant hefyd a berthyn y bod arnna6 ef. [65]Pryder plant y lladedic a perth[yn] y vod ar eu rieni a'e gitettifedion, kan kaffant trayan y alannas a g6erth k6byl o'e sarhaed. [66]Ac 6rth hynny ny thal ac nyd erbyn ettifed vn ohonnynt dim o alan*n*as.

[67]Or byd kar y'r llofrud neu y'r lladedic yn 6r egl6ysic r6umedic 6rth vrdeu kasegredic neu 6rth grefud, neu yn glaf6r, neu yn vyd, neu yn ynfud, ny thal ac nyt erbyn dim o alan*n*as. [68]Ac ny ellir eu kymell o neb fford y dalu dim o alan*n*as nac o'e y gymryd.

[69]Tri dygyngoll kennedl ynt: vn y6 dechreu o 6elygord taly galan*n*as dyn a lader ac na thalant g6byl, ac am hynny y llad y dyn o'r 6elygord honno—ni thelir yr alannas ac nyt aduerir dim o'r a dal6d dros y kyntaf. [70]Eil y6 bod kyss6ynvab my6n kennedl heb d6yn a heb di6ad, a llad dyn o h6nn6—taly yr alan*n*as oll a dylir, ac os g6adant g6edy hynny dygyngoll y6. [71]Trydyd y6 pann enllipier g6rion am lad kelein ac na 6nel ia6n am hynny namyn tremygu; o lledir dyn am hynny[†] ny thelir dim drosta6[††] kyn bo g6irion, kanny eill kennedl 6ady drosta6 yn var6 yr hynn nis g6ada6d ef yn*n* y vo6yd.

[8] [72]Oerg6ymyp galannas y6 pann lado dyn dyn[†] arall, a dodi oed dyd y 6nneuthyr ia6nn drosta6,[††] a'e lad ynteu o dyn o gennedl arall nys dylyho; oerg6ymp galan*n*as y gel6ir hyn*n*y rac trymed y golli ef, ac gada6 y gyflafan a 6nnaeth ar y gennedl, a gorfod y thaly.

[73]Y neb a 6atto llad dyn my6n llu roded l6 deg6yr a deugeint, a 6heugint o ariant. De6i Breuy!

[NAW AFFAITH TÂN]

[74]O na6 affeith tan. [75]Kyntaf y6 rodi kyghor y losci. [76]Eil y6 duna6 am loski. [77]Trydyd y6 myned gyt a'r neb a losgo hyt y lle y llosker. [78]Ped6ryd y6 ymd6yn y r6yll. [79]Pymhet y6 llad y tan. [80]Whechet y6 keissa6 dyl6yf. [81]Seithuet y6 wh6thu y tan hyny enynho. [82]Wythuet y6 rodi y tan y'r neb a losco ac ef. [83]Na6uet y6 edrych ar y llosc gan y odef. [84]Y neb a 6atto vn o'r na6 affeith hynn rodet l6 deg6ir a deu vgeint.

[85]Y neb a lado tan, neu a'e 6hytho hyny enynho, neu a rotho tan y'r neb a losco ac ef, hanner y kolled a dal a'r hanner arall a dal y neb a losco ac ef. [86]A h6nn6 y6 k6byl o 6eithret llosc. [87]Ac ony byd neb yn affeitha6l gyt ac ef, talet ehynan yr holl gollet a del o'r llosc, ony [dy]cha6n amdiheura6 tr6y reith g6lad.

[TÂN DAMWEINIOL]

[88]Y tu kyntaf a losger yn y dref o 6alltan, talet y deu du gyntaf a enynho, vn o bop parth ida6. [89]Y neb a venthykio [8[v]] ty a than y arall, or kynneu h6nn6 tan yn*n* y [ty] teir g6eith, or llysc y ty ef a dyly talu k6byl o'e 6erth. [90]P6y bynnac ada6ho[†] tan yn odyn ty a dyfod arall y

71 [†] hy / ynny
71 [††] dorsta6
72 [†] di / yn
72 [††] ia6a6nn
90 [†] a da6ho

atgynneu y tan, a llosci yr odyn, 6ynt ell deu a'e talant yn deu han*n*er y'r perchena6c. [91]Os y kyntaf a dyffyd y tan oll, neu a gymer ffyd y gann arall a[r] diffodi y tan kynn y ada6, ny thal y kyntaf dim or llosc yr odyn.

[NAW AFFAITH LLEDRAD]

[92]O na6 affeith lletrat. [93]Kyn*n*taf y6 amkany da a dyccer yn*n* lledrat 6rth y gytymeith. [94]Eil y6 duunnia6 am y lledrat. [95]Trydyd y6 [rodi] b6yll6r6 y'r lleidir y ledrata. [96]Pet6eryd y6 mynet yg kytymeithas y lleidyr y letrata. [97]Pymet y6 mynet y'r tref gyt a'r lleidir a torho y ty neu y byarth. [98]Whechet y6 erbyn*n*ya6 y lledrat. [99]Seithu[e]t y6 kerdet dyd neu nos gyt a'r lledrat. [100]Wythuet y6 kelu y lledrat ar y lleidir. [101]Na6uet y6 kymryt ran*n* o'r lledrat. [102]Y neb a 6atto vn o'r na6 affeith hynn, rodet l6 deg 6yr a deu vgeint.

[103]Holl affeitheu g6eithret, o affeitheu galanas a llosc a lledrat, dir6ys vydir am bop vn ohonint. [104]Tafa6trydyaeth a llygatrydyaeth heb 6eithret lla6 neu troet, kamlyrys vyd y neb a'e g6nel.

[105]Tal dros affeitheu galanas adefedic, y ryeni a chytetifedion y lladedic y telir o g*yfreith*, or k6ynant ymdana6. [106]Ac vdynt 6y ac y'r genedyl heuyd y dylyr talu reith y 6ady [9] llofrudyaeth os gofyn*n*ant, neu talu galanas vdint.

[107]G6erth lleidir a 6erther, seith punt.

[108]Or da6 lleidyr at offeirat y adef ac y en6i y getymdeith[on] am ledrat, a thygy hynny ar porth y vun6ent, ac ar dr6s yr egl6ys, ac ar dr6s y kor, heb erchi eu kelu, beth bynnac a darffo ymdanunt g6edy hynny, kredad6y vyd yr offeirat am yr hyn a dy6ad y lleidyr 6rtha6. [109]Kyffelyb vod a hyn*n*y vyd am dyn a vynaco lleidir a lledrat a dycco, or t6g ef y vanac val hyn*n*y yg g6yd yr offeirat.

[110]Or dy6edyr ar dyn anreitha6 dyn arall, os g6atta rodet l6 deg6yr [a] deu vgeint.

[111]Manag6r diofreda6c, or da6 gyt a'r kolledic at yr offeirat y dr6s yr egl6ys, archet yr offeirat yda6 er Dy6 na dy6eto gel6yd 6rtha6. [112]Ac os t6g yno na dy6et kel6yd, tyget y kyffelyp ar dr6s y gagell, a'r tryded 6eith y6ch ben*n* yr alla6r. [113]Ac os g6ata y dyn kelus g6edy hyn*n*y, katarnhaet yr offeirat ar y eir teir g6eith; ac os y dyn a'e g6atta g6edy hyny, tyget yr offeirat vn 6eith 6elet y manag6r a'e glybot yn katarnhau y vanac tr6y t6g yn*n* y mod y g6n*n*aeth. [114]Ac odyna ny ellir g6at yn y erbyn. [115]A h6n*n*6 y6 dogyn vanac.

[116]E neb a 6nel kyn*n*ll6yn, yn*n* deudyb[l]yc y tal galanas y dyn a lado, a deudeg mu dir6y y'r brenhin.

[Y NAW NYN CREDADWY]

[117]Na6 nyn yssyd a gredir y tystoliaeth, pob vn [yn] y d6yn ar 6ahan gan*n* dygu. [118]Kyn*n*taf y6 argl6yd r6g y deu 6r, tr6y na bo ef kyfran*n*a6c [9[v]] ar y dadyl neu ar yr hyn y bo y dadyl amdanna6[†]. [119]Ac [or] adef o'r g6yr ry vod y gynen rygtynt ynn y 6yd kyn no hynny ac na boynt vn dyll, ac or g6atta vn yn erbyn y llall, dir y6 ida6 dygu yg6yd yr argl6yd. [120]Yspeit na6 nieu a geiff argl6yd am y l6 y vedylieid y mod y tygo. [121]Oet yssyd y effeirat am y l6 hyt yr amser y gallo gany efferen gyntaf.

[122]Eil y6 abad r6g deu van*n*ach.

118 [†] amd / danna6

[123]Trydyd y6 tad r6g y deu vab, gann dodi y lla6 deheu ar benn y mab y tygo ynn y erbyn a thygu val hyn: ‘Mynn Du6 a’m cre6ys o dad, a thitheu ohonnof ineu, g6ir y6 a d6edaf i rot ti a’th vra6d.’

[124]Ped6ryd y6 bra6d6r am y varn a rodassei ef gynt.

[125]Pymed y6 mach am vechni gyfadef pan*n* 6atto rann ac adef rann arall.

[126]Whechet y6 effeirat r6g deu dyn o’e bl6yf.

[127]Seithuet y6 mor6yn am y mor6ynda6d. [128]Os y g6r y roder ida6 a’e hameu er g6aethy y breu*n*t, kredad6y vyd y vor6yn hyt y† deudeg ml6yd; o hynn allan, y ll6 ar y phymet o’r dynion nessaf idi.

[129]Whythuet y6 bygeil trefgort am y ll6dyn a lado ysgrybl y dref ynn y 6yd.

[130]Na6uet y6 lleidir 6rth groc; kredad6y vyd ar y gidleidir. [131][Y] gidleidir agen ny byd krogad6y er geir y llall, na*m*yn [10] lleidyr g6erth. [132]Lleidir am letrat kyss6yn, or palla reith g6lat yda6, dir6ys vyd o g*yfreith*. [133]Kredad6y vyd amod6r yn*n* y amod r6g deu dyn a’e hadefo; ac velly roda6dyr da am yr hyn a rodo. [134]Ac 6rth hyn*n*y y d6edir, ‘Nyt oes rod onit o vod’. [135]A roda6dyr g6reic a tygho yn*n* y mod y roder y 6reic. De6i Brefi yn*n* kanhorth6y!

[DYLEDION]

[136]Tala6dyr ar ny thalo k6byl o’e dylyet, ef a dyly talu. [137]Or byd r6g ha6l6r a thala6dyr dyd gossodedic y talu†, ef a dylyr arhos yr oet. [138]Y neb a ofyn*n*o dylyet kynn yr oet tr6y g6yn*n*, kyhyt a hyn*n*y y dyly bod hebda6 g6edy yr oet. [139]P6y bynnac a gymero gafel dros dylyet heb gennat argl6yd, kamlyrys vyd.

[MACH]

[140]O deir fford y byd ryd mach am dylyet kyfadef. [141]Vn y6 o rodi oet heb gen*n*at y mach dros yr oet kynntaf. [142]Eil y6 talu y dylyet. [143]Trydyd y6 o d6yn*n* gafel am dylyet heb gen*n*hat y mach. [144]Oet mach y 6ybot ae mach ae nyt mach, tri dieu.

[145]Reit y6 dyfot y teir lla6 ygyt 6rth rodi mach: lla6 y mach, a lla6 y neb a’e rodo, a lla6 y neb a’e kymero; ac ymfydya6 o la6 y la6. [146]Or bud eisseu vn lla6 o hyn*n*y yn*n* ymfydya[6], bal6c vechni y6 honno eythyr y lle yd el† dyn yn vach kyn*n*ogyn*n* [dros]da6†† euhyn neu dros arall. [147]Anssa6d bala6g uechni y6 bot† y neill penn ida6 yn*n* r6ym a’r llall yn ryd. [148]Ac 6rth hynny or kymer ha6l6r ffyd y tala6dyr ar daly y dylyet, a ffyd y mach ar gymell y tala6dyr [10v] y talu y dylyet, bop vn ohonunt a dyly g6rtheb o’r dylyet y’r ha6l6r. [149]Ony chymer onyt ffyd vn ohonunt, ny dyly onyt vn atteb yda6. [150]Heuyt or dyry mach ffyd y’r ha6l6r ar gymell ida6 y da, ef a dyly atteb ida6 o’r dylyet oll, kany chymer ffyd y tala6dyr.

[151]G6edy del oet y dyd y talu, y mach a dyly oet dyd y gyfarch y tala6dyr. [152]Oet mach y baratoi tal or byd reit ida6 talu, vn dyd ac 6ythnos. [153]O teir fford y oedir mach a chynogyn: o glybot corn*n* y brenhin yn myned y lud, ac o ha6l dreis, ac o ha6l ledrat.

128 † yt
137 † tulu
146 † y del
146 †† kyn*n*ogyn*n* da6 *gyda saeth a* dros *ar ymyl y ddalen mewn llaw ddiweddarach*.
147 † Anssa6d [ ]ala6g [ ]echni *ar ymyl y ddalen*.

[154]Mach a dyly d6yn gafel gyt a'r ha6l6r hyt yn diogel, neu talet y dylyet. [155]Na chymeret neb gafel y tala6dyr onyt y mach a'e dyry. [156]Kyn*n* el mach ar talu, na thalet hyny pallo y tala6dyr. [157]Ac ny byd palledic ynteu tra safho ef 6rth g*yfreith*. [158]Kany bo ida6 namyn tri thudedyn, ef a dyly talu y deu a chyn*n*al y trydyd pob amser.

[159]Mach a 6atto y vechni, g6aded ar y seithuet o'r dynyon nesseaf y 6erth. [160]Ac os bridy6 a 6atta, ehunan a d6g vch benn y seith alla6r kyssegyr, neu seith 6eith ar yr vn alla6r. [161]Os y mach a 6atta ran*n* o'e vechni ac adef rann arall, ef euhunan a'e t6g vn 6eith. [162]Os y tala6dyr a 6atta y mach, g6aded ar y seithuet o'r dynyon nessaf y 6erth.

[163]P6y bynnac a brynho da y gan*n* arall ac a vo mach [11] ehunan ar y g6erth, a'e var6 kyn*n* talu y dylyet a gada6 y da gann gytymdeython, yr ha6l6r a dyly y da o'r da hynny, kanys y mar6 a uu vach kyn*n*ogyn ida6 bieiuyd y da hynny. [164]Ef a dyly hagen tygy ar y seithuet o'r dynyon nessaf ida6 ar ved y tala6dyr, or keiff y bed, ac onys keiff ar yr alla6r gyssegyr, g6erthy ohona6 y da yda6 a bot h6n*n*6 yn vach kyn*n*ogyn ida6 ef ar 6erth y da.

[165]P6y byn*n*ac a vo mach gorfoda6c dros arall, ny rydheir hyt ymhenn vn dyd a bl6ydyn, ac ny ff[o]enir o vy6n hynny o ysbeid dros y kam a 6nel, kynys r6ymedic y6 y mach y my6n yr acha6s hyny 6yper a del y kelys 6rth g*yfreith* ae ny del kynn y teruyn.

[166]P6y byn*n*ac a gymero mach ar dylyet a mar6 y mach kyn*n* talu y dylyet, doet yr ha6l6r ar y seithuet o'r dynyon nessaf y 6erth ar ved y mach a thyge*n*t ry fot h6nn6 yn vach ida6 ar y dylyet, o cheiff y bed; ac onys keiff ar yr alla6r gyssegyr. [167]Ac odyna yr argl6yd a dyly kymell y vechni dros y mar6. [168]Os y kyn*n*ogyn a vyd mar6 a'r mach yn vy6, y mach a dyly d6y*n* y vechni yn gyffelyp† y hynny gan*n* tygy ehynan ar ved y kynogyn; ac yna y teir ach nessaf ida6 a talant y dylyet.

[169]Kyt dycco mach y vechniaeth yn erbynn ll6 argl6yd, ny chyll er hynny na dir6y na chaml6r6 o gyfrith.

[11^{v}] [170]Ny dyly neb rodi alltut yn vach, na neb a vo kadarnach noc ef, na mynach na bra6t heb genhat eu habat, nac yscolheic yscol heb genhat y athro, na g6reic onyt argl6yd[es] y tala6dyr vyd, na mab heb genhat y tat tra dylyho vot drosta6. [171]Kyt el y rei hyn*n*y yn veicheu†, ny dylyr kymell mechni neb ohanunt.

[172]Tri lle yd ymdiueicha mach† kyfadef am dylyet aghyfadef. [173]Vn y6 o 6ady o'r tala6dyr y mach. [174]Eil y6 o gaffael o vn o'r kynnygyn† tystolyaeth ar y llall tr6y ymhya6l ynn y llys. [175]Trydyd y6 o lussu o vn tyston y llall.

[176]Tri pheth ny henynt o vechni: agheu, a chlefyd, a charchar.

[177]Y neb a vo mach dros dyn, onys tal y tala6dyr yn yr oet dyd, oet pymthec ni6arna6t geiff y mach yna os ar da mar6a6l y byd y mach. [178]Ac ony thal y tala6dyr yna, oet deg ni6arna6t ar hygeint a geiff y mach yna; ac ony thal y tala6dyr yna, oet dec ni6arna6t a deu vgeint a geiff y mach yna; ac ony thal y tala6dyr yna talet y mach ehunan. [179]Os ar da by6a6l y byd y mach ac na thalho y tala6dyr yn oet y dyd, oet pymthec dy6arna6t a geiff y mach yna; ac ony thal y tala6dyr yna, oet deg ni6arna6t a geff y mach yn*n*a; ac oni thal y tala6dyr yn*n*a, oet pump di6arna6t a geiff y mach ynna; ac [12] ony thal y tala6dyr yn*n*a taled y mach

168 † gyffelylyp
171 † vn 6eitheu
172 † *Mae un goes yn ormod yn yr* m *(oherwydd hollt yn y memrwn?).*
174 † kynnogyn

ehunan. [180]A phan*n* gyfarffo y mach a'r tala6dyr, yspeilet ef ac a uo ymdana6 o dillat eithyr y pilin nessaf ida6; ac velly g6naet byth hyny gaffo tal k6byl y gan*n*ta6.

[181]Y neb a adefho dylyu da ida6, talet yn*n* diohir eithyr yn*n* y teir† g6yl arben*n*yc, y Nadolic, a'r Pasc, a'r Sulg6ynn, nit amgen: o nos Nadolic g6edy gosper hyt dy6 Kalan*n* g6edy offeren*n*; o nos Pasc g6edy dat6yrein hyt dy6 Pasc Bychan g6edy offeren*n*; o nos Sad6rn*n* Sulg6ynn g6edy y gosper hyt dy6 Sul y Drinda6t g6edy offeren*n*—kyn*n*y dyly neb gofyn*n* y gilyd yn*n* y die6ed hyn*n*y.

[182]Or kanhatta y kyn*n*ogyn*n* y'r mach rodi ky6erthyd pyn*n*t yg6ystyl keinha6c, a chyn*n* oet y g6ystyl y golli, ny dyly y kynnogyn*n* trachefen namyn dimei, kans hynny y6 trayan keinha6c k*yfreith*, a llygry ohona6 ynteu breint y 6ystyl. [183]Or dyry mach .ii. beth ma6r yg6ystul peth bychan*n*, yr ha6l6r a dyly y gymryt; a chyn*n* koller kyn*n* yr oet, ny dy6c yr ha6l6r y'r mach trachefen namyn y trayan*n*. [184]Y mach hagen a'e di6c y'r tala6dyr o g6byl, kans yn*n* aghyf*reith*a6l y duc. [185]Or dyry tala6dyr ky6erthyt punt yg6ystyl keinha6c a'e dyg6yda6, ny dy6gir drosta6 dim.

[186]Argl6yd a uyd mach ar bop da adefedic heb vach arna6.

[GWERTH AELODAU]

[12v] [187]Aelodeu vn werth y dyn ynt y rei hyn: d6y la6, deu troet, deu lygat, d6y 6euis, deu glyst, d6y ffroen yn*n* lle vn aela6t. [188]6he bu a 6he vgeint o ariant y6 g6erth pob vn ohonunt.

[189]Or trychir klist dyn y ymdeith oll a chlybot o'r dyn arna6 mal kynt, d6y uu a deu vgeint aryan a dal. [190]G6erth bys dyn, buch ac vgeint aryant. [191]Y ua6t, d6y uu a deu vgeint aryant a dal. [192]Keilleu, vn 6erth yn*n*t a'r aelodeu vry oll. [193]Taua6t ehunan, kymeint y6 y 6erth a g6erth y sa6l aela6t a ryf6yt hyt hyn. [194]Sef a dal holl aelodeu dyn pann gyfriuer y gyd, 6yth punt a phed6ar vgeint punt.

[195]Pedeir ar hygeint aryant y6 g6erth g6aet dyn. [196]Dec ar hugeint aryant uu 6erth g6aet Krist ac anheil6g oed vot g6aet Dy6 a g6aet dyn yn vn 6erth; ac 6rth hyn*n*y g6aet dyn yssyd lei y 6erth.

[197]G6erth racdant dyn, pedeir ar hugeint aryant gan dri drychafel. [198]Kildant, dec ar hugeint a tal. [199]Pan talher racdant, g6erth kreith ogyfarch a teilir ganta6. [200]Creith ar 6yneb dyn, 6heugeint a tal. [201]Creith ar la6, trugeint a tal. [202]Creith† ar y troet, dec ar hugeint a tal. [203]Sarhaet dyn pan ada6er kreith ogyfarch ar y troet, gan vn drychafel [y telir]; os ar y la6, gan deu drychafel y byd; [13] os ar y 6yneb, gan*n* tri drychafel y byd.

[204]Or tre6ir dyn ar y pen*n* hyt pan*n* 6eler yr emenhyd, neu or brethir yn y arch hyny 6eler yr amyscar, neu torri asc6rn y mord6yt neu asc6rn y vreich, dros bop vn o'r teir g6eli hynny teir punt a telir ida6, kans ym perigyl o'e eneit y byd o bop vn o hynny.

[205]Hyn*n* a telir y vrathedic y bo reit ida6 6eith medic git a'e sarhaet: pedeir keinha6c dros badell y 6neuthur medeginyaeth; a phedeir keinha6c dros 6er; keinha6c dros oleuat beunoeth; keinha6c dros u6yt y medic beunoeth; a cheinha6c dros u6yt y brathedic beunyd. [206]Pedeir keinha6c kota a telir dros pob asc6rn uch kreuan a tynher o ben*n* y dyn, o'r seinho y my6n ka6c efyd. [207]O bop asc6rn ys creuan, pedeir keinha6c k*yfreith* a telir.

181 † te / teir

202 † *Gadawyd gofod ar ddechrau'r llinell ar gyfer priflythyren liw (C), ac yn union oddi tano fwlch ar gyfer priflythyren liw arall (S), ar ddechrau § 203); rhoddodd y rhuddellwr* C *fawr dros ddwy linell, ac o'r herwydd gorfodwyd iddo roi'r* S *ar ymyl y ddalen.*

[208]Kyfreith a dy6eit bot yn*n* vn 6erth aelodeu pob dyn a'e gilyd; or torrir aela6t y brenhin y vot yn*n* vn 6erth ac aela6t y bilein. [209]Ac eisoes m6y y6 g6erth sarhaet brenhin neu vreyr no sarhaet bilein or trychyr y aela6t.

[SARHAED, GALANAS A GWERTH]

[210]Y neb a gnithyo dyn, talet y sarhaet yn*n* gyntaf, kans drychaf a gossot y6 sarhaet dyn, a cheinha6c yghyfeir pob bus a el yn*n* y pen*n*, a cheinha6c dros pob ble6yn bon6yn*n* a tynher o'e pen, a phedeir ar hugeint dros y g6allt taldr6ch. [211]Dyrna6t [13^{v}] a gaffer o anuod, nyt sarhaet; ia6n y6 ida6 namyn div6yn y g6aet a'r g6eli a'r greith ogyfarch or byd.

[212]De6isset pa6b y vreint, ae o vreint y penkenedl, ae o vreint y s6yd, ae o vreint ehynan.

[213]Galannas penkennedl a telir o tri na6 mu a thri na6 vgeint mu gan tri dyrchafel. [214]Y sarhaet a telir o tri na6 mu a thri na6 vgeint aryant. [215]Galan*n*as aela6t pen*n*kenedyl, nyt amgen y gar, a telir o 6he bu a 6he vgeint mu gan*n* tri drychafel. [216]Dros y sarhaet y keiff whe bu a 6he vgeint aryant.

[217]Sarhaet breyr diss6yd a telir o whe bu a 6he vgeint aryant. [218]Galanas breyr a telir o 6he bu a 6he vgeint mu gan*n* tri drychafel.

[219]Galanas bonhedic kanh6yna6l a telir o teir bu a thrygeint mu gan tri drychafel. [220]Dros y sarhaet y keiff teir bu a thri vgeint aryant. [221]Os g6r breyr vyd bonhedic kan*n*h6yna6l, pan lather yg gor6lat 6he bu a geiff y breyr y gan*n* y llofrud[†]. [222]Kymro vamtat vyd bo*n*hedic kanh6yna6l, heb gaeth a heb alltut a heb ledach yn*n*da6.

[223]G6erth bilein brenhin, teir bu a thri vgeint mu gan tri drychafel; a'e sarhaet a telir o teir bu a thri vgeint aryant. [224]G6erth bilein breyr, anhera6c vyd [14] ar 6erth bilein brenhin; ac velly y sarhaet.

[225]G6erth alltut brenhin, teir bu a thri vgeint mu heb drychafel. [226]Y sarhaet a telir o teir bu heb ach6anec. [227]G6erth alltut breyr, hanhera6c vyd ar alltut brenhin; a'e sarhaet velly. [228]G6erth alltut bilein, han*n*er g6erth alltut breyr; ac velly y sarhaet.

[229]Brenhin a geiff trayan pob galanas a gymhello, a hynny lle ny allo kenedyl gymhell. [230]A gaffer o da y llofryd o'r pryt y gylyd, y brenhin bieiuyd.

[231]Punt a hanher y6 g6erth kaeth tra mor. [232]Os o'r ynys hon yd henuyd, punt vyd y 6erth; ac velly or byd anafus neu ry hen neu ry ieuanc, nyt amgen llei noc vgeint ml6yd, punt vyd y 6erth. [233]A deudec kenioc ynn y sarhaet: 6hech dros deir llath o vrethyn g6yn y 6nneuthyr peis ida6, a their dros y la6dyr, keinha6c dros kuaraneu a dyrnuoleu, vn dros 6dyf neu dros vu6ell os koed6r vyd, vn dros raff deudec kyfelina6c.

[234]Teir g6eith y drycheif ar sarhaet g6r a ymreher y 6reic o dreis neu a dycker o y 6rtha6.

[235]Y neb a dy6etto ar arall sarhau y gorff heb ach6anec, os g6atta roded y l6 ehynan heb ach6anec. [236]Or en6a ynteu 6aet neu 6elet kleis arna6, rodet y l6 ar y trydyd, kans yn lle tyston y kynhelir y g6aet a'r kleis.

[14^{v}] [237]Y neb a 6atto ymlad lle ny lather neb, her6yd meint y sarhaet y dyry y reith. [238]Or g6neir anaf ar dyn tr6y ymlad, ll6 deg6yr a deu vgeint a rodir. [239]Or byd g6aet neu

221 [†] llofuud

gleis, nyt amgen: g6aet o ben*n* hyt g6ll, o l6 tri dyn y g6edir; o benn hyt 6regis, o l6 whech; o ben*n* hyt la6r, o l6 na6 nyn y g6edir; ac velly y g6edir cleis a triccyo tri na6uetdyd.

[240]Or tereu kaeth dyn ryd, trycher y lla6 deheu ida6 neu talet argl6yd y kaeth sarhaet y dyn ryd. [241]Ergyt kryman y6 na6d kaeth.

[242]Ny byd godor yn reith alltut lle ny pherthyno reith g6lad arna6, kyny thygho dynyon gyt ac ef, or dyry ehunan y l6 yg kyfeir pob dyn a tygei gyt ac ef bei kenetla6c.

[243]Sarhaet g6reic kaeth, deudec keinha6c. [244]Os g6enigia6l kaeth vyd, pedeir ar hugeint vyd tal y sarhaet; sef vyd g6eniga6l, g6reic 6rth y not6yd.

[245]Dir6y kaeth o'r lletrat kyntaf a 6nel, wheugeint; o'r eil, punt; o'r trydyd, vn gyf*reith* a g6r ryd her6yd dial.

[246]Py le byn*n*ac y gordy6edher kaeth yn*n* flema6r, pedeir ar hugeint a rodir drosta6 yg gobyr diffrit†, a pedeir keinha6c yghyfeir pob kym6t y kerd6ys drosta6. [247]Or a y vr[e]nhinyaeth† arall, pedeir ar hugeint yn*n* lla6 a geiff y neb a'e rydhao; ac o hyn*n*y [15] y trayan a gynheil ef ganta6, a'r deuparth a geiff perchena6c y tir.

[248]Y neb a veichocco g6reic kaeth dyn arall, paret ef 6reic arall yn*n* y lle hyt pan*n* agho y 6assanaethu, ac yna paret ef vagu yr etifed; ac or byd mar6 y gaeth y ar yr etifed, talet y neb a'e beichoges y g6erth k*yfreith* y hargl6yd. [249]Y neb a gyttyo a g6reic kaeth heb genhat y hargl6yd, talet deudec keinha6c y hargl6yd dros pob kyt.

[250]Pob ry6 dyn eithyr alltut a uyd drychafel ar y 6erth ac ar y sarhaet. [251]Y lle y talher yr vgeinheu o aryant ygyt a'r g6arthec, yn lle y drychyfaeleu y kynhelir.

[252]Pedeir bu a phet6ar vgeint aryant a telir dros sarhaet teulu6r brenhin os o hynny yd ymardel6. [253]Teir bu a telir yn sarhaet teuly6r breyr, nyt amgen try buhyn tal beinc.

[254]Vn 6erth vyd y neb a roder yg g6ystyl a'r neb y roder yg g6ystyl drosta6. De6i Br[e]fi!

[GWESTFA]

[255]Pvnt y6 g6erth g6estfa brenhin: whe vgeint dros y vara, a thrugeint dros y enllyn, a thrugeint dros y llyn*n*; a hynny ony thelir y b6yt yn y amser. [256]Messyr g6estua brenhin y6 p6nn march† o vla6t g6en*n*yth, a chyc vch, a seith drefa o geirch vn r6ym, a dogyn†† o vel yn*n* vn ger6yn— na6 dyrnued uyd vchet y ger6yn pan uessyrer ar 6yr o'r cleis dra6 y'r emyl yma—a phedeir ar hugeint aryan*n*t, onys rydha breint y tala6dyr. [257]G6erth y geyr6yneit ved a talher [15^{v}] y'r brenhin, wheugeint; a chymeint y dyly y ger6yn vod ac y gallho y brenhin a'e heneuyd yndy eneinha6. [258]A'r k6yr a renir yn deir ran: a'r trayan y'r neb a'e g6nel, a'r trayan y'r brenhin, a'r trayan y'r neb a'e rodo. [259]O tref maeroni neu gyghelloryaeth y telir med. [260]O tref ryd diss6yd, braga6t. [261]Ony cheffir med, d6y ger6yn vraga6t dros yr vn ved; ony cheffir braga6t, pedeir o g6r6f a telir. [262]Velly y byd dros 6estua gayaf. [263]Pedeir randir a vyd [yn] y tref y talher g6estua brenhin ohonei.

246 † diffric
247 † vrnhinyaeth *gydag* e *uwchysgrifol mewn llaw ddiweddarach*.
256 † merch
256 †† digon

[DADL TIR]

[264]Val hyn yt amlykeir datl tir. [265]Yr ha6l6r bieu dangos y ha6l, ac yna yr amdiffyn6r y amdiffyn; a her6yd hynny y dyly yr henyriet g6lat kytystyria6 y*n* graff p6y ohonynt yssyd yn*n* adef g6ir, p6y nyt ytti6. [266]A g6edy y darffo y'r hena6dyrieit racreitha6 eu syn6yr a chadarnhau eu dyll tr6y t6g, yn*n*a y dyly y bra6d[6]yr myned ar lleilltu a barny her6yd yr hena6dyrieit, a dangos y'r brenhin yr† hynn a varnont. [267]A hynny y6 dedryd g6lad g6edy g6rtheb. [268]Ac velly y tervynir dadyl tir.

[269]Pann dechreuer kynhen am tervynu tired neu drefud, os r6*n*g [16] tir egl6ys a thir y 6lad, egl6ys a dervyna; os r6g tir kytettifedion, breint a deruyna; os r6g tir kyfanhed a thir diffeith, kyn6archad6 a deruynac—adeil ac arad6y y6 kyfaned.

[270]Pann deruynho llys, maer a chyghylla6r bieu dagos drosti y theruyn*n*u; os egl6ys, bagl ac eve*n*gil. [271]Os r6g deu dyn vn vreint y byd amrysson am teruyn ac na 6ypper g6iryoned rydunt, tyget pob vn y teruyn ac odyna ran*n*ent eu hamrysson yn deu hanher. [272]Pann teruynho tref ar y llall, ny dyly d6yn rantir y 6rthi yn g6byl gyt a'r teruyn.

[273]Tri lle y ran k*yfreith* yn deu hanher, a'r vn racdy6ededic y6 y kyntaf. [274]Eil y[6] pan ranher eu da r6g g6r a g6reic o var6olaeth y neill ohonunt. [275]Trydyd y6 pan dyccer ll6dyn neu beth arall colledic 6rth aghyf*reith* y gyf*reith*.

[276]Deudec er6 g*yfreith* a thrychant a uyd ynn y rantir gyf*reith*a6l, megys y kaffo eu perchen*n*a6c o'r trychant er6 arad6y a phorua a chynnut†, a lle adeil o'r deudec er6. [277]Vn troetued ar bymthec a vyd yn hyt yr hirieu; ac vn ieu ar bymthec a vydant hyt yr er6, a d6y vyd y llet.

[278]Seith tref vyd ym maena6r vro; teir tref ar dec vyd ymaena6r 6rthtir.

[279]Hanher punt a da6 y'r brenhin pan teruyner tir r6g d6y tref, a phedeir [16^{v}] ar hugeint y'r bra6d[6]yr. [280]Hanher punt a da6 y'r brenhin o bop randir pann varner tir y dyn.

[DADANNUDD]

[281]P6y bynnac a ofynho dadanhud o'r tir a gynhaliassei y dat hyt var6 dr6y oressgyn o eredic, dadanhud† o g6byl a dyly y gaffel ony byd o gorff y tad etifed a vo teily*n*gach nog ef, neu vn vreint ag ef, yn kynnal y tir ynn y erbyn, neu yn kytovyn dadanhud ac ef ynn y llys. [282]Ac ynno y tyric yn orff6yssa6l heb 6rtheb y neb o'r tir hynny del amser medi ac ymchoylyt y gefen ar y das, ony da6 y bra6t hynhaf a'r teilygaf. [283]Or da6 a fo teilygach, ef a keif oll. [284]Os kyffelyb a da6, kyffelub rann a geiff eu.

[285]Os dadanhyd karr a vernir y dyn o'e dyfot a charr y'r tir, gorffo6ys yno a geiff na6 di6arna6t, ac ynn y na6fedyd y dyry atteb, ac yn yr eil na6vedyd, barn. [286]Os tr6y dadanhud gyt a beich kefen y doeth y'r tir a gynhaliassei y tad hyt var6, gorffo6ys tri dieu a geiff, ac ynn y trydedyd y dyry atteb y'r neb a'e holo, ac ynn y na6veddyd, barn.

[287]Py di6 bynnac y barner dadanhud, ny dycha6n neb y 6rthlad ohonna6 o g*yfreith* onyd ettifed proda6r ar y dadanhud vyd her6yd oet, nyd amgen yr hynhaf; kany dycha6n yr eil dadanhud g6rthlad y kyntaf, ac ny dycha6n amprioda6r g6rthl[ad]‡ amprioda6r arall. [17] [288]Ac or byd amrysson r6g deu ettifed prioda6r gydrycha6l, ny dycha6n vn g6rthlad y gilid o

266 † yr / yr
276 † ach / ymeint
281 † adadanhud
287 ‡ g6rthl[*ar ymyl y ddalen*.

g*yfreith*. [289]O'r deu ettifed g*yfreith*a6l, vn a fud prioda6r ar dadanhud k6byl a'r llall ny byd, kanyt prioda6r y neb onyt yr hynhaf o'r brodyr oll. [290]Breint oet y bra6d hynhaf a 6nna y brodyr ieuhaf yn ampriodorion ar dadanhud k6byl. [291]Or da6 y rei ieuhaf kynn no'r hynhaf y gaffel dadanhud, py bryt bynhac y del yr hynaf, ef a'e g6rthlad oll ac ynteu a geiff dadanhud o g6byl. [292]Os y gyt y gofynnant, [y] gyt y kaffant val y dy6esp6yt vry. [293]Y bra6t hynhaf hefyt yssyd vab kyssefina6l, a'r ieuhaf yssyd eila6l; ac 6rth hynny y d6edyr, 'Ny 6rthlad yr eil dadanhud y kyntaf.' [294]Yr holl vrodyr ieuhaf, amprodorion vnt ar gaffel dadanhud k6byl, kyt kaffo pob vn y ran; ac 6rth hynny y d6edir na 6rthlad ampria6dyr amhria6dyr arall.

[DYDDIAU HAWLIO]

[295]Deu dyd yssyd, nyt amgen na6uetdyd Racuyr a na6uetdyd Mei, y dechreuir gofyn etifedyaeth o tir tr6y ach yndynt; kans or dechr[e]uir gofyn tir odyeuthur y dydieu hynny, ny 6eryd. [296]P6y bynnac a dechreuo gofyn tir yn vn o'r dydueu hynny, darpar vyd ida6 gaffel barn kynn y llall. [297]Ac onys keiff hyt y dyd arall, reit vyd ida6 kyffroi y dadyl megis o ne6yd, a thy6yll vyd y dadyl hyt y trydyd na6[u]ettyd. [298]P6y bynhac a dechreuo gofyn ettifediaeth tr6y ach yn [17^{v}] na6uetdyd Racuyr neu yn na6uetdyd Mei, ynn y trydyd na6uetdyd y dyly kaffel atteb. [299]Ac os na6uetdyd Mei y dechreu holi, a'e ohir am varn hyt A6st, kaedic vyd k*yfreith* yn*n* y erbyn hyt na6uetdyd Racuyr. [300]Ac velly or dechreuir na6uetdyd Racuyr ac na chaffo barn o vy6n y gayaf, kayedic vyd y g6anh6yn yn*n* y erbyn.

[301]Nyt reit arhos na6uetdyd am teruynu tir, namyn pan vynho y brenhin a'e 6yrda, teruynad6y vyd. [302]Ac ny dylyr arhos na6uetdyd r6g dylyeda6c ac andylyeda6c a gynhalyo tir yn y erbyn, kyt dangosso dylyeda6c y dylyet o pleit ryeni tr6y ach ac etryt.

[303]Teir etifediaeth k*yfreitha6l* yssyd ac a trigyant yn*n* dylys y'r etifedyon. [304]Vn y6 etifedyaeth tr6y dylyet o pleit rieni. [305]Eil y6 etifedyaeth a gaffer tr6y amot k*yfreith*a6l y gan y perchen*n*a6c yr g6erth. [306]Trydyd y6 ettifediaeth a gaffer tr6y amod kyfreitha6l o vod y perchena6c a heb 6erth.

[307]Or g6nneir egl6ys o genhat y brenhin ar dir taya6ctref, a bod yn go[r]fflan hi ac offeriat yn effereny yndi, ryd vyd y dref hono o hyn*n*y allan. [308]Y neb a holo tir egl6sic, nyt reit ida6 aros na6uetyd amdanna6, namyn agored vyd g6ir ida6 pan*n*[†] y gofynno.

[309]Or kymer taya6c brenhin mab breyr ar vaeth gan genhat y brenhin, kyfrana6c vyd y mab h6nn6 ar dref tad y taya6c mal vn o'e veibon ehynan. De6i Breuy!

[RHANNU TREFTADAETH AC ETIFEDDU TIR]

[18] [310]Pann ran*n*ho brodyr tref eu tat yrydunt, y ieuhaf a geiff y tydyn a holl adeil y tat, ac 6yth er6, a'r u6yell gynnut, a'r k6lltyr, a'r galla6r, kany dycha6n tat eu rodi y neb namyn y'r mab ieuhaf; a chyn*n* g6ystler, ny dyg6ydant byth. [311]Odyna kymeret pob bra6t eissydyn ac 6yth er6; a'r mab ieuhaf a ran*n*, ac o hynhaf y hynhaf de6is hyt ar yr ieuhaf. [312]Teir g6eith y rennir yr vn tref tat r6g teir grad kenedl: yn gyntaf r6g brodyr; eil 6eith r6g kefyndyr6; tryded 6eith r6g kyferdyr6; odyna nyt oes pria6t ran*n* ar tir. [313]Ny dyly neb gofyn atran onyt y neb ny chafas de6is: odyna y diareb yssyd, 'Nyt oes 6arthal gan de6is'.

[314]Ny cheiff neb tir y gytettifed, megis y vra6t neu y gefynder6 neu y gyferder6, gan*n* y ofyn tr6y yr h6n kytettifed h6n*n*6 a vei var6 heb etifed o'e gorff, namyn gan y ofyn tr6y vn

308 [†] p / pan*n*

o'e ryeni a vei perchenna6c ar y tir h6n*n*6 hyt var6, ae tat, ae hentat, ae gorhentat. [315]A'r tir h6nn6 a geiff ef os nessaf kar y'r mar6 vyd. [316]G6edy ranho brodyr tref eu tat yrydunt, or byd mar6 vn ohonunt heb ettifed o'e gorff, neu gitetifed hyt geifyn, y brenhin a vyd etifed o'r tir h6nn6.

[317]Megys y mae bra6t yn*n* etifed o tref y tat, velly y mae ch6aer yn ettifed dylyeda6c o'e g6ada6l, tr6y yr h6n y kaffo hi 6r pria6t dylyeda6c o tir, nyt amgen [18^{v}] gann y that neu y gan y etifedyon, or tric hi 6rth gyghor y rieni† a'e chitettifedion. [318]Ony byd y perchena6c tir ettifed arall euthyr merch, y verch a vyd ettifed o'r tir oll.

[319]Or byd y perchena6c tir ettifed dedua6l ac arall anedua6l, y dedua6l a vyd ettifed o g6byl† a'r anedua6l heb ran. [320]Or byd y perchena6c tir ettifed diannaf ac arall annafys, megis dall neu vydar neu grypul, y dian*n*af a vyd ettifed o'r tir oll, na dedua6l nac anedua6l vo, kanny dycha6n neb an*n*afus 6assannaethy tir y brenhin o dadleueu a llyudeu. [321]Ac or byd y'r anafus h6n*n*6 etifed dianaf, h6nn6 a vyd ettifed o'e dylyet ef o'r tir. [322]P6y bynnhac a gymero dylyet dyn anafus o tir, pryderu yr anafus a orvud arna6 o u6yt a dyllat tra vo by6.

[323]Os gomed dyn teir g6ys o bleit y brenhin am tir ac na del y atteb y'r neb a'e gofynho, yr ha6l6r a dodir ymediant o'r tir. [324]Ac os o acha6s k*yfreith*a6l na del ynteu, yr amdiffyn*n*6r a geiff g6erescyn trachefyn. [325]Os tremygu y 6ys gyn*n*taf a 6na, a dyfot y'r eil neu y'r tryded, y gnifer g6ys a tremyco, y gnifer kaml6r6 a gyll; ac eusoes ny dyg6yd o'e dadyl, namyn os k*yfreith* a'e barn, g6rthebet.

[326]Ny chyll neb y tir er dyg6yda6 yg6alla6geir hyny dyg6ydo teir g6eith.

[19] [327]Y neb a talho kyghossed o tir, ny thal ebedi6 pan*n* vo mar6; sef y6 kyghassed, gobyr estyn.

[328]Or byd tir heb rannu r6g g6elygord, kyn boynt meir6 oll eithyr vn, h6nn6 a geiff y tir kyffredin oll; ac ony dycha6n ef 6nneythur k6byl 6assannaeth dros y tir h6nn6, triged y tir yn lla6 y brenhin hynny allo y 6assannaethu.

[329]Or gofyn dyn tir o ach ac etryd, ny dylir y 6randa6 hynny tygho hena6duryeit g6lad y hanfod o'r 6elygord a gynhalyo y tir.

[330]P6y bynnac a gynhalyo tir andylyet ida6 yn vn gymh6t neu ynn vn gantref a rei a'e dylyo tr6y teir oes ryeni o pob parth yn tagnefedys, heb gyffroy ha6l ymdana6 yn llys, heb losci ty, heb tori aradyr o eisseu k*yfreith*, ny dyly 6rtheb udunt g6edy y teir oes, kan kay6ys k*yfreith* yrydunt ac ef.

[331]Y neb a odefo rodi y dylyet yn y 6yd y arall, heb lud a heb 6ahard yn y erbyn, kyt ass cofynho g6edy hynny ny 6rennde6ir yn y oes o gyfreith; y etifed hagen a'e keiff os gofyn y*n* gyf*reith*a6l.

[332]Ny chae k*yfreith* r6g y brenhin a'e tir dylyet yn llei yspeit no chant mlyned.

[333]G6edy y bo rann odefedic r6g [kyt]etifedion ar dir, nyd oes ia6n y vn ohon*n*ynt ar [19^{v}] rann y llall, ac etifed ida6, onyt o adran pan*n* del y hamsser. [334]P6y bynhac aghen ny bo ida6 etifed o'e gorff, y kytetifedion nessaf o ve6n y teir ach o'r kyff a vydant yn lle etifedion ida6.

[335]Ny dycha6n neb dilyssy tir o gyf*reith* yn erbyn y etifedion y arall onyt ar eu kytles, neu o dyndeb, neu o agen k*yfreith*a6l, na rodi ohonno dim ar yspeit heb terfyn gossodedic y

317 † reini
319 † g / g6byl

gallo y etifedion y dyll6g, os dros da y rodir rac agen ac na doter arna6 namyn deuparth y 6erth. [336]Onyt velly y byd, y etifed a'e keiff pan*n* y gofynho or dycha6n ef 6rtheb drosta6 yn g*yfreith*a6l.

[337]Y neb a gaffo tir dylyet tr6y dadleu yn y llus a thr6y† varn, ac na allei y gaffel heb hynny, ny dyly taly prit drosta6 ac ny dyly gell6g dim o da kyffro a ordi6edo ar y tir y'r kynhaliadr ar y tir.

[338]P6y bynhac a bress6ylio ar dir dyn arall heb y ganhad dros tri di6arnna6t, holl da kyffro h6nn6 perchena6c y tir bieifud yn dylis, os gordi6ed ar y tir.

[339]Tri ry6 prit yssyd ar tir. [340]Vn y6 gobyr g6archad6. [341]Eil y6 yr hynn a roder y ch6anecku tir neu vreint. [342]Trydyd y6 llafur k*yfreith*a6l a 6neler ar y tir y bo g6ell y tir o'e blegit.

[343]Or keis dyn rann o tir gann y gereint g6edy bo yn hir alltuded, roded ch6eugeint [20] vdunt yg gobyr g6archad6 or canhadant rann ida6 heb g6yn.

[344]P6y bynnhac a 6nel brat argl6yd neu gynll6yn, ef a gyll tref y tat; ac or keffir, krogad6y vyd. [345]Ony cheffir, a mynnu kymot ohona6 ac argl6yd ac a chenedyl, tal deudyblyc a da6 arna6 o dir6y a galanas; ac or kyrch lys y pab† a dyfot llythyr ganta6 a dangosso y rydhau o'r pab††, tref y tat a geiff. [346]Trydyd acha6s y kyll dyn tref y tat, o enkil ohona6 y 6rth tref y tat ac na allo godef y beich a'r g6assanaeth a vo arna6.

[347]Or dyry y brenhin tir y dyn tr6y g*yfreith*, ny dycha6n y etifed att6yn y tir rac h6nn6 o g*yfreith*.

[TRIOEDD YNGHYLCH TIR]

[348]O tri mod yd holir tir: o gam6eresscyn; ac o datanhud tr6y vedyant tat neu vam; ac o ach ac etryt. [349]Kyny thyccyo gofyn tir o'r mod kyntaf nac o'r eil, ny byd hoyrach no chynt y keffir o'r trydyd.

[350]Tri cham6erescyn yssyd: g6erescyn yn*n* erbyn y perchena6c o'e anuod a heb vra6t; neu 6erescyn tr6y y perchen*n*a6c ac yn erbyn y etifed o'e anuod a heb vra6t; neu 6erescyn tr6y 6ercheit6at ac yn*n* erbyn y ia6n dylyeda6c o'e anuod a heb vra6t. [351]Perchen*n*a6c y6 y neb a vo yn medu y dylyet dilis. [352]G6ercheit6at y6 y neb a gynhalyo neu a 6archat6o dylyet dyn arall.

[353]O tri mod y dosperthir dadyl datanhud r6g etifedyon, nyt amgen tr6y [20ᵛ] vreint anyana6l. [354]Kyntaf y6 breint oet r6g hynhaf a ieyhaf. [355]Eil y6 breint priodas r6g etifed k*yfreith*a6l ac vn aghyfreitha6l, kans y k*yfreith*a6l a'e keiff oll. [356]Trydyd y6 breint dylyet r6g dylyeda6c ac anlyeda6c. [357]Os tadeu y rei hynny hagen a gynhalyassant yr vn tir 6ers tra g6ers hyt agheu, os eu meibon a da6 y erchi datanhud, mab y dylyeda6c a geiff datanhud o g6byl py bret bynnhac y del. [358]Or doant etifedyon vn rad ygyt ac yn yr vn amser y ofyn datanhud, megis brodyr o tref eu tat, neu gefynder6 neu gyferdyr6 o tir eu tadeu, yr h6n a gynhelis eu tadeu yn diran 6ers tra g6ers hyt var6, ny dycha6n vn ohonunt g6rthlad y gilyd na'e oedi, namyn pob vn a geiff ran datanhud. [359]P6y bynhac a gymero tir y tat yn gynt no'r bra6t hynhaf, y bra6t hynhaf a'e g6rthlad o g6byl, ac ynteu a geiff datanhud o g6byl. [360]Ac

337 † ah / tr6y
345 † *Mewn llaw arall (?) dros air a ddilewyd.*
345 †† *Mewn llaw arall (?) dros air a ddilewyd.*

or byd mar6 y bra6t hynhaf yn y datanhud diran, y vab ef elch6yl a geiff datanhud k6byl yn erbyn pa6b.

[361]Tri ry6 vreint yssyd: breint anyana6l, a breint tir, a breint s6yd.

[362]Tri phriodolder yssyd y bob dyn: ry6, a breint, ac etifedyaeth; etifedyaeth hagen her6yd breint, breint her6yd ry6, ry6 her6yd y g6ahan a vyd r6g [21] dynnyon her6yd k*yfreith*, megys y g6ahan brenhin a breyr, breyr a bilein, g6r a g6reic, hynhaf a ieuhaf.

[TRESMASU etc.]

[363]Or ymlad g6r escob neu abat a g6r brenhin ar tir y brenhin, neu deu 6r yr escob, neu deu 6r yr abat, neu 6r yr escob a g6r yr abat, y'r brenhin y da6 eu dyr6yon.

[364]P6y bynnhac a artho tir dyn arall dros na6d y brenhin, pedeir ke*inha6c* k*yfreith* a tal y perchen y tir am agori dayar, a phedeir keinha6c k*yfreith* o diot yr heyrn o'r dayar, a cheinha6c o bob k6ys a ymchoeles yr aradyr; ac ony 6ybydyr y ryf y k6ysseu, troetued vyd llet pop k6ys; a'r brenhin a geiff yr ychen oll, a'r aradyr, a'r heyrn, a g6erth y troet deheu y'r amaeth, a g6erth y lla6 deheu y'r geil6at.

[365]Y neb a gudio peth y my6n tir dyn arall tr6y glad, perchenna6c y tir a geiff y gudua onyt eurgra6n vyd, kans brenhin bieu pop eurgra6n kudyedic; a ph[e]deir keinha6c k*yfreith* o agori dayar.

[366]Y neb a glado annel† y my6n tir dyn arall, perchenna6c y tir a geiff pedeir ke*inha6c* k*yfreith* y ganta6 o agori dayar, a'r b6ystuil a dalyer ynda6 hefyt.

[367]Y neb a glado p6ll odyn ar tir dyn arall heb y genhat, perchen y tir a geiff yr odyn, a phedeir ke*inha6c* k*yfreith* o agori dayar, a thri byhyn kaml6r6 y'r brenhin.

[368]Y neb a dotto r6yd y my6n afon ny pheiffo, trayan y pysca6t a geiff ef a'r deuparth y perchen y dyf6r.

[BRAINT O DU MAM etc.]

[369]Ny cheiff neb penkenedlaeth nac eissydyn arbenhic na s6yd o vreint tir o pleit mam, kyt canhater [21^{v}] ran o tir ida6, or byd neb o pleit tat a'e dylyo; teilygach eissoes y6 kaffel o dyn o pleit mam y rei hynny no'e kaffel o estra6n.

[370]Or ymr6ym g6reic 6rth 6r heb gyghor kenedyl, y plant a ennill o h6nn6 ny chaffant ran o tir y gan genedyl eu mam o gyfreith. [371]Or dyry ryeni neu genedyl wreic tla6t y alltut, y phlant o'r alltut a gaffant ran o tir y gan genedl eu mam; ac ny chaffant yr eissydyn arbenhic hyt y tryded ach. [372]Ac o'r ry6 gyni6edi honno y nescir g6arthec dyfach y eu talu dros alanas; or llad mab yr alltut o'r 6reic honno gelein, kenedyl y vam a tal yr alanas oll, kanyt oes genedyl y'r alltut y galler rannu galanas arna6 na dial.

[ANRHAITH]

[373]Or turr llog ar tir escob, deu hanher vyd yr en*n*ill r6g y brenhin a'r escob. [374]Os ar tir y brenhin y tyrr, y brenhin bieifyd oll. [375]Beth bynnhac a vyro morgymla6d† y'r tir, megis torri llog, y bre*n*hin bieiuyd.

366 † anni / feil
375 † mor / gynla6d

[FFINIAU]

[376]P6y bynnhac a torro not ar ffin r6g deu tir neu r6g d6y tref, talet gaml6r6 y'r brenhin a phedeir keinha6c k*yfreith* y'r perchen*n*a6c, a g6naet y not mal y bu. [377]Os afon vyd not r6g deu tir a dyg6yda6 der6en ar tra6s yr afon, perchen*n* y tir y tyfho y pren ohona6 bieiuyd y pren*n*. [378]Y neb a artho prifford neu ffos ar ffin, talet 6heugeint y'r brenhin.

[MOCH MEWN COED AC ŶD]

[379]G6ahardad6y vyd y coet am y ffr6ytheu o'r pymet dyd kyn G6yl Vyhagel hyt y pymthecuet dyd g6edy yr Yst6yll; ac o'r moch [22] a gaffer ynn y koet, llather y decuet ll6dyn hyt y na6, ac odyna llather pop vn pan gaffer hyt y di6ethaf. [380]O'r moch a lyccro yt aeduet, talet g6erth yr yt a lygr6yt drostunt. [381]Pan gaffer moch y my6n g6eirgla6d, neu y my6n yt kyn y vot yn aeduet, os ymchoelut y tir a 6nant, taler pedeir keinha6c kyfreith drostunt, nac vn a vo na llya6s yghyt, o acha6s agori y dayar. [382]Ac velly am pop tir a 6aharder, os agorant.

[AMSERAU PENODEDIG]

[383]R6g llys a llan, na6 nieu y rody atteb, a na6 y rodi mach, a na6 y rodi g6ir o'r ha6l deissyfedic. [384]Ha6l vn gantref, tri dieu y rodi atteb, a thri y rodi mach, a thri y rodi g6ir o'r ha6l deissyfedic. [385]Yn y cantref nessaf, pump nieu y rodi atteb, a phymp y rodi mach, a phump y rodi g6ir. [386]Yn y cantref trydyt, na6 nieu y rodi atteb, a na6 y rodi mach, a na6 y rodi g6ir.

[387]Oet ar6assaf yn vn gymh6t neu yn vn ganntref, tri dieu. [388]Os yn argl6ydiaeth arall yn agos, na6 nieu; ac ny dylyr dodi teruyn ar dy6 Sul nac ar dy6 Llun. [389]Oet ar6assaf yg6lat arall, neu am lan6 a threi, neu am d6fyr ma6r, pythe6nos ac nyt m6y.

[AMRYWION]

[390]Pet6ar aghyfarch g6r ynt: y varch, a'e arueu, a th6gc y tir, a'e 6yneb6erth.

[391]Nyt oes ymhop dadleu ony[t] pet6ar peth: g6ys, a ha6l, ac atteb, a barn.

[392]Penkenedyl a dyrry punt yn y vl6ydyn y'r argl6yd.

[393]Pop [22^{v}] g6r ryd, r6g G6yl yr Holl Seint a G6yl Marthin y tal y'r argl6yd yr hyn a dylyo y taly.

[394]Penkenedyl bieifyd rodi pop s6yd o'r a vo y'r genedyl, ac or dyry s6yd y vab neu y gar ida6, punt a dyry y'r argl6yd; ac o rydha vn ohonunt heb rodi ida6, 6heugeint a dyry h6nn6 y'r argl6yd.

[395]Yn y vl6ydyn, y neb a talho punt, y gymein a tal ygobyr y verch, a phan gymero tir, ac yn y ebedi6. [396]Ac y neb a rotho 6heugeint, velly hefyt 6heugeint a tal yn y racdy6ededigion ach6ysson.

[397]Pop er6 o tir kyllidus a tal kymeint a'e gilyd.

[DIRWY]

[398]Deudyblic vyd dir6y yn llys ac yn llan*n* os mam egl6ys ac vchella6c vyd. [399]mlad a 6neler ymyn6ent, pedeir punt ar dec a telir; os o vaes y'r vyn6ent yn y nodua, seith punt a telir. [400]Haner y da h6nn6 a da6 y'r abat os llythura6l ac egl6yssic vyd, a'r hanher arall a da6 y'r offeireit a'r kanon6yr a 6assanaethont Dy6 yno. [401]Y ry6 ran honno a vyd r6g yr abat a'r

kanon6yr os ymlad a 6nel y na6d6yr a gymeront na6d y gann yr abat a'r kanon6yr. [402]Ac velly y rennir a del y['r] sant o offr6m, ac nyt y'r alla6r nac y neb arall.

[403]O ymlad a 6neler yn llys lle y† bo eistedua brenhin, [23] distein a dycha6n bot yn ha6l6r os yr ymlad6yr ny ch6ynant, kans torri tagnef y llys y6.

[404]Ny discyn kaml6r6 o ymlad onyt tr6y tystoliaeth ny aller eu llyssu ac a tyster tr6y ymhya6l yn llys.

[405]O ymlad a 6neler yn nodua, g6aet ne gleis a seif yn tystoliaeth y'r abat a'r offeireit tr6y vreint egl6yssic yr abadaeth†. [406]Or byd ymlad yn*n* llys penydya6l y brenhin, dir6y pop vn o'r ymlad6yr heb 6adu o vn yn erbyn y llall, nac yn erbyn y distein, 6he phunt vyd.

[407]Or palla y reith y'r neb a 6atto ymlad, dir6ys vyd megys na 6attei dim.

[408]Os oe vaes y'r llys y byd yr ymlad, teir punt vyd.

[ADNAU]

[409]Os keit6at a gyll adneu heb golli y da ehunan, ef a tal y kollet oll o gyf*reith*. [410]Llyfyr Kyna6c a dy6eit bot yn ha6s y gredu or dygir y da ef yn lletrat gyt a'r da arall, a g6elet y torr ar y ty. [411]Ef a dyly hagen tygu, a dynyon y ty ganta6, y vot ef ynn iach o'r da h6nn6. [412]Or kledir y dayar hagen dan y ty g6edy y g6nel ef y gyf*reith* y vot yn iach, brenhin bieu dayar ac ny dyly keit6at vot trosti.

[413]Or d6c dyn da ar geit6at y gad6, a cholli peth o'r da, a bot ymdayru r6g y perchena6c a'r keit6at am y da, y keit6at bieu tugu, [23v] a'r vn dyn nessaf ida6 gyt ac ef, os peth a 6atta a pheth a adef.

[414]Or g6atta neb adneu a rotho dyn yn y la6 y gad6, neu torr ty, rodet reith deudublic megis y mae am veich kefyn o adneu, ll6 deg6yr; am p6nn march, ll6 pet6ar g6yr ar hugeint.

[TAEOGION (AC ERAILL)]

[415]Y tayogeu a dyluant ia6nhau y kameu a 6nel eu meibon hyny v6ynt pedeir bl6yd ar dec; ac yna eu tadeu a dylyant eu gorchymyn y'r brenhin.

[416]Oyth pynuarch brenhin ynt: mor, a diffeith brenhin, ac achena6c diatlam yn cerdet tir y brenhin, a lleitir, a mar6ty dyn a vo mar6 o agheu deissyfyt—brenhin bieu ran y mar6 oll o'r da, ac ny cheiff dim o ran y 6reic a'r meibon—ebedi6, dir6y a chaml6r6. [417]Vn dyn ny dyly y ty y vot yn var6ty kyt boet mar6 ef heb gymyn: ygnat llys.

[418]Bra6d6r a dyly g6randa6 yn ll6yr, kad6 yn gofa6dyr, dyscu yn graff, datgan yn 6ar, b[a]rnu yn trygara6c.

[419]Vn 6eith pop bl6ydyn y keiff y brenhin luyd y or6lat gyt ac ef; byth hagen pan vo reit y lluydir gyt ac ef yn y 6lat ehun. [420]Gan y tayogeu y keiff y brenhin pynueirch yn y lud, ac o pop taya6ctref y keiff g6r a march a b6ell [24] y 6nneuthur y gestull, a hynny ar treul y brenhin.

[421]Na6 tei a dyly y bilein[ei]t eu hadeiliat y'r brenhin: neuad, ystafell, kegin, kapel, ysguba6r, odyndy, ystabyl, kynhordy, peirant.

403 † lle ny
405 † a / badaeth *gyda* a (?) *uwchysgrifol.*

[422]Kylch† a geiff meirch y brenhin a'r vrenhines a'r s6ydogyon y gayaf ar tayogeu y brenhin. [423]Kerdoryon g6lat arall a gaffant gylch ar y bileineit tra u6ynt yn arhos eu rodion y gan y brenhin, or dyry.

[424]Beth bynhac a dangosso y dofreth6yr y'r taeogeu y delhont y eu tei, 6ynt a'e talant or kollir, eithur kledyfeu a chyllyll a llodreu. [425]Eu meirch 6ynteu hefyt, or kollir y nos, 6ynt a'e talant.

[426]Y neb a dy6etto geir gar6 neu eir hagyr 6rth y brenhin, talet gaml6r6 deudyblic ida6.

[GWADU EIDDO]

[427]Pvmp dyn nessaf y 6erth a 6atta beich kefyn, ony holir yn lletrat. [428]Deudeg 6yr a 6atta g6erth trugeint, ony holir yn lletrat. [429]Pet6ar g6yr ar hugeint a 6atta g6erth 6heugeint. [430]Wyth 6yr a deugeint a 6atta punt neu 6erth punt, ony holir yn lletrat. [431]Seith nyn a 6atta m6y no beich kefyn. [432]Tri dyn a 6atta llei no beich kefyn. [433]Deudeg 6yr a 6atta p6nn march. [434]Ac velly y g6edir pop da ony holir yn letrat. De6i Brefi!

[TYSTION]

[24^{v}] [435]P6y bynhac a g6ynho yn sefydla6c rac dyn o datyl ger bron bra6t6yr, yn y lle y kymhellir yr amdiffynn6r y atteb, kanyt oes oet ida6 yn y gyf*reith* hon. [436]Pan dangosso k6yn6r y ha6l, onyt atteb yr amdiffyn6r yn diohir, y k6yn6r a dyly gal6 y tyston a thysty na 6ad6ys y llall dim. [437]Odyna aent y bra6t6yr ar neillty am y datyl honno, ac anuonent deu 6r at y c6yn6r y ofyn ida6 p6y'r tyston a en6is a phy beth a tyst6ys vdunt. [438]Pan darffo hynny, gofynent y'r tyston ae 6ynt† a en6is y k6yn6r yn tyston a pheth a tyst6ys vdunt, heb amgen pra6f arnunt, kanys nyt oes aruer o pra6f yn y kyfreitheu hynny. [439]Os y tyston a geffir yn vn a'r c6yn6r yn y tystoliaeth, tystet y c6yn6r eil6eith y ereill hynny. [440]Os te6i a 6na yr amdiffyn6r, y tyston kyntaf a dylyant tystu nat aeth yr amdiffyn6r yn y herbyn. [441]Os eu llussu a 6na ynteu, tystent 6yn*n*teu eu llyssu yn anamser. [442]Ac velly o'r deu p6nck, tr6y tyston profad6y yr eir yn y erbyn ef.

[443]Os yr amdiffyn6r a gerda mod a vo g6ell, dy6etet 6rth y tyston, 'Kyt dycco[ch] a6ch tystoliaeth ar a6ch geir, nys keter[n]ha6ch ar a6ch ll6.' [444]Eilch6yl y bernir y'r tyston ar eu ll6 katarnhay eu tystoliaeth megis y tyst6yt vdunt. [445]Os tygant ac na lysser 6ynt, yr ha6l6r a oruyd. [446]Or pallant 6ynteu, yr amdiffyn6r a oruyd. [25] [447]Hyspys y6 y mae g6edy y ll6 y dyly yr amdiffyn6r llyssu y tyston. [448]Os kynt y llussa, y datyl a gyll.

[449]O tri acha6s y llyssir tyston: o alanas heb ymdif6yn; ac o vot datyl am tir yrydynt heb y theruyny; ac o gamarueru o vn o 6reic y llall. [450]Os eu llyssu a ellir, palledic vydant. [451]Ony ellir, tyston diball vydant.

[452]Tyston a ellir eu g6[r]thneu pan dechreyhont eu tystoliaeth, oc eu sefyll, megis na bo reit eu llussu; ac velly g6ybydyeit; nyt amgen no thr6y 6erth a gobyr, neu oc eu bot yn gyfrana6c ar yr hyn y bo y datyl ymdana6, neu o torri y ffyd yn gyfadef, neu o anydon kyhoeda6c, neu o letrat kyfadef, neu o ysgymynda6t ger eu en6. [453]Or gellir profi hynny tr6y 6lat, eu g6rthneu a ffynha.

422 † *Gadawyd gofod ar gyfer priflythyren liw (K), ond nis llanwyd.*
438 † 6y / ynt

[454]Yg kyf*reith* Ryfein y keffir, lle nyt en6her rif tyston bot yn diga6n deu tyst. [455]Y gyf*reith*† hon a dy6eit nat c6byl tystoliaet vn tyst onyt vn o'r na6 vyd.

[MEIRI A CHYNGELLORION]

[456]Pvnt a haner a da6 y'r brenhin vn 6eith pan rotho mayroniaeth neu gyghelloriaeth y 6r a'e dylyo. [457]Ny cheiff y maer na'r kyghella6r na chylch na dofreth ar 6r ryd. [458]Maer a ran y teulu pan elhont ar dofreth. [459]Maer a geid6 y'r brenhin pop peth o'r a del ida6 o gyf*reith* o'e vaeronyaeth. [460]Maer a chyghella6r a gaffant trayan gobreu merche[t] bileineit [25^{v}] y brenhin, a thrayan eu kamlyryeu 6ynteu, a thrayan eu hebedi6e, a thrayan yr yt a'r b6yt o pop mar6ty taya6c. [461]Maer a ran pop peth a righyll a de6ys y'r brenhin.

[462]Or dam6einha y'r maer na allo dala ty, kymeret ef y taya6c a de6ysso yn y vaeronyaeth vl6ydyn o'r kalan Mei y gylyd, a m6ynhaet ef laeth y taea6c yr haf, a'e yt y kynhaeaf, a'e voch y gaeaf; a pan el y taea6c y 6rtha6, gadet ida6 pedeir huch ma6r a baed, a'e yscrybyl ereill oll, ac 6yth er6 g6anh6ynar, a phedeir er6 gayafar. [463]A'r eil ul6ydyn a'r tryded g6naet velly o taeogeu ereill. [464]Odyna ymborthet teir blyned ereill ar yr eida6 ehunan; ac odyna g6aretet y brenhin arna6 o rodi taeogeu ida6 yn y mod gynt.

[465]Ny cheiff maer na chyghella6r ran o t6nc nac o prit y tir y gan y brenhin. [466]6ynt a dylyant cad6 diffeith brenhin hyny 6nel ef y vot ohona6; 6ynteu a gaffant y mel a'r pysca6t a'r b6ystuileit g6yllt bychein. [467]O enill y brenhin oll y gan y tayogeu, y trayan a gaffant 6y; o'r g6yr rydyon ny chaffant dim.

[468]Ny byd penkenedyl neb tra uo maer, ac ny cheiff eistedua yn neuad y brenhin yg kyfed6ch.

[469]Kylch a geiff y maer ar vileineit y brenhin d6y 6eith yn y ul6ydyn ar y pet6eryd. [470]Yn anreith yd a ar y pet6eryd gyt a'r teulu. [471]Pan gollo dyn y anreith [26] o gyf*reith*, y maer a'r kyghella6r a gaffant yr aneired a'r endriged a'r dine6yt, a'r maer a geiff o rei hynny ran deu 6r.

[472]Teir punt y6 y cho6yll y verch; seith punt y heg6edi. [473]Galanas maer neu gyghella6r y6 na6 mu a na6 vgeint mu gan tri drychafel. [474]Sarhaet pop vn ohonunt y6 na6 mu a na6 vgeint aryant. [475]Punt y6 ebedi6 pop vn ohonunt.

[EBEDIW]

[476]Ebedi6 breyr: wheygeint. [477]Ebedi6 bilein brenhin: dec a phet6ar vgeint. [478]Ebedi6 bilein breyr: trygeint, kany byd maer na chyghella6r a dylyo trayan y vileineit breyr. [479]Or byd egl6ys ar tir bilein brenhin, 6heugeint vyd y ebedi6. [480]Pedeir ar hugeint y6 ebedi6 g6r ystafella6c. [481]Deudec keinha6c y6 ebedi6 g6reic ystafella6c, ac y argl6yd y tir y bo yr ystafell arna6 y telir. [482]Eebedi6 bonhedic canh6yna6l: dec a phet6ar vgeint. [483]Ebedi6 alldit y rodo y brenhin tir ida6: trygeint, a ha*n*er hynny a tric y'r brenhin, kans megis tat ida6 y6, a'r haner arall y'r maer a'r kyghella6r yn deu hanher yrudunt. [484]Ac ony byd plant ida6, y da oll a tric y'r brenhin pan vo mar6, eithyr y dylyet. [485]Na6d6r brenhin, 6heugeint vyd y ebedi6; a h6nn6 a el6ir '[cletren] g6assaf6r'.

[486]Y neb a vo mar6 ar tir dyn arall, vn ar bymthec [26^{v}] a telir dros y var6 dy6archen. De6i Br*efi*!

455 † yghyf*reith*

[GWRAGEDD]

[487]Or kymer g6r 6reic o rod kenedyl, ac os gat kyn pen y seith mlyned, talet idi teir punt yn y heg6edi os merch breyr vyd, a punt a hanher yn y cho6yll, a ch6eugeint yn y hamobyr; os merch taya6c vyd, punt a hanher yn y heg6edi, a 6heugeint yn y cho6yll, a phedeir ar hugein yn y gobyr. [488]Os g6edy y seith mlyned y gat, bit ran*n* deu han*n*her yrydunt, onyt breint a dyry rag6r y'r g6r; deuparth y plant a da6 y'r g6r—yr hynhaf a'r ieuhaf—a'r trayan y'r vam. [489]Os agheu a'e g6ahan, bit ran deu hanher yrydunt o pop peth.

[490]Sarhaet g6reic 6rya6c, her6yd breint y g6r y telir idi, nyt amgen y g6r y rother ida6. [491]G6r a dycha6n yn ryd gady y 6reic or g6na hitheu yr g6r arall yn honheit, ac ny cheiff hi dim o'e ia6n eithyr y tri pheth ny dygir rac g6reic; a'r gorderch a tal y sarhaet y'r g6r k*yfreith*a6l.

[492]Or dy6eit g6reic eir ke6ilydys 6rth y g6r, talet ida6 teir bu kaml6r6, kans y hargl6yd y6, neu tra6et hi a g6ialen kyhyt a'e gypyt tri dyrna6t yn y lle y mynho eithyr y penn. [493]Or maed g6r y 6reic heb acha6s, talet idi y sarhaet her6yd y breint.

[494]Or edy g6reic 6ely y g6r heb acha6s, talet ida6 teir bu kaml6r6 [27] kyn*n* y chymryt ida6 tracheuyn.

[495]Or yscar g6r a'e 6reic kyf*reith*a6l, a hi yn veicha6c, o'r dyd yd yscaront y kyfrifir idi y hamser y vagy yr etifed a vo yndi† yna, kanys her6yd y g*yfreith* hon bl6ydyn a hanher y mac y vam ef, a g6edy hynny nis mac y vam ef dim.

[496]Os t6yllvor6yn a geffir heb 6at, y chrys a trychir ty rocdi a thra'e chefyn ac odyna y g6r a dyry enderic idi g6edy ira6 y laosc6rn, ac or dicha6n hi y attal ef her6yd y losc6rn, kymeret ef yn y heg6edi.

[497]Or lledyr g6r g6reiga6c, y sarhaet a telir yn gyntaf, ac odyna y 6erth; trayan y sarhaet a geiff y 6reic.

[498]Or a merch breyr gan 6r yn llathryt o'e bod, pan atter sef vyd y heg6edi: 6hech eidon kyhyt eu kyrn ac eu hyscyfarn. [499]Y verch taya6c o'r kyfry6 dadyl, tri eidon kyfoet a reini a telir idi.

[500]G6reic g6r ryd a dycha6n rodi y mantell, a'e chrys, a'e cho6rsi, a'e phenlliein, a'e hescityeu, a'e bla6t, a'e cha6s, a'e hemenyn, a'e llaeth heb ganhat y g6r, a benffygya6 holl dotren y thy a dycha6n. [501]Ny dyry g6reic taya6c heb ganhat y g6r onyt y phenguch, ac ny eill benffygya6 onyt y gogyr, a hynny hyt y cly6er y gal6 a'e throet ar y throthy6.

[502]G6reic a geiff y gan tat y mab yr y vagu kyhyt [27^{v}] ac y dy6esp6yd vry, peis a talho pedeir ke*inha6c*, a buch de6ysseit, a padell a talho keinha6c k*yfreith*, a charreit o'e yt goreu a tyfho ar tir y that; a hynny y6 kyf*reith* y tayogeu. [503]Mab bonhedic a dylir y vagu val hyn: mam y mab gyssefin† a'e hymd6c na6 mis yn y chroth, a thri mis g6edy ganher hi a'e mac, a hyn*n*y yn lle bl6ydyn idi; odyna y tat a dyly y vagu, a pheri y holl gyfreideu: yn gyntaf y dyry dafat a'e cnu a'e hoen, ac odyna g6eren neu geinha6c, a phadell hayarn neu pedeir keinha6c k*yfreith*, a myneit o 6enith y 6neuthyr i6t, a d6y gyfelin o vrethy[n] g6yn neu vrith ar y mab, a buch vlith a'e llo, a thri chareit o 6enith a cheirch a heid, a thri chareit o gynnut: os myn y vam, hi a'e keiff oll; onys myn, rodet y arall.

495 † yndi yndi
503 † g / gyssefin

[504]Or a mor6yn 6yra yn llathryt heb rod kenedyl, y that a dycha6n y hat6yn rac y g6r o'e hanuod, ac ny thal y that y gobyr y'r argl6yd, ac ny chyll hytheu dim o'e ia6n y gan y neb a'e duc. [505]Or a g6reic hagen yn llathryt o an*n*uod y chenydyl, ny eill neb y d6yn rac y g6r o'e anuod. [506]O'r lle y bo y hatlam y telir y gobyr.

[507]G6reic a dyccer lathryt ac ny 6nel amot yg g6yd tyston ar gaffel ia6n o g6byl, ny cheiff [28] her6yd g6yr G6yned onyt tri eidon; her6yd g6yr y Deuheu hi a gaffei gyn*n*t y heg6edi yn holla6l, megis g6reic a rodhei genedyl.

[508]Y neb a dycco mor6yn lathrut, a gofyn y'r g6r ohonei py veint a rodei ef idi, [a dy6edyd ohona6 ef], 'Mi a rodaf itt y veint hon', a chadarnhau hynny ar y gret ac uch creireu; ac os g6atta g6edy hyn*n*y, kymeret hi y creir a thyget ada6 ohona6 ef hynny; ac velly ny eill ef dim yn y herbyn, kans credad6y y6 y thystolyaeth hi yn y lle h6n*n*6.

[509]Y neb a dycco treis ar 6reic, y hamobyr a'e dir6y a tal y'r argl6yd; ac y'r 6reic y sarhaet, a'e heg6edi, a'e dilysr6yd. [510]Os g6adu a vynn y g6r, ac os katarnha y 6reic yn y erbyn, kymeret hi y gala ef yn y lla6 assaeu idi a thyget hi yr d6yn treis ohona6 ef erni hi; ac velly ny chyll hi dim o'e ia6n. [511]Y neb a 6atto treissa6 g6reic, rodet l6 deg 6yr a deugeint, neu dir6y treis. [512]Nyt oes yghyf*reith* Ho*6el* yspadu g6r yr treissa6 g6reic.

[513]O tri acha6s ny chyll g6reic y heg6edi kyt ada6ho y g6r: o glafyri, ac o eisseu kyt, a dryc anadyl.

[514]Teir g6eith y keiff g6reic y h6yneb6erth: kyntaf y keiff 6heugeint; yr eil 6eith punt; a'r tryded 6eith ada6et y g6r ac aet a'e holl dylyet gen*n*thi; ac os diodef dros[†] hynny [28[v]], ny cheiff dim yn y h6yneb6erth.

[515]Ony 6na mor6yn a vynho o'e cho6yll kyn y chyfot o'e g6elu y bore y 6rth y g6r, ygkyt y byd yrydynt o hynny allan.

[516]O rodir mo[r]6yn aeduet y 6r, ac or dy6eit ynteu nat oed vor6yn hi, tyget y vor6yn ar y phymhet o'r dyn*n*yon nessaf idi nat oed 6reic, nyt amgen hi, a'e that, a'e mam, a'e bra6t, a'e ch6aer, a'e dyfot hi yn vor6yn atta6 ef or oet aeduet hi o vroneu a chedor a dyfot oetran teithi g6reic idi. [517]Os te6i a 6na ef yn gyntaf a bot genthi yr eil6eith, a chyscy y gyt a hi hyt y bore, kyt as kaffei ef hi yn 6reic ny diga6n ef d6yn dim o ia6n mor6yn rocdi. [518]Os yn y lle mal y g6yppo ef hynny y kych6yn ef at y neitha6r6yr y dy6edyt hyn*n*y, ony 6atta hi yn erbyn hyn*n*y a thysty hynny y'r g6yr, ny cheiff dim o'e ia6n.

[519]Tri ll6 a dyry g6[r]eic y 6r: pan enllipier gyntaf, ll6 seith 6raged; ar yr eil enllip, ll6 pedeir g6raged ar dec; ar y trydyd enllip, ll6 deg 6raged a deugeint, or byd neb ry6 hyspyssr6yd ar yr enllip.

[520]Or byd rodyeit ar y 6reic y 6r, byt y g6r dan y g6ada6l hyt ymhen y seith mlyned; ac o cheiff hi teir nos o'r seithuet vl6ydyn, haner y da oll a geiff y 6reic pan yscaront. [29] [521]Ac val hyn y rennir y da: y'r g6r y moch, ac y'r 6reic y deueit. [522]Odyna y 6reic a ran a'r g6r a de6is, eithyr y dootrefyn a rennir val hyn: y llaethlestri oll y'r 6reic onyt vn payol y'r g6r, a'r dyscleu oll y'r 6reic onyt vn dyscil y'r g6r; y g6r a geiff y karr, ac vn o'r g6edeu, a holl lestri y llynn, a'r ker6yneu oll, ac a vo danunt o'r dillat g6ely; a'r 6reic bieu a vei arnu*n*t o'r dillat g[6]ely. [523]Or kymer y g6r 6reic arall yna ar hynt, ef a dyly anuon y dillat g6ely kyntaf y'r 6reic a 6rthotet. [524]Y g6r a geiff y tapin neu y bryccan, a'r gobenyd, a'r galla6r, a'r c6lltyr, a'r u6ell gynut, a'r taradyr, a'r ebill taradyr, a'r pentan hayarn, a'r gradell, a'r

514 [†] aros

crymaneu oll eithyr vn. [525]Y 6reic bieu y trybed, a'r vn cryman, a'r padell, a'r u6ell lydan, a'r s6ch, a'r gogyr, y llin a'r llinhat, a'r g6lan, a'r tlysseu eithyr eur ac aryant—y rei hynny a renneir yn deu hanner or bydant; ac velly y g6eeu llin a'r g6lan a rennir† yn deu hanner. [526]Y g6r a geiff yr yscyba6r a'r yt a vo yndi, [ac] yn y dayar ac ar y dayar, a'r ieir, a'r kath†; ac or byd†† ereill, y 6reic a'e keiff. [527]Y 6reic a geiff y kic yn heli a heb halen, a'r ka6s yn [heli a] heb halen. [528]Y g6r bieu y ka6s a'r kic drychafedic, a'r llestri emenyn [29v] b6lch, a'r bacyneu b6lch, a'r ka6s b6lch. [529]Y 6reic a geiff o'r bla6t kymeint ac a allo y d6yn 6rth pen y deulin r6g y d6yla6 o'r gell y'r ty. [530]Pop vn a geiff y 6iscoed ehunan, eithur y mentyll a rennir.

[531]Or gat† g6r y 6reic yn aghyf*reith*a6l a d6yn arall ata6, y 6reic 6rthot a dyly trigya6 yn y thy hyt ymhen y na6uet dyd. [532]Ac yna or gollygir hi ymdeith, pop peth o'r eidi a dyly mynet o'e blaen o'r ty, a hitheu yn ol y da aet o'r ty. [533]Ac odyna gan d6yn y llall, y g6r a dyly rodi dilysta6t y'r 6reic kyntaf, kany dyly vn g6r d6y 6raged o gyf*reith*.

[534]P6y bynnac a atto y 6ric ac a vo edifar ganta6, a hitheu 6edy y rodi y 6r arall, os gordi6ed y g6r kyntaf hi a'r neill troet yn y g6ely a'r llall y maes, y g6r kyntaf a'e keiff o g*yfreith*.

[535]Or g6ata g6reic y godineb, rodet l6 deg 6raged a deugeint; ac velly y g6r a'e g6atto, rodet l6 deg 6yr a deu vgeint. [536]Ac am y tri chadarn enllip y rodir y reitheu hyn.

[537]Or byd y 6reic acha6s [dybryt] a g6r arall, ae o gyssan, ae [o] ovyssya6, ae o ymreint, y g6r a dycha6n y g6rthot, a hi a dyly colli y holl dylyet o rodi cyssan heb vn o'r deu ereill.

[538]Or kyttya g6r a g6reic g6r arall, talet ida6 y sarhaet dan y hardrychafel vn 6eith, kanys o genedlaeth elynyaeth y6. [30] [539]Dros ouyssya6 y telir sarhaet heb drychafael. [540]Dros gussan, trayan y sarhaet a vyd eisseu idi, kany bu 6eithret c6byl yrydynt, nac o t6yllofeint idi, na phy 6ed bynac y roder y cussan.

[541]Y neb a gussanho g6reic g6r arall, talet pet6ared ran y sarhaet; ac velly o'r gofyssya6, onyt yg6are a el6ir g6are raffan, neu yg kyfedach, neu pan del dyn o pell. [542]Y neb a 6nel c6byl 6eithret, k6byl sarhaet a tal.

[543]Gron6y vab Moridic a dy6edei na dyly g6r yr bot gan 6reic g6r arall, a'r 6reic yn da genthi, talu dim ida6 tra ganmolo hi y g6eithret; [ac or byd honheit y g6eithret], y 6reic a dyly talu y sarhaet y'r g6r, neu y† g6r a'e g6rthoto yn ryd.

[544]Or d6c g6r 6reic yn llathrut a mynet a hi y ty vchel6r, kymeret yr vchel6r vach y gan y g6r ar holl ia6n y 6reic kyn eu kyscu ygyt.

[545]Diffeith brenhin y d6edir y6 mor6yn, ac 6rth hynny y dyly y brenhin y hamobyr. De6i Br*efi*!

[546]Gobyr merch brenhin, whe phunt y6; ac y'r vam y telir, kanys tir vyd y cho6yll—y meint a 6elo y g6r y vot yn ia6n. [547]Pedeir punt ar hugeint y6 y heg6edi. [548]Gobyr merch penkenedyl, punt y6. [549]Gobyr merch breyr, wheugeint. [550]Gobyr merch bilein, pedeir ar

525 † remir
526 † katheu
526 †† dyd
531 † g6at
543 † yr

hugeint. [30^{v}] [551]Gobyr merch bonhedic canh6yna6l, pedeir ar hugeint. [552]Gobyr alltudes, pedeir ar hugeint.

[553]Megis y dyly g6r rodi meicheu dros y heg6edi, velly y dyly ryeni y vor6yn rodi meicheu na 6nel hitheu go6c yn erbyn y g6r. De6i Br*efi*!

[SAITH ESGOPTY DYFED]

[554]Seith escobty yssyd yn Dyfet: vn y6 Myny6, yn eistedua arbenic yg Kymry; eil y6 Llan Ismael; trydyd y6 Llan Degeman; pet6eryd y6 Llan Vssyllt; pymhet y6 Llan Teila6; whechet y6 Llan Teulyda6c; seithuet, Llan Keneu. [555]Abadeu Teila6 a Theuluda6c ac Ismael a Degeman a dylyant vot yn llythyra6l vrdolion. [556]Ebedi6 pop vn o'r pet6ar hyn, deudec punt; ac y argl6yd Dyfet y telir, a'r neb a del yn eu lle a'e tal. [557]Myny6 a dyly y bot yn ryd o pop dylyet. [558]Llan Keneu a Llan Vssyllt a delyant eu bot yn ryd o ebedi6, kanyt oes tir vdunt. [559]Y neb a 6nel g6aet ar vn o abadeu yr eisteduaeu arbenic vry, talet ida6 seith punt a golchydes o'r genedyl, yr g6rad6yd y'r gennedyl ac yr cat6 cof am y dial.

[LLWGR ŶD]

[560]O'r pan doter yr yt yn y dayar hyny el yn y yscub, aryant tal a da6 drosta6; ac odyna yscub iach yn lle y glaf.

[561]O pop march a vo hual neu la6ethyr [31] arna6, keinha6c y dyd a d6y y nos. [562]Or byd disgyfrith hagen, d[i]mei y dyd a cheinha6c y nos. [563]Os disgyfreitha y deilyat y march oll pan daler ar yr yt, talet tri buhyn caml6r y'r brenhin. [564]Dodet hagen y d6y eg6yt am yr vn troet, ac velly ny chyll dim.

[565]O pop eidon buarth, d[i]mei y dyd a cheinha6c y nos.

[566]O'r kad6 kyfreith o'r moch, dalyet yr h6ch a vynho eithyr y tri ll6dyn arbenhic, a gadet yno o'r pryt y gilid; ac yna kyniget y'r perchena6c yg g6yd tyston, ac onys dill6g o'e chyf*reith* g6naet y deilyat y defnyd ohonei. [567]Meint y kad6 k*yfreith* o'r moch: deudec ll6dyn a baed.

[568]O'r kad6 k*yfreith* o'r defeit, dafat a geffir a ffyrllig o pop pum ll6dyn hyt y kad6 k*yfreith*. [569]Meint y kad6 k*yfreith* o'r deueit: dec llydyn ar hugeint a h6rd. [570]O pop oen, 6i iar a telir hyt y kad6 k*yfreith*, ac yna oen. [571]O'r geiffir a'r myneu, y gyfri6 dadyl.

[572]Y neb a gaffo g6ydeu yn y yt, toret ffon gyhyt ac o pen y elin hyt ym pen y bys bychan yn y reffet y mynho, a lladet y g6ydeu yn yr yt; ac a latho y maes o'r yt, talet. [573]G6ydeu a gaffer yn llycru yt tr6y ytlan neu tr6y yscuba6r, g6ascer g6ialen ar eu gydkeu a gatter yno hyny voynt veir6.

[574]Y neb a gaffo iar yn y ard lin neu yn y yscuba6r, [31^{v}] dalet hi hyny dillygho y perchena6c o 6y iar; neu or deilya y keilya6c, torret e6in ida6 a gellyget yn ryd, neu kymeret 6y o pop iar a vo yn y ty ymdana6.

[575]Y neb a gaffo lloi yn y yt, dalet 6ynt o'r pryt y gilyd heb laeth eu mameu, ac yna gellyget 6ynt yn ryd.

[576]Or llygrir yt neb dyn yn ymyl trefgort ac na chaffer daly vn ll6dyn arna6, kymeret y dyn greir a doet y'r tref, ac or tygant l6 diarnabot, talent y ryf ll6dyn yr yt; a'r g*yfreith* honno a el6ir 'telithor g6edy hala6c l6'.

[577]Or deila dyn yscrybyl aghenefin ar y yt neu ar y 6air, ac ymlad o'r yscrubyl yn y g6archeu a llad o l6dyn y llall, perchena6c yr yscrybyl bieu talu y ll6dyn a lader a'r deiliat a

vyd ryd. [578]Or deily dyn yscrybyl ar y yt a bot ymdaeru r6g y deiliat a'r perchena6c, y deiliat bieu tygy kaffel y blaenyeit a'r olyeit ar yr yt.

[579]Or llad yscrybyl trefgort l6dyn ac na 6ypper p6y a'e llada6d, doet perchena6c y ll6dyn a chreir ganta6 y'r tref a rodent l6 diarnabot, ac odyna talent y ll6dyn y rif eidion, ac or byd eidion voel, ran deu eidion a a arna6; a'r gyf*reith* hono a el6ir 'll6yr tal g6edy ll6yr d6g'. [580]Or byd adef ar neb eidion llad y llall, talet y perchena6c y 6erth.

[PETHAU UNWERTH]

[32] [581]Hyn o petheu yssyd a g6erth pop vn oh[o]nunt y[6] pedeir keinha6c kota: llo kynflith, a['e th]eth; pan ffr6yner y march gyntaf, pedeir keinha6c; ac ar eba6l ymdifat; pedeir keinha6c y g6astrodyon; ac ar afyr; ac asc6rn t6n vch kreuan; a heit ar gagen; a chosta6c tom; a i6rch.

[CYNNEN A RHAITH YN ERBYN LLEIDR]

[582]Ny dyly vot reith ar leitir a perthyno y 6erthu hyny vo manac arna6 yn gyntaf tr6y t6g yn tri lle, megis y mae yn lle arall. [583]Ny dyly vot reith ar leidir kyss6y*n* hyny vo manac arna6 yn y llys gyssefin.

[MEIRCH]

[584]G6erth eba6l o'r pan anher hyt A6st, pedeir keinha6c k*yfreith*. [585]Hyt galan Racuyr, deudec keinha6c. [586]Hyt galan 6hefra6r, deuna6. [587]Hyt galan Mei, pedeir ar hugeint. [588]Hyt A6st, dec ar hugeint. [589]Hyt galan Racuyr, vn ar bymthec ar hugeint. [590]Hyt galan 6hefra6r, d6y a deugeint. [591]Hyt galan Mei, 6yth a deugeint. [592]Hyt A6st, trygeint a tal, kanys deudec keinha6c a drycheif arna6 yna, a deudec hefyt pop tymhor hyt galan Mei. [593]Ac yna teir bl6yd vyd, ac vn ar pymthec a phet6ar vgeint a tal. [594]Ac yna y dylyir y dala, a pan daler, vgeint a drycheif ar y 6erth; a pan ffr6ynher, pedeir keinha6c kota. [595]Ac velly 6heugeint a tal.

[32[v]] [596]Am6s a pascer 6hech 6ythnos, punt a tal. [597]Palffrei, morc a tal. [598]R6nsi, 6heugeint a tal. [599]S6meruarch, pet6ar vgeint.

[600]Ra6n*n* am6s y maes o'r goloren, peteir ar hugeint. [601]Or trychir dim o'r goloren, g6erth yr am6s oll a telir. [602]Llygat am6s a'e glyst, pedeir ar hugeint a tal pop vn. [603]Or dellir oll, y 6erth oll a telir. [604]G6erth ra6n r6nsi, deudec keinha6c; ac velly y lygat a'e glyst.

[605]Y neb a 6ato llad march yn lletrat, rodet l6 pet6ar g6yr ar hugeint.

[606]Vn 6erth vyd kassec tom a buch. [607]Dros lygat pop vn, a'e glyst, a'e llosc6rn, pedeir keinha6c k*yfreith* a telir. [608]Kassec re g6edy y del ystal6yn erni, 6heugeint a tal.

[609]Y neb a 6ertho march, bit dros [y] dilysr6yd hyt var6; a rac y dera, tri dieu; a rac yr yscefein, teir lloer; a bl6ydyn rac y llynueirch; a rac kleuyt o'e my6n yn ach6anec.

[610]Teithi march neu gassec y6 pori, ac yuet d6fyr, a rodi escyn, ac na bo ll6ygys; ac or byd ll6ygys, atueret trayan y 6erth y'r pryn6r.

[611]Y neb a uarchocao march dyn arall heb y genhat, talet y'r perchena6c pedeir keinha6c escyn, a phedeir keinha6c discyn, a phedeir keinha6c dros pop rantir y kerdho drosta6, a chaml6r6 y'r brenhin.

[612]Y neb a differo march rac [33] llatron, pedeir keinha6c a dyly ef y gan perchena6c y march yg kyfeir pop buch a[r] a talhei y ma[r]ch pei g6erthit.

[613]Y neb a uenffyccio march y arall hyt yn lle en6edic, or a y dyn y le arall a vo pellach ac ef, talet y'r perchena6c haner yr enill a gaffo o uy6n hynny.

[614]Y neb a gymero benffic march a llygry y gefyn hynny dyg6ydo y ble6 y*n* hagr, talet pedeir keinha6c k*yfreith* y'r perchena6c. [615]Or h6ydha hagen y gefyn o atlo hen l6gyr a thori kroen hyt y kic, 6yth geinha6c k*yfreith* a tal. [616]Ony byd hen ll6gyr arna6 a thori kroen hyt asc6rn, vn ar pymthec k*yfreith* a tal.

[CYHUDDO O LEDRAD]

[617]Y neb a vynho lli6a6 lletrat yn gyf*reith*a6l, dy6edet 6elet y dyn o'r pan vo goleu y dyd hyt pan vo pryt kyflych6r a'r lletrat ganta6, a thyget ych pen reith, ac nas dy6a6t nac o digassed, nac o gas, nac er g6erth, nac er gobyr, namyn er dangos g6iryoned. [618]Yn y mod h6n y byd lli6 g*yfreith*a6l, ony byd llysiant k*yfreith*a6l neu 6rtht6g. [619]G6rtht6g a vyd tr6y t6g deu 6r, a llysiant a vyd o'r ffyrd y llyssir tyston.

[BUCHOD AC YCHEN]

[620]Llo o hanher Ma6rth neu Ebrill hyt galan Racuyr, 6hech cheinha6c a tal. [621]Odyna hyt galan 6hefra6r, 6yth geinha6c a tal. [622]Hyt galan Mei, dec a tal. [623]Hyt A6st, deudec a tal. [624]Hyt galan Racuyr, pedeir ar dec a tal. [33^{v}] [625]Hyt galan 6hefra6r, vn ar pymthec a tal. [626]Hyt galan Mei, deuna6 a tal. [627]Hyt A6st, vgeint a tal. [628]Eil dyd o A6st, pedeir keinha6c cota a drycheif erni o'e chyfloda6t, a d6y o'r tymhor. [629]Ac yna 6hech ar hugeint a tal hyt galan Racuyr. [630]Hyt galan 6hefra6r, 6yth ar hugeint a tal. [631]Hyt galan Mei, dec ar hugeint a tal. [632]Na6uetyd Mei y dylyr gofyn teithi kynflith idi. [633]Ac yna vn ar pymthec a drychefir ar y g6erth dros y theithi, ac yna 6yth a deugeint a tal. [634]Hyt galan Racuyr, [dec a deugeint]. [635]Hyt galan 6hefra6r, deudec a deugeint a tal. [636]Eil dyd o 6hefra6r, pedeir keinha6c k*yfreith* drycheif ar y g6erth, a d6y o'r tymor. [637]Hyt galan Mei, trugeint a tal. [638]Ac yna buch c6byl vyd.

[639]Teithi buch y6 dec ar hugeint aryant: pedeir ar hugeint dros y llaeth a 6hech ceinha6c dros y llo. [640]Teithi kynflith: vn ar bymthec dros y llaeth a phedeir dros y llo. [641]Dros laeth buch 6ythnos, keinha6c.

[642]O tri mod y telir teithi buch: o dec ar hugeint aryant, neu o uy6ch hesp dec, neu o vla6t. [643]Os o vla6t, val hyn y telir: messyr llestyr llaeth buch, na6 modued yghylch y eney, a their yn llet y 6aela6t, a seith ar 6yr o'r keleis y gilid yn y vchet; lloneit y llestyr h6nn6 a telir o vla6t keirch [34] yg kyfeir pop gotro y'r uuch hyt 6yl Giric; odyna o vla6t heid hyt A6st; o A6st hyt galan gayaf, o vla6t g6enith y telir y velly.

[644]G6erth llo g6ri6 hyt galan Racuyr: 6hech cheinha6c. [645]Odyna hyt galan 6hefra6r, 6yth geinha6c. [646]Hyt galan Mei, dec ke*inha6c*. [647]Hyt A6st, deudec keinha6c. [648]Hyt galan Racuyr, pedeir ar dec. [649]Hyt galan 6hefra6r, vn ar pymthec. [650]Hyt galan Mei, deuna6. [651]Hyt A6st, vgeint. [652]Hyt galan Racuyr, d6y ar hugeint. [653]Hyt galan 6hefra6r, pedeir ar hugeint. [654]Eil dyd o 6hefra6r y dodir ieu arna6, ac yna pedeir keinha6c cota a drycheif ar y 6erth. [655]Na6uetdyd o 6hefra6r, or dycha6n ymhoelyt ac eredic, vn ar pymthec a drycheif ar y 6erth, a d6y geinha6c o'r tymhor. [656]Ac yna 6hech a deugeint a tal hyt galan Mei. [657]Hyt A6st, 6yth a deugeint a tal. [658]Hyt galan Racuyr, dec a deugeint a tal. [659]Hyt galan 6hefra6r, deudec a deu vgeint a tal. [660]Ac yna all6eith vyd, a hynny a drycheif arna6 pedeir keinha6c k*yfreith*, a d6y geinha6c o'r tymhor. [661]Ac yna trygeint a tal, ac uch c6byl vyd.

[662]Croen ych, deudec keinha6c k*yfreith* a tal. [663]Croen buch, 6yth geinha6c a tal.

[664]Teth buch, pedeir keinha6c k*yfreith* a tal. [665]Corn ych neu uuch, a'r llygat, a'r llosc6rn, [34[v]] pedeir keinha6c k*yfreith* a tal pop vn. [666]G6erth dant eidon neu varch tom, pedeir keinha6c k*yfreith*.

[667]Or g6erth dyn uuch y arall a bot teth y'r uuch yn diffr6yth, talet pedeir keinha6c k*yfreith* ida6 pop bl6ydyn dros y teth tra vo y uuch ar y hel6.

[668]Deu vgeint a tal eneit ych neu uuch; [dros y kroen, wyth keinhawc;] dros y pet6ar 6hartha6r, 6yth geinha6c; dros y pen a'r traet a'r amyscar a'r g6er, pedeir keinha6c. [669]Buch a vyd talad6y o'e heil llo hyt y pymhet lo. [670]Ac ych o'r tryded ieu hyt y ch6echet.

[671]Y neb a 6erth ych neu uuch, ef a dyly vot dros tri chlefyt: rac y dera, tri dieu a their nos; rac yr yscefein, tri mis; rac y pelleneu, vl6ydyn.

[672]Teithi ych y6 eredic yn rych ac yg6ellt, ac yn allt ac yg6aeret, a hynny yn ditonr6yc. [673]Ac ony byd velly, ny byd teithya6l. [674]Ac ony byd teithia6l, atuerer trayan y 6erth y'r neb a'e pryn6ys.

[675]Y neb a talho neu a 6ertho llo neu dina6et, meichet dros y dilysr6yd a bit dros deu glefyt: rac y deira, tri dieu; a rac y clafyri o galan gayaf hyt 6yl Padric. [676]A'r neb y del ida6, ny dyly eu d6yn ym plith anifeileit claf6r nac y ty y bei clafri ynda6 seith mlyned kyn no hynny.

[677]Y neb a latho anifeil dyn arall yn y uuarth yn lletrat, a hynny yn honheit arna6, talet yn deudyblic; [35] ac os g6atta, g6adet ar y pet6eryd ar hugeint o'e gyfnesseiueint.

[678]Y neb a gymero abo ll6dyn dyn arall heb y genhat, talet drosta6 l6dyn by6 vn ry6 ac ef ac vn 6erth, a thri buhyn caml6r6 y'r brenhin. [679]Y neb a gyllello anefeil mar6 dyn arall, talet anefeil vn ry6 ac ef drosta6, a thri buhyn caml6r6 y'r brenhin.

[DEFAID A GEIFR]

[680]Oen tra dynho, keinha6c k*yfreith* a tal; pan 6ahaner, d6y geinha6c kyf*reith*; A6st, pedeir keinha6c k*yfreith*. [681]Teithi dafat, kymeint y6 a'e g6erth kyfreith. [682]Teth dauat, d6y geinha6c k*yfreith*.

[683]Myn tra dynho, keinha6c cota a tal; pan atto dynu, d6y geinha6c cota; A6st, pedeir keinha6c cota. [684]Teithi gafyr, kymeint y6 a'e g6erth. [685]Teth gafyr, d6y geinha6c cota. [686]Vn 6erth vyd gafyr a i6rch.

[MOCH]

[687]Parcell yn y gro6yn, keinha6c kyf*reith* a tal. [688]O'r pan el allan hyt pan ato dunu, d6y geinha6c kyf*reith*. [689]Pan atto dynu, pedeir keinha6c kyf*reith* a tal hyt 6yl Ieuan y Moch. [690]Odyna hyt galan Iona6r, dec keinha6c kyf*reith*. [691]Odyna hyt 6yl Ieuan y Moch elch6yl, deudec keinha6c kyf*reith*; ac yna deupartha6c vyd yr eneit ar y kic. [692]Odyna hyt galan Iona6r, dec ar hugeint a tal; ac yna deupartha6c vyd y kic ar yr eneit.

[35[v]] [693]Nyt oes 6erth k*yfreith* ar gny6 h6ch hyt ympen y vl6ydyn, ac yna kyf*reith* h6ch ma6r a gymer. [694]Pop peth ny bo g6erth k*yfreith* arna6, damd6g a geffir ida6 her6yd kyf*reith* Hy6el. [695]Rys ap Gruffud, arbenhic Deheubarth, tr6y duundeb a'e 6lat a ossodes g6erth damd6g ar pop ll6dyn; nyt amgen, tygu o'r perchenna6c y talei y da ef y g6erth a 6nel arna6 ac y kaffei erda6.

[696]Y neb a 6ertho moch, bit y danunt rac y vynygla6c tri di6arna6t, a thri mis rac yr huala6c, ac nat yssont eu perchyll; ac os yssant, atuerer trayan eu g6erth ac ny dylyr eturyt y moch; a byth y bydir dros eu dilysr6yd.

[697]Or llad moch neb dyn, talet eu perchena6c alanas y dyn or adef y moch.

[698]Dros vaed kenuein y telir baed arall a allo cleina6, a h6ch o pop parth ida6.

[CATHOD]

[699]G6erth kath a 6archatt6o yscyba6r brenhin†, or lledir neu or dygir ledrat: y phen a ossodir y 6aeret ar la6r glan g6astat, a'e llosc6rn a drychefir y vynyd a'e dala velly, a dineu gra6n g6enith ymdanei hyny gudio blaen y llosc6rn. [700]Hyn vyd [y] g6erth ony cheffir y gra6n: dafat vlith a'e hoen a'e g6lan. [701]G6erth kath arall, pedeir keinha6c kyfreith.

[702]Teithi kath a phop ll6dyn nyt ymborther ar eu llaeth: trayan y 6erth, neu 6erth y torll6yth. [36] [703]Y neb a 6ertho kath, bit drosti na bo kathderic ar pop lloer, ac nat ysso y chyna6on, a'e bot yn gyfglyst, gyflygat, gyfdanhed, gyfe6in, gyflosc6rn, a llad llygot.

[GWYDDAU AC IEIR]

[704]G6yd, d6y geinha6c kyf*reith* a tal. [705]Nyth g6yd, d6y geinha6c k*yfreith* a tal. [706]Ky6 g6yd dan adein y vam, keinha6c cota a tal. [707]Pan el y 6rthi, keinha6c k*yfreith* a tal; A6st, d6y geinha6c k*yfreith* a tal.

[708]Keilia6c a iar, keinha6c cota a tal pop vn.

[HELA]

[709]Ryd vyd y'r brenhin hela yn y 6lat. [710]Ple byn*n*ac y gordi6ether hyd a vo kynydion y brenhin yn y hela, ny cheiff neb 6hartha6r tir ohona6. [711]Or lledir hyd brenhin yn tref breyr y boreu, kat6et y breyr ef yn gyfan hyt hanher dyd, ac ony doyant y kynydion yna, paret y breyr vliga6 yr hyd a llithia6 y k6n o'r kic, a dyget y k6n a'r kroen a'r afu a'r 6artha6r ol atref ganta6; ac ony deuant y kynydion y nos honno, kymeret ef y kic oll a chat6et y k6n a'r croen y'r kynydion. [712]Or lledir yr hyd haner dyd yn tref breyr, kat6et yn gyfan ef hyt y nos, ac ony doant y kynydion yna, g6neler am h6nn6 mal am y llall. [713]Os gyt a'r nos neu hyt y nos y lledir, tan*n*et y breyr y vantell arna6 a chat6et velly hyt y bore, ac ony doant y kynydion yna, g6naet y breyr amdana6 yn y mod d6ededic. [714]Y neb a 6nel velly [36^{v}] am hyd brenhin a lather yn y tref, ny byd kerydys o g*yfreith*.

[715]Hel6riaeth y brenhin a vyd hyt galan gayaf. [716]Odyna hyt ympen na6uetdyd, kynydion bieifyd† yr hela. [717]O galan gayaf hyt 6yl Ieuan, ny byd gol6ython k*yfreith*a6l yn hyd brenhin. [718]O hynny allan, deudec golh6yth k*yfreith*a6l a vyd ynda6: tafa6t, tri gol6yth o'r m6n6gyl, kymhibeu, kalhon, deul6yn, jar, tymon, hydgellen, her6th, auu. [719]Y neb a dycco vn o'r rei hyn*n*y, kamlyrys vyd. [720]Drostynt oll or dygir, teir punt a telir.

[721]Or lledir hyd brenhin a'e gudia6, dir6y a telir drosta6. [722]Y neb a'e kyllello heb y gudio, kamlyrys vyd eithyr y mod vry.

[723]Kar6, ych a tal. [724]E6ic, buch a tal. [725]Croen kar6, deudec keinha6c a tal. [726]Croen e6ic, 6yth geinha6c a tal. [727]G6erth hyd dof y brenhin, punt. [728]G6erth lletuegin brenhin neu

699 † yscybrenhin
716 † kynydion k bieifyd

vrenhines, punt. [729]Lletuegin breyr neu 6reic neu y verch, 6heugeint. [730]Lletuegin taya6c, keinha6c cota a tal.

[731]Or byd hela gellc6n y 6r ryd, arhoet ef hyny ellygho kynydion y brenhin eu c6n teir g6eith y boreu ac odyna gellyget ynteu y g6n, a phle bynac y llather y kar6 y breyr, h6artha6r tir a rodir ohona6.

[732]Py fforda6l bynac a vratho b6ystuil g6yllt y ar y fford yn fforest brenhin, ymlidiet tra g6elho, ac os gordi6ed, [37] kymeret; ac or dieinck y dan y ol6c, nac ymlinet.

[733]Y neb a gaffo b6ystuil mar6 ar tir dyn arall, or byd hyys y kic, y ch6artha6r ol a geiff; os h6ch vyd, y ch6artha6r blaen a geiff; ac eithyr hynny, perchena6c y tir a'e keiff oll.

[734]Y lle y gossotter k6n yn erhyl, y kyntaf a gymero i6rch, neu gadno, neu yscyfarna6c, eu perchena6c a'e keiff.

[735]G6erth llostlydan, 6heugeint. [736]Beleu, pedeir ar hugeint a tal y groen.

[CŴN]

[737]Or lledir ki neu or dygir letrat, kaml6r6 a telir drosta6. [738]Dros gi kyndeira6c, na thros y dr6c a 6nel, ny di6gir dim. [739]Ll6 vn yssyd diga6n y 6ady ki.

[740]G[6]erth keneu gellci brenhin kyn agori y lyget, pedeir ar hugein a tal; yn y gro6yn, wyth a deugeint; yn y gyns6llt, vn ar pymthec a phet6ar vgeint; yn y ofer hely, 6heugeint; pan vo kyfr6ys, punt a tal. [741]Sef a tal milgi brenhin o'r dechreu hyt y di6ed, hanher kyf*reith* gellgi brenhin gogyfoet ac ef.

[742]Y neb a torho llygat gellgi brenhin neu y losc6rn, talet pedeir keinha6c kyf*reith* yg kyfeir pop buch a talei y ki.

[743]Vn aneueil a a o pedeir keinha6c y punt yn vn dyd: gellgi—os taya6c bieiuyd, pedeir keinha6c a tal, ac or rodir y'r brenhin, punt a tal.

[744]Am6s yn pori allan, a milgi heb y dorch, kolli eu breint a 6nant.

[37^{v}] [745]Vn 6erth vyd gellgi breyr a milgi brenhin gogyfoet ac ef. [746]Sef a tal milgi breyr† o'r dechreu hyt y di6ed, hanher k*yfreith* gellgi breyr gogyfoet ac ef.

[747]G6erth keneu costa6c kyn agori y lygeit, keinha6c; yn y gro6yn, d6y geinha6c; yn y gynll6st, teir keinha6c; yn ryd, pedeir keinha6c.

[748]Py ry6 bynhac vo ki taya6c, velly y kerda y 6erth onyt bygeilgi vyd; a h6nn6 trygeint a tal o raculaynha yr yscrybyl y bore a chad6 yr oliet y di6edyd yn dyfot atref, ac eu kylchyny teir g6eith y nos, a gally o'r perchena6c a chymoda6c ych y dr6s ac arall is y dr6s kadarnu hynny yn 6ir.

[749]Kosta6c, kyn bo brenhin bieiffo, vn vreint vyd a chosta6c taya6c. [750]Ki kalla6ed, or lledir bellach na6 kam y 6rth y ty, ny thelir dim drosta6; os o vy6n y na6 kam y lledir, pedeir ar hugeint a tal. [751]Bitheiat, nyt oes 6erth k*yfreith* arna6, kanyt oed y gyfry6 gi yn oes Ho*6el* Da. [752]Ac 6rth hynny damd6g a vyd arna6.

[753]Or brath ki neb dyn hyny del y g6aet, perchena6c y ki a dyly talu g6erth g6et y brathetic. [754]Ac or llad y brathedic y ki kyn symyt odyno, ny cheiff onyt vn ar pymthec dros y 6aet. [755]Or kyrch ki ar dyn, dodet y aryf a vo yn y la6 ryda6 a'r ki, ac or a y ki ar yr aryf [38] hyny lather, ny thelir dim drosta6. [756]Ki kyneuodic† a r6ycco [dynyon, or brath] dyn teir

746 † brenhin
756 † kyneuodedic

g6eith, neu tri dyn, ac nas llatho y argl6yd yna, y r6yma6 a dylyir 6rth troet y argl6yd a raff o d6y ro6hant, ac yno y lad; a thalet perchena6[c] y ki gaml6r6 y'r brenhin.

[HEBOGAU]

[757]Ny thelir na dir6y na chaml6r6 am neb o adeina6c dof a lather neu a dyccer letrat, namyn taly y 6erth y'r perchena6c. [758]Y neb a dycco nythl6yt heba6c, talet punt y'r brenhin. [759]G6erth [heba6c] coch kyn myt, 6heugeint; or byd g6en g6edy myt, punt a tal. [760]Nyth llamysten, pedeir ar hugeint; yn goch, deudec keinha6c; or byd g6en g6edy myt, pedeir ar hugeint a tal. [761]G6erth h6yedyd, pedeir ar hugeint y6.

[GWENYN]

[762]Modrydaf g6enyn, pedeir ar hugeint a tal. [763]Kynheit, vn ar pymthec a tal; eil heit, deudec keinha6c a tal; tryded heit, 6yth geinha6c. [764]Heit a del o'r kynheit, deudec ke*inha6c*; heit a del o'r eil heit, 6yth geinha6c. [765]Ac yn y g6erth h6nn6 y bydant hyt 6yl yr Holseint [766]Pop heit o gyn noc A6st hyt g6edy† G6yl yr Holseint, vn 6erth vydant: nit amgen no phedeir ar hugeint. [767]Or a heit g6edy kalan A6st y maes, asgelleit y gel6ir ac ny thal onyt pedeir keinha6c hyt galan Mei.

[768]Modrydaf g6edy y del kynheit oheni, vgeint a tal; g6edy y del yr eil heit oheni, vn ar pymthec a tal; g6edy [38v] y del y tryded heit ohonei, deudec keinha6c a tal. [769]G6enenllestyr, pedeir ar hugeint a tal. [770]Bydaf yn y koet, deu s6llt a tal. [771]Or dygir bydaf ledrat a thori y pren y bo ynda[6], g6erth y pren a g6erth y vydaf a telir y perchena6c y tir. [772]Y neb a dangosso bydaf y perchena6c y tir, pedeir keinha6c a'e ginya6 a geiff, neu y k6yr oll. [773]Ny thal neb heit onyt pedeir keinha6c hynny vo tri dieu ar hed ac yn 6astat tr6y a6el eglyr: dyd y geissa6 lle y uuda6, a dyd y uuda6, a dyd y orff6ys. [774]Y neb a gaffo heit ar tir dyn arall, pedeir keinha6c a geiff ef y gan perchena6c [y tir] or myn ynteu yr heit.

[ADEILADAU]

[775]P6y bynac a distry6ho neuad brenhin, pop pren a gynhalyo nen y ty, vgeint a tal; dros pen y ty, pet6ar vgeint.

[776]G6erth gayafty: vgeint o pop fforch a gynhalyo y nenpren; dros y nenpren, deu vgeint; kolofneu, meinceu, ystyffyleu, kynoreu, troth6yeu, gordrysseu, tubysteu, doreu, pedeir keinha6c k*yfreith* a tal pop vn o'r rei hynny; polion a g6ial, keinha6c kyf*reith*; dorgl6yt, d6y geinha6c k*yfreith*; kl6yt arall, keinha6c k*yfreith*. [777]Dros y gayafty oll, punt a telir a deudeg mu y'r brenhin.

[778]Beuty g6ar[t]hec, dec ar hugeint. [779]Or noethir gayaffty, trayan y 6erth a telir yna. Deo gracias!

[39] [780]Kynhayafty, or byd t6ll taradyr ynda6, pedeir ar hugeint a tal; ac ony byd, deudec keinha6c a tal. [781]Hafty, deudec keinha6c a tal. [782]Fforch kynhayafty neu hafty, keinha6c k*yfreith* a tal.

[783]Pop yscyba6r a dylyr y gadu yn agoret y vynet g6ynt yndynt hyt gal[an] gayaf, ac or da6 yscrybyl vdunt a llygry yr yt, talet eu perchena6c eu ll6gyr. [784]G6edy kalan gayaf, ony

766 † g6edy g6edy

byd bangor yn tri lle ar y cant a'r drysseu yn gayat, ny thelir eu ll6gyr. [785]Yscuba6r brenhin, 6heugeint a tal. [786]Yscyba6r breyr, trygeint a tal. [787]Yscuba6r bilein, dec ar hugeint a tal.

[788]Buarth, a thalgell, a chreu moch, a ffalt deueit, dec ar hugeint a tal pop vn o hynny.

[789]Mein melin, pedeir ar hugeint a tal. [790]Melin, 6heugeint a tal, kanys damd6g a geffir am y petheu o'e my6n.

[OFFER, DODREFN, ARFAU etc.]

[791]Bryccan brenhin, 6heugeint a tal. [792]Bryccan breyr, trugeint a ta[l].

[1445]Teir datyl nid oes oed y vra6d6r am y barnu: vn y6 dadyl y bo ymdystu vndi. [1446]Eeil y6 dyll6g kyfarcheu 6rth reid y brenhin. [1447]Trydyd y6 barnu dadanhyd y dyn a'e dylyo o gyf*reith*.

[1448]G6reic amrodo[†] yhynan yn ll6yn a pherth hep genad y chenedl, ny cheiff y phlant ran o dir gan genedl eu mam onyd ynn rybyched, kanny dyly plant ll6yn a pherth ran o dir.

[1449]Ny byd galanas am leidr y*n* llys na llyssiant r6g d6y genedl amdana6 *n*ac er y dienydya6.

[1450]Himp[†], pedeir ke*inha6*c k*yfreith* a dal hyd galan gauaf rac 6yneb; o hynny allan d6y ge*inha6c* bob tymor a drycheif arna6 hynny dyko ffr6yth, ac ynna trigeint a dal.

1444 † charn / hanu
1448 † amodrodo
1450 † Hin*n*p

[1451]Nid oes vn llyn*n*yaeth dirgeledic perssona6l a 6nel dyn a'e gilyd a llesteirio dattal6ryaeth me6n llys euth*u*r lle damch6eino llithro amser neu dervynu y datyl kyn*n* no hynny.

[1452]Kyfreith a d6eid, lle amdiffyner pen y dadyl bod yn*n* var6a6l y keigeu oll.

[1453]Or byd amryfaelyon g6yneu aniana6l roc [76] dyn am vn peth, na thir na dauar na pheth arall vo, megis k6yn ach ac edryd, neu dadanhyd, neu gamoressgyn, y kyntaf ohonynt a holo a dylir y dervynu ynn gyntaf, ac odyna o gyntaf y gilid o g6yn y gillyd y dyliyr eu tervynu; a hefyd or bydant llya6s g6yneu p*er*ssona6l rac vn dyn am vn peth, tervyner velly. [1454]Sef y6 k6yn perssona6l, r6ymedigaeth amod neu ymr6ym arall dirgeledic† a 6nel dyn a'e gilyd.

[1455]Or byd amryfaelon g6yneu rac vn dyn am vn peth, megis k6yn aniana6l neu g6yn persona6l, y k6yn aniana6l a dylir y dervynu yn*n* gyntaf; kans ple bynac y kyffarffo kyf*reith* aniana6l a chyfreith berssona6l, y g*yfreith* aniana6l a lyd ac a distri6 y g*yfreith* berssona6l.

[TIR EGLWYSIG]

[1456]Rac lla6 y treithir or tyf kynen kyfr6g d6y vagyl, ac amrysson am dervy*n* ffinieu. [1457]Ae h6ynt yn essgyb, ae h6ynt yn abadeu, ae h6ynt yn egl6yssic dynyon ereill, yr ychaf y vreint o anadynt bieu tervynu ar y llall or bydant kyg6archado gogyfy6ch; ac ony bydant, yr hyn a vo y kyg6archad6 ganta6, ae batty ae esgotty, bieu tervynu yn*n* y blaen, euth*u*r nag aed vn onadynt dros vn o dri argae tervyn parth a'e gilyd; sef ynt y rei hynny, prifdyf6r, a randir gyf*reith*a6l, a chyfaned. [1458]O bydant gogyfy6ch o gyg6archad6, ran deu han*n*er a dyly [76v] vod rydynt her6yd k*yfreith* kyhyded. [1459]A'r kynheneu hyn*n*y a dylyant dyfod geir bron bra6d6r llys benadyr 6rth ae dosbarth ae barn.

[1460]Or dervyd y'r argl6yd keissa6 kymell lleicion yr abad v lyd, yr hei ni boynt ystynolyon o dir o ve6n y gyfoeth ef, neu yn y deylu r6ymedic ida6 ar 6asanaeth, neu vn o['r] s6ydogion brenhina6l a s6ydeu llys beynydya6l, ni dylyir llyd udynt o g*yfreith*; sef fford y6 hynny, bod tir yr abad yn garda6dtir ryd, ac na dyliyr llyd ohona6 o vreint tir, a'e bod h6ynteu yn 6yr amoda6l kargych6yn o'r tir h6nn6 ar dervyn amseroed. [1461]Kans tri ry6 6assanaeth yssyd ar dir: llyd, a dadleu, a chymanva; ac na dylyr llyd y neb o g*yfreith* onyd y 6r breinia6l, neu deuly6r argl6yd, neu s6ydogion llys benadyr yr argl6yd; kans h6nn6 y6'r trydyd dyn y gellid dadleu drosta6 yn absen her6yd k*yfreith*, hyd na chollid dim o'e da kyffroedic neu aghyffroedic er na del y dadleu y brenhin ynud gal6, sef y6 h6n*n*6 dyn a el y lyd o vreint g6ssanaeth tir, ka*n*s penaf g6assanaeth dir y6 llyd yr argl6yd vrenhin. [1462]Ac o dervyd gofyn o bleid yr argl6yd p6y bieu y g6yr hynny, g6yr ynt yn*n* sefyll 6rth briodolder amoda6l a chyffreith kenedl ydynt y gaffel sarhaed a galanas or lledir h6ynt yn*n* aghyf*reith*a6l, a h6ynt a phob dyn ar na drychafo breint tir neu s6yd vrenhina6l. [1463]G6yr kaith [77] amoda6l ac alldydyon, y rei hynny a dycha6n y hargl6yd y g6erthu a'e rodi o gyf*reith*, ac ny dylyant gaffel ia6n amdanynt or lledir aghyf*reith*a6l, kans nid oes genedl ydynt a'e gofyno.

1454 † dirgelgeledic

[CYFRAITH Y CREFYDDWYR]

[1464]Rac lla6 yd amlykeir o gyfr*eith* y krefyd6yr, y rei a amrodynt y broffoes eu hargl6yd abad. [1465]O bob aghyf*reith* krefyd6yr lla6 a throed o'r a 6nelynt o'r a berthyno eu bod yn*n* eneid vathaeu o'e acha6s, neu g6erth, neu ynn dir6ys, neu yn gamlyrys o'e blegid, yr abad a dylu eu d6yn her6yd k*yfreith* o orssed yr argl6yd y gabid6l ehyn, kans kabid6l yr abad yssyd drydyd kabid6l kyf*reith*a6l. [1466]Kans k*yfreith* a de6eid na ellir kymell vn dyn egl6yssic r6ymedic 6rth vrdeu kysygredic neu 6rth grefyd arall y atteb y neb o vaes o'e sened or d6edir dryc 6eithred arna6.

[1467]Llyma'r g6ahan yssyd her6yd k*yfreith* r6g g6r krefydys proffessa6l a g6r arall egl6issic: g6r proffessa6l, ny dycha6n g6ranty vn dadl dros arall, n[a] b6r6 y dillad k[r]efydys odi 6rtha6, nac ymrodi y g*yfreith* llys, kans ny dycha6n dynny datl o orssed yr argl6yd y gabid6l yr abad. [1468]Kans d6y var6olaeth yssyd: mar6olaeth y gyf*reith* a mar6olaeth anyana6l. [1469]Mar6olaeth y g*yfreith* y6 megis y d6edir am y rei a darffei ydynt ymrodi y broffes abat ac a gyssylldid a krefyd† yn diamada6; yr hei hynny a diffyd ac a drei*n*gk y breint yn y g*yfreith* leicia6l hyd na dyly amreint arnadynt. [77v] [1470]Mar6olaeth aniana6l y6 pan 6ahaner y eneid a'e gorff.

[1471]Or byd k6yneu a holyon ar y ry6 6yr hynny oblegid dlyeidon, ny ellir kymell neb onodynt y atteb geir bron bra6d6yr oblegid r6ym perssona6l megis mechniaeth, neu amod, neu 6ybydyeid, neu lynyaeth arall o ede[6]id perssona6l. [1472]Kans ry6 dynyon yssyd ar rydheir o'r ry6 r6ymedigaetheu hynny, sef ynt: dynyon a voynt r6ymedic kyssegredic yn*n* anian du6older a braint, a dyn a dylyo her6yd k*yfreith* braint penadyryaeth, ac a 6ahano k*yfreith* a breint dyn a gysylltier ac ef hyd na atto r6ym ymbleid y gymell o vn mod y dadl r6ym nac ed6id persona6l, val y d6esb6yd ychod ynn y lle ni aller her6yd k*yfreith* g6neuth*u*r penadyr yn pleid y'r defnyd. [1473]Sef y6 yr heu hynny, g6yr proffessa6l neu ganon6yr yn*n* r6ym krefyd, kans breint penadyryaeth yr abad a diryma y breint h6ynt hyd na allant vod yn*n* blaid y'r dadyl. [1474]R6ym neu grefyd arall perssona6l y6 g6reic a vo argl6yd g6ialen erni o vreint p[r]iodas, kans breint y benadyryaeth ef a diryma y breint hitheu hyt na dycha6n 6neuth*u*r neb ry6 r6ym nac ede6id perssona6l. [1475]Am hynny ni ellir eu kymell yn*n* bleid o'r gyfry6 r6ym hynny, nac h6ynt na'e kyfflybyon dynyon.

[AMRYWION]

[1476]A holo da o gyfne6id, holed dr6y vach. [1477]A holo da dr6y amod, holed dr6y amod6yr. [1478]A holo [78] da dr6y ede6id, holed [o] vridu6†. [1479]A holo da dr6y ech6yn, neu venthic, ne adneu, neu lynyaeth a 6nel yg6yd kyhoed, holed dr6y 6ybydyeid.

[1480]Ni ellir dodi g6ybydyeid ar alanas, nac ar sarhaed, nac ar 6aed, nac ar 6eli, nac ar ffurnigr6yd, nac ar gynll6yn, nac ar losk, nac ar ledrad, nac ar dreis, nac ar odineb, nac ar gyrch kyhoeda6c, nac ar vach, nac yn*n* vn lle ac y perthyno bod reith ossodedic yghyf*reith*.

[1481]Kyfreith dlyedys ossoededic yssyd dr6y gyfyndeb g6lad ac argl6yd, nid amgen no'r dynyon hynn yma ny dylyant sefyll eu tystolyaeth yn vn lle: kyntaf y6 onadynt klaf, myd, bydar, a hael byrllofya6c g6edy troyla6 a vo o da ar y hel6, ac a doro y briodas yn*n* gyhoyda6c, ac annydonys kyhoeda6c, ac a dycco kamdystolyaeth dan y 6ybod, a mab hyd ar

1469 † ar kefyd
1478 † holed vridu6, *gyda saeth ac* o *(aneglur) uwchysgrifol mewn llaw arall (?)*

oedran pedeir bl6yd ar dec, a g6r a gydtyo a g6r arall neu ac enifeil, ac a dycko da kysegredic neu da arall o gyssegir, a brad6r argl6yd, neu dyn a lado y dad neu y vam, ac ynvyd kyhoeda6c neu rythra6c, neu a lykro ia6nvath y brenhin neu 6nel kamvath, ac a rodo kam vra6d dan y 6ybod ida6.

[1482]Lledrad y6 pob peth a dyker ac a 6atter. [1483]Aghyfarach y6 pob peth a dycker ac ni 6atter. [1484]Treis y6 pob peth a dycker yn gydrycha6l o anvod.

[1485]Tri dyn ny myn k*yfreith* y g6erthu: lleidir or byd g6erth pedeir ke*inha6c* k*yfreith* yn y la6 yn*n* gyfadef; [78^{v}] a chynll6yn6r y veistir; a brad6r y argl6yd.

[1486]Pob dadyl ynn y hamod; nid amod hep amod6yr. [1487]Ny dyly neb 6neuthur amod dros y gilyd hep genad, na'r tad dros y mab, na'r† mab dros y tat, kans ny ffara amod namyn yn*n* oes y neb a g6nel. [1488]Kyn g6neler amod odieuth*u*r k*yfreith*, dir y6 y gad6. [1489]Amod a dir ar y g*yfreith*. [1490]Trech amod na g6ir.

[1491]Tri ryd o gaeth: ysgoleic, a bard, a gof. [1492]Tri chaeth o ryd: y meibon h6ynteu.

[1493]Y neb a 6atto amod, g6aded ar y seithued o'r dynyon nessaf y 6erth, y deuparth o ran y tad, a'r trayan o ran y vam.

[1494]G6ys rigill, kredad6y y6 o bleid y neb a 6ssier. [1495]G6ys rigill gan dyston adv6yn, neu daro y post deir g6eith, ni eill neb vyned yn y erbyn onyd tr6y lys. [1496]G6ys rigill hep dyston, o l6 tri dyn y g6edir.

[1497]Tri dyn ni ellir kanlyn k6yneu vnic racdynt: manach hep y abad; a g6reic hep y g6r priod; a mab dioedran hep y dad neu geid6ad tra dylyo vod drosto.

[1498]Or dervyd bod amrysson p6y a dyly g6archad6 ettifed kyn y vod yn oedran, ae kenedyl y tad ae kenedl y vam, k*yfreith* a d6eid mae g6r o ran y vam ef a dyly, rac ofyn y neb o genedl y tad g6[n]euth*u*r y vrad am y dir neu 6en6yna6.

[1499]Tri da dilis divach yssyd. [1500]Vn y6 da a rodo argl6yd y 6r ida6, y da a dylyeu ef y arall dr6y g*yfreith*. [1501]Eil y6 da a gaffeu† 6reic gan y g6r yn y h6yneb6arth pan kytio ynteu a g6reic arall. [1502]Trydyd y6 da a dycker [79] neu a gaffer yn*n* ryfel deu argl6yd.

[1503]G6erth racdant dyn: pedeir ar hygeint gan dri drychafael. [1504]Sef val y drychefir: y drychafal kyntaf y6 6yth geinia6c; a'r eil drychafael y6 dec a dimeu a thrayan dimeu; trydyd y6 pedeir ar dec a thrayan dimeu a'r na6ved ran y dimeu. [1505]Sef y6 hynny pan gyfrifer oll: vn ar bymthec a deugeint a dimeu†, deubarth dimeu a'r na6ved ran y dimeu. [1506]A ph6y bynac a vyno g6ybod y drychyfaelon ar yr ariant, reid vyd ida6 drychaf ynn y drychafael kyntaf kymeint a thrayan y sump y bo y drychyfaelyon ohona6, a gossod hynny yn*n* vn sump; a'r eil drychafael y6 kymryd trayan y sump hynny a'e dodi yn*n* yr vn s6mp; a'r trydyd yn yr vn mod, kymryd kymeint a'r trayan val y mae k*yfreith* o'r blaen ar 6erth racdant dy*n*; ac velly kyfrifir pob drychafel yghyf*reith* oher6yd y s6mp kyntaf.

[1507]Sarhaed ygnad llys y6 na6 mu a na6 vgeint o ariant, kans y na6 vgeint ariant yssyd ynno ynn lle drychyfaelon. [1508]Y alanas a delir o na6 mu a na6 ygein mu gan dri drychafael. [1509]Val hvn yd ymlykeir y drychyfaelon: y drychafael kyntaf y6 trigein mu, yr eil y6 ped6ar ygeint mu, trydyd y6 ch6e bu a chan mu a thrayan d6y vu. [1510]Ac velly y drycheif ar alanas pob Kymro her6yd y vreint. [79^{v}] [1511]S6mp galanas ygnad llys oll r6g drychyfaelon y6 h6e

1487 † nor
1501 † ga / affeu
1505 † dineu

bu ar hygeint a phed6ar cant† o 6arthec a thrayan d6y vu, hep gyfrif y na6 mu yssyd ychod ymlaen y na6 vgeint mu kyntaf. [1512]Sef acha6s na chyfrifir yr hei hynny ac na drychefir arnynt, her6yd mae saraed y6 honno ac nad oes her6yd ky*freith* drychafael ar sarhaed a daler ymlaen galanas.

[1513]Tri dyn a gyneil tir yn*n* llys y brenhin ac a'e herbyn gan y brenhin os her6yd ia6n ettifediaeth y disgyn ydynt y tir, ac ny dylyant 6neuthur y'r argl6yd vn o'r tri ry6 6assanaeth yssyd ar dir euth*u*r talu y rent a'e 6estva ida6: g6reic 6ed6, a mab dioedran, ac ysgolheic r6ymedic 6rth yrdeu kysegredic; sef acha6s y6'r 6reic a'r mab, o eisseu a6dyrda6d, syn6yr a phersonda6d, ac ysgolheic am nad oes 6erth ar y dafa6d yghyf*reith*, ac na dycha6n neb varnu euthur dan perigl g6erth y dafa6d.

[1514]Tri dyn a dyly y berenhin neu y s6ydogyon vynu meicheu gantynt [er] diogelr6yd y ba6b o 6erin ef, rac g6neuthur kam ohonynt er na bo na ch6yn na chanlyn arnynt gan neb. [1515]Vn y6 gorssed6r a vynno prys6ylya6 me6n g6lad hep rodi g6rogaeth y'r brenhin nac y vn uchel6r. [1516]Eil y6 dyn a vygytho arall yn*n* y absen yg6yd yr argl6yd neu u s6ydogion. [1517]Trydyd y6 dyn a[80]m6rthotto a chyfreith yn*n* y llys neu ynn vn o'r tri chyhoed, gan d6edyd y mynei i e6yllys odieuthur kanlyn ky*freith* neu g6yneu.

[1518]Pob ry6 dyn o'r a g6yno k6yn bog6th eneid a chorff, neu aelodeu neu da rac arall dr6y dog ar greir, ef a dylu kaffel meicheu ar diogelr6yd ido. [1519]P6y bynac a g6yno k6yn dr6y ach ac edryd am dir a dayar ac a dycko y acheu ar gogeil v6y no their g6eith, koledic vyd o'e ha6l yn dragy6yda6l.

[1520]Tri dyn ny dyly vn ohonynt sefyll me6n barn: vn onodynt y6 dyn gorff6ylla6c o envydr6yd ac a orffo y† r6ymo neu gado 6eutheu. [1521]Eil y6 dyn a ambryno o ledrad kyfadef vn 6eith, neu a ordi6eder yn*n* lleidir ar gyhoed hed6ch. [1522]Trydyd y6 dyn a dyg6ydo yg6erth y dafa6d vn 6eith obl[e]gid kam vra6d a rodassay kyn no hynny.

[1523]Tri chyffredin g6lad yssyd: kyman, dadleu, a egl6ys.

[1524]P6y byn*n*ac a al6o tyston neu 6ybydieid yn*n* y llys g*yfreith*a6l, ony deuant 6rth yeu gal6, kolledic vyd y gal66r o'e dadyl.

[1525]Oed am 6arant tra m6r, vn dyd a bl6ydyn. [1526]Oed 6rth borth, o'r llys y gilyd.

[1527]Or lledir lladron na'r neb a vo y maes o g*yfreith* a hed6ch yr argl6yd dr6y 6eithred kyhoyda6c neu deol k*yfreith*a6l a phrosses, ny byd llyssiant yn*n* y llys r6g ha6l6r dadyl a'e amdiffyn6r, kans ryd y6 llad y neb a vo y maes o g*yfreith* onyd amrodant y g*yfreith* yn*n* gared yr argl6yd.

[1528]Tri pheth nid oes na6d racdynt: gorvodogaeth, a mechniaeth, [80^{v}] a goresgyn.

[1529]Y ran6yr a dyliyr y kredy am pob peth ac a ranont kyno hyny.

[1530]Tyst ar dyst nid oes oed amdana6 yghyf*reith*. [1531]Ni chredir neb yn*n* dyst yn y dadyl ehyn.

[1532]Y neb a vo keid6eid gorvoda6c neu orcheid6ed dros dyn arall, ony dycha6n y d6yn 6rth g*yfreith* ynyd gal6, bid ehyn ynghyf*reith* y neb y del drosta6.

1511 † camt
1520 † yr

[PROFI YNADON]

[1533]Profi ygneid 6eithion.

[1534]A oes deu vroder ni dylyont m6y noc vn? [1535]Oes: o genir deu vab yn vn dorll6yth y 6reic, ny dyly yr hei hynny euthur ran vn ettifed.

[1536]A oes a dylyo galanas hep gyfranu a'r genedl? [1537]Oes: argl6yd am ynvyd a yn*n*vytto yn vab a 6rthotter arna6 yn y iegtid, ynna y telir galanas y'r argl6yd yn*n* diran.

[1538]A oes vn lle y barner oed a*m* dienydya6 dyn a lledrad yn*n* lla6 hep ardel6 k*yfreith*a6l? [1539]Oes: o byd g6reic yn*n* veicha6c, hi a dyly oed nes esgor o'e hettifed ac nad ardel6o o veichogi; argl6yd a dylu kidsynyeid na dycker deu eneid am ledrad yr vn dyn.

[1540]A oes vn lle ni allo mab gofyn tir a dayar y bai perchena6c y dad yda6 ac [y] defnydyeu y tad hep genad y6 vab, nac vn o'r tri agen k*yfreith*a6l? [1541]Oes: bei darffei y berchen tir ettivedy neu rodi i dir y arall kynn ida6 gael ettifed o'e gorff, a g6edy hynny briodi g6reic ac enill ettifed, ny dylu h6nn6 ofyn y tir a athoed o la6 y tad kyn y greaedigaeth ef.

[1542]A oes vn lle y dylyo dyn golli y [a]dail ac ny chyll y tir? [1543]Oes: o dervyd bod [81] amrysson r6g deu dyn am dir, a rodi o'r argl6yd groes ynn y tir hynny vei diamrysson, a g6neuth*u*r adeil o vn oh6nynt, ef a dyly kolli yr adeil ac ny chyll y tir.

[1544]A oes vn groes y dylir deu gaml6r6 amdeni? [1545]Oes: o dervyd y deu dlyeda6c amrysson am dir a chroissi o'r ha6l6r y tir, ac na bei yr amdiffyn6r 6rth y groes a barnu y tir y'r amdiffyn6r, yna y mae ia6n barnu kaml6r6 ar yr ha6l6r am gamgroissi y tir a barnu kaml6r6† ar yr amdiffyn6r am na bu 6rth y groes.

[1546]A oes vn estra6n a dylu talu galanas gyd a'r llofryd, a chereint hep y dalu? [1547]Oes: o dervyd y dyn lad arall a dyg6yda6 galanas arna6, a chyn talu yr alanas y d6yn o'e vam y dad arall, ynna y tal y genedl y bu ef ar eu breint y gid ac ef yr alanas honno; ac yn*n*a y dylu estra6n dalu kymeint a bra6d neu gefender6.

[1548]A oes vn aghyfarch adefedic ny dylyer y dif6yn? [1549]Oes: o dervyd y dyn bod da ida6 gyd ac† arall, a droela6 ohonna6 hep groes, hep 6ahard, ni thal na dir6y na chaml6r6 namyn [enill] y'r dyn da drachefyn; a llynna yr aghyfarch ny dylir dial amdana6.

[1550]A oes vn 6reic o'r a dylyo y thad dalu ebedi6 ac ni dylu hitheu dalu amobyr? [1551]Oes: g6reic a dycker treis erni.

[1552]A oes vn lle y barner reith am ledrad yn lla6 a'r perchena6c y*n* bara6d [y] damd6g hyd y barno k*yfreith* ida6? [1553]Oes: or keffir da dall gan ladron, yn*n*a y dylir barny [81^{v}] reith am ledrad yn*n* lla6 a'r perchena6c yn*n* bara6d y damd6g.

[1554]A oes vn lle y dylyer dihenydya6 dyn am ledrad yn*n* lla6 a g6arant yn*n* bara6d y gymryd? [1555]Oes: o geil6 dyn 6rant o effeiriad neu grefyd6r arall, a bod h6nn6 yn barod y gymryd y ledrad o† la6 y dyn y delid gantta6, ny dyly y rodi atta6 ac ynnteu ac vrdeu arna6; a llyna y lle y dyliyr dienydya6 dyn am ledrad a g6arant ida6.

[1556]A oes vn lle y dyly affeith6r daly m6y no'r llofr6yd? [1557]Oes: or dervyd y dyn lad kaeth a bod affeith6r ida6, m6y daleu yr affeith6r yna no'r llofryd.

[1558]A oes vn lle y dylyo mab bod yn argl6yd ar y dad o gyf*reith*? [1559]Oes: o dervyd y vchel6r rodi y verch y alltyd a bod plant a meibon ydynt, [a] g6edy hynny mar6 o'r vchel6r a

1545 † kan*n*l6r6
1549 † gyda ac
1555 † a

chaffel o veibon yr alltyd vam6ys a dyfod y tad ydynt yn*n* eu ran o'r alltydyon, yna y mae y mab yn argl6yd ar y tad o g*yfreith*.

[1560]A oes vn lle y sarhaer dystein y bo llei y[†] sarhaed no na6 mu? [1561]Oes: o dervyd y gaeth sarhau g6r ryd, yna y mae llei sarhaed, kanny dylir namyn tori lla6'r kaeth neu ch6e bu a ch6eigeint o ariant yn*n* y lle.

[1562]A oes vn tir a vo kymeint dial y eredic a thor tervyn? [1563]Oes: o dervyd bod amryson r6g d6y bleid am dir, a g6ahard o'r argl6yd y tir hyn*n*y vai diamrysson, a thros y g6ahard h6nn6 g6neuthur o'r neill o'r dynyon m6ynant, m[e]gis y mae kymeunt dial eredic a thor tervyn.

[1564]A oes vn lle y dylyo ampria6dr gyry [82] pria6dr y ar y briodolder dr6y gyf*reith*? [1565]Oes: o dervyd y dyn lad arall a dyg6yda6 galanas arna6, ac na bo fford y taler yr alanas yn*n*amyn o geina6c baldyr, y mae ia6n taly y tir yn 6aetir yna, ac yna y gir yr amria6dr y pria6dr y ar y briodolder; a llyna yr vn lle y dycha6n tad defnydya6 dlyed y vab hep y genad.

[1566]A oes vn alanas na bo vn affeith idi? [1567]Oes: or llad enefeil dyn, h6nn6 y6'r lloffryd; ny dyly bod affeith idi.

[1568]A oes vn llofryd ny dyly talu galanas? [1569]Oes: o dervyd y gaeth lad dyn bonhedic, ni thelir galanas namyn eneid y kaeth h6nn6; a llynna llofrydyaeth ny dyly taly galanas, kanyd kymeint g6erth y eneid ef a galanas y g6r bonhedic.

[1570]A oes vn enifeil y dylyer bod dan y deithi vyth? [1571]Oes: h6ch ryderic.

[1572]A oes vn lle y dycker ysgrybyl o garchar y deilad hep daly a hep 6ystla6? [1573]Oes: o dervyd y dyn gadel y yd hep vedi hyd galan gayaf, a g6edy hynny dal ysgrybl arna6, yna y dyly ef daly na6 ygeint y'r argl6yd o anghyfarch a gel6g yr ysgrybl yn ryd.

[1574]A oes vn dyn a vo m6y g6erth y la6 no g6erth y eneid? [1575]Oes: kaeth.

[1576]A oes vn lle y dylyo y tad dalu galanas ac nys dyly[†] y vab? [1577]Oes: gorcha6[†] a dyly taly galanas ac nys tyly y vab.

[1578]A oes vn mab a vo reid y 6ady neu y gymryd hep y d6yn? [82^{v}] [1579]Oes: mab g6reic vyd; kanny dycha6n hi y d6yn ef ynn y bo6yd, ynteu a dycha6n g6edy y bo mar6 y vam ymyru ar y tad ac ar genedyl y tad, ac yna y mae reid y 6ady neu y gymryd hep d6yn.

[1580]A oes vn lle y dylyo dyn golli kaml6r6 am bally o da ehynan? [1581]Oes: os bilein a gyneil tar6 a ffally o'e venffic, kamlyrys vyd.

[1582]A oes vn anifieil y mae g6eirgla6d yn*n* gaeth [ida6] bop mis? [1583]Oes: h6ch.

[1584]A oes vn lle y mae kyfy6ch g6erth kaeth neu alltyd a brenhin neu vreur? [1585]Oes: o dervyd kymryd kaeth neu alldyd yg6ystoloryaeth dros vrenhin neu vreur[†], kanys vn 6erth yghyf*reith* vyd y neb a 6stler a'r neb y roder drosta6.

[1586]A oes vn lle y raner y*n* deu haner dr6y gamoresgyn? [1587]Oes: o dervyd y ampria6dr disgin yn br[i]a6d6r ar dir, a'r hen bria6dyr yn didiffodedic y priodolder ac yn k6yna6 k6yn kamoresgyn racda6 yn*n*teu am y tir, yn*n*a y mae ia6n ranny y tir yn deu haner rygtynt; am disgin yr ampria6dr yn*n* bria6dr, ac am na diffodes priodolder y pria6dr, [mae] k*yfreith* yn dyallu na dycha6n vn ohonynt g6rthlad y gilyd o'e priodolder; a llyna yr vn lle y

1560 † y y
1576 † nys dy / ly nas dylyo
1577 † gorchna6
1585 † vrenhin

renir yn deu haner dr6y gamoresgyn, kans nid oes namyn kolli y k6bl neu enill y k6byl euthur yn yr vn lle h6nn6.

[1588]A oes vn tala6dr didal, a mach digymell, a ha6l6r eneid vadeu? [1589]Oes: o dervyd y dyn ada6 g6erth y arall am dryc 6eithred val llad dyn, a rodi mach ar y da, a g6neuthur y gyflafan a bod negydyaeth [83] gan y dyn o daly y da, a dyfod y dyn a 6naeth y g6eithred y ofyn y mach a phop vn [yn adef] y 6eithred, yna y kyll y mach a'r tala6dr dir6yon kans affeith6yr ynt, a gofyna6dr y groc. De6i Brefi a'nn ka*n*[orth6y].

[TIR]

[1590]Pob er6 o dir kyg6archad6 a dal kymeint a'e gilyd y'r argl6yd yn y vl6ydyn.

[1591]Py amod bynnac a 6nel perchen, ni seif ettifed y perchen 6rtha6 kanys myn ehyn, euthur am gyllid tir, a thir a† dayar a daler yn 6aetir dros alanas er hed6ch y'r ettifed val y'r ll6fryd; a hefyd ny dyly neb daly kyllid y'r argl6yd euthur her6yd maint [y] tir a vo ynn y la6, kans ar y tir y mae y kyllid ac nid ar yr ettifed.

[1592]Pria6d6r a gych6yn tridyg6r. [1593]Tridyg6r a gych6yn treftada6c. [1594]Treftada6c a gych6yn g6r dyfod. [1595]Sef y6 g6r dyfod: g6r a del dr6yda6 ehyn hep neb o'e rieni yn y blaen ar y tir h6nn6. [1596]Sef y6 treftada6c: ef yhyn a'e dad o'e valaen. [1597]Sef y6 tridyg6r: ef yhyn yn ol y dad a hendad. [1598]Sef y6 pria6d6r: ef yhyn y*n* ol y dad a'e hendad a'e orhendad. [1599]K*yfreith* a d6eid, g6edy del dyn yn br[i]a6d6r ar dir na diffyd y briodolder hyd y na6ved dyn; kans p6y bynac a orffo arno ado y 6lad, ae o var argl6yd hep 6eithred k*yfreith*a6l val menyc trioed k*yfreith* yn lle arall, ae o acha6s galanas hep ally y talu, ae o eisseu kyng6r, neu o var argl6yd, ne vod yn karcharu k*yfreith* yn y erbyn, kyd bo ef hep dref y dad hyd y na6ved dyn, ni diffyd y [83^{v}] prio[do]lder†, a chymeint a dyly ef y gaffel ac a dyluei y kyntaf a'e deholed o'r tir. [1600]P6y bynac o'r kyntaf a deleu hyd y na6ved dyn ae el6ir 'diasbad ych advan', a honno a dylu k*yfreith* y g6randa6, a chymeint a dyly y gaffel a'r g6r m6yaf a vo ar y tir yn g6archad6 yna; ac o hynny allan kyd g6neler ha6l neu diasbad, ni 6rande6ir yg*hyfreith*.

[AMRYWION]

[1601]Tri chena6l yssyd yg*hyfreith*. [1602]Vn y6 kena6l y gadar[n]hau kyfia6nder. [1603]Eil y6 kena6l y gado k6irdeb. [1604]Trydyd y6 kena6l y eglyrhay g6irioned. [1605]Sef ynt y tri hynny: argl6yd, a mach, a bra6d6r teil6g rog pleideu.

[1606]P6y bynac a holo ha6l defnydya6l y amdiffynbleid, a gomed o'r amdiffynbleid deir g6ys, yr ha6l6r a dodir ynn y mediant y gymell yr amdiffyn6r y atteb a vo kynt. [1607]Or da6 yr amdiffynbleid o ve6n y vl6ydyn y rodi kedernid y sefyll 6rth g*yfreith* tr6y vech*n*iaeth neu afael, y mediant a geiff drachefen; o byd negyd yntteu y rodi kedernyd ar sefyll 6rth g*yfreith*, g6edy pen*n* y vl6ydyn yr ha6l6r a vyd g6ir berchen yr ha6l dr6y gad6 amser dedva6l amdiffin yn erbyn priodolder yr amdiffunbleid.

[1608]Tri pheth yssyd vuch no chyf*reith* ac a dyr ar g*yfreith* pan gyfarffont a hy: argl6yd yn*n* y lle y g6nel 6ell no chyf*reith* y dilid g6irioned neu 6nethur trygared; a breint ni aller provy yn y erbyn; ac amod adefedic.

1591 † a a
1599 † priolder, *gyda saeth a* do *uwchysgrifol mewn llaw arall (?).*

[1609]Tri ph6gk yssyd ia6n y g6ady yn*n* y sarhaed: na 6nathoed na sarhaed [84] na mefel, [n]ac yda6, nac o'e argl6yd, nac o'e genedyl; sef acha6s y g6edir y'r argl6yd, rac y dir6y; sef acha6s y g6edir y'r genedl, rac y dial ohonynt, kans g6arad6yd y6 y'r genedyl sarhau eu kar, ac ony thelir neu ony 6edir, k*yfreith*a6l y dial; o telir ida6 ynteu y sarhaed, neu or g6edir, di6rad6yd vyd y genedyl, a'r lle ni bo g6rad6yd ni byd ha6l. [1610]Ni pherthyn deu boen am yr vn g6eithred.

[1611]Pob g6ystyl a dyg6yd ymhen y na6ved dyd, euthur kalla6r, a ch6lld6r, a b6ell gynyd. [1612]Arveu egl6yssic, eur ac ariant a llestri eureid, y rei hynny, kyd g6ystler, ni dyg6ydant hyd ymhen vn dyd a bl6ydyn.

[1613]Vn g*yfreith* y6 gafael g*yfreith*a6l a g6ystyl; sef y6 gafael g*yfreith*a6l, gafael a dycker am dylyed adefedic yng6yd y tala6dr.

[1614]Ha6l6r bieu gofyn; taladr bieu kynic; argl6yd bieu kymell.

[1615]P6y bynac a varner yn eneid vadeu, dim o'e da ni dylir, kany dylyr dif6yn a dial euthur taly y'r kolledic o acha6s na dyly ef ada6 dylyed ynn y ol.

[1616]Nyd a ebeidi6 yn ol tir kynyd, ac o dervyd defnydya6 y tir ynn y vo6yd, pan vo mar6 nid a yr ebedi6 yn ol tir namyn yn ol da a vo ida6 pan vo mar6; ac ony byd da ida6, bid diffodedic yr ebedi6.

[1617]Ny dyly neb vn perch[en]a6c† tir na g6erthu y dir na'u bridia6 y 6r o 6ahan argl6ydiaeth heb genad y argl6yd, m6y noc y dyly aillt breur g6erthu moch [84v] heb genad y argl6yd, neu veel neu eba6l; ac os g6erth, kolledic vyd o'r da a gaffer drostynt.

[1618]Ni thyf defnyd reith yn ha6l kyrch kyhoeda6c lle nid en6er g6eithred yn y kyrch.

[1619]Nyd defnydya6l neb ry6 gydvod otheuth*u*r gorssed y lesteiria6 tervyn dadyl6ryaeth tr6y 6eithred gorssed lle nid ardel6er redec tervyn† tra[g]6yda6l neu dervyn amsera6l, am nad kyngheina6l kydnabod o gyf*reith* y ry6 dadyl honno. [1620]Defnydya6l y6 pob r6ym perssona6l o'r a vo perthyna6l yn y dadyl y dotter o vreint amod, neu vachniaeth, neu 6ybydieid—sef y6 hynny, ymhop lle odieuth*u*r perchnogaeth tir a dayar, ar yr h6n a disgyn ac a seif her6yd k*yfreith* aniana6l; kans ni chygein y ede6id perssona6l garcharu grym ia6n aniana6l o amod, nac enil goressgyn ar dir, bellach noc ysbeid pedeir blyned.

[1621]Or tebic neb na bo k6yn vn k6yn ar ni ch6yno yn y dyd aniana6l y g6neler defnyd y g6yn, y g*yfreith* a do6eid bod yn*n* g6yn pob k6yn o'r a g6yner hyd ymhen vn dyd a bl6ydyn, odieuthur ymlad neu ymsarhau.

[1622]P6y bynac dyn a doro y broffes o grefyd, na manach, na bra6d, nac agkar, na meud6y, na neb ry6 grefyd o'r a vo r6ymedic yg6asaneuth Du6, nac offeiriad a gymero g6reic g6edy r6ym offeiriadaeth, ny dylir kredy eu tystolyaeth yn vn lle euthur y gadel y maes o'r [85] g*yfreith*, onys brynant gan y pab neu'r esgob dr6 benyd kyhoeda6c.

[DAMWEINIAU]

[1623]O dervyd y dyn yn*n* y ymdiffyn ehyn neu eidia6 lad arall neu sarhau, ny dylu di6c os dr6y g6irdeb y dycha6n brofi hynny yn*n* 6ir mae yn y amdiffin ehyn neu y eidia6 y g6naethoed y g6eithred.

1617 † percha6c, *gyda saeth ac* en *uwchysgrifol mewn llaw arall (?).*
1619 † tervyd

[1624]Y mae amseroed yn y vl6ydyn ni ellir kynal k*yfreith* na dadleuoed yndynt her6yd k*yfreith*, nid amgen: g6yleu kad6edic, neu Sylyeu, neu hyt nos, neu amseroed kaedic k*yfreith* am dir a dayar, neu ynn y dydeu dedon—sef ynt yr hei hynny, o'r Pask Ma6r hyd y Pask Bychan, o'r Nadolic hyd y Kalan, o'r Sulg6yn hyd Sul y Drindod; a pha beth bynac a 6neler o dervyneu kynheneu dr6y orssed, nid safedic her[6]yd k*yfreith* ynn yr† amseroed ychod.

[1625]Or dervyd y'r mor v6r6 llog neu da arall y dir yr esgob, neu'r abad, neu py benaeth bynac bieiffo y tir, yr argl6yd a bieiffo y 6lad bieu y neil haner.

[1626]O dervyd y dyn amrysson paham leiaf y dylir kolli kaml6r6, k*yfreith* a d6eid mae am vn geinia6c; sef acha6s y6, na ellir k6yna6 am lei na cheina6c, ac nad perthyna6l dodi kaml6r6 v6y s6mp noc enill y bleid.

[1627]Ny dyly brodyr na chefender6 daly ebedi6eu am dir, kans nis kaffant hep y bryny.

[1628]Ni eill pria6d*6*r rodi y dir y sant, nac y egl6ys, nac y nodva arall hep genad y argl6yd, ac nid ia6n. [1629]Ny dylu vn [85^{v}] esgob gysegry vn tir ar ni bo kyssygreduc o'r blaen hep genad yr argl6yd, na'u d6yn† dan ardel6 egl6yssic.

[1630]Nid oes yghyf*reith* vn lle ond vn y dylyer anreith grybdeil: am lad kelein ky6lad.

[1631]Or byd dyn yn*n* anll6ytha6c me6n g6lad arall ni hanffo oheni, a cheissa6 ohonna6 ef vreint o'e 6lad ehynnan ynn honno, ny dyly gaffel, kans ia6nach y6 difa breint vn dyn no breint g6lad a chyffredin oll.

[1632]Deu le y dyly dyn golli y dir dylyed yndynt: kynll6yn a brad argl6yd; or keffir eu daly, eneid vadeu vydant yn dybrydach no lleidir, nac vn na llya6s voynt. [1633]Os tagnovedy a vynant a'r argl6yd ac a chenedl, deudybilic vyd y tal am bop vn o'r deu le. [1634]Trydyd lle y6: o byd argl6yd yn*n* d6yn kyrch y 6lad arall, or rybydya vn o'e 6yr ef y 6lad honn6, kolli tref y dad a'e dir kynyd a dyly.

[1635]Os reith vyd, deudyblic vyd y reith yn y lle y g6atter y byngkeu ychod. [1636]Os yn*n*teu neu h6ynteu a gyrchant at y pab neu vediant Ryfein, ac o dygant yn*n* ysgrifenedic mal y adnapo yr esgob neu y neb a vo drosta6 ry gymryd penyd tyac att Du6 dros y g6eithred h6nn6, y dir dlyed a geiff, neu y gyffelyp y hynny.

[1637]Bei lladei dyn 6r egl6yssic neu 6r r6ymedic 6rth yrdeu, or kymer [86] benyd ny chyll y dir euth*u*r talu y'r genedl yr alanas ac y'r argl6yd, a'e dir a geiff yn*n* ryd.

[1638]O dervyd y dyn 6neuth*u*r kam yn*n* y kym6d ny hanffo ohona6, di6cied yn*n*o y kam a 6nel.

[1639]O dervyd y dyn 6neuth*u*r kam yn y g6mod ehyn a'e daly me6n k6m6d arall, anvoner ef y g6m6d euhyn y atteb neu y ymdiffin am y kam a 6naeth, kans hysbyssa lle y6 yn*n*o.

[1640]O dervyd ysgymuna6 dyn, by acha6s byn*n*ac y esgymyner, a bod yr argl6yd yn y geissa6 yn anreith odef, k*yfreith* a dy6eid nas dylyei nes y vod yn*n* yr yssgymynda6d vn dyd a mis g6edy g6yper yn gyhoeda6c, ac yn*n*a yr argl6yd a dyly.

[1641]O dervyd y dyn 6neuth*u*r kam me6n llyd a cheissa6 o'r neb y g6naeth y kam ida6 y holi, ny dyly atteb tra vo yn*n* agen yr argl6yd y bo dano neu'r brenhin.

[1642]P6y bynac a diodefo m6ynhau y dir vn dyd a bl6ydyn hep d6r6f a hep eni6ed ac ef yn gy6lad a'r tir, y g*yfreith* a dy6eid na dyly h6nn6 gael atteb o'r tir g6edy hynny yn oes y

1624 † ynny yr
1629 † dy6yn

neb a'e godefo, namyn bod yn*n* dif6ynedic ac yn*n* drabl6ydyn; sef y6 t6r6f ac eni6ed, llosgi tei, neu dori erydr, neu ganlyn k*yfreith* yn*n* y llys y kaffei gyfia6ndr hep othrymder o bleid argl6yd.

[1643]Nid safedic dim o'r a 6nel dyn med6 na dyn llesmeiredic o lynyaeth na r6ymedigaeth arall mal machniaeth neu amod, [na] dyn[†] a vo yg[86[v]]harchar, or gellir gorchiro y vod velly pan y g6naeth y r6ym y bae[††] yn y holi ida6, a hynny dr6y dedryd g6lad.

[1644]P6y bynac a geisso g6ady dyn ac ef me6n ha6l, ac nas g6atto kyn no'r ha6l, k*yfreith* a d6eid nas dyly kanys anamsera6l y6 y g6ad.

[1645]Or g6na dyn deu amod a vn dyn am vn peth, y di[6]ethaf a dyly y gad6. [1646]Or g6na dyn deu amod a deu dyn am vn peth, y kyntaf a dyly y gad6.

[1647]P6y bynac a holo tir o ach ac edryd, reid vyd ida6 dygu, ef a hena6dyrieid y llys, y hanfod a d6yn y ach hyd y kynhalia6dr i bai yn gofyn y tir o'e blegid.

[1648]Hyn*n* o leoed y dylir taly kaml6r6 deudyblyc y'r argl6yd: or g6archea dyn da ar yd a vo heb vedi hyd galan gauaf, kaml6r6 deudyblic a dal y'r arg[l]6yd, a'r da yn*n* ryd y'r perchena6c; ac am eredic priffo[r]d, kaml6r6 deudyblic y6'r kosb a g6neuth*u*r y fford kystal ac y bu gynt; a phan daler g6eli tafa6d y'r argl6yd; a phan nessao dyn hep genad att vra6d6yr tra vont yn*n* ymdyllyo am gofyon a barneu neu dedrydeu; ac o k6yn dyn rac arall y orssed yr argl6yd a pheri g6yssio yr amdiffyn6r, a phan del yr amdiffynbleid y'r orssed ac ymgynic y g*yfreith* diohir kilia6 o'r ha6l6r ac ym6rthod a'e ha6l, or byd yr argl6yd ynn y llys, talu o'r ha6l6r gaml6r6 deudyblic; ony byd yr argl6yd [87] yhynan yn y llys, kaml6r6 vndyblic a dal, ac yn oes yr argl6yd h6nn6 ni cheiff y 6randa6 am yr ha6l h6nn6.

[1649]Os amdiffyn6r ky6lad a dyry mach ar atteb, o tremyka yr orssed yn*n* dyd gal6, ony 6atta y mach y vechniaeth, taled gaml6r6 y'r argl6yd ac yna y dervyd braint y vechniaeth, a'r amdyffynbleid a gymhellir dr6y afael hyd pan*n* del y atteb yr ha6lbleid. [1650]Ac vellu y mae k6yn pleid gy6lad.

[1651]Ped6ar peth a gynhelis y brenhin ynn y la6 euhyn hep gyfran y neb h*er*6yd k*yfreith*. [1652]Kyntaf y6 kad6 breint y vanachlogoed. [1653]Eil y6 kad6 nodvae priffyrd. [1654]Trydyd y6 g6neuth*u*r k*yfreith* neu vath yn deueyrnas. [1655]Ped6ryd y6 kynal arholyon brenhina6l gorychel a berthyno att y goron y brenhin a'e aelodeu.

[1656]Ny thal g6reic onyd vn amobyr byth o g*yfreith*; sef y6 y mod y tal hitheu h6nn6, o vreint y tir y heni6 ohona6; sef a'e tal, hi ehyn neu'r neb a'e rodo y 6r, ae that, ae bra6d, ae vn o'e chenedyl; sef acha6s na thal hi onyd vn amobyr, 6rth nad ymchoel hi 6rth vreint argl6yd y tir byth, nac 6rth vreint y chenedyl, namyn 6rth y g6r y roder ida6.

[TRIOEDD]

[1657]Tri pheth ni dylir y ranu euthur her6yd y ffr6ytheu: melin, kored, a pherllan.

[1658]Tri pheth ni ellir yn*n* absen: tysty, a g6aranty, a threissa6.

[87[v]] [1659]Tri godef yssyd yn*n* kidgerded a chyf*reith* hyd ar amser, ac nyd ynt gorgyfy6ch a chyf*reith*, ac ni dylir m6yniant ohonynt her6yd k*yfreith*; sef y6 hynny, dangos yr ach6ysson. [1660]Vn y6 godef o dyn orthrymder gan s6yda6c argl6yd yn g6neuth*u*r aghyf*reith* arna6 yn*n* lle k*yfreith*; a h6nn6 a eil6 k*yfreith* yn*n* a*n*reith odef. [1661]Eil y6 godef o

1643 [†] amod dyn, *gyda saeth a* na *uwchysgrifol mewn llaw arall (?).*
1643 [††] baer

dyn dyn kebyd, neu agidna6s a vei yn kyg6archad6 s6yd, neu didysk dida; a'r heni a eil6 k*yfreith* yn anheil6g odef, a her6yd k*yfreith* ni dylir m6ynant o vn gofef anheil6g, namyn y diffr6ytha6. [1662]Trydyd y6 godef o dyn y argl6yd y gymell ar y afles yg6yd y llys; a h6nn6 a eil6 k*yfreith* yn d6yll aniana6l† yg6yd yr ygneid6yr, a h6nn6 a dylir y adver her6yd a d6eid k*yfreith* val y haduerir treis; kans kosbad6y y6 llys y brenhin y rodi kygor y neb pryd nas gofyno, ac er yr aghyf*reith* honno, ymod6ared a 6n*n*a k*yfreith* ida6 pan*n* y gofyno.

[1663]Tri ch6yn a diffyd pob k6yn pan gyfarffont yn y llys. [1664]Vn y6 y kyntaf a gaffer g6ssanaeth yn*n* y llys arna6. [1665]Eil y6 k6yn dlyeda6c. [1666]Trydyd yr k6yn gorthrymder.

[1667]Tri pheth ni byd dilis yghyf*reith*: t6yll, a cholissi6n, a cham varn, odieuth*u*r llithro amseroed.

[1668]Tri dyn nid geir y geir ar neb: krefyd6r g6edy [88] tori broffes, a thyst a dyko kamdystolyaeth, a lleidir kyhoededic.

[1669]Tri pheth nid atteb kyf*reith* dilys drostynt: vn y6 barnu yn drygar6c. [1670]Eil y6 ysgy[m]uno dyn kyn atteb. [1671]Trydyd y6 krogi dyn am bedeir ke*inha6c* k*yfreith*, ac ni ellir ont krogi am gan pynt.

[1672]Tri aghid6ybod k*yfreith* yssyd. [1673]Vn y6 d6yn tervyn yn g6byll kyn ymofyn g6ir. [1674]Eil y6 barnu ar dra6s agen. [1675]Trydyd y6 kymell dyn ar y afles.

[1676]Tri chyfeiliorn k*yfreith* yssyd: ha6l anhysbys, ac atteb agh6byl, a chof aghytyn.

[1677]Tri aghyf*reith* yssyd. [1678]Vn y6 gofed ia6n y arall yn lle k*yfreith*. [1679]Eil y6 d6y*n* enifeil yn vn o'r teir gafael ryd m6y no'r deuparth a'r trayan. [1680]Trydyd y6 d6yn tervyn y dyn m6y no messyr y ha6l.

[1681]Tri pheth yssyd voy no chyf*reith*, sef y6 y tri hynny: g6ir brid ar dir yn lle y galer y brofi ac ni aller myned ynn y erbyn; ac argl6yd yn erlid g6irio[n]ed r6g deu 6r; a hir odef g6lad a vo yn lle kyf*reith*. [1682]Ac yn [y] tri lle hynny ny dyly bra6d6r varnu kany henyd o g*yfreith*, ac na dyly ynteu varanu namyn k*yfreith*; g6lad ac argl6yd aghen a dyly barnu ynna.

[AMRYWION]

[1683]Ni dylir her6yd k*yfreith* gredy tystolyaeth g6r ar 6reic, [n]ac vn 6reic ar 6r, kans trayana6c y6 pob g6raic ar 6r; ny dyliyr y chredy hithei arna6 ef kanny dyly† y trayan y gredy ar y deuparth.

[88v] [1684]Tystolyaeth a [e]llir ar eir ac ar 6eithred, ac ni ellir a[r] ved6l kalon, ac ynna y tervyna y d6y g*yfreith*†, k*yfreith* egl6yssic a chyf*reith* Ho6el, kan y breint, onyd y tri lle y mae kystal amriodol a†† phrioda6l: vn y6 yn*n* y breint y ganer; eil yn y l6; trydyd y6 lle ni aller dangos o'r korff vn dyn deilygach noc ef, kanys k*yfreith* a d6eid na byd amrioda6l yr ettifed h6nn6 peu vn o'r dynyon g6ahardedic veu, kans ef a bieu holl ofynyon y dad a'e holl amdiffynyon.

[1685]K*yfreith* a d6eid y dycha6n y brenhin roi tir y deuyr[n]as† y'r neb a 6assanaetho drosta6 ac ynteu yn*n* barod y roi yr aghenion; yna d6eid k*yfreith*, vn lle y perthyn barn ar dra6s aghenion.

1662 † ania / ana6l
1683 † kandyly
1684 † tervynva y d6y / y g*yfreith*
1684 †† a / a
1685 † deuyras, *gyda saeth ac* n *ar ymyl y ddalen mewn llaw arall.*

[1686]Ni chyghein vn esgys y'r neb ni allo y 6irio, neu arall drosto. [1687]K*yfreith* a d6eid, y neb a doro y gorchmyneu a d6c y poeneu.

[1688]Y 6ady march o ledrad, ll6 ped6ar dyn ar hygeint, deudec nod a deudec dinod.

[1689]P6y bynac yd ymli6er ac ef am ysbeilia6 arall, ne vod 6rth ysbeila6, amdihoyred o ll6 dec dyn a† deugeint. [1690]Od ymli6ir a dyn am anreitha6 dyn arall, ll6 deg6yr a deugeint a'e diheira.

[1691]P6y bynac a dadleuo am dir a dayar, dyged y gereint† gyd ac ef, ac ony 6yria hynny ni rodir atteb ida6. [1692]Os h6ynteu a deuant a cholli onadynt, [89] ni cheiff atteb yn oes yr argl6yd h6nn6. [1693]Os yn alldyded y byd vn onadynt h6ynteu yn hir, ac na holo y dir yn y vl6ydyn gyntaf y del drachefen pan 6elo eredic y dir, nid attebir ida6.

[1694]P6y bynac a doro nod aml6c r6g trefyd neu diroed, teir bu kaml6r6 y'r brenhin, ac y'r perchena6c y tir pedeir keina6c k*yfreith*, a g6naed y nod ar y tir megis y by gynt.

[1695]Ffin r6g d6y dref, os tir vyd, g6ryd a haner. [1696]Ffin r6g [d6y] randir, os tir vyd, pedeir troedved. [1697]Ffin r6g d6y er6, d6y g6ys. [1698]Messyr priford y brenhin, deudec troedved.

[1699]P6y bynac a 6nel kynll6yn yn deudyblic y tal, kans treis y6 ar y dyn a lader, ac yn lledrad y gydya6. [1700]Lle bo kynll6y*n* y kyngein treis a lledrad yghyf*reith*, ac velly y g6edir: ll6 deg6yr a deugeint y 6ady koed a maes. [1701]A llyna yr vn lle y kyngein treis a lledrad ynda6 yg*hyfreith*. [1702]Randir gyf*reith*a6l r6g r6yd a dyrys, a choed a maes, g6lyb a sych; ac ar ni allo 6ady hynny yn g*yfreith*a6l, ni dycha6n 6ady koed a maes. [1703]Ny byd kynll6yn or byd ar fford neu yn*n* lle arall hep gyd neu hep gel arna6. [1704]Or lledir ynteu ar y fford g*yfreith*a6l a'e d6yn neu y lysga6 pymp kam k*yfreith*a6l a their troedved ym pob cam, neu yn*n* lle arall a'e gydya6, kyn*n*ll6yn vyd; [89^{v}] a llyna yr acha6s y g6edir vellu neu y telir yn*n* deudyblic, a hefyd y perthyn kroc ac anreith am y llyas h6nn6.

[1705]Or llad dy anifeil di vy enifeil i, neu os brath, a dyfod dy enifeil di att vy enifeil i ynn y bres6yluod, tal di dros yr enifeil a 6naeth [y] kam neu y kolled. [1706]Os vy enifeil ineu a ar dy enifeil ditheu ynn y kyffelybr6yd, ni 6naf† ia6n dros y kam a 6nel, kanys nid yr dynyon yhynnein y mae kenad y 6rthlad treis y 6rthynt, namyn yr anifeileid anyallys.

[1707]P6y bynnac a lado neu a vratho anefeil dyn arall ynn y amdiffyn ef ehyn, ny dylir g6neuth*u*r moleist ida6 ef er hynny amgen no hyn, na 6nel ef namyn amdiffyn kymhedrol† megis y bo diogel o'e eneid.

[1708]O dervyd roi barn yn*n* erbyn dyn ni bo ky6lad ac yr† ynad, g6edy bo ky6lad ef a'r ynad y dycha6n ym6ystla6 pan vyno o ve6n vn dyd a bl6ydyn. [1709]Ony chyffry ha6l hyd† ymhen vn dyd a bl6ydyn eil6ith, kaedic vyd k*yfreith* ryda6 a'r ynad.

[1710]Keina6c y[6] g6erth pob ble6yn o amrant dyn. [1711]Or torir dim o'r kic neu'r kroen neu assg6rn, g6erth kreith ogyfarch a dal a'e toro.

[1712]Vn enifeil y mae g6eirgla6d yn gaeth bob mis: h6ch.

1689 † a / a
1691 † y gereint y gereint
1706 † ni a 6naf
1707 † kymheprol
1708 † yn
1709 † hyd hyt (*yn sgil cywiro darlleniad gwallus*).

[MACH]

[1713]O dervyd y vach geissia6 d6yn gafel neu 6ystyl hep y kynogyn yn kyffroi, nis tyly ony byd negydyaeth yn y erby[n]. [1714]Or g6elas ef negydyaeth yn y erbyn kyn no [90] hynny, ynteu a aill rodi g6ystyl y kynogyn y'r ha6l6r yn y absen.

[1715]O chynatta y kynogyn y'r mach rodi g6ystyl punt yn lle vn geina6c, a chyn oed y g6ystyl kolli y g6ystyl h6n*n*6, ni d6eid k*yfreith* y dylu ohonna6 namyn dimeu, kans hynny y6 trayan ke*inha6c* k*yfreith*.

[1716]O dervyd y dyn rodi ky6erthyd punt yg6ystyl yn lle vn geina6c, a dyg6yda6 y g6ystyl, ni vernir drachefen kymeint ac vn ffyrllig, kans ef ehyn a lygr6ys braint y 6ystyl.

[1717]O dervyd y'r mach rodi peth ma6r yn*n* lle peth bychan yg6ystyl, k*yfreith*a6l y6 y'r ha6l6r gymryd yr hyn a rodo ida6 yg6ystyl; a chyd kollo h6nn6 kyn yr oed, ni di6c drachefen ynamyn y trayan y'r mach a'e roes atta6. [1718]Y mach a'e di6c yn g*yfreith*a6l, kanas yn aghyf*reith*a6l y dyc.

[1719]O dervyd bod mach ar deudec ke*inha6c* ac na bo ar hel6 y kynnogyn namyn march a daleu punt, a dyfod yr ha6l6r a'r mach y gymell y deudec ke*inha6c*, a d6edyd o'r kynnogyn, 'Nid oes genyf i a dal6yf y ch6i ynnamyn vy march, a h6nn6 nis talaf y ch6i ac nis g6ystlaf', ny dyly y mach d6yn gafael h6n*n*6, ac ni dylu yr ha6l6r d6y*n* g6ystyl a'r mach, ynamvn kyrchu yll deu y oed† att yr argl6ydiaeth a manegi y'r argl6yd nad oes namyn peth ma6r y [90v] gaffel yn lle peth bychan. [1720]Ac ynna y mae ia6n y'r argl6yd rodi [kanhat y'r mach rodi] peth ma6r yg6ystyl peth bychan, rac bod yr ha6l6r yn golledic o'e da.

[1721]O dervyd y dyn rodi mach y arall, a g6edy rodi y mach myned y na6d rac dylyed, k*yfreith* a d6eid na dyly na6d rac hynny, ac y dyly y mach rodi y 6ystyl ef y'r ha6l6r neu ynteu a 6atto y vechni, neu gymell y kynnogyn y dalu.

[1722]Ni dyly neb gymryd mach yn vn dydya6c, kans onys ha6l y dyd h6nn6 nid ydy6 yn amsera6l ac nid oes vach ida6. [1723]Ny dyly [neb] gymryd mach a chynoc kans deu ardel6 ynt, ac na chaiff ynnteu namyn de6is y ardel6: os o vach y de6is, nid oes kynogyn; os o gynogyn, nid oes vach; ac 6rth hynny ni eill vn dyn vod yn vach ac yn*n* gynogyn. [1724]Ni dyly dyn d6yn g6ystyl ar y kynnogyn ac ef yn negesseu yr argl6yd, neu yn*n* y agen ehyn, neu yn*n* 6ann; ac ni dyly y ha6l6r d6yn g6ystyl y mach kyt a hynny o amser.

[1725]O dervyd y dyn gymryd mach ar da, a g6edy hynny deol y kynogyn o acha6s lledrad ae o achos agen arall hyt na dylyo ef y 6lad, a mynny o'r ha6l6r y da gan y mach, sef 6yl k*yfreith* bod yn*n* ia6n rannu y kolled yn*n* deu haner rydynt; kans droc y6 g6eled talu o'r mach g6byl o'r ha6l ac [91] ef 6irion, ac nad tekach kolli y k6byl o'r ha6l6r. [1726]A llynna vn o'r lleoed y ran k*yfreith* yn*n* deu han*n*er. [1727]Os y kynnoc a da6 y'r 6lad eil6ith, h6ynteu a dylyant gymell y dylyed arna6 ef, ac yna y mae ia6n kaffel o'r mach yr haner a dalod. [1728]A llyna y lle y byd kymhell6r mach ar da ida6 ehyn.

[1729]O dervyd bod mach ar dylyed, a mar6 y mach kyn talu y dylyed a gada6 mab ohona6, y mab a dylu sefyll yn*n* dyledion y tad. [1730]Rei a d6eid, ony myn y mab sefyll ynn y vechni pan y6 ychben bed y tad y dylu ef y g6ad; a'r g*yfreith* a d6eid na dyliyr, kans ni dylir erlid vn dyn nac y nef nac y yffern namyn ynny† el y'r dayar ynn e6llys Du6. [1731]Ac 6rth hynny, dyn a el y'r dayar nid oes ida6 ynteu g*yfreith* ynamy*n* a 6elo Du6. [1732]Ac 6rth hynny,

1719 † oeded
1730 † vnn

ia6n y6 y vab y mach mar6 h6nn6 g6ssanaethu k*yfreith* dros y dat val y g6ssnaethe y dad bei by6.

[1733]O dervyd y dyn rodi mach ar dylyed, a dyg6yda6 yr oed yn vn o'r teir g6yl arbenic—y Nadolic, a'r Pask, a'r Sulg6yn—er y holi ohona6, ni dylir ont y oedi. [1734]O di6 Nadolic y ha6l, ni chaiff atteb hyt dranoeth g6edy du6 Kalan. [1735]Os du6 Pask vyd, hyt du6 Ma6rth g6edy du6 Pask Bychan. [1736]Os y Sulg6yn, hyt du6 Ma6rth yn ol Sul y Drinda6d. [1737]A'r teir 6ythnos hynny a'e braint a el6yr yn vn [dyd] dydyon.

[91^{v}] [1738]O dervyd y dyn gymryd mach gan arall, a chyn dyfod oed y dylyed mar6 y kynoc, y mach a dyly kymell mab y kynogyn megis e dad. [1739]O dervyd na bo mab ida6, safed yr argl6yd yn lle mab ida6 a thaled drosta6 neu 6aded; os g6ady a vynn, g6aded val y g6adei y g6r y daeth yn vab ida6. [1740]Kan by 6ell gantta6 vyned yn*n* vab y'r g6r hynny er da no bod yn*n* argl6yd, bid yn*n*teu ym vreint y g6r yth aeth yn vab ida6 er da; os g6ady y vechni, g6aded ar y seithved o genedl ehyn, ac nid o genedl y kynogyn.

[1741]Pan dyg6ydo g6ad ar vab am vechniaeth y dad, ny dyly neb o genedl y vam ef 6ady dros y dad ef.

[1742]O dervyd y 6reic rodi vridu6 ar beth a'e 6ady ohenni yn g*yfreith*a6l, k*yfreith* a d6eid ta6 g6raged a'e g6atta y gid a hi.

[1743]Rei a d6eid na dyg6yd g6ystyl o la6 mach hyt ymhen[†] vn dyd a bl6ydyn; y g*yfreith* a d6eid y dyg6yd o la6 tri dyn yn oed. [1744]Sef y6 yr hei hynny: argl6yd, a mach, a pherchena6c y da. [1745]Sef acha6s y6, kanys argl6yd a vyd mach ar bop da adefedic divach ar na bo mach arna6, ac 6rth hynny y dyg6yd g6ystyl o'e la6 ynteu neu o la6 y 6assanaeth6yr. [1746]O la6 argl6yd ac o la6 mach nid reid mach ar dilyssroyd g6ystyl, kans ony 6adant rodi ac h6ynteu yn*n* [92] vach y dylynt vod yn veicheu ar dilyssr6yd y g6ystyl h6nn6. [1747]Gan perchena6c da y dylyr k[y]mryd mach ar dylyssro[y]d g6ystyl rac y 6ady eil6eith, ae o ch6ant da ae [o] beth arall nas rodasseu.

[1748]Ny dyly neb d6edyd nad el yn*n* vach dros y gilyd o byd y gyfry6 ac a dylyo myned yn*n* vach. [1749]Lla6er o dynyon ny dyly myned yn*n* vach; sef acha6s, kany dylyant h6y wady mach, ny dylyant h6ynteu rodi mach, nid amgen: manach, a meud6y, a dyn aghyfyeith, ac ysgolheic ysgol, a phob dyn ni allo dyfod hep genad arall y 6assanaethu k*yfreith*.

[1750]O dervyd y vach a chynogyn gyfarvod ar bont vnpren, ny dylu vod yn anegyd ida6 o 6neuth*u*r vn o dri pheth: ae talu, ae g6ystla6, ae kyrchu k*yfreith*; ac ny dylu ef gych6yn y va6d yn*n* y hyd ar y sa6d6l hep 6neuth*u*r vn o'r tri hynny. [1751]O [byd] negyd ynteu o 6neuth*u*r vn o'r tri hynny, roded y mach y 6ystyl ynte y'r ha6l6r. [1752]Or byd g6ell ganta6 ynteu, kyrched g*yfreith* yn diannod. [1753]Ny dylir rodi oed 6rth borth am ha6l mach a chy*n*oc, kans dian*n*od y dylu vod.

[1754]O dervyd y ha6l6r g6rthod k*yfreith* geir bron ynad, bid ryd y mach a bid golledic y*n*teu o'e ha6l, kanu ffarha mach ond tra barao ha6l. [1755]Os kynogyn a 6rthyd k*yfreith* bod y mach yn vach adefedic, a'r ha6l yn*n* ir, y gymell o'r mach y'r ha6l6r g6byl o'e dylyed.

[1756]O dervyd y deu dyn bod k*yfreith* rydynt, a'r neil ohonynt [92^{v}] yn gal6 am vach ar g*yfreith*, a'r llall yn d6edyd nas dyly namyn y dyly ef oed 6rth borth, a d6edyd o'r ha6l6r, 'Mach a dylyaf i y ti'; 'Ni dyly di dim', hep y llall, 'Nid mach mach ni bo ar dim, ac ni dyli di dim, ac adefedic genyd dy hyn nas dly'; y g*yfreith* a deid na dyly ef vach ar g*yfreith*, kans

1743 [†] ynnhen

ardel6is y llall o oed 6rth borth, a ffeu rodeu y mach, g*yfreith* dianod vydeu kanyd oes oed y ha6l mach a chynogyn.

[1757]Nid reid [rodi] mach ar dilysroyd ariant neu gymryd, nac ar dlysseu treigiledic—kae, a chyllell, a g6regis—nac arveu hefyd.

[AMRYWION]

[1758]Y 6ady by6ch ne ych o ledrad, ll6 seith dyn: ped6ar o ran y tad, a deu o ran y vam, ac ynnteu ehyn seithued.

[1759]P6y bynac a 6atto h6ch o ledrad, neu dafat, neu afar, neu llo, neu beth bynac ac a dycker yn veich kefen, ll6 pimp dyn hep gaeth a hep alltyd a'e g6atta.

[1760]O dervyd y dyn 6neuthur kam yghomod ni hanffo ohonna6, nat yno y daler namyn ygh6m6d arall, anvoner ef y'r k6mod y hanffo ohona6 y atteb am [y kam a 6naeth]; yr hyn*n* a d6edassam ni ychod os vn argl6ydiaeth vyd y dynyon†. [1761]O dervyd y dyn 6[n]euthur kam o argl6ydiaeth y gylyd, dy6gied y kam yn [yr] hon y g6nel.

[1762]P6y bynnac a gaffo da dyn arall ac a'e kelho hyt pan y gofyn*n*o y perchena6c neu y keissa6, a g6edy hynny nas manako ida6, a gally profi hynny arna6, y gely ohona6 [93] ef y da ar a gl6sseu y gofyn, poen neu dial mal am ledrad kyh6ydys, nid amgen no h6n6 [a] deu gyffelyp ida6 taled yn dridyblic.

[1763]P6y bynac a al6o k6n dynyon ereill ac a'e dyhyno ac a'e hanoko ac [a'e] kyffro, ac o'e anoc ef dyfod kolled o 6eithred y k6n y neb vn, ny dylir gofyn dim o'r kolled h6nn6 y'r neb bieiffo y k6n, namyn y neb a gel6is ac [a'e] hanoges ac a 6naeth y k6lled a'r g6eidred, taled.

[1764]P6y bynac a lloko enefeil y d6yn ll6yth neu eredic ac ef, ony 6neir aghyf*reith* ac ef, kyd kollo y eneid ni thelir dim andana6; o g6neir aghyf*reith* ac ef mal y del anaf neu vri6 arna6 megis y bo g6aeth, ef a dylir y daly.

[CYFRAITH DYFNWAL MOELMUD A MESUR]

[1765]Kyn*n* d6yn koron Lyndein a'r deurn6ialen o'r Saesson, Dyfyn6al Moelmyd oed vrenhin ar yr yn*n*ys hon*n*, a mab oed ef y Iarll Kerni6 o verch brenhin Lloyger. [1766]A g6edy diffodi ta[d]6ys† y vrenhiniaeth y kafas ef y deuyrnas o [go]geil††, 6rth y vod yn 6yur y'r brenhin. [1767]A'r g6r h6nn6 a oed 6r adyrdodys doeth, ac ef a ossodes g*yfreith*eu da yn yr ynys hon yn gyntaf, a'r rei hynny a byrha6ys hyt ynn amser Ho6el Da.

[1768]Ho6el Da g6edy hynny a 6naeth k*yfreith* ne6yd ac difa6ys rei Dyfyn6al; ac ni symyd6ys ef eissoes messyreu tiroed yr yn*n*ys hon namyn val y ged6is Dyfyn6al, kanys [93v] goreu mesyr6r oed. [1769]Ef a vesyr6ys yr ynys hon o Benryn Blathaon yn y gogeled hyt ym Penryn Peng6aed yGherni6†, sef y6 hynny na6 kant milldir, a hynny y6 hyd yr ynnys hon; ac o Grygyl yMon hyt yn*n* Soran yglan*n* Mor Yd, sef y6 hynny pym kant milldir, a hynny y6 lled yr ynys hon*n*. [1770]Sef acha6s y mesur6ys ef, er g6ybod mod yr yn*n*ys, a'e hymtheith, a milldireu r6g y threfyd.

1760 † dynynyon
1766 † ta6ys *wedi'i danddotio, a* tadwys *ar ymyl y ddalen mewn llaw ddiweddarach*.
1766 †† geil *wedi'i danddotio, a* gogeil *ar ymyl y ddalen mewn llaw ddiweddarach*.
1769† o benryn peng6aed yny gogeled hyt ygherni6

[1771]A hynny a vessyr6ys ef 6rth y gronyn heid: tri hyd y gro*n*yn[†] heid ynn y vodved; teir modved yn*n* lled y balaf; tri lled palyf[††] yn y droedved; teir troedved ynn y kam; tri cham yn y neid; tri neid yn y tir (sef y6 hynny yGhymraec ne6yd, gr6n); a mil o dir y6 milldyr. [1772]Ac o'r messyr h6nn6 yd ydys yn arver etto. [1773]Ac yn*n*a y g6naethb6yd messur er6 g*yfreith*a6l 6rth y gronyn heid, nid amgen: pedeir troedved yn*n* hyt y verieu; ac 6yth droedved yn y veinieu; a deudec yn y gesselieu; ac vn ar bymthec yn*n* yr hirieu. [1774]A g6ialen kyhyd a'r ieu honno yn*n* lla6 y geil6ad, a'r ysgor berved y'r ieu yn*n* y lla6 aral ida6, a hyt y kyrhaydo ef [a] honno gan*n* y vreich y6 deu eirionyn y tir; sef y6 hynny, lled yr er6 gyf*reith*a6l, a dec ar hygeint y6 y hyd. [1775]Pedeir er6 o honno ymhop tyfyn; ped6ar tyfyn ymhop randir; pedeir randir ym pob gafael; pedeir gafael ym pob tref; pedeir [94] tref ymhop maena6r; deudec maena6r a d6y dref ynn y komod. [1776]A['r] d6y [dref] a dylu vod y[n] raid y brenhin, vn yn vaerdref ida6 a'r llall ynn diffeith hauodir ida6. [1777]A chymeint ac a d6edasam ni ymhop vn o'r kymydeu ereill. [1778]Sef y6 hynny, pymigein tref, a hynny y6 kanntref; a dec deg6eith y6 kant, ac nid pellach rif na dec.

[1779]Hyn*n* o rif er6eu a vyd ynn y kantref: pedeir er6 ymhob tydyn; vn ar bymthec ymhop randir; pedeir er6 a thrigeint ymhob gavael; vn er6 ar bymthec [a deugeint] a de[u] kant[†] ymhob tref; pedeir er6 ar hugein[††] a mil ymhop maena6r; deudeg mil a deu kant ac 6yth a phed6ar ygeint o er6eu yn*n* y deudec maenor; yn [y] d6y dref a berthyn ar y llys, deudec er6 a phym kant. [1780]Sef y6 hynny g6edy yr el oll yghyd o er6eu yn*n* sump y k6m6d, deudeg mil ac [6yth] cant[†], a chymeint a hynn ymhop k6mod arall. [1781]Sef y6 o rif er6eu y kantref, h6echant a phymil ar hygeint, nid m6y ac nid llai.

[DADL]

[1782]Bra6d6r nid ym6ystlo yn*n* erbyn g6ystyl arall am vra6d, kamlyrys vyd.

[1783]O dervyd bod dadleu r6g deu dyn am dir, ac y*n* [y] dadleu h6nn6 barny o'r bra6d6r gam vra6d, a gal6 o'r ha6l6r ystyn o'r tir, a d6edyd o'r amdiffyn6r yn atteb ida6, 'Kam vra6d a varn6yd arnaf i, a llyma vy g6ystyl ar y bod yn gam vra6d; ac ar y gyf*reith* y dodaf na dylir ystynu y tir h6nn6 yn*n*[y] vo dilis y vra6d amdana6, kan eythyf ynn y herbyn yn*n* y lle y dyly6n dyfod, a'r bra6d6r ynn y vra6dle'; ac atteb o'r ha6l6r ida6, 'K*yfreith* a vy yma o bed6ar def[n]yd: argl6yd kyffredin, [94^{v}] ac ygnad kadeiria6c, a chyfyndeb d6y bleid kydrycha6l; a g6edu hynny barnu y mineu vy nhir o gyf*reith*, ac ar y g*yfreith* y dodaf i y dylyaf i y tir a varn6yd ym'; k*yfreith* d6ed, p6y bynac bieiffo y g6archado pan*n* aethb6yd y'r g*yfreith*, na dylir symydia6 y g6archad6 h6nn6 hyn[y] vo dilis y vra6d. [1784]Onyd aethb6yd yn*n* erbyn y bra6dr yn y vra6dle, amgen no diodef y vra6d hyd pan 6sgarer y pleideu, yr argl6yd a dyly ystynu y tir y'r ha6l6r kid boed kam y vra6d, kanny deuthb6yd ynn y herbyn.

[1785]O dervyd rodi kam vra6d yn*n* erbyn bleid me6n dadleu, a dyfod y neb y barn6yd y gam vra6d arna6 y*n* erbyn, a gofyn y'r ygnad a'e kadarnhaeu, 'Os kadarnheu, mi rodaf vy g6ystyl i'th erbyn'; ac atteb o'r ygnad, 'Mi gymeraf gygor'; a d6edyd o'r neb a'e hamhoy6ys, 'Ni dyly di gymryd kynghor am y vra6d hon, kans [o] gygor y berneist a g6edy barnu y

1771 [†] gor*n*yn
1771 [††] palyl
1779 [†] kamt
1779 [††] a thrigain
1780 [†] mil a chant

datg[en]eist; 6rth hynny, ny dyly di eil gygor amdeni'; k*yfreith* a de6eid bod yn y de6is ef ae kadarnhau tra vo ynn y vra6dle ae nas kadranhao, ac ef a dyly kymryd kyghor, ef a'r ynifer a vy gyd ac ef ynn y vra6d. [1786]Os keiff yn y gygor nas kadar[n]hao, bid diffodedic y vra6d ac anolof; am y kamdadganu taled yr ynad gaml6r6 y'r argl6yd. [1787]Os keiff ynn y gygor y gadarnhay y vra6d, rodent y deu 6ystyl yn lla6 yr argl6yd, a'r hyn a ballo onadynt, kosber mal y d6eid k*yfreith* tafa6d a sarhaed†.

[1788]O dervyd y ynad varnu ynn erbyn bleid me6n dadleu, a g6rth6ynebu ida6 o'r neb y barn6yd arna6 [95] y vra6d a chynic g6ystyl ynn y erbyn kyn*n* y gyfodi o'e vr[a]6dle hep dyfod neb ynn y erbyn, ac ar hyn*n*y g6asgary yr orssed a'r pleideu, a bod ynn ydifar gan yr ynad nas kadarnha6ys a mynu ym6ystla6 ynna, a d6edyd o'r neb y barn6yd arna6, 'Ny dyly di ym6ystla6 ynna kanid ym6ysteleist yn*n*† dy vra6dle'; k*yfreith* a d6eid na ellir nac ym6ystla6 na chadarnhau bra6d namyn yn y datleu y barn6yd, a bod yn anolof y vra6d. [1789]Kaml6r6 a dal yr ygnad a'e barn6ys, kanid ia6n d6yn g6erth y dafa6d gan ballu y 6ystoloryaeth ida6.

[1790]Vn lle yg*hyfreith* y dylir ym6ystla[6] ac ygnad hep vod ynn y vra6dle: o varnu kam vra6d ar dyn dr6y dremic. [1791]H6n*n*6 a dycha6n hyd ymhen*n* vn dyd a bl6ydyn ym6ystla6 pan*n* vyn*n*o o byd ky6lad ef a'r ynnad; o hynny allan*n* y mae kaedic k*yfreith* rydynt ac ni dycha6n, namyn y bod yn*n* ha6l drabl6ydy*n*.

[1792]O dervyd y dyn holi peth o dreis, ac atteb o'r amdiffyn6r o 6ad, ia6n y6 barny y 6ad ida6 kani ellir g6y[by]dyeid† ar dreis; sef acha6s na ellir, am vod reith ossodedic yghyf*reith* erni ac na dyly g6ybydyeid lle dylyo reith vod; sef y[6] meint y reith, ll6 deg6yr a deugeint. [1793]Os adef a 6na ynteu, aduered y treis drachefen a dir6y y'r argl6yd. [1794]Os yr amdiffyn6r a d6eid, 'Ny dylyaf i dy atteb di am yr ha6l hon; sef acha6s y6 hynny, mi a advereis i ti drachefen y† [95v] da a holy ym, ac a dygymym a thi a*m*dana6, ac od amhey di hynn y mae ym diga6n a'e g6yr', reid y6 y'r ha6l6r g6ady hynny neu ardel6 o beth arall a vo g6ell. [1795]Os g6ady a 6na, m6ynhaer g6ybydyeid yr amdiffyn6r, kanid ar drais y dodes ef y 6ybydyeid namyn† ar yr edryd a'r dygymod. [1796]Od adef ynteu yr edryd a'r dygymod, trigied arna6. [1797]Os ef a de6eid yr ha6l6r, 'Ni 6adaf i adver a adver6yd ym o'r treis, sef y6 hynny, grod, a phynt oed y treis; mineu dodaf ar y g*yfreith*, kan na dyly6yf namyn vn geinia6c o dreis, y dlyaf 6ad am honno gymeint ac am punt, neu aduer ym vy *n*reis drachefen'. [1798]Os g6atta yr amdiffyn6r, g6aded val y d6edasam ni ychod; os adef ynteu, adverer y treis drachefyn a dir6y y'r argl6yd. [1799]Os ef a d6eid yr amdiffyn6r dodi ygof y llys na 6ad6ys ar vod edryd a'r dygymod, euthur na chafad k6byl o'r da, a dodi ymarn y g*yfreith* hyt nad treis hitheu bellach, namyn dlyed, 'Ac y 6ady dylyed na da6 ar[n]af namyn vy ll6 vy hyn'; k*yfreith* a d6eid am dylyed hep gedernid a hep bra6 na da6 yn erbyn vn tafod [y] yru ond arall y 6ady.

[19 O BETHAU ANGENRHEIDIOL MEWN GORSEDD]

[1800]Ped6ar peth ar pymthec yssyd reid y bod kyn h6anokau dlyed gorssed ar neb. [1801]Tri a berthyn y'r gorssoeda6c y 6neuth*u*r: eisteu yn gyfyon a chad6 ia6n y brenhin; kyfreithloni

1787 † harhaed
1788 † yn*n*y
1792 † g6ydyeid, *gyda saeth a* by *uwchysgrifol mewn llaw arall (?).*
1794 † y [95v] y
1795 † manyn

pleideu; roi ryfic y 6an*n* yn*n* erbyn y kadarn a'e dilyssu y ofyn ac y atteb. [1802]Deu a berthyn ar yr higill: tystu a g6ssio. [1803]Pymp peth yssyd reid y amdiffyn6r y gaffel kyn kollo: g6ys, ha6l, [96] atteb, barn, a thygnodef y dyfod y'r llys. [1804]A seith gynedef bra6d6r. [1805]Ac o llythra amser yn*n* erbyn g6ystyl, o dervyd y'r amdiffyn6r [vn] o'r pygkeu hyn*n*, reid y6 kymryd tervyn amdana6. [1806]P6y bynac a d6etto y vod yn*n* kael kam yn*n* vn o'r defnydyon hyn*n*, k*yfreith* a dyly y 6randa6.

[PEDAIR ALLWEDD YNADAETH]

[1807]Pedeir all6ed egnedaeth yssyd. [1808]Vn y6 myn*n*ych ofyn dy dysk. [1809]Eil y6 kad6 genyd y dysk a geffych. [1810]Trydyd y6 kary ac ofyn*n*hu dy athro. [1811]Ped6ryd y6 kary ky6rdeb a chassau kam, a hynny er kariad Du6 a'e ofyn, a thremygy yr oes: o byd[y by]6† hedi6, nu 6d6st a vydy yforu. [1812]A hefyd k*yfreith* a d6eid, pan vo y tafa6d yn*n* barnu y byd yr eneid yn*n* krynny. [1813]Ac 6rth hynny deu beth yssyd deuthineb o gyf*reith* yghyd, nid amgen: dysk a deuthineb natyryol; ac 6rth hynny y d6edir ny byd ynad neb er dysk ac ni byd ynad neb heb dysk; sef y6 hynny, er a dysko dyn, ny byd ynad ef ony byd doythineb ynn y galon, ac er maint vo y deuthineb nattyryol ni byd ef ynad heb dysk. De6i Brefi!

[CEIDWAID]

[1814]Llyma y lleoed y dyly keid6id vod. [1815]Kyn*n*taf y6 kad6 tir gan dyn. [1816]Eil y6 kad6 kyn koll. [1817]Trydyd y6 kad6 geni a meithrin. [1818]Ped6ryd y6 kad6 alldydaeth gan dyn. [1819]Pymed y6 kad6 breint gan dyn. [1820]Ch6eched y6 kad6 g6esteu. [1821]Ereill a d6eid y dyly keid6eid o dyn y† gad6 rac pob peth ar yrer arna6.

[LLWON]

[1822]Ll6 keid6ad y6 kymeint ac a dotto y gynga6s [96v] yn*n* y ben*n*, tygu bod yn 6ir pob p6gk. [1823]Ll6 g6ybydyad y6 tygu [g6ybot a g6elet] yr hyn a dotter ynn y ben*n*. [1824]Ll6 tyst y6 tystu ida6 gynt g6all a dyster ida6 g6edy ha6l a g6rtheb. [1825]Ll6 g6r nod y6 tr6y lith y perchen, tygu y gyfry6 l6 ac dygo lofryd ynn y blaen. [1826]L6 reith6r arall hep lith y6 bod yn dybykaf ganta6 bod yn*n* 6ir yr hynn a dygo yr enlibi6r ynn y blaen yn y dadyl honno. [1827]Ll6 enllibi6r y6 tygu y Du6 a'r kreireu hyt y gyrer arna6 o'r a vo perthynna6l 6rth y dadl honno dr6y gof a barn bra6d6r yn erbyn haerlygr6yd. [1828]Ll6 llofryd y6 g6ady hyt y gyrer arna6.

[OEDI CYFRAITH]

[1829]Hyn o dynyon a oeta kyf*reith* yn*n* diodor ydynt: hen, a heint gor6ida6c, neu vri6 neu vrath hyt na allo nac ar varch nac ar draed, ac na bo hydrym nac ida6 nac y genad, neu vord6y o acha6s g6eilgi, neu gam6ynt ryda6 a'hy ettyl, neu garchar kynogyn, neu agen argl6yd, neu na ry gl6o y 6ssia6. [1830]Pob vn o'r pyngkeu† hynny, nid o bleid yr amdiffyn6r y maent yn llesteira6, namyn y bod yn agenion gossodedic ynn y g*yfreith*; ac 6rth hynny nyd ymh6elant h6ynteu yn*n* aghyf*reith* y'r neb y bo y dadyl arna6.

1811 † o by6, *gyda saeth a* d *uwchysgrifol.*
1821 † dynyon
1830 † pymgkeu

[1831]Tri dyn a gaiff da kyffroedic[†] a dylyed kyffroedic[††] [o] var6olaeth y perchen o g*yfreith* ettifedion, ac ni ellir kymell vn ohonunt yn*n* bleid y daly yghyf*reith* ettifedion, nid amgen: eillt brenhin neu vreur, yr h6n*n* a eil6 k*yfreith* yn eillt prioda6l, yr h6n*n* a drikio gida y argl6yd yn*n* disymyd hyd [97] y ped6ryd dyn o bob parth. [1832]Eil y6 brenhin pan*n* damch6eino ettifediaeth ida6 o da y vab eillt a vo mar6 hep ettifed o'e gorff. [1833]Trydyd y6 pynn damch6einou y vreur disgin yghyf*reith* ettifed yn y gyffelyp vod y vab eillt a vo mar6 hep ettifed o'e gorff.

[1834]Ni ellir kymell neb yn*n* bleid y daly dylyed dros arall yghyf*reith* ettifed neu gidettifed ony byd disgynedic neu dreigyledic y'r ettifed neu gidettifed ia6n aniana6l oblegid y rieni neu gidettifed; ac 6rth hynny ni thal mab alldyd, yr h6n*n* a el6ir yn*n* vab aillt, dylyed y rieni neu gidettifedion 6rth na cheiff ynteu anianolder o'e plegid h6ynteu o ia6n disginedic neu dreigiledic. [1835]Ni ellir kymell neb yn daladr dros dyn a vo mar6 kyn taly dylyed odieuth*u*r tri dyn, nid amgen: ettifed a gaffo anianolder oblegid tad; eil y6 mach; tryd[yd] y6 kidettifed a gaffo anianolder oblegid kidettifed arall.

[1836]Tri dyn a saif tafodya6c absen drosdynt: vn y6 dyn a vo me6n pererinda6d tya Ryfein neu a bed Krist; a dyn a vo klaf gor6eida6c o vri6 neu vrath neu glefyd aniana6l arall hyd na alleu dyfod nac ar varch nac ar draed; a dyn a vo me6n kaethi6ed karchar; a hefyd dyn a vo me6n llyd argl6yd, kans penaf g6ass[an]aeth tir y6 me6n llyd o rif neu yfyllda6d, a h6nn6 yssyd pe[d]6ryd acha6s. De6i B*refi*!

[97[v]] [1837]O dervyd y dyn k6ynno k6yn aniana6l am dir a daear, a cheissa6 o'r amdiffyn6r symyda6 y berchnogaeth y arall kyn tervynu y k6yn, k*yfreith* d6eid nas dycha6n, kans k6yn a garchara y tir yn ll6r6 yr amdiffynbleid hynny retto k*yfreith* a barn rygta6 a'r ha6l6r.

[1838]Sef y6 k*yfreith*, kena6l kyfa6nder kyfr6g ha6l6r ac amdiffyn6r ac argl6yd. [1839]Sef y6 argl6yd, distein neu pentteuly neu y neb ossotto yn*n* y lleu, ony byd y brenhin ehyn, kans mediant ystynnu a chymryd a vyd gan yr hei hynny, a g6neuth*u*redic vyd yr h6n a 6nelont gan yr ygneid6yr, a thr6y arch y gorsseda6c h6nn6 y rodant h6ynteu barneu a dosbartheu gyf*reith* r6g y pleideu.

[1840]Ny dyly y brenhin y'6 6lad vn llyd oheni yhyn namvn vn 6eith bop bl6ydyn, ac ny dyly bod yn h6nn6 namyn peth6nos a mis. [1841]Ynn u 6lad ehyn ryd vyd brenhin [y] lydya6 pan*n* y myn*n*o, odieuth*u*r g6yr y vaerdref.

[1842]Tri dyn yssyd ni dylyir her6yd k*yfreith* erbynia6 neb neu 6randa6 [yn] kanhepr6g k6yneu racdynt yghyf*reith* gorssed gyf*reith*a6l, megis me6n dadleu brenhin; ni red k*yfreith* d[r]emic arnynt o neb ry6 defnid nac achos ynvd gal6. [1843]Kyntaf y6 g6r a el y lyd brenhin o 6assanaeth tir a gynhaler dan y brenhin, ka*n*s penaf g6ssanaeth tir myned y lyd y brenhin 6rth y reid neu yfyllda6d; neu dyn a rodid yg6ystyl y arall 6lad o dyndeb g6lad ac argl6yd yn gyd[98]ernid ar gado hed6ch kyfr6g argl6ydiaetheu a pendefigion; ac 6rth hynny y dyliyr her6yd k*yfreith* gad6 pob peth o'e heidia6 h6ynteu yn gymen megis y beu ynna, na da kyffro vei na da digyffro vei; kans yn reid y brenhin a 6assaneth yr oedynt h6ynteu, ac acha6s hyn*n*y y dyliyr yn*n* dilesteir gynhal y hansa6d h6ynteu o bleid y brenhin hynny delont o'r

1831 [†] kyffroedidic
1831 [††] a dylyed kyffroedic a dylyed kyffroedic

g6ssanaeth dlyedys h6n*n*6. [1844]Eil y6 dyn a damch6einei ida6 6neuth*u*r g6eithred hyd na alleu gaffel kymedi6eu egl6ys Du6 hyt pan*n* gaffei y rydhay gan y pab; os g6edy darffei ida6 gymryd y fford y'r brerinda6d y kyffrod ha6l arna6, ni dylir g6randa6 yr ha6l6r na chyn6ys y deissif me6n g6eithred k*yfreith* hyny vei lithiredic vn dyd a bl6ydyn o'r dyd y hadnepid kych6yn y pererin o'r gynylloryaeth allan, kani dylir ker6yd k*yfreith* symydya6 ansa6d na mediant dyn a orffei arna6 geissia6 rydid du6a6l o acha6s g6eithred andu6a6l hyt ar yr amser y gallei dyfod drachefen. [1845]Trydyd, gor6eidia6c o glefyd aniana6l neu dyrnod neu vrath; tystolyaeth y medic neu periglor a gredir ynn y lle h6nn6, gan dygu na allei y kl6yfys dyfod wrth gyf*reith*. [1846]A llynna y tri lle ni dylir o bleid argl6yd kymell ar vra6d6r varnu† ar absendra pleid yghyf*reit*h tremic, na chyn6ys deisif ha6l6r ar vediant neb o'r hei hynny; [98v] kans y pygkeu hyn*n*y a vydant adnabydys a chyhoyda6c gan y bra6d6yr††, kans tystolyeth kyhoed [yssyd] gredad6y yghyf*reith* gyffiredin ynn y lleoed hynny. [1847]A llynna y tri lle y seif dadl6ryaeth dros bleid absen ac y dyly yr argl6yd oedi k*yfreith* hep 6randa6 deisif na llafyrya6 bra6d6yr me6n g6eithred k*yfreith* ynn y lleoed d6ededigion ychod.

[1848]O dervyd bod amrysson r6g llys kym6d neu gantref am varn ac [na]† beint gyfyn, ettrycher ble bo y deuparth ac ynno barnner, kans y deuparth a d6yssa y trayan ymhop lle.

[1849]Or byd y oressgyn6yr neu dlyeda6c tir ettifedion kyf*reith*a6l ac ereil aghyf*reith*a6l, y k*yfreith*a6l a geiff g6edy y tad holl dref y tad. [1850]Ony byd y'r tad ettifed kyf*reith*a6l namyn yr aghyf*reith*a6l, efo vyd ettifed o dref y dad. [1851]Ac velly mae ia6n y'r ettifedion hynny, or bydant gy6i6 yg6assanaeth y brenhin perthyna6l att y tir. [1852]Euth*u*r tri ettifed kyf*reith*a6l yssyd yg*hyfreith* nid ynt gy6i6 yg6ssanaeth y brenhin, ac ni dylyant gynal tir dan*n* y brenhin g6edy y tadeu, nid amgen: dall, a bydar, ac efryd, o acha6s na allant g6blay g6ssanaeth perthyna6l y'r brenhin o'e dir, a hynny o diffic nerth korffora6l me6n dadleue, a llydyeu, a lla6er o leoed ereill. [1853]Y dianaf o'e klysteu a'e traed a'e llygeid, er y bod h6ynt aghyf*reith*a6l, tir y tadeu g6edy eu tadeu a enillant her6yd k*yfreith* gan y brenhin yn*n* hollha6l, ac a'e kynhalant yn*n* berthyna6l [99] ydynt euhynein ony byd y'r hei an*n*afys hyn*n*y ettifedion dianaf o'e kyrff.

[1854]Or kyll perchen tir y lygeid megis na 6elo, a'e glysteu megis na chl6o, neu draed megis y bo efryd, ni dyly† ef gynal tir dan y brenhin g6edy hynny namyn or byd ettifed ida6, neu gidettifedion tir megis brodyr neu ereill, rac diffigio g6ssanaeth y'r brenhin o'e dir.

[1855]P6y bynac a gymero dlyed dyn anafys o dir, pryderu y dyn anafys a orvyd arna6 tra vo by6 o v6yd† a dillad tra vo by6.

[1856]Tri dyn a ellyr y llyssu o'r vn ry6 ach6ysson, nid amgen no galanastra, a thirtra, a g6reicdra: tyst, g6ybydyad, a lli6ad k*yfreith*a6l.

[1857]O dervyd gal6 ar dyn me6n dadleu, a chyn rodi barn arnna6 dyuod ac ymgynic y g*yfreith* dioir, os y 6rthod a 6neir ida6 bid ryd o'r ha6l a'r gofyn, kanni dylir g6rthod y neb amgynikio y yfyllda6d; ac or g6rthodir, breint kad6 g6edy g6rthod vyd, a'r kosp a dylyeu vod ar yr amdiffyn6r bid ar y s6yda6c a g6rthodes, achos o 6all y s6yda6c yr aeth yr amdiffyn6r yn ryd.

1846 † vranu
1846 †† bra6d6d6yr
1848 † *Ar ymyl y ddalen mewn llaw arall.*
1854 † dyly / dylu
1855 † vo6yd

[Y TRI LLYFR CYFRAITH]

[1858]Pan symyda6d Ho6el Da g*yfr*eitheu kyffredin Kymry o dyll Dyfyn6al, tri llyfyr a ossodes: vn 6rth y lys benydya6l bress6yl† yda6 euhyn; a'r eill yn*N*inef6r o vreint Deheubarth; y trydyd yn Yberff[r]a6 o vreint G6yned a Pho6ys. [1859]Amrafael vreineu a ossodes [99v] y amryfaelon lyfreu; a hefyd yG6yned a Pho6ys vn bra6d6r s6yda6c, a chyf*reith* penkenedyl, a chyf*reith* kaith ac alldydion, a'r dadanhydeu byryon, a phra6f y ha6l6r, a datl ym6rthrym, ac oed 6rth borth; ac ni ossodes ef yn*n* llyfreu Deheubarth vn o hynny bygkeu d6ededicion. [1860]Ac ef a 6ahana6d amryfaelion vreineu y amryfaelon drefyd a chymydeu a chantrefoed racde6edigion. De6i Breui!

[HAWL]

[1861]Mae yg*hyfreith* Ho6el ha6l, ac g6rth-ha6l, ac ara6l, ac araba6l. [1862]Sef y6 dyall hynny, megis pei damch6eineu y dyn 6erthu march y arall tr6y vechni erbyn di6arn6d ar gaffel tal, a ch[6]yna6 am y 6erth, a do[d]i† o'r hamdiffyn6r yn erbyn yr ha6l6r am y march a brynyssei vn o'r pyngkeu hyn*n*, ae'r dera, ae'r llynveirch, ae'r dy esgefeint, a[e] bod y*n* lly6ygys, a d6edyd y dylyeu edryd ida6 yr hyn a varneu g*yfreith* ida6 am yr hyn a dotteu ynn y erby*n* o'r pygkeu hynny; k*yfreith* a d6eid na dylir yl6ya6 ida6 yr atteb h6nn6; sef acha6s, am y bod yn*n* 6rth-ha6l a bod k*yfreith* yn*n* d6edyd na dyliyr dodi g6rth-ha6l yn*n* erbyn ha6l.

[1863]Sef y6 dyall araha6l: or damch6eina y dyn venthykia6 march neu beth arall gan*n* dyn, a chyn dyfod y march adref att y berchen kyfodi ha6l o arall ar y march yn lla6 benffygi6r a g6neuth*u*r ry6 dal o da y'r neb a'e holei, ac rodi meicheu ar y march y'r neb a holei me6n di6arna6d ony chaffei 6arant [100] amdana6; a g6edy hynny dyfod att y neb a'e benffygia6d ida6 a cheissia6 ganta6 dyfod y 6rantu y march ida6† neu daly y da y'r benffygi6r a dalyessau y'r neb a holyseu y march ida6, ni dyly y neb a roes y march y venthic vyned y 6aranty yda6 na thalu neb ry6 da y'r benthygi6r am lynyaeth na masnach a 6nelei benffygi6r yn abssen y neb a rodassay y march ymenthic, kans bod hynny yn*n* arha6l ar y benthic, a bod k*yfreith* ynn d6edyd p6y bynac a venffykio enifeil na dim arall, y dyly dyfod adref hep ha6l a hep arha6l drachefen arnyn.

[1864]Dyall araba6l y6: pei damch6eineu y dyn gofyn a holi peth a darffei y dervyny ynn y blaen dr6y dervyn k*yfreith*a6l, nis dyly; kans arabed ma6r a g6at6ar y geil6 k*yfreith* g6yno am y ry6 ha6l honno m6y, ac ni 6rande6ir byth. De6i!

[DADL LLYS AC EGLWYS]

[1865]Or dervyd y 6r o'r egl6ys holi g6r o lys, holed ynn y llys. [1866]O dervyd y 6r o lys holi g6r o'r egl6ys, holed yn yr egl6ys. [1867]Wrth hynny, ni dyly g6r o lys hepr6g y ha6l y'r egl6ys m6y no g6r o'r egl6ys y'r llys; sef acha6s nas dyly, am gymell o'r kledyf ia6n y'r vagyl. [1868]Eissoes seith ragor a ordinha6yd ac a 6nethb6yd y'r egl6ys ar y llys 6rth vod yr egl6ys yn*n* ben, ac am y seith hynny dyly g6r o lys hebr6g y ha6l y 6r o'r egl6ys hyt yr egl6ys; sef y6 y seith hynny: deg6m, daered, priodas, kymvn mar6, ysbeil alla6r, trais goleu ar 6r e[g]l6issic, a sarhau grad6r egl6ys. [1869]Vn ragor yssyd y'r egl6ys roc y llys vrenhina6l am dir: tervynny ynn y blaen [100v] o byd bagyl ac efegil idi.

1858 † bress6 / 6yl
1862 † doi, *gyda saeth a* d *uwchysgrifol mewn llaw arall.*
1863 † idia6

[DADL TIR A DAEAR]

[1870]Am dadyl tir a dayar.

[1871]P6y bynac a vynno holi tir a dayar, o vn o h6ech fford y dyly holi: sef ynt yr hei hynny, ach ac edryd, a phriodolder, dadanyd, prid, a lloc, a benthic. [1872]Ac o vn o deir fford yr attebir ida6: sef y6 y teir hynny, ae o 6ad, ae o adef, ae ardel6 k*yfreith*a6l.

[1873]O dervyd ida6 mynnu holi tir dr6y briodolder, ef a dylir rodi ida6 y tir onys kyll [tr6y] dryc dadl.

[1874]Os o ach ac edryd y ha6l, ni dylir atteb ida6 hynny adnnabo hena6dyryeid g6lad y ach a edryd, ac o g6dant bod yn*n* ia6n ac yn*n* 6ir; ac onys tyga*n*t hynny, kaedic vyd k*yfreith* ida6 hynny tygont. [1875]Os tygant, yr amdyffyn6r a dyly dodi ardel6 k*yfreith*a6l, or byd ganta6, ae [o] vod g6yd6aled ky6lad, ae [o gar]kych6yn, ae o ardel6 arall k*yfreith*a6l or byd, yn erbyn yr ha6l6r hyd na dylyer y 6randa6. [1876]A gallel ohona6 proffi yr ardel6 h6nn6 dr6y dyston ad6yn ni aller na llyssiant nac ameu arnynt, kaedic vyd k*yfreith* ida6 ony dycha6n y hagori. [1877]Ac yn*n*a y dyly yr ha6l6r dangos y ha6l ac y dyly yr amdiffyn6r [dangos] y amdiffyn, ae o 6ad ae o adef; a honno a el6ir 'g6ir a chyf*reith*'. [1878]A'r dyd h6nn6 y kyll y lleill ac y henill y llall, a'r dyd h6nn6 y dylyant rodi g6ystlon ar dag[ne]ued teil6g. [1879]Ac os vn ohonnynt pan vo ha6l ac atteb rygtynt a dysta ar y llall, a d6yn [101] o'r tyston y tystolyaeth yn da, ac na aller y llyssu na'u hameu, yr ynad a dyly barnu y'r neb a tysta6d gael, ac y'r llall golli. [1880]O dervyd na phallo vn ohonynt, [n]ac ar air nac ar dystolyaeth, raner yn*n* deu haner.

[1881]Os dr6y dadanyd y ha6l a bod dadanyd kyn*n* noc ef, ny eill yr eil dadanyd g6rthlad y kyntaf. [1882]Ony byd ynteu dadanyd kyn*n* h6nn6, a mynu o'r ha6l6r ardel6 o briodolder, a'r amdiffyn6r yn ardelo hefyd o briodolder, ac na aill vn ohonynt g6ady y gylyd; a honno a el6ir 'dadyl ym6rthrym'[†].

[1883]Os o gyfne6id y ha6l a d6edyd rodi da dros dir, mab y neb a'e kyfne6idia6d[†] a aeill d6yn y tir drachefen gan*n* daly y da, kans pob tir trag6da6l y6, a phob da draghedic y6, ac ni dylir rodi peth trag6da6l er peth traghedic; ac 6rth hynny ni dylir kyfne6idia6 tir dros da.

[1884]Os tr6y loc y myn*n* y holi, ef a dyly profi bod[†] m6ynant ida6 o'r tir tr6y dyston ad6yn, ac ony eill yr amdiffyn6r myned ynn y erbyn, roder y tir y'r ha6l6r; os dycha6n ynteu, ef bieu tygu am y tir ka*n*s ganta6 y mae kyg6arachad6.

[1885]Os o venthic y myn y holi, ef a dyly dangos hanvod y tir h6nn6 o'e dylyed ef, a'e vod yn dref tad ida6, neu gaffel gan y gidettifedion, a chaffel onadynt h6ynteu dy a thal ganta6 ef dros y tir h6n*n*6, a bod mediant bl6ydyn a blynyded, a bod ida6[†] [101^{v}] a'e g6yr, ac nad aeth ganta6 o rod, na o 6erth[††], na o ymydadleu, ynnamvn o venthic; kanys pob benthic a dyly dyfod yn*n* gystal ac i roder y'r neb a'e benthygua6d, ia6n y6 dyfod[†††] h6nn6 adref. [1886]Or dychon yr ha6l6r profi hynny, ef a dyly kaffel y dir; holed yr amdiffyn6r y tir os myn.

1882 † ymr6thrym
1883 † kyfne6ididia6d
1884 † pod
1885 † ida6 [101^{v}] ida6
1885 †† na oeirth
1885 ††† dyfod dyfod

[1887]Ony dycha6n yr ha6l6r profi hynny, yr amdiffyn6r a dyly kad6 y tir, kans keid6ad neu orcheid6ad y6. La6rens verthur!

[ADNAU]

[1888]P6y bynac a gollo adneu a roder atta6 y kad6 tr6y y 6all ef, talet gymeint ac a golles; ac os yn lledrad y dyc keid6ad, taled yn deudyblic.

[1889]Ynn lyfyr a el6ir Byched y Tadeu y mae ynn dangos yn*n* ysgrifenedic gymryd o vanach adneu y kad6, a g6edy y var6 nid adeu yr agel erbyn yr eneid y orff6yssua yr eneideu hynny daleu yr adneu; ac 6rth hynny, ymchoelyd yr eneid ynn y korff y daly yr adneu a drachefen adref. [1890]Pan geisid kymei*n*t a hynny gan y mar6[†] am adneu, ia6n y6 keissa6 peth ma6r gan y by6.

[1891]Pob adneu a dylir y dalu ond adneu egl6ys. [1892]Lle glendid y6'r egl6ys a mam bop dyn, a g6ahardedic y6 kad6 adneu ynndi, kans ty g6edie y[6] ac nid ty ladron; kans g6ahardad6y y6 kad6 adneu y[n]di, ni dylir talu adneu a dyker yn*n* lledrad oheni.

[TRIOEDD etc.]

[102] [1893]Ped6ar dyn a dyly dadanyd o gorff y neb a vy var6 yn berchen y dir: mab, ac 6yr, a gor6yr, ac ettifed kyssyfeina6l o'r llia6s ettifedion.

[1894]Ped6ar dyn a geiff estyn. [1895]Vn y6 kidettifed g6edy ran*n*o brodyr dref y tad rygtynt, a diffodi y lleill ran hep ettifed o'e gorff: y by6 y geiff estyn o'r tir h6nn6. [1896]Eil y6 eil ha6l o'r llya6s ettifedion, kyn rany, y keiff ystyn o'e lath dlyed. [1897]Trydyd y6 dyn a dyly ystyn o dir kynyd a enillo tr6yda6 ehyn. [1898]Ped6ryd y6 ystyn g6archeid6adaeth. [1899]A llynna y g6ahan yssyd r6g dadanyd a ystyn.

[1900]Tri pheth yssyd y dychon dyn golli y dadyl ohonynt er daed vo y defnyd o 6ir a chyf*reith*: sef ynt y tri hynny, llys kyn amser, a thyst ar vach, a chad6 g6edy g6rthod.

[1901]Tri brodyr y dyly vn ohonynt dref y dad ac nis dyly y deu ereill, ac ynn vn vam ac ynn vn dad o'r vn g6r priod ac o'r vn 6reic briod: sef y6 yr vn a'e keiff, dianaf; sef y6 vn o'r deu ereill, myd; arall y6 klaf g6an: seff fford y difer[n]ir y klaff g6ahan, am na heni6 o'r byd; trydyd y6 myd kan*n*s agh6byl y6 o dafa6d, ac ny dyly ynteu vod yn vra6d6r, kans ni ellir c6byl o agh6byl, ac 6rth hynny nid dyn ynteu ac am nad dyn ef ny dyly vod yn*n* vra6d6r.

[1902]Tir y llader kelein amdanna6, [102[v]] neu m6y, hep negydyaeth o g*yfreith*, h6nn6 a el6ir yn*n* 6aetttir a phlant y neb a lader bieifid y tir h6nn6.

[1903]Tri g6reidyn aniana6l yssyd y'r vn geir k*yfreith*: g6irioned, kid6ybod, a dysk. [1904]Ony chyflad y rei hynny, ni cheiff k*yfreith* y hen*n*6. [1905]G6irioned y6 g6reidyn baran; kid6ybod y6 g6reidyn kyfraniad; dysk y6 g6reidyn kynhebrygiad dadyl; a'e herbynyad anhervynad6y y6 bop kyga6s ni th*er*vyner dr6y y g6reideu hynny.

[1906]Teir perchnogaeth yssyd ar dir hyt ar amser ac a vydant gargych6yn, ac oessoed yssyd ydynt: oes deilad ar dir dyn arall, vn dyd a bl6ydyn a thri ni6arna6d na6d; oes ystynol, hyd pan rodo y vreint a'e ansa6d o'e la6; oes g6rthrifiad, hyt pan y kymhello yr argl6yd y wellhay y vreint a'e ansa6d, ac os g6rthyd kaeedic vyd k*yfreith* ryda6 ac ef ynn vn o'r modyon y mae y dylyeda6c golli y dir; sef y6 g6rthgrifiad, yttifed kyssefin y gaffel dadanyd.

1890 [†] gan y mar6 gan*n* y mar6

[1907]Tri goresgyn yssyd ni dylir kaffel m6y[ni]ant† ohonynt. [1908]Vn y6 goresgyn o anvod. [1909]Eil y6 goresgyn hep 6ybod. [1910]Trydyd y6 goresgyn y bo ymr6ym† a phoen arna6 er hyd y bo yndo, megis obligassion neu esgrifen arall. [1911]Ny chyll dyleda6c y dir er myned rifedi o dynyon dros ben na6ved ach pei galleu 6irio vod llef treisic yn ol ar yr amseroed k*yfreith*a6l, kans nid a [103] ha6l yn ll6r6 g6yd6aled yn erbyn dlyeda6c nes tervynny yr ach6ysson ychod.

[1912]Ni chygein k6yn sefydla6c namyn o dri mod, sef y6 y rei hynny: o dervyd y ha6l6r defnydya6 k6yn att s6ydogion yr orssed, ac yn y dyd kyntaf gal6 pleid ac na del yr ha6l6r 6rth y al6, ac ynno deisif o'r amdiffyn6r varn o rydid a'e varnu ida6, ac ar hynny yr ha6l6r yn*n* dyfod y'r orssed ac yn ach6yn 6rth yr argl6yd a'e s6ydogion vod y ia6n a dylyed yn dioberu o gyf*reith* kyn llithra6 y dyd a rossoed y brenhin y rodi k*yfreith*; kans diodor y6 pob peth ar gymeint ac y g6allokaod yr ha6l6r y vyned dan y gaml6r6, ac 6rth hynny y dycha6n yr ha6l6r dysty y'r argl6yd nad ydy yr amdiffyn6r yn g6ady, ac ynna y dychon g6yna6 y*n* sefydla6c. [1913]Eil mod y kygein k6yn sefydla6c: o dervyd y ha6l6r holi ynn y llys dygynyll, a g6r y brenhin yn eisteu ar y llys honno, nid oes oed ida6 y atteb; y dyd h6nn6 y dervyd y g6all gyf*reith*eu a'r kamdefodeu a g6an gymydeu, ac nid oes oed y amdiffyn6r, kans m6y y6 y dystolyeth honno noc oed. [1914]Trydyd lle y kygein k6yn sefydla6c y6 pan ada6o s6ydoc y 6ialen s6yd; yn y lle h6nn6 ni ossoded oed yn y gyf*reith* honno, kans y brenhin a dyly dangos g6ialen y s6yd ynn digam y ba6p. De6i Breui, *e*t c*etera*!

[DAMWEINIAU]

[103v] [1915]O deruyd y dynion wneuthur amod am bysga6d yn*n* hela, hep y neill, 'Y pysk kyntaf a lader y mi'; hep y llall, 'Y pysk di6ethaf a lader y mineu', ac na las namyn vn, k*yfreith* a d6eid lle bo kyhyded y dyly ran deu haner vod rydynt.

[1916]O dervyd y dynyon hela pysgod, ac yn*n* yr helynd dyfod dynyon ereill attynt 6rth lad a myny rann, h6y a dylyant rann ony dervyd y dodi ar latheu neu ar 6ydyn; o bydant velly ny dylyant dim.

[1917]O dervyd y vra6d adeiliad o valaen y llall, ni dyly kych6yn erda6 o'r lleu y hadeilia6d namyn rodi ida6 ynteu dy a thal am y lle h6nn6. [1918]Sef y6 ty a thal, gan y neill ystylys y'r ty y bo ef yn eisteu arna6, a chan y dal; ac ony byd ty a thal ida6, kyfraned ac ef yna 6rth nad reid ida6 [vyned] odyna6, onyd ef a'e myn.

[1919]O dervyd holi mab am aghyfarch y tad, k*yfreith* a d6eid na dyly y mab atteb am aghy[f]arach y tad.

[1920]Pob kyflafan a 6nel dyn o'e anvod, di6cied o'e vod.

[1921]Or llad dynyon ynnvyd dynyon ereill, taler galanas drostynt mal dros dynyon ereill, kans y kenedyl a dyly kad6 rac g6neuth*u*r drok ohonynt. [1922]Pa dyn bynac a llado yn*n*vyd, taled alanas drosta6 val dros b6ylledic. [1923]Ni di6gir sarhaed a gaffer gan dyn ynnvyd, ac ni di6giry sarhaed† a gaffo ynteu.

[1924]Nid g6*n*euthuredic dim a 6nel dyn med6, [104] na mach a rodo, na pheth arall ada6o.

1907 † m6yant *wedi'i danddotio, a* mwyniant *ar ymyl y ddalen mewn llaw ddiweddarach.*
1910 † ymr6yn
1923 † di6gigir y sarharaed

[1925]Tri lle yssyd her6yd k*yfreith* y dyly datl gynhenys y thervyny tr6y dedryd g6lad yn erbyn haerllygr6yd kyfr6g ettifedion o amryfaelyon deilygda6d neu vreint. [1926]Vn y6 dadl o gidettifedion, yr h6nn a dyg6yd dr6y dylyed aniana6l: kyntaf y6 o dervyd geni mab y 6reic o'e g6r priod, a geni mab arall o'e gorderch, a g6edy mar6olaeth y g6r briod dyfod y mab anedua6l gida'r defua6l y dadleu yr argl6yd y ofyn ran o'r ettifediaeth o acha6s y eni ynn y g6ely k*yfreith*a6l a veuthrin vn dyd a bl6ydyn ac ach6anec ar allu y tad k*yfreith*a6l; k*yfreith* a d6eid er yr ach6ysson hynny na dyly† gaffel dim ony dycha6n d6edyd y vod yn*n* vab o gorff y neb y tyf6ys grym yr ettifediaeth o'e blegid, kans k*yfreith* a de6eid na dyly neb dlyed aniana6l onyd vn a hanffo o gorff y neb y tyfo y dyled o'e blegid, neu y neb a vo nesaf y'r neb a vo mar6 hep ettifed o'e gorff††.

[1927]P6y bynaac syrhao y gilyd [o] 6erin y pedeir g6lad hyn*n*: Deheubarth, G6yned, Po6ys, Lloyger; taled pedeir bu a phed6ar ygeint o ariant ida6. [1928]P6y bynac a dalo galanas y gilyd, teir bu a thrigein mu hep drychafael a dal.

[1929]Cleifion pan*n* amada6ont [104v] o'r byd h6nn a dlyant daly eu ebedi6eu eu hargl6di, a hynny 6rth eu breint ehynn.

[1930]Galanas propost Llann Ismael, Llonnyo, Dymbych, Llann Riein, h6e bu a thrigeint mu, a davad a h6ch r6g pob d6y vu ohonynt, a maenor, a golchydes; a chymeint a hynny y6 galanas pob propost yn*n* yr holl vyd. [1931]Trayan galanas p*ro*post y6 galanas aela6d, nid amgen y gar.

[1932]G6erth g6asga6d l6yn, punt y6. [1933]G6erth glas der6en, trigeint y6.

[1934]P6y bynac a gynhattao llad y argl6yd, eneid vadeu vyd megis brad6r.

[1935]Be sa6l na6 yssyd yn*n* y g*yfreith*? nid amgen, na6 affeith galanas, a na6 affeith tan, a na6 affeith lledrad, a na6 tafodia6c, a na6 kyn[y6]edy teithia6c (priodas, ag6edi, karadas, dei p[r]ivei a lladryd gida hynny, a llathryd t6yll, a g6reic ll6yn a pherth, na6 g6eith kyni6edi ar l6 [ac] arvoll, t6yllvor6yn), na6 geir kygha6ssed, na6 nos g6estei, na6 nieu tervyn, na6 ygeint di6ad, na6 modved, na6 dyrnved, na6 troedved, na6 g6ryd, na6 mis tymp.

[1936]Pymp prifei g6reic, nid amge*n*: y heg6edi, a'e hamobyr, [a'e hargyfreu], a'e g6huyn, a'e sarhaed; y h6eched y cho6yll.

[1937]P6y bynac a doro y va6d 6rth y la6, taler haner g6erth y lla6.

[1938]O dervyd y dyn holi tir a dayar o gyfran brodyr neu gefender6 neu gyferder6, ia6n y6 dyfod ar y tir a d6edyd ohonna6 ef y ha6l her6yd y dylyo, ae vod yn*n* bria6dr ae vod ynteu yn*n* dlyeda6c arall, a bod ida6 ynteu [105] ran o'r tir h6nn6; ac od oes a'e hamheuo y vod ef yn*n* brioda6r, mae ida6 diga6n a'e katt6o yn*n* brioda6r; ac od oes a d6etto kaffel ohonna6, mae diga6n ido a'e g6yr y vod hep ran. [1939]Ony 6edir y vod ef yn*n* dylyeda6c, ia6n y6 kyfranny ac ef. [1940]O g6edir, ia6n y6 m6ynhau y geid6eid yr ha6l6r†. [1941]Os ef a dy6eid, 'Ni 6adaf dy vod yn*n* brioda6r yma, eissoes ty a thal a gefeist am y lle h6n*n*, a thitheu a'e kymereist a h6nn6 yssyd genyd; ac od amheu di hynny, mae ym diga6n a'e g6yr; ac ar y g*yfreith* y dodaf 6rth gaffel ohonat di g6byl, ac na dly ditheu dim'. [1942]Od adef yr ha6l6r hynny, bid ar y gafas. [1943]Os g6atta ynteu, m6ynhaer y g6ybydyeid yr amdiffyn6r. [1944]Os ynteu a d6eid, 'Dechreu holi a 6neuthym, a d6edyd vy mod ynn dlyeda6c yno a'm bod hep

1926 † dylyly
1926 †† *Dilewyd nifer o eiriau ar ddiwedd §1926, a gadawyd y triawd heb ei orffen.*
1940 † amdiffyn6r

ran o'r tir h6nn6; ac or bai a'e hamheuo vy mod yn*n* dlyeda6c bod ym diga6n a'e g6yr; ac o bai a'e hamheuo vy mod hep ran bod ym diga6n a'e g6ypei; ac nid vy mod yn*n* brioda6r a dodeis ymhen y g6ybydyeid, ynnamyn vy mod yr a6r hon*n*; sef acha6s yd6yf, 6rth vy mod hep ran*n* ohonna6, ac ni 6edeist vy mod i yn*n* brioda6r; ac ar g*yfreith* y dodaf vi nad llesteir arnaf i yr ardel6 a d6edeist di y v6ynhau vy nhyston a'm keid6eid.' [1945]K*yfreith* a d6eid, ynn y lle y holo dyn peth dr6y dyston a cheid6eid, ony ch6byl 6edir yn y erby*n* [105^{v}] y dyly m6ynhau y tyston neu geid6eid [o byd ha6l y dylyer dodi tyston neu geid6eid] erni. [1946]Od adefir yr ymadra6d a cheissa6 difa yr ha6l dr6y ardel6 arall k*yfreith*a6l, ofer y tyston yno, kanys nyd ydi6 y dyn yhyn ynn u adef yr hyn a doded arna6, ac 6rth hynny rydheid y bra6 arna6 y'r ha6l6r; sef oed hynny, y vod ef ynn 6ir brioda6r ac nis amheu6ys, namyn y vod yn brioda6r gynt; ac 6rth hynny y dy6eid k*yfreith*, k6byl adef hynny ac y dyly yr ha6l6r m6ynhau y tyston, ac o bydant safedic y dyly ran*n*y ac ef yr amrysson. [1947]A pheu tysteu yr ha6l6r na 6ada6d yr hyn ad6ad ac erchi bra6d 6rth hynny, nid reid ida6 yn*n*teu 6rth dyston ereill, namyn gan*n* na 6ada6d ad6ad rac bron*n* ynad ranny ac [ef] a dyly ynteu.

[1948]Ny dyly neb varn*n*y ar y llys namyn bra6d6r y llys, nac ar y 6lad namyn bra6d6r y 6lad, nac ar nodua namyn bra6d6r y nodva, nac [ar] log namyn y ll6yth.

[1949]Teir kyflafan nid oes sarhaed ynndynt: vn y6 dyrnod mab kynn oed k*yfreith*a6l, pedeir bl6yd ar dec; a dyrnod o ediged k*yfreith*a6l; a dyrnod o an*n*vodeu. [1950]Y g6aed a'r 6eli a dylyr [y taly], a'r assg6rn t6n*n* o'r byd.

[1951]Teir diasbad y6ch advan yssyd. [1952]Vn y6 dlyeda6c am dir g6edy bo yg6lad arall hyd ymhen na6ved ach, a d6od ohonna6 att yr argl6yd a dodi diasbad geir y vron am y ia6n a'e dylyed, a gofyn o'r argl6yd y'r hena6dyrieid [106] a'e tygant y ach, kanys y dlyeda6c bieu d6yn y ach ynn y blaen a hena6dyryeid g6edy ynte y dygu. [1953]Ac onys g6ybydant, a'r dlyeda6c yn*n* gofyn y'r argl6yd g6edy pallo yr hena6dyryeid o dygu y ach, ac ynteu yn*n* d6yn y ach y'r tir a'r dayar ac y'r dref y heni6 oheni, argl6yd a dyly rodi y tir ida6 kani thygo yr hena6dyryeid y ach, g6edy y bo yr hy6 dyn h6n*n*6 y maes o'e 6lad hyd ymhen y na6ved ach, ae ef o deol, ae o alanas, ae o var argl6yd, ae o 6ystloryaeth, a'r na6ved dyn h6n*n* ynn myned o brioda6r ynn amrioda6r; ynna y gyf*reith* yn*n* mynny y gyn6ys ar y dylyed, sef y6 hyn*n*y, kymeint a'r g6r m6yaf a 6archatt6o ynn yr oes y del ef y'r tir. [1954]A h6nn6 a el6ir ynn diasbad y6ch advan, ac ni 6rande[6]ir dyn o'r na6ved ach allan. [1955]Eil y6 mab uchel6r am y alltydyon pan amada6ont ac ef hep 6neuth*u*r ia6n ido. [1956]Trydyd y6 g6reic am y g6r, kanny dyly kenedl gymryd dilista6d hep y chenad g6edy g6ra.

[1957]Ynn bed6eryd dyn yr a dyn yn*n* brioda6r; ni diffud y briodolder[†] hynny del y na6ved dyn.

[1958]Tri pheth a dylir y kymryd hep genad: dyf6r hep vod me6n llester, a maen hep vod me6n g6eith, a than o geubren.

[1959]Tri pheth ni ch[yg]ein: hocked me6n ll6, esgys yghyffes, ac ymdired y hir einoes.

[LLEDRAD]

[106^{v}] [1960]P6y bynac a gaffer lledrad ynn y dy neu ynn dibleu y ty gan vod kyfaned ynnda6, kyd boed ida6 a gatt6o y gorff rac lledrad, ef a dyly gad6 y ty; ac 6rth hynny y barn k*yfreith* y

1957 [†] briodo / ldeder

ty ynn halokty, ac a vo yn*n*da6, euthur adneu [dyn arall][†]; kan*n*y dyly perchena6c yr adneu gad6 ty arall rac lledrad, ny byd kolledic yn*n*teu o'r adneu ac o'r eidia6.

[1961]Ny dylir maedy g6reic onyd o dri acha6s: am rodi peth ni dylyo; ac am gaffel g6r arall genthi; ac am dyuno mefel ar varaf y g6r.

[1962]Tri dyn ny dyliyr y klady yghysegyr: lleidir a dienydyer am ledrad; a brad6r argl6yd; a ffyrnig6r a dienydier am y ffyrnicr6yd. [1963]Sef y6 ffyrnicr6yd: myrna6 dyn, a llad dyn a g6en6yn, a dif6yna6 da ida6 ef yhyn ac y'rr perchena6c.

[1964]Tri dyn a diagk hep vod yn*n* enneid vadeu am ledrad kyfadef: ysgolheic corona6c ni dylir am y ledrad kyntaf namyn y diyrda6 a'e ell6g yn*n* llyc. [1965]Eil y6 mab kyn*n* y vyn*n*ed ynn bedeir bl6yd ar dec. [1966]Trydyd y6 dyn aghyfyeith ni 6ypo k*yfreith* y 6lad a'e defod, hyd ymhen tri dieu a their nos. De6i Brefi!

[GWADU MAB]

[1967]O dervyd y dad 6ady mab o genedyl g6edy dycer ida6[†] yn*n* g*yfreith*a6l, ny eill h6nn6 gaffel taad byth g6edy hynny. [1968]V vam a'e dyc ynn g*yfreith*a6l, a'e dat a'e g6ad6ys yn*n* g*yfreith*a6l, ac 6rth hynny ni eill ynteu gaffel taad eil6eith. [107] [1969]Y tad a'e g6atto ynteu yn*n* g*yfreith*a6l, ny byd karrdych6el ynteu ar h6nn6 drachefyn, kanid ad6na k*yfreith* a 6nel. [1970]Y mab h6nn6 6eithion 6rth genedl y vam y byd y vreint: o llad ef dyn, deuparth yr alanas a a ar genedl y vam, a'r trayan ar y llofryd yhynan; ac o lledir ynnteu, kenedl y vam a dyly y deuparth o'e alanas. [1971]A h6nn6 y6 vn o dri dygyn*n*goll kenedyl. [1972]Eil y6: o llad g6r 6r arall a mechnia6 ar yr alanas, a chyn*n* dyfod oed yr alanas d6yn o'e vam y dat arall; k*yfreith* a d6eid pann y6 y genedl a vachni6ys ar yr alanas a bieu taly, o deu acha6s: o 6neuth*u*r ohona6 yr acha6s tra vy ar y breint h6ynt, ac o acha6s y dyly y neb a vachni6ys daly. [1973]Trydyd y6: o rodir Kymraes y alltyd a bod idi vab o'r alltyd, a llad ohonna6 dyn, deuparth y alanas a da6 ar genedl y vam, a'r trayan ar y llofryd yhyn, kanid oes genedl tad ida6 a'e talo. [1974]A h6nn6 a el6ir yn varthec [di]vach, kanys dir divechnia6 ar [y g6arthec hynny, kanys ar] 6arthec y telid pob tal [gynt]. [1975]Y deu vab a d6edassam ni ychod, vn 6erth ac vn breint ynt a bonhedic kanh6yna6l, ac vn sarhaed.

[1976]Mab diolef y6 mab a dycco g6reic ar y thafa6d leferyd y vod ynn vab y 6r, ac nas dycco ar dygyn. [1977]H6nn6 a ellir y 6ady pan*n* vyner. [1978]Mab diodef y6 mab a dycco g6reic ynn g*yfreith*a6l y 6r, a'e diodef vn dyd a bl6ydyn a'r g6r hep y [107[v]] 6ady. [1979]Ni eill y 6ady o hynny allan byth. [1980]O dervyd y h6nn6 6neuthur kyflafan, ni ellir y 6ady yn*n* yr ing kany 6ad6yd yn*n* yr ea*n*g y vod ynn vab.

[1981]Kyd boed brenhin a vo tad y vab alltydes a'e 6ady ohonna6, alltyd vyd o hynny allan. [1982]Os alltyd a 6atta mab Kymraes, bonhedic kanh6yna6l vyd o hynny allan, kanys 6rth vreint y vam y byd pob [mab] g6edy g[6]atter.

[1983]Tad a dycha6n g6ady y vab dranoeth g6edy y dy6ikio y gyflafan drosto, os myn. [1984]O dervyd u dat rodi da er meithryn*n* mab, ni dyly y[†] 6ady, kanys trydyd kymeriad y6 ar vab.

[1985]O dervyd mar6 tad, penkenedl a aill y 6ady ar y seithued ynn vn ffynyd ac y g6adei y tad by bai by6, ac [yn] yr vn egl6ys, a'e seith6yr gantta6 o oreug6yr kenedyl, gann y

1960 [†] *Ar ymyl y ddalen mewn llaw arall.*
1967 [†] ida6 ida6
1984 [†] y6

ll6 h6ynteu y vod yn*n* iach y l6 ynnteu. [1986]Ony byd penkenedl, vn g6r ar hygeint a'e g6atta. [1987]Oher6yd g6yr Po6ys, deg6yr a deugeint a'e g6atta.

[1988]Ni eill neb er dyg6yda6 tir ynn y la6 y 6ady. [1989]Ni eill bra6d 6ady y gilyd; ac oni byd bra6d, ni eill kefender6 6ady rac y 6ady er y er6 ohonna6; ac ni eill neb er dyg6yda6 tir yn*n* y la6 y 6ady er y tir.

[1990]O dervyd bod rei o genedyl mab ynn y 6ady ac ereill ynn y gymryd, io6naf y6 kredy yr hei yssyd ynn y gymryd, kans gna6daf y6 g6ady mab er tref y dat. [1991]Os y rei yssyd ynn y gymryd a ryd ll6 nad er g6erth nac er gobyr y maent ynn y gymryd, io6naf y6 y kredy.

[108] [1992]Pob bra6d a dychon g6rthod y ch6aer ond vn lle: rac ranny da y mam a'e thad a hi. [1993]O cheisir y g6ady hitheu rac ranny da y mam a'e thad a hi, ni ellir. [1994]Ac velly pob alltyd a eill g6ady y vra6d neu ch6aer onyd rac ranny da eu mam neu y tad ac h6ynt, ac rac dy6gia6 kyflafan.

[1995]Val hynn y dylir kymryd mab ygenedl: y dad ef yhyn a dychon gymryd mab g6edy as dycco y vam yn*n* g*yfreith*a6l gyssefin. [1996]Ony byd by6 y dad, penkenedyl ar y seithved a dycha6n y gymryd. [1997]Sef mal y kymerir: kymryd o'r penkenedl d6y lla6 y mab r6g y d6yla6 ynnteu a rodi kyssan ida6, kanys ar6yd kyrenyd y6 kyssan; a g6edy hynny y rodi o'r penkenedl yn*n* lla6 yr hynaf o'r g6yr a rodi ohonna6 gyssan ida6; ac velly o la6 y la6 hyd ar [y] di6ethaf. [1998]Ony byd penkenedyl, vn g6r ar hygeint o oreug6yr kenedyl, a chymryd y mab o'r g6r ae vo ynn lle yr argl6yd erbyn y la6 deheu ida6, a'e rodi yn*n* lla6 y g6r hynaf o'r g6yr hynny a rodi kyssan ida6; a'e gymryd ohonna6 erbyn y lla6 deheu ida6, a'e rodi yn*n* lla6 y g6r nessaf ydo a rodi ohona6 gyssan ido; ac velly o la6 y la6 hyd ar y g6r di6ethaf. [1999]Her6yd g6yr Po6ys, deg6yr a deugeint a'e kymer ac a'e g6atta.

[TRIOEDD]

[2000]Tri dygyngoll kenedl: kyntaf y6 ohonynt, beu darffeu bod mab ar ardel6 y tad yn*n* vab diodef, a lad dyn ohon*n*a6 gelein, a meicheu o genedyl y tad h6nn6 ar yr alanas drosto, a g6edy hynny y d6yn o'e vam y dad arall, a d6od o'r genedl a ry lader y kar y ofyn y alanas y'r genedl a ry veich[n]iasseu ar yr alanas, a d6edyd o'r genedyl [108^{v}] re d6gadoed y llofryd ohoneu ac na dylyant h6y daly galanas namyn dros gar ydynt, ac nad oed gar h6nn6 ydynt h6y y g6r a dycb6yd o'e pleid; ac odyn*n*a dyfod y genedl y ofyn galanas y'r lle y dathoed y llofryd, a d6edyd o'r genedyl na 6naeth ef dim kam er pan oed ef gar ydynt h6y, ac na dylynt h6y 6neuthur dim ja6n namyn dros y kam a 6nel ef yn*n* gar ydynt h6y; ac yn*n*a her6yd y deu acco y d6eid k*yfreith*, 'Tal6ys a vechni6ys': sef y6 hynny, taly o'r neb a ry vechni6ys yn g6byl kyd boynt g6irion am y veicheu a'e tal. [2001]Yr eil y6, beu darffeu damch6eina6 meicheu ar alanas dros y llofryd, a bod vn geina6c yn*n* ol heb daly ac am hynny llad y llofryd, k*yfreith* a d6eid na dylir nac edryd yr alanas drachefyn na dim amdana6 ynteu kany thalod ef g6byl ac na ellir k6byl o agh6byl. [2002]Trydyd y6, bei darffei kyss6yna6 dyn o lad arall ac nad ymardel6o yn*n*teu o 6ad ar y ll6on† y dylyeu, ac escaylyssu y genedyl a bocsachu am y gyflafan, k*yfreith* a d6eid o hynny allan*n* na dyliyd kymryd g6ad gantto, kan*n*y dechreu6ys gymryd ardel6 a 6ad, sef oed hynny anvon at y genedyl ac att yr argl6yd; ac am golli da y gel6ir ynn dygyngoll kenedyl.

2002 † ll6en

[2003]Tri g6arthryd kelein: kyntaf y6 llad kelein; a'r eil, ysbeila6; a'r trydyd, gofyn, 'Py gelein y6 hon?' a'e g6an g6th yn*n*di. [2004]Am y tri hynny y telir sarhaed: am y kyntaf, syrhaed hep drychafel; ac am y deu ereill y dyg6yd y trayan y'r lla6r. [109] [2005]Sef acha6s y6 na dylir ardrychafel ar y sarhaed gyntaf, 6rth na li6ir er a syrhaer dros 6erth y kyntaf; a llyma yr acha6s y gost6g y d6y sarhaed di6ethaf†, 6rth vod ynn llei g6arthryd y mar6 no'r by6.

[2006]Tri argae g6aed: g6aed hyd ran, a g6aed hyd g6ll, a g6aed hyd la6r; sef y6 hynny, hyd 6yneb, g6aed hyd dillad, a g6aed a retto hyd la6r. [2007]Am y g6aed di6ethaf, kani ch6yner amdana6, yr argl6yd a dyly emher6 6rth 6aedlydy y tir a'e dayar; ac sef y6 maint kosb am hynny: pedeir ar hygeint am y g6aed, a phunt am 6aedlydio y tir.

[2008]Tri g6aed ni di6cir: g6aed o ben krach, g6aed tr6yn, a g6aed o greith tra vo agored; sef acha6s na di[6]ygir y g6aedeu hynny, 6rth vod yn*n* anianaa6l gantynt redec bop amser.

[2009]Teir kreith gogyfarch: kreith ar 6ynneb, ar la6, ac ar droed. [2010]Am y gyntaf, g6erth g6aed a g6eli a gogyfarch deir g6eith; am yr eil, g6erth g6aed a g6eli a gogyfarch d6y weith; am y dryded, g6erth g6aed a g6eli a gogyfarch vn 6eith. [2011]Sef acha6s y ragora kosp am y kyntaf yn*n* v6y nac am yr eil, am yr eil yn*n* v6y noc am y dryded: kanys amlycach ac anyrdedicaf y6 kreith ar 6yneb nac ar la6, ar la6 noc ar droed, ac 6rth hynny y drycheif yr hon rac y llall.

[2012]O dri mod y sarheir pob dyn: o gyflafan arna6, a bod gan y 6reic, a thori na6d g6edy as rodo. [2013]Sef acha6s y di6cir sarhaed g6r o vod gan y 6reic yn*n* v6y noc arall, am y hanffod o alanastra.

[2014]Tri anhepgor [109[v]] brenhin ynt: y deuly 6rth 6neuth*u*r y negeseu; a'e ynad 6rth dosbarth dadleu, a dadleu a da6 y'r llys [ac 6rth] gyghori; ac† yffeiriad 6r[th] gyssylia6 ac 6rth gymryd iechyd y eneid ganta6; ac na dyly ef her6yd ja6nder eneid a chorff vod hep y tri hynny, ac 6rth hynny y gel6yr h6ynteu ynn dri anhepgor brenhin. [2015]A deu ny dyly bod yn*n* [ved6] byth, a'r trydyd y6 medic o'r tri hynny, kanny dylyant vod ynn ved6, ac ny dylir g6lla6† arnadynt h6y namyn gan y bod.

[2016]Tri maib ny dyly tref tad: mab effeiriad, mab klaf6r, a mab g6r a daler y dir yn*n* 6aedtir. [2017]A llynna yr acha6s nas dyly mab y claf6r, 6rth darvod y Du6 y dethol a g6ahanu y vraint y 6rth i ach veda6l; sef val y mae hynny, o vab a gaffo klaf6r g6edy y bo barnedic y glafdy, a mab a gaffo effeiriad g6edy yd yrder yn*n* effeiriad.

[2018]Tri arga[e] tervyn: braint, a chyg6archa[d]6, a phriodolder. [2019]Sef val y mae hyn*n*y: breint breinia6c a'e hargeua rac anvreinia6c y tervyn, kany dyly anvreinia6c dervyn*n*y ar dor dyn a breint ydo; a hefyd prioda6r, kan*n*y dyly tervyn*n*y arno; ac y gyd a hynny, hen 6archada6 a argeua tervyn rac vn a vo ieu noc ef. [2020]Kyd boed deu prioda6r ogymerieid, a chyhyd y g6archad6, ac vn ry6 priodoryon, ac [ny] 6ypo henyryeid g6lad ia6n dervyn rygtynt, rany ynn deu haner a dylir her6yd [110] k*yfreith* kyhyded.

[2021]Tri dadleu am dir ni dylir aros vn amser m6y [no'y] gilyd amdanynt: tir llan*n*, a thir a vyner y dervynny, a rany tir.

[2022]Teir g6raced a dyly y meibon dir o vam6ys: g6reic vonhedic a roder y alltyd o vod kenedyl a bod meibon idi o'r all[t]yd, yr hei hynny a dyly ran o dir gida brodyr y mam euth*u*r

2005 † gyntaf
2014 † a ac
2015 † g6llay

o dir y bei vreint neu† deilygda6d ohon*n*a6; o h6nn6 hagen ny dylyant ran hyd ymhen y ped6ryd dyn, gan vod neb o barth tad6ys a dylyeu ony bond y*n* veibion alltyd. [2023]Eil y6 bei damch6eineu vod mor6yn ar vreint y brodyr a'e chenedyl, a'e threissa6 o alltyd: os mab vai['r] dyn h6nn6, ran o'r tir gida brodyr y vam a dyly. [2024]Trydyd y6 be darffeu† rodi g6reic vonhedic yg6ystyl y alltydaeth, ac yn*n* hynny kaffel beichogi a bod mab idi, h6nn6 a dyly ran o dir gida brodyr y vam. [2025]A llyma yr achos y dyly plant y 6reic gyntaf dir, kanys y brodyr alltdyd6ys y fflant pan y rodassant hi y'r alltyd; ac 6rth na dylyant rodi y ch6aer namyn y'r lle y kaffeu hitheu dir, wrth hynny y dyly y phlant hitheu dir o vam6ys. [2026]Llyma yr acha6s y dyly plant yr eil 6reic mam6ys o dir, kanys hyd tra vai hi ar vreint y brodyr a'e chenedyl, h6ynt a dylynt y chad6 rac pob kam; wrth gaffel oheni hynny y dyly y phlant hitheu vam6ys. [2027]A llyma yr [110v] achos y dyly mab y dryded vam6ys, kanys a hi ynn y g6ystloryaeth y kafas hi y damchein; 6rth hynny y dyly y phlant vam6ys o dir.

[2028]Teir gorssed g*yfreith*a6l yssyd: gorssed argl6yd, a hon esgop, a hon abad; a'r teir hynny [a dylyant] g6rogaeth g6yr, ac ny dyly g6r o vn ohonynt g6neuth*u*r ia6n namyn yn*n* y orssed ef yhyn, ony bei damch6eina6 y 6r yr esgob 6neuth*u*r kam [ygorssed] yr argl6yd, neu 6r yr argl6yd ygorssed yr esgob, neu 6r yr abad yn*n* vn o'r d6y ereill; pob vn o'r rei hynny, g6naed ia6n lle g6nel y kam.

[2029]Teir g6anas g6ystyl yssyd: lla6, a braich, ac ysg6yd. [2030]Sef achos y gel6ir yr hei hynny yn*n* 6anas g6ystyl: kanny dylir ar ny aller y ar6ein yn*n* vn o'r tri lle hynny, onyd yr ha6l6r a'e myn, onyd vn peth—bod y dylyed yn*n* kymeint ac na ellid g6ystla6 amdana6† namvn peth ma6r; sef achos na dylyir hynny, 6rth na dylir peth aghyfodadyn am dlyed kych6yn.

[2031]Tri g6ystyl gogymerieid yssyd: o la6 mach; ac o la6 kynogyn; ac o la6 argl6yd neu 6asnaeth6r am dlyed adefedic hep vach arnei, a hep gadarn vach, ac eissoes y vod yn*n* adefedic.

[2032]Tri g6ystyl nid reid meicheu ar y dylysr6yd: g6ystyl o la6 mach; a g6ystyl a dycco yr ha6l6r ar y mach or [111] na vyno g6ssnaythu y vechniaeth; a g6ystyl o la6 argl6yd ne wasnaeth6r. [2033]Sef acha6s y6 nad reid mach ar dilysr6yd g6ystyl o la6 mach neu o la6 yr argl6yd: kany 6atta hyn*n*y o dynyon ry 6ystla6 oc eu lla6, nac er ch6ant da nac er peth arall; bei g6edynt g6ystla6 h6nn6, h6ynt a† dylynt g6ystla6 vn arall. [2034]A llynna yr achos nad reid mach ar dilyssr6yd g6ystyl a dyccer y ar vach, kanys o'e annvod y dygir; ac os ryd ynteu o'e vod, kymered yr ha6l6r vach ganta6 ar y dilysr6yd rac g6ady ohona6 nas rodes.

[2035]Tri pheth nid reid mach ar y dylyssr6yd: kynysgaeth gan 6reic, ac enill medic gan glaf, a chyfar6s g6r gan y argl6yd.

[2036]Tri ry6 dadanyd yssyd, a'r tri hynny ny dylir y barny namyn y'r mab yn*n* lle y tad: dadanyd ar ac eredic, a dadanyd born a baich, a dadanyd kart. [2037]P6y bynac y barner dadanyd o ar ac eredic, ef a dyly eisteu yn*n* did6r6f dieni6ed hep atteb y neb hyny vo a'e gefyn ar y das, ac ynna atteb. [2038]P6y bynac y barner ida6 dadanyd o vod tad yn*n* kyfanhedy, a march a char ganta6, ef a dyly bod yn*n* dieni6ed hyd ymhen y na6ved dyd hep atteb, ac ymhen y na6ved dyd, k*yfreith*. [2039]P6y bynac y barner yda6 dadanyd o vod tad yn

2022 † deu
2024 † darffeu darffeu
2030 † amdama6
2033 † a a

g*yfreith*a6l, [111^{v}] a b6rn ac† a baich gantho yn*n* kyfanhedy, a dyly bod yn*n* did6r6f dieni6ed hyt ymhen y drydydyd hep atteb, ac ymhen y trydydyd, k*yfreith*.

[2040]Tri chargych6yn hep attych6el: mab a 6atto y dad vn 6eith neu a gymero vn 6eith; pa vn bynac a 6nel, ny dyly y ad6neuth*u*r. [2041]A'r ail y6 dyn a el vn 6eith yn*n* k*yfreith*a6l o briodolder; ny dyly byth dyfod drachefen. [2042]A'r drydyd y6 g6reic a el vn 6eith y breint ody 6rth y chenedyl yn*n* g*yfreith*a6l; ny dyly ymhoelyd byth drachen ymreint y chenedl. [2043]Sef acha6s y6 hynny, 6rth nad ad6na k*yfreith* a 6nel, ac na dylir g6neuth*u*r vn o'r tri hynny namyn yn*n* gyf*reith*ol.

[2044]Tri gorssaf g6reic: kyntaf lle kysger genthi; hi a dyly bod ynno hyd ymhen na6ved dyd. [2045]Eil y6 lle [y]d ysgaro y g6r a hi; hi a dyly bod yno hyd ymhen na6ved dyd y etrych ae k*yfreith*a6l yd ysgar6yd a hi, ac y bod ynno ar ol y geina6c di6ethaf o'r a eidieu. [2046]Trydyd y6 g6reic y bo mar6 y g6r†; hi a dyly bod yno y6chben y hael6yd hyd ymhen y na6ved dyd, ac [o]dyn*n*a ar ol y geinia6c di6ethaf o'r a eidieu.

[2047]Teir r6yd brenhin ynt: y deulu, ac ass6ellt y veir**ʒ**, a'e ree; sef acha6s y6, karcharor a dalo y deuly, y brenhin biefyd; ac anifeil a daler† ar ass6ellt y veirch, pedeir ke*inha6c* k*yfreith* ohonna6; ac velly march a daler ar y ree, ef [112] a dyly pedeir ke*inha6c* k*yfreith* ohonna6.

[2048]Teir r6yd mab ychel6r: ass6ellt y veirch, a'e genveint voch, a'e ree; ac o cheiff anifeil ni bo y eida6 yn*n* ass6ellt y veirch, neu ar y ree, neu ar y genveint voch, vn ry6 gosb yssyd yda6 ac vo y'r brenhin.

[2049]Teir r6yd mab eillt: y breid 6arthec, a'e voch, a'e hendref; o cheiff enifeil ni bo eida6 euhyn ar y breid 6arthec, ef a geiff pedeir ke*inha6c* kotta ohonna6, ac enifeil a gaffei yn y hendref, neu ymlith y voch, ef a dyly pedeir keina6c kotta ohonna6.

[2050]Tri chygha6a6c k*yfreith*: raniad galanas, a g6erth tei a dodrefen, a dadyl mach a chynogyn. [2051]Sef achos y gel6ir y tri hynny y[n] gygha6a6c k*yfreith*: rac anha6ssed y d6yn ar gof ac ethrylith.

[2052]Tri myd gorssed: mach, ac ynad, ac† argl6yd. [2053]Sef achos y gel6yr h6ynt ynn vydyon gorssed: 6rth vod ams*er* y bob vn onodynt y dylyeu vod ynn vyd; mach o'r pan eler y g*yfreith* am y vechni, ni dyly atteb namyn g6edy gofyno yr ynad ae mach ae nad mach; a'r ynad hefyd, nid reid ydo atteb ynny vo reid ydo dosbarth o'e ben; ac argl6yd hefyd, nid reid ydo vod ynn raclafar; ac 6rth hynny y gel6ir ynn dri mud gorssed.

[2054]Tri araf k*yfreith*a6l: cledyf, a g6ay6, a b6a a deudec saeth. [2055]G6erth cledyf g6ynsaid, pedeir ar hygeint; [112^{v}] or byd breulif, vn ar bymthec; or byd grymseid, deudec ke*inha6c*. [2056]G6erth pob vn o'r deu ereill, pedeir ke*inha6c*.

[2057]Teir helynt ryd yssyd: lle6yna6c, a dyf6rgi, a heid 6enyn. [2058]Sef acha6s y mae y tri hynny yn*n* ryd: 6rth y bod yn*n* dri treiledic enifeil, ac na 6astadant yn*n* vn lle ragor ar y gilyd.

[2059]Teir assgavaeth milgi: ysgyfarnoc, y6rch, a lle6yna6c. [2060]Sef achos y gel6ir yr hei hynny yn*n* asgafaetheu milgi: kanys y kyntaf a'e kotto bieifyd, onyd vn peth, kyfarvod k6n y

2039 † ac ac
2046 † y g6r y g6r
2047 † a daler / a daler
2052 † ac ac

brenhin neu g6n yr argl6yd a'r ll6dyn a gyfotteu g6n mab ychel6r; pa g6n bynac hagen a gyfodeu vn o'r tri enifeil a'e asgafaethe o'e vilgi, ef a'e pieifyd.

[2061]Tri enifeil kymeint g6erth eu troed a'e heneid: march, a heba6c, a milgi. [2062]Sef achos y6 hynny: kans bydr y6 pob vn ohonynt, ac anifeil dif6yn ac annolo[†] byd g6edy na aller arver ohonynt, ac arver o bop vn ohonynt yssyd o'e draed; ac 6rth hyn*n*y y mae kymeint g6erth troed pob vn ohonynt a g6erth eu heneid, pob vn o'r tri hynny.

[2063]Teir sarhaed ni di6cgir: hon a gaffo mab gan y dat; a'r h6n a gaffo g6reic gan y g6r am vn o'r tri achos k*yfreith*ol; a sarhaed g6r gan y argl6yd.

[2064]Tri achos ysyd y dyly g6r vaydy y 6reic: o yna6 mefel ar y varaf; ac [113] am gyflyfany arna6; ac am gaffel g6r arall genthi. [2065]Os maed yn*n*teu amgen no hynny, can kymerth y d6yn yn y la6 ef yhyn, ni dyly ia6n.

[2066]Tri lle y ran k*yfreith* yn*n* deu haner: kyntaf o damch6eineu[†] vod dlyed a mach arneu a gada6 o'r kynogyn y 6lad, y mach a dyly taly haner y dlyed, kyd bo g6yrion, am beri ohona6 y'r h[a]6l6r y gredy. [2067]A'r eil y6 o damh6eineu amrysson am dervyn ar 6yr yn*n* vn ry6 briodoryon [o] vreint [a] g6archad6, ac na 6ypeu henyryeid g6lad yr ia6n dervyn rydynt, ranny yn*n* deu haner y dylyed rygthynt. [2068]A'r trydyd y6 o damch6eineu vod ynys r6g d6y afon ac na bai nes y'r vn no'y gilyd, y rany yn*n* deu haner a dylyant; velly y mae k*yfreith* kyhyded. [2069]Sef y6 kyhyded, pob dadleu a hebryger yn*n* kyhyd ac yn*n* kystal.

[2070]Teir dir6y yssyd: dir6y ymlad, dir6y dreis, dir6y ledrad. [2071]Am bop g6eithred a 6nel dyn ny hanffo o'r tri hynny, kaml6r6 a dal amdanno; sef y6 kosb am bop vn o'r tri ychod, teir punt, a messyr kaml6r6 y6 na6 ygeint.

[2072]Teir ofer groes: kroes risk pren, a chroes a wahardo ll6ybyr, a chroes ny hepryger a ll6[†]; am yr vn o'r teir hynny ni dylir na dif6yn na dial.

[2073]O dri acha6s y dylir [113^{v}] amobyr y 6reic: o gyh6elogaeth kyhoeda6c ar ny bo na rod nac ystyn; ac o veich[o]gi; ac o rod ac ystyn kynny bo ky6elogaeth. [2074]Llathrydyaeth hefyd, ef a dylir amobr, ac eissoes ni heni6 o vn o'r tri acha6s; sef achos y6, 6rth y hanvod o bop vn o'r deu, o rod ac [o] gy6elogaeth, kanys pan aeth hi gan y g6r ynn llathryd, ynna yd ymroes hi euhyn y'r g6r. [2075]O hynny yd heni6 llathrydyaeth: o rod ac ystyn [ac] o g6elogaeth kyh6yda6c pan*n* heni6, kanys k*yfreith* a d6eid kany chysgo g6r gan 6reic a dycco yn*n* llathryd, ony chymer g6r y ty vach gantta6 ar y hamobyr, taled ef yhyn yr amobyr.

[2076]Tri dyn a dyly taly amobyr: y neb a vo rodiad arnei; a hitheu yhyn; a'r hyn*n* a de6edassam ni ychod.

[2077]Tri dygiad a vyd ar vab: vn y vam ar y llo[g]6yd; a dyg[iad] i tad neu genedyl ynn y vam egl6ys; a'r trydyd, ef yhyn ony ordi6ed y vam yn*n* vy6. [2078]O gordi[6]edassay y vam ynteu y d6yn, a vod ynteu ynn amheuedic, k*yfreith* a d6eid na dyly ef ymd6yn na chenedyl y gymryd, kanys k*yfreith* gidsynya6d g6ybod oheni nad oed vap y mab h6nn6 y'r tad y tybygeu ef y vod ynn vab ydo, kanys duc y vam ida6 a hi yn*n* g6eled y vod yn*n* amheuedic.

[2079]Tri chymeriad a vyd ar vab: vn tafod a'e g6atta ac a'e kymer, y dad yhyn y6 h6nn6. [2080]A'r eil y6, ony byd by6 y tad, penkenedyl ar y seithved [114] o 6yr yn*n* lle y tad gydac ef o'r genedyl. [2081]A'r trydyd y6, ony bai na thad na phenkenedyl, vn g6r ar hygeint o'r genedyl a'e g6atta ac a'y kymer: saith yn*n* lle y tad, saith yn*n* lle y penkenedl, a saith

2062 † allo
2066 † damchch6eineu
2072 † lla6

gida'r penkenedyl. [2082]Sef y6 val y mae y gymryd, [y gymryd] o'r penkenedyl ynn y la6 a'e rodi yn*n* lla6 y g6r hynaf o'r g6yr; ac velly o hynaf y hynaf hyd ymhen y seithved g6r; [a'r g6yr] hyny nid oes nodiad arnadynt namyn y bod yn genedyl o'r ny dylynt rany dayar ac ef; vn anssa6d a hynny y kyme[r]ir. [2083]Ac ynad a dyly varny yr h6n*n* a 6nelont, na'e 6ady na'y gymryd; ac velly y mae kymryd mab neu y 6ady.

[2084]O darffai bod mab ar ardel6 y tad yn*n* [vab] diodef, ac ymo6yd y tad h6nn6 nas dycco y vam ida6, k*yfreith* a d6eid na dyly y genedl na'y gymryd na'y 6ady, kans gollyg6ys hi yr amser y dylyeu y d6yn os myneu; ac am hyn*n*y y d6eid k*yfreith* na ellir d6yn mab y var6, namyn gally y d6yn o'e vam y dat arall os myn*n*, kanny dyc h6nn6 o'r blaen; os hitheu a'e dycassau h6nn6, na da na dr6c† vai y tad, k*yfreith* a d6eid na dyly ef gaffel tad byth g6edy hynny namyn h6n*n*6, ac am hyny y d6eid k*yfreith* na ellir d6yn mab y var6.

[2085]Teir kelvydyd ni dyly mab taya6c y dysgu heb genad y argl6yd: ysg6lheicda6d, a gofanyaeth, [a] bar[do]niaeth†. [2086]O damh6eineu y vab [114v] taya6c dysgu vn o'r teir hyn*n*y heb genad y argl6yd, k*yfreith* a d6eid na byd rydach no chynt, kanys yn*n* aghyf*reith*ol y dysg6ys ac nad oes aghyf*reith* a dylyo dyfod yn*n* g*yfreith*; ac na dylyant h6ynteu 6rth dylyed mab ychel6r ymrydhay namyn o ardel6 k*yfreith*a6l, a ph6y bynac ny chaffo ardel6 k*yfreith*ol y ymrydhay, bit gaeth val kynt.

[2087]Tri pheth ny dyly taya6c y g6erthu o byd ar y hel6—mel, a moch, a march keilla6c—heb genad y argl6yd. [2088]Rei a d6id os g6erth y dyly o'r gyfne6id dyfod drachefen, kanyd oed g*yfreith*ol y g6erthu, ac nad oed ellygedic† dim a 6nelid yn*n* aghyf*reith*ol; eissoes m6yaf a gadarnha na dyly dyfod drachefen, namyn o g6naethoed y mab eillt gam y dylyeu y argl6yd [dial] arno os myneu.

[2089]Tri dyn a dylir taly g6eli tafod ydynt: argl6yd, ac yffeiriad, ac ynad. [2090]Sef acha6s y dyly argl6yd g6eli tafa6d†: o damh6ineu ymgeina6 yn y orssed, ac ef a dyly sarhaed her6yd bieu breint yr orssed, a chaml6r6; a hefyd o darffei ym6ystla6 o dyn a'r ynad am vra6d, a gorvod o'r ynnad, ef a dyly 6yneb6arth arna6; ac yffeiriad pan d6etter geir gar6 6rtha6 yn*n* vn o'e deir g6yl arbenic ynn y egl6ys, neu yn*n* darllain llyth*u*r, neu yn*n* ysgrifenu geir bron y brenhin, ef a dyly tal sarhaed am hynny.

[2091]Tri dyn a dyly dianck rac dihenyd am ledrad: [115] kyntaf y6 esgolheic corona6c; a mab a vo ar ardel6 y tad, sef y6 hynny hyd ymhen pedeir bl6yd ar dec; a dyn aghyfieithus a v6rier o log y dir hyt ymhen teir nos a thri dieu—yn*n*y 6ypynt gyf*reith* y 6lad, ni dylir arnadynt namyn edryd y da y'r kolledic. [2092]Ysgolheic corona6c ny dylir arna6 na dyr6y na dial am y lledrad kyntaf, namyn diyrda6† a da6 ar vreint llyc. [2093]Mab hyt tra vo ar vreint y dad ny dylir arna6 na dir6y na dihenyd hyd ymhen pedeir blyned ar dec, kanyd ydi6 yn*n* oed y dyl[y] k*yfreith* argl6yd vod arno; y dad hagen a dyly g6neuth*u*r ja6n drosta6 y'r argl6yd ac y'r kolledic.

[2094]Tri do6od yssyd ryd y dyn y kymryd y ar y fford: nod6yd, a pheda6l, a cheina6c; nyd ryd amgen no hynny namyn gan 6rtheb yr ha6l a deleu yn*n* y hol, ae treis ae lledrad.

2084 † na da na dr6c na da
2085 † barniaeth, *wedi'i danddotio a* bardoniaeth *ar odre'r ddalen mewn llaw ddiweddarach.*
2088 † echedic
2090 † ta / tafa6d
2092 † dir6y

[2095]Tri phrif raniad a vyd ar dir: ran r6g b[r]odyr, adran rog kefynd[e]r6, a chyhyded r6g kyferder6. [2096]Ny dyly na nai nac e6rth na rany, nac adranny, na chyhydedy; sef achos y6 hynny, o'r na ordi6edod ef ail ran*n*, a na deyth atta6 ynteu y ran arall; sef fford oed hynny, os nei vab bra6d vei ef, yr e6yrth*u*r h6nn6 ni ordi6edod ef y rann gyntaf (sef oed honno, ran*n* brodyr), ac na deuth atta6 ynteu ran*n* arall ([sef] oed hon*n*o, adran*n* [115^{v}] kefender6). [2097]Ac velly y difernir y nai vap kefender6, neu nai vap keferder6, ny dyly kaffel atteb namyn kytir kenedyl. [2098]Yr hyn a d6edassam ni ychod a dylyr o dir o'r a vai ran gynt arna6; tir kyd hagen ef a ellir y rany a nai ac e6yth*u*r, ac e6yth*u*r a nai. [2099]O dervyd y dyn myny adran ac arall o'r a dylyed, ef a dyly d6yn yr afel a vy ynn lla6 y tad beu damh6eineu† kolli peth o 6ir a chyf*reith* o hyn*n*y, ac o achos y dyfod yn*n* anilys atta6 ac na 6ypei y vod yn anilys pan dothod atta6.

[2100]Teir mar6 dystolyaeth yssyd. [2101]Kyntaf y6 ohonynt, o damh6eineu y dyn holi tir o ach ac edryd [neu] o fford arall, a dodi ymhen tyston barny o g*yfreith*eu tad neu hendad neu orhendad, a na bai a 6attai y d6yn ar y kreir a vo yn*n* lla6 ynad ry atta6 oc y tadeu gantynt h6y barn*n*y o k*yfreith* rieni y neb yssyd yn*n* holi y tir h6nn6; neu [os] o ach ac edryd yd ha6l, a'e dodi ymhen y tyston, yr vn ry6 ll6 a da6 ar yr hei hynny ac ar yr hei ereill uchod. [2102]Ail y6 odyn. [2103]Trydyd y6 rych neu ffos. [2104]O dervyd bod dyn a ryfedo kymryd dedryd gan dyst yr hyd a 6ello, k*yfreith* a d6edyd yn y lleoed hynny y dylir, kanys peth trag6da6l y6, ac 6rth hynny y dyly vra6d gyf*reith*a6l barhay yn*n* h6y no'r neb a'e barno. [116] [2105]6rth hyn*n*y y m6ynheir tyston o edryd y neb a'e ry 6eleu, ac 6rth nad er yr hyn a 6elsant yhyn a atve[r]ant namyn yr hyn*n* ade6is y g6yr a vy var6 gantynt, 6rth hynny y gel6ir yn*n* var6 dystolyaeth.

[2106]Tri llyssyant assyd ar dyston: tirtra, galanastra, a chrenyd nes. [2107]G6rei[c]tra yssyd lys, ac 6rth y hanvod o genedlaeth galanastra ni rifir namy[n] tri. [2108]P6y bynac a vyno llyssu tust o grenyd nes, ef a dyly d6yn tyston kidgenedyl, kany dyly estron d6yn kar y neb ac [ef a] dylu d6yn y grenyd.

[2109]Tri pheth a r6g dyn a thalu damd6g: kad6 kyn koll, a geni a meithryn, ac ar6aessaf. [2110]Sef val y mae kad6 kyn koll: g6edy edyno y kolledic yr amser y kolles yr eida6, kaffel o'r amdiffyn6r keid6eid ar vod y da h6nn6 gantta6 ef ynn y berchnogaeth ef kyn no'r amser h6nn6; sef y6 hynny, kymodoc y6chla6'r dros ac arall isla6'r dros; or keffir hynny diga6n y6, ac ony cheffir, advered† y'r perchen yr eida6.

[2111]Tri pheth ni dylir y damd6g: kic heb groen, ac ariant hep lester, ac yd o'r a el y ar ysgyb. [2112]Sef val y mae hyn*n*y: o cholleu dyn enifeil by6 ac na ordi6edeu y dyn lle bai y dyb namyn kic heb groen, k*yfreith* a d6eid na dyly [116^{v}] dyn damd6g a[r] ni 6el6. [2113]A'r eil y6 ariant hep lester a gollo dyn, ny dyly y damd6g kanys vn ry6 vyd pob aryant a'e gilyd†; os kolleu ynteu yn*n* y llester, her6yd breint y llester y dyly damd6g. [2114]Trydyd y6 bei koleu dyn yd ar y golofyn; k*yfreith* a d6eid na dyly ef y damd6g namyn y gyfry6 ac a gollo.

[2115]Tri g6ystyl ni dyg6yd yn*n* benvadeu: telyn, a phayol, a ffluf. [2116]Os rodeu dyn o'e vod vn o'r tri hynny y vod yn*n* benvade ynn amoda6l, ef a dyg6yd val g6ystyl arall kanys ef yhyn a lygr6ys y vraint pan*n* y g6ystla6d. [2117]Os dyckeu y mach y arna6 o'e anvod, ny

2099 † da / damh6eineu
2110 † adverved
2113 † pob aryant ae gilydd pob ariant ae gilydd

dyg6yd hyd ymhen vn dyd a bl6ydyn; h6ynt a dyg6ydynt y'r ha6l6r ymhen na6vedyd, kans ef a dyly y mach roi g6ystyl k*yfreith*ol; y mach hagen a'e dyc a vyd y'r kynogyn y k6byl.

[AMRYWION]

[2118]Ny dylir rodi barn ar absendra pleid tra vo vn dadyl gyndrycha6l hep dervynny ynn y llys honno, acha6s amsera6l y6 dyfod y dadleu tra vo dadleu ynn parhau, achos dyd dadleu yssyd ac nid dryll dyd dadleu; ac o rodir [barn] ar absendra pleid velly, kam varn y6 a thremic† o bleid yr amser; ac o achos hynny y mae ysbeid y hameu o ve6n vn dyd a bl6ydyn o'r dyd h6nn6.

[2119]By ha6l bynac a varner y dyn o gyf*reith* [117] a nad ym[af]aelo ynn y mediant or na 6ledycho vn dyd a bl6ydyn, k*yfreith* a d6eid vyned g6yd6aled rygta6 a'e ha6l, ac na dyly gorcheid6ad 6rtheb ida6 o hynny allan.

[2120]O dervyd tebygu o argl6yd y dyly da kany ch6yner am aghyfarch, k*yfreith* a d6eid na dylir ony hebr6g y kolledic k6yn hyt y llys; g6edy y k6yno y kolledic, ny dyly na chymryd y eida6 drachefen na dim amdana6† hep genad argl6yd.

[2121]O dervyd y dyn myn*n*y g6neuth*u*r t6ryf ac eni6ed am dir a dayar y arall, g6naed ar y tir y bay y ha6l ymdana6; ac os g6na ar dir arall hep ha6l ida6, taled a'e g6nel, kany dyly ef diffeitho namyn y tir y bo y ha6l arnno. [2122]Sef y6 t6r6f ac eni6ed, llosgi tei neu dori erydyr: hyn*n*y [y6] t6ryf. [2123]Eni6ed y6 k6yn mynych 6rth 6lad ac argl6yd; kynny chaffo ia6n yml6ydyn nac ymlynyded, nid dyffodedic y ha6l er hyd y bo hepda6. [2124]Am ha6l ysgrybl ac aryant a phob da arall, ny dylir g6neuth*u*r t6ryf amdana6 namyn [eni6ed] a'y holi bop bl6ydyn, ac o byd ynteu hep holi vl6ydyn arna6 kany bod yn*n* gy6lat a'r ha6l, y vod yn*n* ha6l drabl6ydyn ac yn*n* diffo[d]edic yghyf*reith*. De6i Brefi!

[2125]Ry6 dynyon yssyd ni ellir kymell vn ohonynt yn*n* blaid o dadyl geir bron [117^{v}] bra6d6r o ry6 r6ym personol, megis mech[n]iaeth, neu amod, neu ede6id, neu lynyaeth arall; sef y6 y rei hynny: mab othy ve6n y bedeir bl6yd ar dec hep genad y dad neu geid6ad tra dylyo vod drosto; a dyn med6 profedic; a dyn yn*n*vyd; a dyn r6ymedic 6rth yrdeu kyssegredic; a dyn a dirymo y vreint [y vreint] penadyryaeth ac a 6hano y dyn a gysylltyer ac ef hyd na aller [y] ar6ein ynn gysylltiedic na'u kymell me6n vn dadyl o r6ym nac ed6id perssona6l val y d6esb6yd vry, lle ni aller kymell y pena6dyr her6yd k*yfreith* yn*n* bleid y'r defnyd (sef y6 yr hei hynny, mynach proffessa6l r6ymedic me6n yrdeu kysegredic, kanys braint yr abad a diryma y vraint ef hyt na dychon vn r6ym nac vn ede6id y neb arall; eil y6 g6reic ac argl6yd g6ialen priodasol erni, kannys braint [y] briodas a diryma y braint hi hyd na dychon hi vod ynn r6ym persona6l nac yn*n* ede6id; ac 6rth hynny ny ellyr kymell h6ynt na'y kyffelyp dynyon h6ynteu yn bleid y'r defnyd o g*yfreith*).

[2126]O dervyd kadeiria6 kynga6s a gada6 y gadeir a'r vra6dle, k*yfreith* a d6eid na dyly dy6od y'r lle h6nn6 drachefen, a'e vod yn*n* golledic o'r ha6l y bo ynn y amdiffin.

2118 † threnic
2120 † am dama6

[TRIOEDD]

[2127]Tri chanlyn di6all y[118]ssyd: kanlyn k6yn hyd ar r6ym; kanlyn r6ym hyd ar varn; kanlyn barn hyd ar dervyn. [1,128]Deu ry6 diffic kanlyn yssyd. [2129]Vn, na chanly[n]er dim. [2130]Eil y6 amryfaelu o'r kanlyn y'r llall.

[2131]Tri dyn her6yd k*yfreith* ni safant 6rth a 6nelont. [2132]Vn y6 dyn med6. [2133]Eil y6 mab kyn*n* y† bedeir bl6yd ar dec. [2134]Trydyd y6 dyn a gymheller o'e anvod.

[2135]Tri breint yssyd y gyghella6r: breint kastell, a braint amdiffynbleid†, a braint dyn disg*yfreith*. [2136]Sef achos y mae breint kastell ido ef: karcharu a dycho*n* pan y myno. [2137]Sef achos y mae breint amdiffyn*n*bleid ydo: am orvod arno atteb y othrymder. [2138]Sef achos y mae braint dyn disg*yfreith* ido ef: am nad oes y neb dasgy arno.

[2139]Tri dyn ni adm6ynheir dim o'r a d6etton me6n llys: dall, a med6, a bydar; sef achos y6, am nad g6neuthuredic dim o'r a 6nelont yghyf*reith*.

[2140]Tri dyn a dyly sarhaed ac ny dylyant galanas. [2141]Vn y6, o dervyd tybya6 ar dyn lad arall ac nas g6atto kyd boed g6irion, ac am hynny y sarhau, ef a dyly tal sarhaed a pheu lledyd ni chai dim. [2142]Eil y6, o dervyd y dyn daly cobyl o alanas namyn vn geina6c, ac am hyny y sarhau, ef a dyly tal sarhaed a pheu lledid ni chau [118v] dim. [2143]Trydyd y[6] kaeth: nid oes alanas ido, namyn taly y 6erth y argl6yd mal g6erth ll6dyn.

[2144]Tri dyn a dyly galanas ac ny dylyant sarhaed: ynvyd; a dyn a lader a g6en6yn; a dyn a lader a saeth dr6y arall.

[2145]Tri dyn ny dyly na galanas na sarhaed kyd llader h6ynt: vn y6 dyn a lado enifeil ef; a dyn a gaffer yn*n* rodio ystafell y brenhin hyd nos hep na than na goleuad yn y la6; a dyn a lader a phren ynn y v6r6 y'r lla6r gan y rybydia6.

[2146]Teir merched a dylyant taly amobreu ac ny dyly y tadeu daly ebedi6: vn† y6 g6r a dienydio†† argl6yd, kany dyly argl6yd ebedi6 y g6r a dienydyo††† euhyn, a'e verch a dal amobyr; a merch g6r a dalo gobyr ystyn; a merch g6r o dref gifrif a vo mar6 hep vab ida6, y verch a dyly taly amobyr.

[DAMWEINIAU]

[2147]O dervyd y dynrodi ariant neu ysgrybl y arall, ac o'r da h6nn6 y gyfne6idia6 ac el6a o'r neb a deuyth y da atta6, a cheissio o'r neb a bieifyd y da ran o'r enill, k*yfreith* a d6eid nas dyly onyd amod† a'e d6c ida6, kanyd a s6llt dan diebryd, euthur a roes y'r llall; a h6nn6 a el6ir 'nid a s6llt dan diebryd'.

[2148]O dervyd y dyn dyfod yn dr6yded y dy dyn arall ac ysgrybl ganta6 neu da arall, pan el y ymdeith ny [119] dyly myned ganta6 nac epil, na thail, na chlodeir, na neb deod6f o dim namyn a deyth gantta6, o byd h6nn6, onyd amod a'e d6c ida6.

[2149]O dervyd y dyn d6yn by6ch yn*n* lledrad a meithryn oheni epil gan y dyn a'y dyc, a g6ybod o'r perchena6c lle [y]d oed y vy6ch a cheissia6 ohona6 hi a'e hepil, nys dyly namyn hi yhynan, o byd; ac ony byd, ny dyly dim kanyd a s6llt dan diebryd.

2133 † ky / n*n*y y
2135 † am / amdiffyn bleid
2146 † vn / vn
2146 †† defnydio
2146 ††† defnydyo
2147 † amo / od

[2150]P6y bynac a 6rthotto y ia6n o acha6s tybygy y vod yn*n* argl6yd ar y ha6l a dyly holi pan vyno, gatter ida6 yn*n*teu beida6; ac [o] phaid enteu vn dyd a bl6ydyn, bid hitheu yn*n* [ha6l] drabl6ydyn, a honno ny dylir ia6n o hynny.

[2151]O dervyd y dyn d6yn adafael yn*n* aghyf*reith*a6l, advered yr afael drachefyn, a'r ha6l yn*n* ir. [2152]Ef a de6edir na dyly k*yfreith* nis g6nel; am yr hyn y g6naeth ynteu aghyf*reith* amdana6, ef a 6naeth ia6n amdana6 ac adver6yd drachefyn; a'r ha6l bid ir val kynt.

[2153]O dervyd y dyn vod yn*n* vach, a chyn tervyny yr ha6l y vyned yn*n* glaf6r neu yn*n* vynach neu yn*n* di6yll, [ac] ny thebycco ef y dyly atteb o'r ha6l; k*yfreith* a d6eid y dyly ef gy6ira6 ado6ssei tra vo by6; ac vn o'r lleoed ny dyly y mab sefyll yn*n* lle y dad y6 h6nn6. [2154]Sef achos y6 nas dyly: 6rth nad [119^{v}] ede6is dim o'e da ida6 ond y e6llys.

[2155]O dervyd y dyn holi peth yn*n* y dydyeu dydyon, na cholli na chaffel, ny byd ida6 ef hyn*n*y ony byd dodi oed kolli [a] kaffel yndynt; ac os hynny a dodir, k6pyl a gollir; ac velly am dir a dayar yn*n* amseroed y delyer karchary.

[2156]O dervyd de6edyd o vor6yn ar 6r d6yn treis erni, a'r g6r yn*n* g6ady, a d6edyd oheni hitheu yn*n* atteb, 'Ony dygoesty treis arnaf i, mor6yn 6yf i etto', sef a varn k*yfreith*, y hedrych; sef a'e hedrych, yr edlyg. [2157]O dervyd ydyn y chaffel hi yn*n* 6reic, ni eill y llall y 6ady; yna taled y g6r y d6a6d hi arno y threissa6 y cho6yll a'e h6yneb6arth idi hi, a'y hamodbyr o'e hargl6yd, a'e dilysr6yd. [2158]O dervyd ida6 ynteu y chaffel hi yn*n* vor6yn, bid hitheu ar vreint mor6yn ac na cholled y breint er y phrofi.

[2159]O dervyd d6yn treis ar vor6yn, ac ynn y treis h6nn6 kaffel beichogi oheni, ac na 6ypo hitheu p6y vo y dat, a'r argl6yd yn*n* [myny] amobyr, a hitheu yn*n* d6edyd na dylir idi kanys treis a dycb6yd erni ac na dyly g6reic a dyccer treis erni daly amobr; sef a d6eid k*yfreith* yna, diffodi yr amobr y'r argl6yd kany all6ys y chad6 rac treis ac ef yn*n* dlyed y chad6, a hyhi k*yfreith*ol oed. [2160]Eissoes kyd amheuer hi am hynny, ni cheir genti namyn y ll6 yhyn ar vod yn*n* 6ir a de6eid hi. [2161]Mab [120] y gyfry6 6reic honno, sef y bernir: 6rth genedyl y vam y breint, [ka]ny 6yper p6y vo y dad.

[2162]O dervyd y 6r d6edid bod g6reic yn*n* veicha6c ohona6, a'r 6reic yn*n* g6ady a'r g6r yn*n* adef, a'r argl6yd yn*n* myny yr amobyr, taled y g6r yssyd yn*n* adef, kanyd oes 6ad dros 6assaf.

[2163]O dervyd y dyn damd6g peth a g6erth k*yfreith* arna6, a bod yn*n* v6y y damd6g no'y 6erth k*yfreith*, yr ygneid a dylyant edrych ae kam y damdyg6yd; ac os kam, g6neler k*yfreith* anydon arna6 (sef y6 hynny, na6 ugeint kaml6r6), a'r egl6ys ynn [y] ol.

[2164]O dervyd y dyn gyry peth ar arall y greireu, a g6edy y gyrr y diheura6, hynny a el6ir k*yfreith* anydon, kany eill na bo anydon y neill ohonynt.

[2165]P6y bynac a dycco kreireu y dadleu ac y keissa6 o'r llall oed ynn y erbyn y kreireu a deith gantha6 ef, k*yfreith* a d6eid na dyly h6nn6 y greirieu ef hyn*n*y darffo y datleu ef; o hyn*n*y allan kyffredin vyd y kreireu y ba6b ynn y maes. [2166]Nyd reid kreireu ynn y dadleu a gynhaler ymyn6ent ac egl6ys, kanys plas y kreireu y6.

[2167]O dervyd bod k*yfreith* ynadleu ac na bont greireu ynn y maes, k*yfreith* a d6eid na dylir oed y geissia6 y kreireu namyn tra katt6o yr ynad y vra6dle, a hynny [6rth] e6llys yr ynad.

[2168]O dervyd y vra6d6r barny kam vra6d a'e ameu [120^{v}] amdanei, ac na chynikier g6ystyl yn*n* y herbyn kynn y kyfodi o vra6dle, ny dyly y gymryd byth g6edy hynny onys myn.

[2169]Tri chadarn byd: argl6yd, a dryd, a didym; sef achos y6, maen dros iaen y6 argl6yd; sef y6 dryd, dyn yn*n*vyd, ac yn*n*vyd ni ellir† kymell dim arno namyn y e6llys; dyn didim, sef y6 h6nn6, dyn heb da gantta6, ac 6rth hynny ny ellir kymell da lle ni bo.

[2170]Dlyed kynghella6r y[6] sefyll a bod yn*n* lle y brenhin yn y 6yd ac yn y absen ymhob peth, a chroes y6 y groes, a g6ard y6 [y] 6ahard; ac ef a dyly gan y brenhin modr6y eur, a tha6lbord, a thelyn; hynny pan ystyno s6yd ydo, ac ynteu a dyly y kad6 h6ynteu vyth.

[2171]Ped6ar dyn y m6ynheir k6yneu† a del attynt: maer, a chyghella6r, a rygyll, a maer bis6eil.

[2172]Tri argae g6aed yssyd: g6aed hyd ran, g6aed hyd g6ll, a g6aed hud la6r. [2173]O'r deu, o bydir dig6yn ni dylir dim am onodynt. [2174]O'r trydyd, od enllibir, ef a dylir am 6aedlydy y dayar ohon*n*a6, ac o ch6ynir am bob vn o'r deu ereill ef a dylir; sef a dylir am bop vn onodynt, dr6y.

[2175]Tri argae tervyn: breint, a prodolder, a chyg6archad6. [2176]Ni eill dyn a vo is y rad noc vn o'r hei hynny dervyny arnadynt h6ynteu.

[2177]Kyd a hyn*n* y dylir kad6 koed kad6: o 6yl Jeuan y M6ch hyd [121] y pymthecved g6edy y Kalan; yn*n* hynny o amser ni dylir mesobyr o cheiff dyn voch dyn arall yn*n* y koed, kyny chaffei namyn tri ll6dyn. [2178]Ereill a d6eid pan y6 o'r dec l[yd]yn. [2179]K*yfreith* y6 e neill, a'r gydvod y dec llydyn; a'r m6ch [yn] di6rthod† hynny o amser g6edy y llader y mes6byr ohonynt.

[2180]Tri thl6s kenedyl: melin, kored, a pherllan; sef achos y gel6ir yn*n* dri thl6s kenedyl: 6rth allel o ba6p o'r genedyl bod yngyd amdanynt. [2181]G6erth kored y6 punt. [2182]G6erth melin y6 punt. [2183]G6erth k*yfreith* yssyd ar bop afallen o'r perllan.

[2184]Tri g6arthryd kelein: vn onodynt pan lader kelein, drychaf a gossod erni; a'r eil, ysbeilia6 kelein; a'r trydyd, y g6an a throed pan ofyner, 'P6y hon?'; a'r hei hynny yssyd kymeint a sarhaed, euthur† na drychefir erni: ereill a'e geil6 'teir sarhaed kelein'.

[2185]Tri dygy[n]goll kenedyl: vn y6, o dervyd y vab ameu 6neuth*u*r kyflafan, ac am y gyflafan keissa6 y 6ady ac nas g6adysynt gynt ef, ni ad k*yfreith* y 6ady hynny di6ikio y'r genedyl y gyflafan drosta6. [2186]Eil y6, o dervyd llad mab ameu diodefedic ac na ry gymerer, ny thelir y alanas; sef achos na thelir, kan*n*y chymerssant h6y efo yn*n* gyf*reith*ol yn*n* y vo6yd ny varn kyf*reith* gaffel da ohonynt h6y[n]teu [121^{v}] o'e ageu ef. [2187]Trydyd y6, o dervyd y dyn lad arall [ac] yn*n* ol y llad h6nn6 dyg6yda6 galanas a meichieu o'r genedyl a ohona6 ynteu ar yr alanas, a chyn dyfod oed y tal y d6yn o'e vam y dad arall, sef a d6eid k*yfreith*, y dylyant taly galanas euthur y ran ef, ac o hynny y de6edir 'tal6ys a vechni6ys'.

[2188]Tri phrifieu g6reic y6 y cho6yll†, a'e g6arthryd, a'e sarhaed. [2189]Sef y6 y g6arthryd g6reic, pan gaffo g6reic arall gan y g6r; y treigil kyn[t]af y kaffo, cheigeint a dyly; yr eil treigil, punt; trydyd tregil y kaffo, ysgar a eill yn*n* digolled, a hi a'r aeidi. [2190]Ny dyly g6r sarhay y 6reic namyn o dri achos: vn y6 am rodi peth ny dyly y rodi; yr eil y6 am gaffel g6r genthi; trydyd y6 am vna6 mefyl ar y varaf.

2169 † ni ellir ni ellir
2171 † k6yneu k6 / yneu
2179 † didyf / yrchod
2184 † euthur euth*u*r
2188 † y6 cho6yll, *gyda* y *fach uwchysgrifol mewn llaw arall (?).*

[2191]Pob peth o'r daoed a d6edassam ni ychod y kaffel o 6reic a dychon dodi y daoed hynny ar neillty [ydy] a'e hepil, a chyd ysgaro ac ef ny dylir rany hynny ac ef, a chyd boed mar6 nys dylu. [2192]Ac os maed ynteu hi g6edy as kaffo gan 6r, ny dyly dim ia6n genthi namyn hynny, kany dyly dif6yn a dial. [2193]Yn*n* ysgar by6 a mar6, y mar6 bieu rany a'r by6 bieu de[6]is.

[2194]Kyfreith aryf y6 damd6g yn*n* y lle y g6neler, ac [on]y lydir ni dylir amdeni na dir6y na chaml6r6, nac ar y dyn a'e damdygo [122] na ar y dyn y bo ganta6, namyn [y] kymryd yn*n* ryd; or llydir hitheu, bid ar y breint yd holer.

[TREFN CYFREITHA]

[2195]P6y bynac a vyno g6neuth*u*r k*yfreith* a'e gilyd, kyn*n*taf y eisteu† yn*n* g*yfreith*ol, ac odyna gal6ed y gyga6s am vach ar g*yfreith*. [2196]Differed yr amdiffyn6r os dychon, ac ony dychon y diffryd roded y maȝ. [2197]Sef val y dylir eisdeu yn*n* g*yfreith*a6l: eisteu o'r brenhin a'e gefyn ar yr heul, neu ar drechyn a fo val na bo y 6yneb ef yn*n* erbyn drychyn, a deu henefyd†, vn o bob ty ida6, ac odyn*n*a g6yrda yn*n* y gylch, ac odyn*n*a bra6d6r llys geir y bron, a bra6dr y kym6d o'r neilldy ida6, ac yffeiriad o'r ty arall ida6. [2198]A heol gyfeir6yneb ac h6y*n*t y vyned y bra6dle ac [y] dyfod, a'r d6y bleid o bop ty y'r fford, a'r deu gyga6s yn*n* nessaf y'r fford o pob [ty] ydy, a'r deu berchena6c ha6l yn*n* y perved, a'r deu ganlla6 yn*n* euthaf. [2199]A phleid yr† amdiffyn6r ar y lla6 deuheu ar y fford, a ph[l]eid yr ha6l6r ar y lla6 ass6 ar [y] fford, a'r deu rigill yn*n* sefyl y6ch ben y deu gyga6s.††

[122v] [2202]Ac yna y mae ja6n y'r ynad gofyn y'r ha6l6r p6y [y] gyga6s a ph6y y ganlla6. [2203]Ac yna d6eded ynteu p6y voynt 6y. [2204]Ac yna gofyner ida6 a dyd ef kolli neu gaffel yn eu pen h6y. [2205]Ac yna de6edyd y dodi. [2206]Ac yna gofyner y'r amdiffyn6r a dyd ynteu goll neu gaffel ymhen y bleid a vyd gydac ynte. [2207]Ac ynna y mae ia6n kymryd ganthynt h6y golli neu gaffel a d6edent. [2208]Ac yna y mae ja6n gofyn ydynt h6ynteu a ss[af]ant h6y yn*n* erbyn a doded arnadynt h6y. [2209]Ac yna y mae ia6n ydynt h6ynteu adef g6ir sefyll.

[2210]Ac yna y mae ja6n kymryd gan pa6b onadynt [bod] 6rth hynny; honno a el6ir 'en tel6ed'. [2211]Ac yna dodi yr ostec, ac d6edyd o'r ynad†, 'Gosb yr anostec'. [2212]Ac yna y mae ja6n y gyga6s yr ha6l6r erchi mach ar g*yfreith* val y d6eidassam ni ychod, a g6edy hynny kygha6ssed. [2213]A g6edy hynny kymered yr ynad y d6y gygha6ssed a datganed h6y. [2214]A g6edy as datganno, aent [yr] ygneid a'r yffeireiad a'r righylleid y gyd ac h6y allan, a barned her6yd y d6y gyga6sed; ac o byd reid geir kyfarch, anvonent deu o'e ofyn. [2215]A g6edy hynny doed ynteu y my6n a kymered vach ar obyr, a g6edy hynny datganed ynteu y vra6d, a g6edy hynny bid dilis y varn honno vyth.

[2216]O dervyd dodi gostec ar y maes [ac odyna anostegu o vn], teir by6 kaml6r6 ar h6nn6 a bod yn anolo y geir ida6 [123] ef ac y'r gyga6s.

2195 † eisteu eisteu
2197 † hen / byn, *wedi'i danddotio a* henefydd *ar ymyl y ddalen mewn llaw ddiweddarach*.
2199 † ph / eur, *a* phlaid *ar ymyl y ddalen mewn llaw ddiweddarach.*
2199 †† Am destun §§ 2200–1, gw. y Nodiadau.
2211 † yrad

[AMRYWION]

[2217]Nyd reid mach ar dylysr6yd arveu, nac ar dlysseu kerdetic, y am 6regis a chyllell a chae, a b6yd troeledic, ar ariant. [2218]Sef acha6s nad reid mach arnynt: 6rth na ellir y herlid 6rth y hanilyssu.

[2219]Tri dyn y trayana y brenhin ac h6ynt: y vrenhines, a'r penteyly, a'r penkynyd. [2220]Sef lle y ran ef a'r vrenhinees, nid amgen nac ymhop lle yn*n* y kyfoeth euthur gor6lad. [2221]O'r anraith o'r or6lad, y penteulu a dyly ran deu 6r ac a dyly trayan o drayan y brenhin. [2222]O gr6yn enifeileid g6yllt, y penkynyd a dyly trayan o drayan y brenhin. [2223]O pob anreith, y brenhin a dyly drayant y eifir, a'e ariant, a'y s6llt, a'e gyrn bielyn, a'y vein g6erthva6r, a'e essgynnu y bo urlys 6rthynt.

[2224]Pop peth a gaffo prioda6r yn y dir euthur eur ac ariant, ef yhyn biefyd hynny.

[2225]Messyr gorfflan y6 hyd er6 k*yfreith*ol, a hynny yn*n* g6mpas yghylch y vyn6ent.

[2226]Am vrad argl6yd: p6y bynac a'e g6nel ac gaffo na6d, a mynu ymd6yn val y d6etto k*yfreith*, y g*yfreith* a varn ida6 goli tref y dad kyd diago y eneid her6yd y na6d a gafas.

[DAMWEINIAU]

[2227]O dervyd [y dyn] g6neuth*u*r o gam g6erth vn geina6c, ac ef ar na6d a chreir arna6, ef a dyly kolli k6pyl o'r eida6 ac o'e anreith [123[v]] yr [y] na6d h6nn6, ony cheiff na6d arall o ne6yd; sef achos y6 hynny, y na6d a anvreini6ys ef ny dyly ohonna6 vn na6d.

[2228]O dervyd y dyn vod kreir arna6 ac arveu yn y la6, a cheissa6 ohonna6 arvod ac h6ynt, ny dyly na6d y kreir. [2229]Os y greir a de6is ynteu, g6ahaner y arveu ac ef a chat6er lle nis kollo.

[2230]P6y bynac [a vynno] na de6ikio kyflafan a 6neler a'e arveu, doded ynn y lle kyhoededic h6ynt, a doded na6d Du6 a na6d yr argl6yd arnynt; ac onys dyd, de6igied.

[2231]O dervyd y rad6r g6neuth*u*r kam y dyn arall, kymerer ia6n ganta6 val gan dyn arall; g6naed yr argl6yd a vyno ac ef.

[2232]O dervyd y rad6r gaffel kam gan lyc, di6gied val y d6etto yr egl6ys onyd ageu a da6 ohona6. [2233]Os y ageu a da6 ohonnay, di6ikier y'r egl6ys y g6arad6yd a'e sarhaed, a thaler y'r genedyl y gorff ynteu a'e eneid.

[2234]O dervyd bod dyn a dylyo g6ira6d gyf*reith*a6l, ac ni myno namyn y uesyr a d6etto k*yfreith* amdana6, sef y6 messur g6ira6d k*yfreith*a6l: lloneid y llestri y g6allofyer yndynt o'r c6ryf, ac y haner o'r braga6d, ac y haner o'r med.

[2235]O dervyd bod dyn yn d6edyd na dylyeu yfed llaca6d, a bod amrysson am loneid lakaut, sef y6 meint y llakaut: kyhyd a ch6gyn yr e6in ar yr y6dvys.

[2236]Ni dylir taly t6nck o dir kyfrif; [124] sef acha6s y6, am nad oes er6 diffodedic ynda6.

[LLWGR ŶD]

[2237]Kyf*reith* dala a g6archeu ar yt a g6eir y6 honn.

[2238]O'r pann heer yt, kyf*reith*a6l y6 y gad6 rac ll6gyr yssgrubul yn*n*y elo y yssguba6r. [2239]A hyt galan gayaf y dylyir eu gadu yn egoret, os mynn eu perchenna6c, y ell6g g6ynt yndynt. [2240]Od a yssgrubyl yndunt a g6n*n*euthyr eissi6et, hyt galan gaeaf di6ygiet eu perchenna6c o yt. [2241]O hynny allan pa6b a dyly kay y yscuba6r a g6nneuthyr eu llogeil yn gyf*reith*a6l, val na allo yssgrubyl eu tori; ac onys kae velly, kyt llykrer nys di6ygir.

[2242]Drysseu yr yssguba6r a dylyir eu kadarnhau o dri r6ym: deu r6ym drachgefyn pob dor, ac vn racdi.

[2243]Pob perchen ydlan a dyly g6n*n*euth*u*r kae yn y chylch val na allo vn enifeil a dylyer dif6yn y l6g*y*r vynet drosta6; [onys g6na], o g6nant eussi6et ny dy6gir.

[2244]P6y bynnac a vynno llafyrya6 kennin neu ga6l neu lysseu ereill, g6naet kae yn eu kylch val na allo vn enifeil vyn*n*et drosta6; onys g6na, kyt llygrer nys di6ygir, eithyr ieir neu 6ydeu neu adar ereill a allent hedeg dros gae, a rei hynny a dylyir dif6yn eu ll6g*y*r neu v6ynt eneit vadeu. [2245]To tei a'e hachvreu a dylyir eu kau rac eu llygry o yssgrubyl, ac ony cheyir, kyt llyccrer nys di6yg*i*r.

[2246]Aryant a dylyir o yssgrybyl a ordi6eder yn g*yfreith*a6l [124^{v}] ar yt o'r pann heer yny el y yssgub, ac odyna yssgub iach yn lle y glaf.

[2247]Y g6eirglodeu a dylyir eu kad6 o galan Ebrill hyt galan gaeaf. [2248]Vn gyfreith vyd y 6eirgla6d a'y yt yn hynny o amsser. [2249]Ny dylyir o 6eirgla6d dif6yn ll6gyr kany ordi6edo y pherchen yssgrybyl yndi, namyn ariantal neu lanhau yr yssgrubyl. [2250]Sef acha6s y ked6ir g6eirgla6d yn hynny o amsser: am y llad A6st a[c] y llad 6yl Vihagel; ac o 6yl Vihagel hyd gala*n* gaeaff y kad6 yn borfa meirch. [2251]Pob perchen g6eirglod a dyly g6neuth*u*r terfyn hynot aml6c yn y chylch; ac onys g6na, kyt llyccrer nys di6ygir.

[2252]Eirienyneu tiroed, kyny bo yt yndunt, os perchen yr yt a 6na kae yn eu kylch ef a dylir y kad6 yn vn vreint a'r yt; ac 6edy y dyccer yr yt, ny dylyir kad6 yr emyleu hynny.

[2253]Ny dyly neb o gyf*reith* g6ellt kad6, kans porfa a dyly bot yn gyffredin.

[2254]Ny dyly neb breint o'e anefeil val na 6nel ia6n drosta6 am bob kam a 6nel, na llygry yt na chyflafan arall.

[2255]O gordi6edir march neu gassec ar yt, keinha6c dros pob vn onadynt. [2256]O eba6l neu eboles o'r dyd y ganer hyt y ped6eryd dyd ar dec, ny thelir dim drosta6; o hynny allan, o pob vn val eu mam.

[2257]O damh6eina bot kassec a hual ernei neu 6rth dit, ac eba6l genti yn llygru yt, dyget perchen yr yt y gassec hyt y lle y gallo dala yr eba6l, ac g6edy [125] y darffo y dala, dyget y gassec yn y charchar val kynt o'e hen lle; ac yna y dy6eit kyf*reith*, 'y dof a deila y g6yllt'. [2258]O chyll y perchenna6c y gassec o'r dala h6nn6, y deiliat a dyly y thaly o gyfreith; ac ny dyly argl6yd yna vn dial, kani oryc y deiliat vn aghyf*reith*. [2259]O byd anifeil 6rth did val y kyraydo yssu yr yt, ac na del vn karn ida6 ar yr yt, ny dyly y deiliat y dala kany by† y phed6ar karn ar yr yt; ac yna y dycha6n y perchen y diheura6 os myn*n*; ac onys diheura, di6ygiet y ll6g*y*r, kany dylyir aryant ymdana6 yna.

[2260]Ebol yn ol y vam, kyt el dros y fford a llygry yr yt, nys di6ygyr; ac yna y dy6eit kyf*reith* na thelir saeth ebol.

[2261]March dan*n* y b6nn, neu yn lla6 y perchen*n*a6c, neu rac bronn ar gerdet, kyt ysso yr yt o bopty y'r fford o ar y fford, a chyt carno dros y fford a'y berchen yn y ol yn y achyb, ny dylyir y dala. [2262]Ony byd a'e gyrro ynteu o'r yt, ryd y6 y berchen yr yt y dala a'e d6yn y gyf*reith* ohona6. [2263]Os perchen yr yt a ergen*n*uyd yssgrubyl yn y yt a mynet ohona6 ynteu eu dala, a chyn y ergeitta6 ohona6 ef yno daruot achyp yr yssgrubyl, eu perchenna6c a dycha6n eu glanhau os myn; ac onys glanha, di6ygiet eu ll6gur y berchen yr yt, ac ny dyly aryantal [125^{v}] yna kanys gordi6eda6d yn yr yt ac nat oes tystoliaeth ar eniueil. [2264]Os

2259 † kany ny by

perchen yt a ordi6ed ysgrubyl yn agos o'e yt ac na boynt ar yr yt, a myny o berchen yr yt eu dala y ar y maes, a dynnion yn edrych ar eu dala y ar y maes, yna y dy6eit k*yfreith* pan y6 yn ll6 y deiliat y byd kanyt oes tystoliaeth ar eniueil; ac ony ryd y deiliat y l6, talet gaml6r6 y'r argl6yd; or ryd ynteu y l6, rydhaet eu perchenna6c yr ysgrubyl o'e k*yfreith*.

[2265]O vch neu vuch: dimeu. [2266]Llo o'r nos y ganer hyt galan gaeaf o'e kymysgu a'e mameu, vn 6erth a dylyir os keffir ar yt neu eu g6archeu o'r pryt py gilid. [2267]O 6yn ac o vynneu o'r pan aner hyt 6yl Vihagel, vn g*yfreith* vydant a lloi. [2268]G6ystlon a 6ystler dros loi ac 6yn a myneu, ny dlyir eu hattal namyn tra dlyit attal y lloi a'r 6yn y g6ystler drostunt; sef y6 hynny, vn dyd anyana6l o'r pryt py gilid.

[2269]Rei o'r ygneit a dy6eit, o'r pan didyner 6yn a myneu eu bot yn vn g*yfreith* a'e mameu; kyf*reith* a dy6eit, kyt dyccer gantynt laeth eu mameu na chollan*t* 6y eu breint eu g6archeu hyt 6yl Vihagel. [2270]Kyf*reith* a dy6eit, pob g6ystyl a 6ystler yn gyf*reith*a6l y dyg6yd yna6uetyd onyt amot a'e llyd, ac am hynny y dy6edir, [126] 'trech amot no g6ir'.

[2271]O vn ll6dyn ar bymthec o voch o gordi6edir ar yt, de6is ll6dyn a dyly perchen† y moch, a'r eil de6is y'r deiliat. [2272]Ony byd namyn vn h6ch, a gordi6es honno o berchenna6c yr yt yn y yt pymtheg6eit, dilys vyd yr h6ch yr vnvet 6eith ar bymthec y'r deiliat os g6archae yn gyfre*itha6l* y pymtheg6eith, ac nas gellygo namyn tr6y g*yfreith*. [2273]Parchell o'r pan dechreuo tomuei†, vn gyfreith vyd a'e vam am l6gr yt. [2274]Pob ll6dyn a 6archeer ar yt a dylyir dyf6yn y l6gyr val y barno kyf*reith*; eithyr h6ch pan el y goet, kyt llyccro yt yna nac ar vaes nac yg koet nys di6ygir. [2275]Sef achos nas di6ygyr: yna y ryd y heneit er y bo6yt. [2276]Ott a h6ch y ysguba6r o'r pan darffo medi hyt galan gaeaf a llygry yt ohonei, y pherchen a dyly dif6yn y ll6gyr, kans yna y dyly pob ysguba6r bot yn ygoret y gymryt g6ynt.

[2,777]O dec ll6dyn ar hugeint o defeit neu eivir o gordi6edir yn g*yfreith*a6l ar yt, de6is a dyly perchen y defeit, ac eil de6ys y berchen yr yt, [sef y6 h6nn6,] deiliat. [2278]Ony byd namyn vn dafat y dyn, neu vn avar, a'y dala o berchen yr yt na6 6eith ar hugeint yn g*yfreith*ol, ac nas gellygo o'e pherchen namyn dr6y g*yfreith*, dilis vyd y dafat y'r deiliat y degved 6eith ar hygeint. [2279]O bym ll6dyn o defeit, keinha6c a dlyir. [2280]Kyt bo kan llydyn o defeit neu eivir yn vn kad6 yn eida6 vn perchen, o gordi6edir ar yt bon a blaen ny dyly [126^{v}] perchen yr yt namyn de6is vn, ac eil de6is vyd honno.

[2281]Jeir a dylyir eu dala y ar yt o'r pan heer yny el yn y la6n egin. [2282]O'r pan el yn y la6n egin yny el yn y la6n ra6n, ny dylyir eu dala ac ny dy6gir eu ll6g[r]†. [2283]O'r pan el yn y la6n ra6n yny el yn y ysguba6r y dylyir eu dala a dif6yn eu ll6gyr, a'r decvet ll6dyn ar hugeint a dlyir onadynt, a de6is y'r perchen, a'r eil de6is y'r deiliat. [2284]Ky6yon g6ydeu a chy6ion ieir o'r pan allant gassgly eu b6yt, vn g*yfreith* vydant ac eu mameu. [2285]Rei o'r ygneit a dy6eit y dyly perchen yr yt llad a ordi6edo o ieir ac g6ydeu yn y yt a ffon*n* kyhyt a'e vreich. [2286]Ereill a dy6eit na dlir llad yr vn onadunt onyt ll6dyn kymeredic; sef vyd h6nn6, vn a ordi6eder deir g6eith ar vn ty yn apsen y bygeil, a pherchen h6nn6 a dy6eit y dyly ohona6 vot yn eneit vadeu.

[2287]P6y bynnac a dalo ysg[r]ubyl ar y yt, ef a dyly eu dala yn g*yfreith*a6l. [2288]Sef y6 hynny, o byd amgen berchnogion arnyn*n*t ac eu dala o deiliat y my6n ty, ef a dyly r6ymo pob vn onadynt ar neillty rac llad o'r vn onadynt y gilid; onys r6ym, o llad yr vn onadynt y gilid y

2271 † perch / chen
2273 † ton*n*uei
2282 † ll6g, *gyda saeth ac* r *uwchysgrifol mewn llaw ddiweddarach*.

deilat a'e tal. [2289]Os ysgrubyl pob perchen a dyt ynteu ar neillty, kyt llado pob vn onadynt y gilid nys tal y deiliat.

[127] [2290]March g6yllt y my6n g6acty y dylyir eu dala. [2291]March dof ac yg6acty ac yn ty kyfaned y dlyir eu dala.

[2292]Ny varn k*yfreith* y deilat r6ymo pen a thraet vn anifeil yn y 6archeu. [2293]Ny dyly deiliat, ony myn ehyn, mynegi y berchen ysgrubyl eu g6arche, kanys pob perchen ysgrubyl a dyly kad6 y ysgrubyl rac llygru ar y gymydogion. [2294]Os perchen ysgrubyl a'e gofyn, ny dyly y deilat y kely: ac os kel a'e mar6 yn y g6archeu, y deilat a'e tal y y perchnogion a chaml6r6 y'r argl6yd.

[2295]P6y bynnac a dalo ysg[r]ubyl a'e gell6g y bori, ny chyll y vreint er hynny er g6neuth*u*r g6ell noc a dylyeu. [2296]P6y bynnac a dalo ysgrubyl a'e diagk o'r g6archeu hyt y kartreu, ny dylyir eu dala yr eil 6eith, kany dlir deu dala am yr vn ll6gr. [2297]P6y bynnac a dalo ysgrubyl a g6rthot g6ystl k*yfreith*a6l amdanynt er keisa6 aryant, o byd mar6 yr ysgrubyl ef a'e tal. [2298]P6y bynac a dalo ysgrubyl la6er ac atal vn onadunt dros† 6eithret k6byl, ny dyly ef onadynt namyn k*yfreith* yr vn a ettelis. [2299]P6y bynac a del y ell6g ysgrubyl dros ereill, ia6n y'r deilat gofyn ida6 a seif ym pob peth drostynt, ac ony seif ny dyly eu gell6g; kyt bont mar6 er nas kaffei, nys telir. [2300]Os ynteu a seif ym pob peth drostynt, kymerer g6ystl [127v] y ganta6, a mach ar y dilyssr6yd y g6ystyl. [2301]G6ystyl a 6ystlo g6reic dros ysgrubyl, ny dyly y g6r y anylyssu; ac velly ny dyly y 6ric anilyssu y g6ystyl a rodo y g6r.

[2302]P6y bynnac y bo ll6gyr ma6r ar y yt a gordi6es yssgrubyl ynda6, a myny ohona6 k6byl o dal yr yt gan y neb y gordi6edo y ysgrubyl ynda6, ny dyly perchen yr ysgrubyl taly ynnamyn 6rth y l6 ehyn dros y ysgrubyl; ac velly pob perchen ysgrubyl o'r a'u llygra6d a'e d6yn a dylyir hyt ar y tir. [2303]Sef a dlyir gofyn h6n6: kyn kalan gaeaf.

[2304]Ny dylyir dala tar6 vn amser yn ol by6ch deruenyd, nac ystala6yn o haner Ebrill hyt haner haf, na'r meherin na'r bycheu o 6yl Vihagel hyt gala*n* gayaf. [2305]Pob perchen anifeil a dyly g6neth*u*r ia6n dros bob aghyf*reith* a 6nel y anifeil onyt breint a'e differ, megis kyndared, kany thal neb g6eithret a 6nel enifeil kyndeira6c.

[2306]P6y bynac a rodo b6yt y dyn a vo b6yt 6ahard yn llys ac yn llan, talet y dir6y a'e gaml6r6 y'r argl6yd, a'e 6eithret oll.

[MACH]

[2307]Llyma g*yfreith* vach a chynnogynn.

[2308]O deruyd y dyn rodi mach y arall ar beth, ja6n y6 ida6 rydhay y vach o vn o dri pheth: ae taly drosta6, ae g6ystla6, ay g6ady nat mach. [2309]Os g6ady a 6na, val hyn y g6edir: dyfot ar yr ynat, ac ynteu bieu keissa6 [128] y gan y d6y bleid adef ae mach h6n. [2310]'Mach,' heb yr ha6l6r; 'Na vach,' heb y kynnogyn: yna y mae ia6n y'r ynat gofyn y'r mach, 'A 6yt vach di?' [2311]'Wyf,' heb y mach; 'K6byl 6at,' heb y kynnogyn, 'nat 6yt vach di y gennyf i, nac ar hynny nac ar dim.' [2312]['Dy6 a 6yr,' heb y mach, 'val y mae goreu y dyly mach hepr6g y vot yn vach, yd hebrygaf i vy mod yn vach']; 'Dy6 a 6yr,' heb kynnogyn, 'val y mae goreu y dylyaf i 6ady mach, mi a'th 6adaf.'

[2313]Yna y mae ja6n y'r ynat edrych pa ffynyt y g6atta; sef a 6yl kyf*reith* yna, kanyt oes namyn y vn taua6t ef yn gyrry arna6 na dyly namyn vn taua6t y kynogyn y 6ady. [2314]'Je,'

2298 † dors

heb y kynogyn, ‘mineu a’e g6adaf.’ [2315]Yna y mae ia6n y’r ynat kymryt y kreir yn y la6 a dy6edyd 6rth y kynnogyn, ‘Na6d Dy6 ragot, a na6d yr argl6yd, na dos yn ll6 kam.’ [2316]Ot a ynteu yn ll6, tyget y Dy6 yn y blaen, ac y’r kreir yssyd yn lla6 yr ynat, nat mach ef y ganta6 ef, nac ar a dy6at nac ar dim. [2317]Ony 6rtht6g y mach arna6, bit ryd y kynnogyn o’r ha6l a thalet y mach y’r ha6l6r. [2318]Os ef a 6na y mach g6rtht6g ar y kynogyn, g6rthdyget tra vo y kreir yn lla6 yr ynat. [2319]Sef mal y g6rtht6g: ‘Myn y kreir yssyd yna, mach 6yf i genyti ar yr hyn a dy6edeis i, ac anydon a dygeisti, ac am y g6rthd6g a 6nneythym i arnati mi a vynaf vra6t o g*yfreith* gan yr ynat.’

[2320]Yna y mae ja6n y’r ynat vynet o’e vra6tle. [2321]Sef y barn k*yfreith* yda6, [128^{v}] ll6 y kynogyn ar y seithuet y 6ady: ped6ar g6yr o genedyl y dat, a deu o genedyl y vam, ac ef yhynan seithuet. [2322]Sef vyd nesset kerenyd y reith ida6, val y dlyant daly galanas a’e chymryt y gyt ac ef. [2323]Sef vyd oet y reith, wythnos o’r Syl rac 6yneb. [2324]Sef lle y tal y reith, y llan y bo y dyf6r s6yn a’e vara yfferen. [2325]O cheiff y reith, k6byl y6 ida6; onis keiff, talet y’r ha6l6r y dylyet, ac o my*n* yr argl6yd erlin k*yfreith* anudon arno, ef a’e dycha6n.

[2326]Pa vach bynnac a 6rthdygo ar y kynnogyn, ryd vyd o’e ha6l a’e vechni kany[s] goryc teithi mach. [2327]Pa vach bynac ny 6rthdygo, talet euhyn y’r ha6l6r kans ny oryc teithi mach. [2328]Pann adefo mach y vot yn vach rac bron yr ynat, ja6n y6 y’r ha6l6r tystu y’r ynat adef ohona6 y vechni rac ida6 6ady yr eil6eith. [2329]A llyna yr vn lle y byd tyst ar vach.

[TIR]

[2330]Tir korfflan ny dylyir y rranu namyn her6yd gardeu; kyt bo tei arna6, nys dyly y mab ieuaf h6ynt m6y no’r mab hynaf, namyn eu rany her6yd ystevyll. [2331]Ny dyly neb attal gardeu gantha6 her6yd breint teil namyn vn vl6ydyn, kans pob bl6ydyn y dylyir eu teila6.

[2332]Braenar, d6y vlyned a delir y eredic. [2333]Braendeil, y [129] gyhut arall. [2334]Sef y6 braendeil, lle y gnotao ysgrubyl gor6ed heb vyarth. [2335]Tir g6yd a vo buarthdeil arna6, pym mlyned y dylir y eredic. [2336]Buarthdeil ny bo tir g6yd, teir blyned y dlir y eredic. [2337]Kardeil, pedeir blyned y dlir y eredic. [2338]Tir a digoytter, pym mlyned y dlir y eredic.

[2339]Ny dyly neb 6erthu tir na’e bridia6 y neb heb gen*n*at argl6yd, namyn y logi bob bl6ydyn. [2340]G6yr a vo dan abbat a g6yr esgob a dylyant pridia6 eu tir, gan genat eu hargl6ydi, os mynant.

[2341]Kyfreith a dy6eit y dyly vchel6yr kynal argl[6]ydiaeth ar eu halltdydion megis y kynhalho yr argl6yd argl6ydiaeth ar y alltydion ynteu. [2342]Mal ydd aa alltydion brenhin yn briodorion yn y ped6eryd dyn g6edy ystyner diffeith brenhin vdunt, velly ydd aa alltydion vchel6yr yn y ped6eryd dyn o buant yn g6archad6 yr vn tir danunt. [2343]Ac ni dlyant h6ynteu d6y briodolder, vn yn y 6lat y hanffont ohonei ac arall yma. [2344]G6edy b6ynt briodorion h6ynteu, eu tyddyneu a edir vdunt her6yd y dlyont, ac eu tir namyn hynny yn dir s6ch a ch6llt6r rydynt.

[2345]O myn yr alltydion mynet y 6rth y hargl6ydi kyn eu bot yn briodorion, h6ynt a dylyant ada6 haner y da vdunt. [2346]Os o’r ynys hon y hanvydant, ny dlyant drigia6 yn vn [129^{v}] lle y ty h6n y Gla6d Offa; os tramor y hanvydant, ny dylyant trigya6 yma namyn hyt ar y g6ynt kyntaf a gaff6ynt y vynet eu g6lat; ac o thrigiant, ymchoelent ar eu hargl6ydi eu kaethi6et mal kynt. [2347]Ereill a dy6eit na dylya[n]t vynet hyt ar y trydyd g6ynt. [2348]Os yr ychel6yr a’e gyrr h6ynteu o eu hanvod kyn eu bot yn briodoryon, ny dyly yr ychel6yr o’e da m6y noc o da priodorion pan vynno[n]t ymada6 a’e hargl6ydi.

[HAWL LLEDRAD]

[2349]Ha6l lletrat.

[2350]P6y bynac a holo lledrat, val hyn y dyly y holi: en6i y dyn y holo y lledrat ida6, ac en6i y lledrat a holo, a phy veint o ledrat a holo; ac o bed6ar geir kolledic y dyly y holi her6yd k*yfreith*, a hynny yn llyossa6c. [2351]Ac yn ol hynny y dylir g6ady y geir yn y gilid a [thy]sty ar eir; ac or k6ympir ar eir, barny ar eir.

[2352]Ac val hyn y dy6eit yr ha6l6r, gan y en6i ef a'e dat os anifeil a ha6l: 'Ti a symydeist y myvi anifeil y ar y dyf6r a'e 6ellt, ac a gerdeist dyd a nos gantha6, ac a gefeist rif a ran ohona6, ac a'e g6dost arnat dy hyn neu ar arall, ac a'e g6naethost mevel a chy6ilid a g6rad6yd y'm hargl6yd, a chollet ac eisseu ac afles y mineu; [130] a choll eneit a ph[e]rigyl ageu y titheu amdana6 6rth dy vot yn eua6c ohona6, a hynny tr6y ynni lledrat a llofrydiaeth ac affeith[e]u†, ac a gerdeist goet a maes, r6yd a dyryss, g6lyb a sych, brynn a phant, g6lat a gor6lat, kyf*reith* ac aghyf*reith*, knefin ac aghnefin; ac os amheu mi a'e profaf arnat.'

[2353]Val hyn y dyly ynteu y 6ady: 'K6byl 6at y6 gennyf i y tydi,' ac en6i y da a'e li6 a'e veint, a'e enn6i ynteu a'e dat, ac odyna y geir yn y gilid val y holo yr ha6l6r ef; 'ac y gyt a hynny, o g6yl k*yfreith* vot yn ia6n kymryt pra6f gennyt ti ar enllib lledrat, y mae gennyf i a'm keid6; a mi a dodaf ar y gyf*reith* pa vn ia6naf y gredy, ae myfi yn g6ady y'm g6irioned ae titheu yn keissa6 profi arnaf i y peth nis g6eleist ac nis g6d6st.'

[2354]Yr ha6l6r yna a dyly dy6edyt, 'Pei as g6ypp6n i, nis g6ad6n; yn lledrat ym y d6gost, a thr6y ben hyny nis g6eleis, a chyt nas g6el6yf i y mae genyf a'e g6elas, ac a'e lly6a llygat yn llygat yn y 6ed y barno k*yfreith* oreu.' [2355]Ac yna y dyly ynteu dy6edyd, 'Or da6 attaf i a'e lli6o, pan vo lle ac amsser y mineu vynet yn y erbyn, mi a af.'

[2356]Ac yna y dyly yr ha6l6r d6yn y lli6at rac bron yr ynat, [130^{v}] ac yna y dyly yr ygnat kymryt kreir a gofyn ida6, 'Ae ti yssyd li6at?' [2357]Ac o dy6eit ynteu, 'Mi yssyd', archet yr ygnat ida6 dygu y'r kreir r[y] 6elet ohona6 y lletrat h6n6 li6 dyd goleu, a'e en6i ef a'r lledrat a di6a6d yr ha6l6r yn gyfli6 ac y d6at ac yn gymeint ac yn gyfref, a'r heul yn ychel yn ty6ny, ac nat ydi6 yn dy[6]edyd arna6 nac er kas na er digassed, nac er g6erth nac er gobyr, nac er kerenyd nac er kariat, namyn o'e 6ybot ac o'e 6elet ac o'e vot yn 6ir. [2358]Ac yna y dyly y neb y gyrer y lledrat arna6 y lyssy o vn o'r ffyrd y llyssir tyst; ac o dycha6n y lyssu, bit lyssedic a cholledic o'r datyl; ac onis dicha6n, bit safedic. [2359]Ac y mae yn y bra6tlyfyr y vra6t a dylir amdana6. De6i Br*efi*!

[CYFAR]

[2360]Pwy bynnac a vyn*n*o g6nneuth*u*r kyfar a'e gilid, ia6n y6 ida6 bot 6rtha6 a chyfarfot y d6y la6 y gyt; a g6edy as g6nnelynt, h6ynt a dylyant y gad6 yny darffo eu magyl. [2361]Sef y6 magyl, deudec er6 g*yfreith*. [2362]Y vessyr yr hirieu, dec pledrynn ar hugeint y 6ialen a vo kyhyt a'r ieu vyd hyt y er6, a d6y† yn llet yr er6.

[2363]Yr er6 gyntaf y'r amaeth, a'r eil y'r s6ch, a'r dryded y'r kollt6r, a'r bed6red y'r eith[ef]ic [131] ty6arch, y bymet y'r eith[ef]ic g6ellt rac torri yr ieu, y ch6echet y'r geil6at. [2364]Ac velly y rodir y'r ychen o oreu y oreu euthyr na thorir ieu yrythunt hyt yr er6 di6ethaf.

2352 † affeithu, *gyda saeth ac* e *uwchysgrifol mewn llaw arall.*
2362 † dec

[2365]O deruyd vdunt myny g6ahany g6edy y darffo y magyl, h6ynt a'e digonant onyt amot a'e r6ym.

[2366]P6y bynnac a 6nel kyfar o dala hyt ell6g, ia6n y6 ida6 kynnal penn yr ieu a gymero arno yny darffo eredic, os dycha6n. [2367]Ony 6nant gyfar amoda6l eidon a'e li6a6, kyt bo mar6 h6n6 ef a geiff y er6 kanyt ardo namyn vn kylch; a honno a el6ir 'er6 yr ych dy'. [2368]O deruyd dy6edyt ar vn o'r emeith g6*n*eyth*u*r kam ac vn o'r ychen, onyt ymdiheura talet yr eissi6et. [2369]O derfyd bot vch yn glaf, ay o vri6 ay o nychda6t arall, ia6n y6 o'y berchen kynal pen yr ieu. [2370]O deruyd y dyn 6erthy vch o'r kyfar a gyfarer ynda6, ny dylyir y 6erthy yny darffo kyfar. [2371]Os g6erth vn dyd kyn kaffel y er6, kollet y er6. [2372]Os g6edy kaffel y er6 y g6erthir, kynhalyet y berchenna6c benn yr ieu yny darffo y kyfar.

[2373]Pa6b bieu d6yn y defnydieu y'r aradyr pann dalyer, nac ychen, na heuyrn, na defnydieu ereill a vo ydynt. [2374]A g6edy y del [pob peth attynt, yr ameth a'r geil6at bieu kad6 y rei hynny yn di6all a g6neythur vdynt mal y rei a eidynt ehyn.]

[DAU DDYDDIAD PWYSIG]

[131^{v}] [2375]Sef oed oed Krist pan aeth Ho*6el* Da v*ren*hin y Ryuein y gadarnhau y g*yfreith*eu dr6y [bab]a6l† vedi*an*t, xiiii a ix ¢. mylyned. [2376]Oed K[r]ist .xl. a .ix ¢. mylyned pan vy var6 Ho*6el* Da, pen*n* a molia*n*t yr holl Vrytaniaid.

[CYD-ETIFEDDION]

[132] [2377]

g

b b

k h k

k b b k

k t k

k b b k

k m k

k k

w

g

[2378]Y ffygyr ychot a de*n*gys y dyn wybot dossparth a ssun6yr ar y rieni, a'e gydetifedion, a'e blant. [2379]Kanys rieni dyn y6 y dat a'e hendat a'e orhendat; kydetifedion ynt brodr [132^{v}] a chefyndyr a chyferdyr; etivedion y dyn y6 y rei a hanffo o'e gorff, megis mab ag 6yr a gor6yr. [2380]Ac os kyfr6ys vyd y dyn a vyro y ffygyr en6edic ychot, pan vo mar6 dyn o vn o'r teir ach o gorff y kyff kynhala6dyr yn dietifed o'e gorff, ef a 6yr p6y a dyly kaffel tir h6n*n*6

2375 † ***a6l, *dilewyd llythrennau cyntaf y gair*.

her6yd k*yfreith*. [2381]Kanys hyt y dryded ach y mae pria6t ran*n* ar dir yn llys kom6t neu gantref, ac y gellir y holi yn y gyfri6 lys honno; ac ni ellir kanlyn k6yn ach ac edryt y maes o lys dygyn*n*yll lle bo bra6d6r penadyr o bleit y brenhin yn eisteu ac yn roi k*yfreith* tr6y vreint penadyryeth y llys orychel heb neb ry6 diffic yn y g*yfreith* honno na neb ry6 eisseu teilyngda6d na chyffia6nder; kanys sserten o byngkeu a berthyn ar y llis orychel y tervyny, o'r rai a geffir y g6elt rac lla6 yn yssgrifenedic yn amlygach, ac ni ellir y tervyny ynn llys kym6t neu gantref oher6yd amryvaylon ach6ysson val y keffir y 6elet rac lla6; oher6yd na dylir tervyny nac arver o vn ran o a6dyrda6t y gyfreith yn y gilid ond y gadel megis y gossodet o'r dechreu, ac oher6yd hynny y mae yn reit y dyn dyssgy a manoli ar dossparth pob ran o'r a6dyrda6t val y tystolieithir rac lla6.

[GWYDDOR CYFRAITH HYWEL]

[133] [2382]Pwy bynnac a vyn*n*ho g6ybot beth y6 k*yfreith* a eu ran*n*eu, ac adnabot defnyd ha6l, a pha 6ed yr attepper y ha6l, a hynny ar dyall a grym teir testyn*n* o'r bra6tlyfyr, nit amgen teir rann a6dyrda6t k*yfreith*, ac ar dri defnyd ha6l, ac ar dri ry6 atteb yssyd ynn y g*yfreith*; a'r llyfyr h6nn a el6ir 'G6yddor Kyfreith Ho*6el* Da'.

[2383]P6y bynnac a vynnho dysgu k*yfreith*, reit vyd ida6 6ybot beth y6 k*yfreith*. [2384]Kans k*yfreith* yssyd ossodedigaeth gyfia6n 6nneythyredic o gyfynndeb y brenhin a eu deuyrnas a dyall y doython*n* y dosparth kynnhenneu amrysson kyfr6g ha6l6r ac amdiffyn*n*6r tr6y gyfaruodedigaeth ped6ar peth: argl6yd kyffredin, ygnat kadeiria6c, a d6y bleit gyndrycha6l; ac ynn nessaf y gellit y 6iryoned.

[2385]G6edy g6yppo dyn beth y6 k*yfreith*, a phy ssa6l rann a6dyrda6t yssyd, val y gallo dyall pop rann ar neillty a pheth a berthynn ar bop rann. [2386]Kans teir rann y6 yr a6dyrda6t: nit amgen k*yfreith* llys benatyr y brenhin, a chyfreith y 6lat, ac aruer o pop vn ohonunt.

[2387]Ar y ran*n* gyntaf y perthyn*n* amlykau breint y brenhin a'r vrenhines a'e hetifedion, a holl s6ydogion y llys bennatyr, a theruyny pyngkeu ni aller y teruyny me6n llys kym6t neu gantref odieith*u*r pyngkeu a ossodet y'r llys dygynnyll; nit amgen, vn p6ngkc ar bymthec, yr h6nn a geffir yn*n* lle arall yn*n* Lladin val y mae ha6s y goylo a'e 6elet yn*n* ysgrifenedic.

[133^{v}] [2388]Hysbys y6 mae ynn y llys bennadyr y teruynnir amrysson r6g g6ystyl a g6rth6ystyl, neu ossodedigaeth barn hyt pann drychafer geir bron*n* kanon6yr, ac yna llys dygynnyll bieu; a thir g6eithret, a rybychet, a chyfar6s, a phob tir a vo dann vreint y llys benatyr, llys benatyr a'e teruyna. [2389]Lla6er o betheu a ellit y teruyny me6n llys k6m6t neu gantref o ch[6]ynir ynn y llys benatyr amdanynt. [2390]Nit y6 k*yfreith* yn*n* kad6 hyt na aller y teruyny ynn y llys benatyr or k6inir yno ymdanynt, odieithyr peth myryedic a orffo her6yd dyall k*yfreith* y d6yn*n* y'r llys y han*n*ffo. [2391]Hefyt tir a holer o ach ac etryt o'r pria6t rann allan*n* a dylir y deruyny ynn y llys benatyr; ac hyt y dryded ach ef a dylir holi tir ynn yr orssed y hanffo y tir, megis r6g brodyr a chefynder6 a chyferder6, kans pop vn o'r rei hynny a 6yr y rann bria6dyr a dylyo y gaffel oher6yd k*yfreith*. [2392]O hynny allan nit oes bria6t rann ar tir kyt bont briodorion. [2393]Am hynny y [go]ssodet her6yd kyfreith y ry6 dadyl honno 6rth y llys benatyr, kans 'k6yn gorychel' y gel6ir h6nn6 oher6yd dyall y doethon.

[2394]Llyma yr achos na ellir teruyny k6yn ach ac etryt o'r dryded ach allan ynn llys kom6t [134] neu gantref: am na ellir kanlyn k6yn ach ac edryt eythyr ar 6elygord o gidgereint y'r neb a holo y tir, ac a vont yn kynal y tir h6nn6 dr6y yr vn ry6 gyff kynhala6dyr y bo ynteu yn holi rann gida h6y o'e blegit, ac ynn gallel ar6ein y ach yn*n* didiffodedic dr6y d6ng

henyryeyt g6lat† hyt ata6, ac nad el teir g6eith ar gogeil. [2395]A rac damcheino y ry6† dir h6nn6 me6n amryfaylon gygylloriaytheu g6edy rannu r6g y 6elygord, a dyfot rann rei o'r 6elygord me6n ry6 rei o'r gyghylloryaytheu, a rann ereill me6n ry6 rei ereill o'r kyghylloryaytheu val na ellit y kaffel dann lys kom6t neu gantref, y gossodet y ry6 dadyl honn6 6rth y llys benatyr mal y gellit kymell pa6b o'r 6elygord dr6y rym vn k6yn kyssylldedic y gitatteb y'r neb a'e holeu. [2396]Kany chygein k6yno o orssed y orssed am vn defnyd, na ch6yno rac vn dyn neu deu neu dri k6yn ach ac etryt o'r dryded ach allan, gan vot m6y o'r 6elygord yn kynnal y tir ynn y erbyn; sef acha6s y6 hynny, ef a damch6eineu vot etifediaeth o dir g6edy disgin me6n man ranneu r6g deigeint neu trygeint o gitdylyedogion, a bod vn o'r 6elygord, [ae] ef, ae dat, ae hendat, ae orhentat y maes o'r 6lat heb gaffel rann. [2397]Os h6nn6 a delei a holi vn o'r 6elygord ar neillty, od enillei ef dim [134v] yno, ef a gaffei gystal a h6nn6 er meint a vei ynn y la6, kans lle ny bo pria6d rann ar tir ny dyly priod6r ragor [n]a'e gilid. [2398]Ac velly yr ay ef ehunan yn*n* yr hanner o'r holl etifediaeth lle ny dylyei ef oher6yd k*yfreith* namyn kymeint ac vn o'r kyfriueti a vei ynn kynhal y tir yn y erbyn*n*. [2399]Ac 6rth hynny y gossodet yr ha6l honno 6rth y llys benatyr lle y gellit kymell pa6b y gitatteb. [2400]Ac os enill a 6nelei ef yno rodi kynn6ys ido ef gyda h6ynt, sef vydeu hynny: kymeint ac vn o'r kyfriuedi a vei yn kyn*n*al y tir ynn y erbyn*n*. [2401]Eithyr o darffei y vn 6neuthyr adeil neu lafyr arall k*yfreith*a6l, na chyh6nei erdo odi arno o dycha6n dangos tu a thal ida6 yn lle arall kystal a'e le ynteu petuei heb y llafyr k*yfreith*a6l arna6; ac onys dycha6n, reit vyd y gynn6ys yno eithyr g6neithyr ia6n am yr adeil a'r llafyr a 6nathoidit ar y tir o'r blaen. [2402]Kans y trydyd prit ar tir y6 llafyr k*yfreith*a6l a 6neler ar tir y bo g6ell y tir erdo, a hynny a dyly ef y daly o cheiff y ran*n* heb g6yn, megis y dyly dalu gobor g6archad6.

[2403]O deruyd tybygy gallael o vra6t neu gefynder6 neu gyferder6 neu gitdylyeda6c arall holi kyfran o dir o'e gitdylyeda6c dr6y gam6erescyn, [135] nis dycha6n oher6yd k*yfreith*. [2404]Sef acha6s, am na ellir tr6y gamorescyn eithyr ennill k6byl neu golli c6byl, eithyr yn*n* vn lle: pann dissgyn*n*o andlyeda6c yn briod6r ar tir, a dyfot dylyeda6c didiffodedic y priodolder y holi h6nn6, ny ellir g6rthlad y priod6r o'y dlyet am na diffodes y priodolder, na gyrru y llall y maes am y dissgyn yn briod6r. [2405]A llyna yr vn lle y keffir kyfran dr6y g6yn kam6erescyn. [2406]Os y dlyeda6c a odef yr andlyeda6c y gynnal tir ynn y erbyn dr6y deir oes rieni o pop parth ynn vn orssed ko*m*6t neu gantref ag ef, ni 6rande6ir y dlyeda6c g6edy hynny kans argyedigaeth drag6da6l y6. [2407]Os ynteu a vyd me6n g6lat arall o ach6ysson k*yfreith*ol, pa amsser bynnac y del o ve6n y na6[u]et dyn, ef a 6rande6ir ac a rodir kyn*n*6ys ida6 val y d6esb6yt o'r blae[n]. [2408]A llyna dalam o byngkeu a berthyn ar y rann gyntaf o a6dyrda6t kyf*reith*.

[2409]Ar yr eil rann o'r a6dyrda6t yr amlyceir y gyfreith ossodedic a ossodet r6g y brenhin a g6yr y deuyrnas, a r6g pob rei o'r rei hynny a'e gilid. [2410]Ac yn honno y mae teir kolofyn k*yfreith*, a g6erth g6yllt a dof, y rei y haruero dynnyon ohonunt, a chyf*reith* tir a dayar, a theithi mach a chynnogyn, [135v] a defodeu k*yfreith*ol, a lla6er o byngkeu ereill val y mae y bra6tlyfyr ynn y dangos; a rei hyn*n*y oll a oruyd y g6ybot a'e dyally yn ll6yr ac yn vanol kynn bo teil6g dyn yn vra6d6r me6n k*yfreith*.

2394 † gl6 / g6lat
2395 † r6y

[2411]Ynn y dryded rann o'r a6dyrda6t y mae rann o bop vn o'r d6y g*yfreith*, o g*yfreith* y llys ac o g*yfreith* y 6lat, yr h6n a el6ir yn aruer k*yfreith*. [2412]Ac yn y rann honno y mae amsser y dechreu amryfaylon holion val na[6u]etdyd Mei neu Racuyr am dir a dayar o ach ac etryt, neu y atofyn dadyl ebryfygedic, a chynnal amsser y dysty neu y al6 g6ybydieit, neu y llyssy neu y g6rthneu, neu amsser ym6ystla6 a barn. [2413]A ran*n* honno a dengys kad6 mod pob dadyl rac g6alla6geir, neu anhysbysr6yd, neu lithro amsser, a hynny dr6y ymha6l val y de6isso g6yr y llys a'r bra6d6yr, aeu geir tra geir ae g6ers tra g6ers.

[2414]G6edy y g6elo dyn bop rann o hynn ar neillty, a phob testyn ymhob rann, a phob geir ymhob testyn, ha6s vyd ido dyallu k*yfreith*; kans ny 6yr k*yfreith* onyt y neb a 6yppo y dyallu. [2415]G6edy g6yppo ef hynny oll, yna y mae ida6 ef 6ybot g6nneuthyr [136] ha6l ac atteb.

[2416]P6y bynnhac a vyn*n*ho g6neuthyr ha6l, reit vyd ida6 6ybot by ssa6l defnyd ha6l yssyd; kans tri defnyd ha6l yssyd: gol6c, a geir, a g6eithret. [2417]Er bot gol6c a geir a g6eithret yn tri defnyd ha6l, nyt ydi6 k*yfreith* yn dy6edyt vot pob gol6c a phob geir a phob g6eithret yn*n* defnyd ha6l. [2418]Wrth hynny, reit y6 g6ybot pa rai yssyd defnyd ha6l, pa rai nyt ydi6.

[2419]Ac yn gyntaf am yr ol6c y manegir, val y mae ynn y bra6tlyfyr yn dy6edyd. [2420]Teir gol6c a dygir yg k*yfreith*: gol6c tyst o'e tystoliaeth; a gol6c manag6r o'e vanac; a gol6c llygatryd kelys am lad neu losc neu letrat. [2421]Sef mod y dyellir hynny, pann holo dyn beth y arall tr6y 6ybydieit, y g6ybydieit hynny a eil6 k*yfreith* yn dyston ynn y lle h6nn6, kans p6y bynnac a allo d6yn tystoliaeth, ia6n y6 y al6 yn tyst. [2422]A chyfreith a dy6eit y dycha6n g6ybydieit d6yn tystoliaeth yn erbyn g6at ac amdiffyn, ac y dycha6n d6yn tystoliaeth am a vy kyn ymha6l; a chida hynny y dycha6n d6yn tystoliaeth yn lla6er lle, ac 6rth hynny y gellir [136^{v}] y gal6 h6ynteu yn dyston. [2423]A phan dygho y ry6 dyst h6nn6, reit vyd ida6 dygu g6ybot a g6elet yr hynn a dygho val y de6eit k*yfreith*, kans ll6 g6ybydiat y6 tygy g6ybot a g6elet yr h6nn a tygho. [2424]A llyna ol6c tyst o'e tystoliaeth, achos tr6y y tystoliaeth ef am yr hyn a 6elas y dilynir yr ha6l honno; velly y dy6eit k*yfreith* vod yn defnyd ha6l y ol6c ef o'e tystoliaeth. [2425]Ll6 tyst arall, megis tyst ar 6alla6geir, y6 tysty yda6 gynt yr hyn y bo ynn y dygu. [2426]Eil y6 gol6c managiat o'e vanac. [2427]Sef mod y dyellir hynny: o dygir da yn lletrat rac dyn a'e 6ady o'r llofryd, a dyfot y kolledic a manag6r ganta6 a lli6o ar y llofryd y lledrat, ll6 y manag6r h6nn6 y6 tygu g6ybot a g6elet ar y llofryd y lledrat. [2428]A h6nn6 y6 gol6c managiat o'e vanac, ac o rym yr ol6c honno y dilynir yr ha6l ar y llofryd, ac y gyrrir dan reith g6lat, ac am hynny y gel6ir ynn defnyd ha6l; a honno y6 yr eil ol6c a dygyr yghyfreith. [2429]Trydyd y6 gol6c llygatryd kelys am lad neu losc neu letrat. [2430]Sef mod y6 hynny: o deruyd y dyn vod yn affeith6r dr6y lygatrydiaeth, megis g6elet llad dyn gann y odef, defnyd ha6l vyd y rieni y lladedic h6nn6 a'e gitetifedion ar yr affeith6r h6nn6, kans [137] ydynt h6y y telir tal am affeitheu, a g6ad am lofrydyaeth† hefyd, ac ydynt ac y'r genedyl os holant, a chaml6r6 y'r argl6yd; kanyd oes am affeith heb 6eithred lla6 neu droed ny dyly y'r argl6yd namyn kaml6r6.

[2431]Eil defnyd ha6l y6 geir, kans tri geir kelys yssyd: geir y bo g6eli tafod amdanna6; a g6alla6geir me6n llys; a thafodrydyaeth am lad neu losk neu ledrad. [2432]Sef mod y6 hynny: or dy6eid vn geir hagyr 6rth vrenhin, defnyd ha6l y'r brenhin a vyd arno kans ef dyly taly kaml6r6 ynn deudyblic ida6; neu or dy6eid vn geir hagyr 6rth effeiriad brenhin yn*n* vn o'e

2430 † lofryd / ydyaeth

deir g6yl arbenic, neu yn darlain lyth*u*r, neu ynn ysgrifeny rac bron y brenhin; ac y vra6d6r pan*n* ym6ystler ynn y erbyn am y ia6n varn, os ef a'e kadarnha, defnyd ha6l vyd y'r bra6d6r arno kans ef a dyly taly sarhaed ida6. [2433]Hefyd ef a† d6edir y dyly y brenhin gosb am air hagyr a d6eto dyn parth a'r llall me6n egl6ys, me6n myn6ent, ac me6n gorssed g*yfreith*a6l; defnyd ha6l vyd y'r brenhyn arno o gaml6r6, kyd ny chaffo y neb y d6etter 6rtha6 dim ia6n. [2434]Eil geir kelys y6 g6alla6geir me6n llys, a hynny vyd o'r tri mod hynn: geir g6all yn holi o'r r6yf neu eisseu; geir g6all ynn amdiffin o'r r6yf neu eisseu; a geir g6all ynn g6ady. [2435]O'r kyntaf y kyll ha6l6r y ha6l o'r berthynno 6rth y geir or dygir tyston ynn y erbyn, ac ny chyll gaml6r6 kanyd oes g6yneu kelys eth*u*r tri. [2436]O'r eil neu o'r trydyd y kyll amdiffyn6r gaml6r6† a [137ᵛ] dif6yn yr ha6l o'r a berthyno 6rth y geir y tyst6yd o'e 6all, a defnyd ha6l y'r brenhin a vyd o gaml6r arno. [2437]Sef y6 dyall geir r6yf: d6edyd m6y no messur y g*yfreith*; dyall geir eisseu y6 d6edyd llei no messur y g*yfreith*. [2438]Trydyd geir kelys y6 tafodrydyaeth am lad neu losk neu ledrad. [2439]Sef mod y6 hynny: o dervyd y dyn dr6y gidsynyeid vynegi y'r ll6fryd ble bai y dyn a ledid a'e gyffelybyon yn*n*teu, defnyd ha6l y vyd y rieni y lladedic h6nn6 a'e gidettifedion ar yr affeith6r h6nn6, kans ydynt h6y y telir tal am affeitheu, a g6ad am lofrydyaeth hefyd ydynt ac y'r genedl hefyd os holant. [2440]Rei a d6eid na dyly kenedl dal dros affeitheu kans na dyly kenedl namyn tal gal*ana*s a thal sarhaed, ac na heni6 arian di6ad o vn o'r rei hynny. [2441]K*yfreith* a d6eid mae y rieni a chidettifedion y ladedic y telir tal am affeitheu a voynt gyfadef; hefyd k*yfreith* a d6eid, holl affeitheu g6eithred o affeitheu galanas neu losk neu ledrad, dir6ys vyd pob vn ohonnynt; tafodrydyaeth a llygadrydyaeth heb 6eithred lla6 neu droed, kamlyrys vyd y neb a'e g6nel. [2442]Tal dros affeitheu galanas adefedic, y rieni a chidettifedion y ladedic y telir o g*yfreith*, or k6ynan*t* amdan*n*a6; ac ydynt h6y ac† y'r genedl hefyd y dylir taly y reith y 6ady llofrydyaeth neu daly galanas ydynt.

[2443]Trydyd defnyd ha6l y6 g6eithred, ac er bod k*yfreith* ynn d6edyd vod g6eithred y[n] defnyd ha6l, *n*yd ydi6 k*yfreith* yn gallel dangos [138] na menegi by sa6l g6eithred yssyd defnyd ha6l; namy*n* pob g6eithred a 6neler ynn erbyn k*yfreith*, defnyd ha6l y6 y'r neb g6neler y g6eithred ido ar y neb a'e g6nelo, megis treis, lledrad, ac aghyfarch a'e kyffelybyon odieuthyr g6eithret ki kyndeiria6c a'e kyffelybyon. [2444]Hefyd y mae tri g6eithred ar bra6f y'r neb a'e dylyo, megis y d6eid k*yfreith* ynn [y] bra6dlyfr am lafr k*yfreith*ol neu aghyf*reith*ol a 6neler† am dir a'e gyffelybyo*n*.

[2445]G6edy g6ypo dyn by sa6l defnyd ha6l yssyd, reid vyd yda6 6ybod pa vod y holyr a pha vod yr attebir; kans o bed6ar geir a'e perthynassaeu y holir, ac [o] dri geir yr atebir. [2446]Sef ynt y ped6ar geir y holir, nid amgen: p6y a holych, beth a holych, pa veint a holych, a ph[a] ams*er* y holych. [2447]G6edy y g6ypo dyn hynny, reid vyd ido wybod beth a berthyn 6rth bop geir ar neilldy.

[2448]Wrth y geir kyntaf, nid amgen p6y a holych, y p*er*thyn hen6i hen6 prioda6l yr h*a6*l6r a hen6 prioda6l yr amdiff*yn6r*; hefyd py at y bo dy g6yn, megis 6rth s6ydogion yr orssed honno neu 6rth kyghella6r, megis hynn, namyn: 'Ithel ap Kyfnerth kyndrychol yn*n* kanlyn k6yn 6rth s6ydogion yr orssed honno'; ac o myn, d6edyd ynn benaf s6ydoc 6rth y

2433 † a a
2436 † ganl6r6
2442 † ac ac
2444 † 6ne / eler

kyghella6r, neu 6rth y dysdein os ynn y llys dygynyll byd; ac onys myn, nid oes na g6all nac eisseu er na d6etter; ‘Rac Tudyr ap Gr*uffud* yghyfleu amdiffynbeleid.’ [2449]Hynny a berthy*n* 6rth y geir kyntaf o’r ha6l.

[2450]Wrth yr eil geir, nid amge*n* [138v] beth a holych, y perthyn hen6i pa fford y’th 6hahan6yd o’th da, ae o dreis, ae o ledrad, ae o anghyfarch, ae o loc, ae o adneuaeth, ae o venffic, ae by arg6ed bynnac a 6neler yt neu ar dy eidia6; a hefyd pa ry6 da voynt, ae anifeileid, ae eur, ae ariant, ae dylyedogaeth o dir a dayar dr6y vn o’r dadanhydyaeu, neu o gamoresgyn o vn o’r tri, ae dr6y ach ac edryd; os lloc neu adneu neu venffic, hen6i pa ry6 gadernyd yssyd ar y gaffel drachefen, neu os dr6y gyfne6id neu amod neu lynyaeth arall, hen6i pa ry6 gedernid yssyd arnynt, megis hynn: ‘Dr6y def*n*yd ac achos, nid amge*n* vod vy noc y’r Tudyr d6yn march koch yn*n* aghyfarch arno ef.’ [2451]A hynny a berthyn 6rth yr eil geir.

[2452]Wrth y trydyd geir y perthyn, nid amgen pa vaint a holych; sef y6 hynny os anifeileid, manegi pa ryfedi a voynt, a pha deithi a voynt; os march neu eidon kyn*n* y gyfla6n deith[i], manegi y† oedran; os eur neu ariant, manegi pa rifedi voynt; os arg6ed, pa vaint, a pha vraint vo y’r ha6l6r; os am goed, pa rifedi voynt a†† pha ry6 goed voynt, ae der6, ae kyll, ae drain, ae pob vn ohonynt, ae coed ereill; os tir a††† dayar, henn6i pa rifedi o er6yd, a pha beth a dylir dros yr ieida6 neu dros yr arg6ed, ae arian k*yfreith* ae aria*n* k6ttaon, megis hynn: ‘Yr h6n*n* varch oed gyfla6n teithia6l, yr h6n a’e eil6 k*yfreith* y*n* varch tom, ac a gy[139]6erthydyeu drygeint o’r keinhogeu k6ttaon.’ [2453]A hyn*n*y a berthyn 6rth y trydyd geir.

[2454]Wrth y ped6ryd geir, nid amgen pa ams*er* y holych, y perthyn menegi y dyd a’r vl6ydyn y’th 6ahan6yd o’th eida6 neu y g6naethb6yd yr arg6ed neu amod neu’r llynyaeth; neu os kyfne6yd, pa dyd a pha le y by; neu os lloc neu adneu venffeik, pa dyd a pha vyl6ydyn y dlyssyd y gaffel drachef*en* neu dalu dros y gyfne6id; os tir, pa dyd ythioresgyn6yd ohon*n*a6, a phy le y mae y tir a pha vraint yssyd ida6; a manegi pa vn o’r tri diebryd ythiober6yd o’th eida6 neu y’th arg6ed6yd; a manegi py ry[6] bersonolyaeth vo y’r ha6l6r neu y’r amdiffyn6r yr ams*er* y g6[n]aethb6yd yr aghyf*reith*. [2455]A hynny a berthy*n* 6rth y ped6ryd geir o’r ha6l, megis hyn*n*: ‘Hen6 y dyd a’r vl6ydyn y g6naeth ef yr aghyfar⁊, dyd Ma6rth nessaf G6yl Lyc di6ethaf a lithrod ynn y vl6ydyn hon*n*; lle roed y march pan dycb6yd, dan vreint g6ialen y gygylloryaeth hon*n* ac a’e el6ir Glan Marlais; a bod Ithel yn*n* p*er*son k6bl y ofyn, a Thudyr yn p*er*son k6bl y atteb; a bod kyfarch arno ef ar dyd Ma6rth nessaf yn*n* ol kalan gayaf a lithrod ynn y vl6ydyn hon*n*, a negyd vu, ac her6yd y negydyaeth y vod ef ynn tyn*n*y yn vn o’r tri diebryd, nid amgen d6yn peth ar dyn heb adver; a deisyf g6rtheb.’ [139v] [2456]Ac o byd neb ryfedo gossod dyd kyfarch ar yr ha6l hep y vod yn*n* berthynas y vn o’r ped6ar geir r6ym, reid y6 y en6i kans ny bydeu diebredic nes y vod ynn anegyd, ac nad oed bra6 ar negydyaeth nes y gyfarch, ac nad oes achos ha6l heb diebryd; ac 6rth hynny reid y6 hen6i y dyd kyfar⁊.

[2457]G6edy y g6ypo dyn pa vod y holir, reid vyd ido 6ybod pa vod yr attebir; kans o dri geir yr attebir: o 6ad, neu adef, neu amdiffyn.

2452 † y y
2452 †† a / a
2452 ††† ae

[2458]Am y g6ad kyntaf y treithir. [2459]Tri ry6 6ad yssyd: g6ady oll y dadl a dotter ar dyn, a honno a 6edir dr6y reith ossodedic heb na m6y na llei. [2460]Eeil y6 adef ran o dadl y dr6c 6eithred, a g6ady k6bl o'r g6eithred, a honno a 6edir gan chenackay reith ossodedic; megis ygholofneu k*yfreith* am lofrydyaeth, hyny dyngeu de*n*g6yr a deugeint gan 6ady llofrydyaeth a'e haffeitheu yn hollha6l, yna y t6ng kant neu deukant neu drychant gan*n* 6ady llofrydyaeth ac adef affeith. [2461]Sef mod y gellir hynny, anos vyd kredy y neb a adefo rann o dadyl y dryc 6eithret no'r neb y 6ado y dadl oll, ac 6rth hynny y ch6anekeir arno 6rth vreint yr h6nn a adefo. [2462]Trydyd y6 adef rann a g6ady rann arall heb 6eithred yndo, a honno wedir gan leihau reith ossodedic; meg*is* me6n mechni, ll6 mach ar [y] seithvet o'r dynyon nessaf y 6erth gan wady y vechni oll, [140] yna y t6g ef yhyn gan 6ady ran ac adef ran*n* arall o'r vech*n*i. [2463]Sef mod y† diellir hynny, ha6s vyd y gredy her6yd ydo adef ran o'r vechni na pheu g6attay y k6bl, kans rac taly y g6edir, ac am hyn*n*y y lleyheir reith arno, ac her6yd nad oes dryc 6eithred yndi; kyffelyp a hynny meg*is* peu holeu dyn pynt y arall, ac adef ohonno y lleill ch6eugeint a g6ady ch6eugeint arall, yn*n*a y g6edir gan leuhay reith ossodedic; lle tygeu wyth6yr a deugeint gan 6ady pynt, haner y reith vyd eisseu am yr hynn adefod, kanyd oes gyga6s gan adef.

[2464]Ac velly pob g6ad a vyd k6bl 6rtheb y'r neb a'e hardel6o, dan dalu k6bl reith ac berthyno 6rth vreint yr hyn a holer, na ll6 vn dyn na ll6 llya6s. [2465]Lle bo vn tafod yn*n* gyry ac arall ynn g6ady, ll6 vn dyn yssyd diga6n y 6ady hynny [del]† ams*er* g6rthd6g [lle]†† p*er*thynno reith ossodedic a'e g6atta. [2466]Od en6ir bangor ar yr ha6l yn*n* gedernyd y harch6iro, megis bridu6 neu vechniaeth neu 6yby[d]eeid neu amod6yr† a'e kyffelybyon, y rei hynny oll dr6y reith ossodedic y g6edir pob vn ohonynt, a hynny her6yd breint†† y bangor a ossotter y arch6iro yr ha6l, ac nyd oher6yd maint y dylyed y g6edir yn*n* y lle h6nn6.

[2467]Ail g6rtheb y6 amdiffy*n*, kans tri ry6 amdiffyn yssyd: vn y6 na 6rtheber yn*n* anams*er*ol y'r gofyn. [2468]Sef mod y dyellir† [140v] hynny, nid amgen: kad6 ams*er* megis y gallo arch6iro y dedryd g6lad, euth*u*r lle perthyn*n*o cof llys, nad oed goll amser yr ams*er* y hamdiffyn6ys, neu y g6ad6ys, neu g6rtheb6ys yr ha6l, megis na 6rthepper kyn y holi, neu na thale 6ad yn*n* oed y g*yfreith*, neu nad amdiffyne kyn atteb y'r defnyd, neu na lysseu, neu na 6rthneu, neu nad ym6ystlei ynn ams*er*ol a'e kyffelybyon, megis y dy6eid k*yfreith* yn*n* y arver*on*; kans k*yfreith* a d6eid vod yn*n* reid kad6 ams*er* ymhop peth. [2469]Eil y6 amdyffyn mal nad atteb byth y'r h*a6*l. [2470]Sef mod y dyellir hyn*n*y, megis beu damcheinei 6rtheb y h*a6*l gan*n* ally profi dr6y vn o'r tervyneu ychod vod g6all dadal6ryaeth a vai yn*n* kyflad a grym a defnyd y dadl o g6bl hyd na bai ynn p6ysso ar vod dadl nac arver dadal6ryaeth, megis g6yd6aled ky6lad, neu arabh*a6*l, neu ha6l hep berchen, neu golli ams*er*, megis y bai yn*n* argadigaeth drago6yda6l a'e chyffelybion. [2471]Trydyd y6 amdiffyn gan atteb mal na choller dim er yr h*a6*l. [2472]Dyall hynny y6 pan 6rtheppeu amdiff*yn6r* gan dystu g6alla6geir neu anhysbysr6yd ar ha6l6r odieyth*u*r colled trag6yda6l†, neu tystu ha6l drabl6ydyn, neu 6rth-ha6l yn*n* erby*n* h*a6*l, ne ofy*n* dylyed kych6na6l yn*n* y dydyeu deduon, neu ofy*n* tir a dayar

2463 † y y
2465 † *Mewn llaw arall.*
2465 †† *Mewn llaw arall.*
2466 † amdoyr
2466 †† breint breint
2468 † *Ysgrifennodd y copïydd* gwir duw krea6dr *ar odre'r ddalen hon.*
2472 † tg6yda6l, *gyda* ra *(?) uwchysgrifol*

yn*n* ams*er* kaeth k*yfreith*, yr h6n a disgin y*n* argadigaetheu ams*er*oed; ac yna y mae kynattedic kyrchy k*yfreith* o ne6yd.

[AMRYWION]

[141] [2473]Ni chae kyfreith r6ng dyn a'e dir dlyet yn llei ysbeid no thair oes rieni o bop parth, a hynny yn dyngnofedys. [2474]Sef y6 tair oes rieni: na6 vgeint mlyned, trygeint mlyned ymhob oes.

[2475]Merch o'r pan aner hyd pan vo seith ml6yd, ni dyly vyned me6n ll6. [2476]O'r pan aner hyny vo deudec ml6yd y dyly vod 6rth gyngor y that. [2477]O'e deudec ml6yd allan y da6 kedor a broneu erni ac y blodeua hi, ac yna y byd oet y rodi y 6r. [2478]Ac o hynny allan, kani chaffo y rodi y 6r, hi a dyly ymrodi yhynan ac ni dyly vod 6rth gyngor y that onit hi a'e myn, ac ni dyly y that daly amobyr dros y verch onid ef yhyn a vyd rodiad erni; os ynteu a vyd rodiad erni, kymered vach gan y neb a'e kymero.

[GEIRIAU'R SEITHWYR DOETHION]

[2479]Geireu y seith6yr doethon y6 y rei hynn. [2480]Pa da orychaf? Kyfia6nder. [2481]Pa direidi v6yaf? Ani6eirdeb. [2482]P6y assyd gyfoethoc? Y neb ni ch6enycho dim o da ar gam. [2483]P6y yssyd dla6d? Kebyd. [2484]Pa gamp decaf ar 6reic? Di6eirdeb. [2485]Pa doethineb v6yaf? Gally dr6c o dyn y arall ac nas g6nel. [2486]Pa ynvydr6yd v6yaf? Myn*n*y dr6c o dyn y arall ac na allo y 6neuthyr.

[GWENYN]

[141^{v}] [2487]Boned g6enyn o barad6ys y heni6, ac o achos pechod dyn y deuthont odyno ac y dodes Du6 rad arnynt, ac o'r achos hynny ni ellir yffereny heb oleu k6yr.

[2488] Na6uetyd kyn*n* A6st yrr a pob heid ymreint modredaf, ac yna pedeir ar hygeint a dal, eithr assgellheit. [2489]Sef y6 assgellheid, heid a el g6edy kalan A6st y maes, a honno ni chymer vreint modrydaf hyd galan Mai rac 6yneb, ac yna pedeir ar hugeint a dal val y mam. [2490]Keisser ych6anec yn y blaen lle y mae y g6erthe.

[AMRYWION]

[2491]O dervyd barny dyn yn lleidr g6erth, a bod da ida6, ac nad ymbryno yhyn, kyfreith a d6eid lle ym6rthoto[†] ef yhyn ac gell6g y eneid o ageu, ac ef yn gally y ell6g, y dlir y dienydio ynteu am y lledrad. [2492]Pei na allei ynteu ymbryny, kyd pallei y genedl y bryny, ni dlir y dienydio ynteu am y da ni allei d6ad ydynt.

[2493]O dervyd y dyn g6neuth*u*r lledrad ffyrnic am beth a vo llei y 6erth na phedeir ke*inha6c* k*yfreith*, ia6n y6 barny y vod yn lleidr g6erth, a hynny yn deudyblic; sef y6 hynny, pedeir punt ar dec.

[2494]Da a dyccer o ryfel y hed6ch deu han*n*er vyd r6g y neb a'e dycco a'r neb bioed gynt, *e*t c*etera*.

[142] [2495]P6y bynnac a rodo prid ar dir ar na allo y gadarnhau dr6y 6eithred gorssed, k*yfreith* a d6eid nad reid atteb ida6 namyn y vod yn brid anolof.

2491 [†] ym6rthothoto

[2496]Bonclyst a rodo dyn y arall tr6y lid, ja6n y6 taly pedeir ar hugeint gid a'e ssarhaet y'r dyn.

[2497]Pa amdiffyn6r bynnac a safo ganta6 gyga6s a chanlla6 ac ef yhyn yn drydyd, a cheissa6 ohona6 oed 6rth borth, ni dyly y gaffel kans hynny o dynion y6 porth k*yfreith*a6l. [2498]Ny dyly kyga6s a chanlla6 ssefyll yghyd am ha6l a vo llei na chy6erthyd trygeint, neu am dadal tir a dayar.

[2499]O dervyd y rad6r g6neuth*u*r kam y luc, kymerer ia6n ganta6 val gan luc a g6naed yr egl6ys a vynno ymdana6. [2500]O dervyd y luc g6neuth*u*r kam y rad6r, dy6ygier ida6 val y d6eto yr egl6ys ond taly y gorff y'r genedyl.

[2501]O dervyd y dyn g6neuth*u*r kam kyhoyda6c y arall a cheissa6 y 6ady er div6yna6 da y'r argl6yd ac y'r bleid, ni dlir y 6ady na thr6y 6ad na thr6y dyst kans m6y y6 tystoliaeth gyoed na g6ad k*yfreith*a6l.

[2502]Val y mae† mab yn ettifed o dref y dat, velly y mae tat yn ettifed o da y mab oni byd ettifed ida6; ac velly mam am da y merch.

[142v] [2503]Pob kyttir ef a dlir y gynnal a ll6 ac a da, ac ar nis kynhalo, kolled y ran. [2504]G6edy y ranner y tir, ny dyly neb daly da dros dir y gilid. [2505]H6ynt a dylyant y kynnal a'e ll6, brodyr a chefendyr a chyferdyr; ac onyd ant y gyd yn y reith honno ac o acha6s hynny kolli ohona6 y tir, enillent h6y ida6 ef y tir a golles o'e hacha6s h6y. [2506]Ac o gyferder6 allan ny dlir ran*n*y tir, a chan na dlir rany tir bellach hynny ny dyly neb kad6 rann y gilid, nac o'i da nac o'i ll6.

[2507]Kyfreith a d6eit, kyd darffei y'r amdiffyn6r rodi atteb yn gynt no'e holi ef o'r ha6l6r, vod yn*n* anolo yr atteb hynny 6randa6o ef yr ha6l, ac yno rodi atteb.

[2508]G6edy barner tir a dayar y dyn, ni ellir llydias kyfran ida6 o hynny allan pan vynno, na chaedic vo yr amser nac ef ni bo; k*yfreith*ol y6 ido ran*n*u bob ams*er*. [2509]Ac ni dyly neb gymryd tir kyn*n*yd yn lle tir priodol; ac os kymerth a'e golli ohona6 yn g*yfreith*a6l, ni dlir y enill ida6 kans kymerth anilis yn lle dilis.

[2510]P6y byn*n*ac a gynhalo tir a dayar vn dyd a bl6ydyn, a'e gyn*n*al o lyd a chymanfa a dadleu ac o bop peth a del arna6, a dyfod dlyeda6c arall y ofyn ran*n* ohona6, ef a dyly daly y'r gorcheid6at gobyr g6archad6 y tir, *e*t c*etera*.

[DAMWEINIAU]

[143] [2511]Od edy dyn gyfrivedi o dyston, kyfrifed h6y mal yde6is neu balled y dadyl ida6. [2512]Od edy dyn a vo dogyn yn y g*yfreith*, digon y6 deu dyst neu dri kyd bo g6ell a vo m6y; nid tystoliaeth [tystoliaeth] vn dyn.

[2513]O dervyd y dyn ynyd koll neu gaffel keissa6 oed o vod y ar6assaf neu y dyston yn glaf neu yn anghene ereill, k*yfreith* a d6eid na rymha ida6 hynny kani all6ys kael yr hy*n* ade6is.

[2514]Or damch6eina mar6 perchen tir o ve6n y tair grad kenedyl, y kereint nessaf y'r mar6 o rad kenedl o bydant o'e rieni a geiff y tir h6n*n*6.

[2515]Or byd mar6 perchen tir hyd ar geifyn heb ettifed o'i gorff neu gidettifed, y brenhin a vyd ettifed o dir h6nn6. [2516]Kyferder6 a geiff tir y nei, a'r nei a geiff tir yr e6ythr yr h6n a vai var6 heb ettifed o'e gorff, ac ni cheiff gorocheifyn tir y keifyn arall o g*yfreith* oni

2502 † mae / mae

byd heb rany rygta6 a'r mar6; ac o h6nn6 ni diffyd k*yfreith* hyd ymhen*n* y na6ved dyn, ac yna digenedyl ynt her6yd diffodi y priodolder.

[2517]O dervyd y argl6yd ynadleu rodi kygha6s a chanlla6 y berchena6c dadyl tir a dayar neu beth arall y perthyno, a d6edyd o'r perchen neu'r kanlla6 ar y afles megis kynhorth6y y'r bleid arall, k*yfreith* a d6eid na dyly y kygha6s diodef m6ynant o'r geir h6n*n*6 onis myn*n* ehyn, kan*n*s ef y6 y d6ed6yda6dyr ac a bie dyall.

[LLUNIO'R GYFRAITH]

[143^{v}] [2518]Llyma lyfyr o g*yfreith* a 6naeth H6el Da yn y Ty G6ynn ar Daf yNyfed, y'r h6nn y doyth yno o 6ys H6el [y] ch6eg6yr doethaf o bop kym6t ynGhymry o lygion, a seith vgeint bacla6c o archesgyp, ac esgyp, ac abadeu, a phriorieit o doython oll. [2519]Ef a wnaethb6yt y deudec doythaf ar neilltu y 6neuth*u*r y g*yfreith*, a'r vn ysgolheic huotlaf o Gymry oll y ysgrifenu y g*yfreith* ac y edrych rac g6neyth*u*r dim yn erbyn k*yfreith* egl6ys na chyf*reith* yr amherodyr.

[2520]Llyma hen6au y g6yr llygion hynny:

Morgeneu ynat	G6iberi Hen o Iscenein
Kyfnerth y vab	G6rnerth Ll6yd y vab
G6eiri vab Kyfia6n	Medd6on ail Kerisc
Gron6y vab Moridic	G6ga6n Dyuet
Ke6yd ynat	Bledr6s vab Bleidyd
Iddic ynat	G6yn*n* vaer, y g6r oed berchena6c ar Lantaf6in, bioed y

ty y g6naethb6yd y g*yfreith* ynda6. [2521]A Blege6ryd, archdiaga6n Llanndaf, a oed yr ysgolheic, a doctor ynghyfreith yr amhera6dyr ac ynghyf*reith* yr egl6ys oed ef.

[2522]G6edy darfod g6neuth*u*r y gyfraith oll a'e hysgrifeny yn g6byl, ef a aeth Hoel Da a theuyrnedd o Gymry gidac ef, a Lambert esgob Myny6, a Mordaf esgob Bangor, a Chebur esgob Seint Assaph, a Blege6ryd archdiagon Llan*n*daf, [144] hyd att Anestacis hyd yn Ryfein y darllein y g*yfreith* ac y edrych a oed dim yn erbyn k*yfreith* Dy6 ohonei; ac am nad oed dim yn g6rthneby idi, hi a deilyng6yd ac a el6id yn g*yfreith* H6el Dda o hynny allan*n*. [2523]Oedran yr Argl6yd Jessu Grist yr amser h6nn6: na6 kant mlyned a phedeir ar dec. [2524]A llyma y g6ersseu a 6naeth Blege6ryt yn dystoliaeth ar hynny:

Explicit editus legib*us* liber bene fenit*us*
Que*m* regi scripcit Blaugoridus et quoq*ue* fuit
Hweli turbe doctor tun*n*c legis in vrbe
Cornando tu*n*c iudice cotidiano
Rex dabat ad p*ar*tem dexteram nam sum*pser*at artem.

[FFYRDD Y GYFRAITH]

[2525]Llyma y gynifer fford y g6ahana dyn a'e da ac y kygein yda6 y holi yn gyfreitha6l: lledrat, treis, anghyfarch, ech6yn, addneu, benthic, lloc, kyfne6it, llessgedd, g6archeu, a chych6yn anghyfreitha6l. [2526]Sef y6 lledrat, d6yn peth a'i 6ady. [2527]Sef y6 treis, d6yn peth o anvod. [2528]Sef y6 anghyfarȝ, d6yn peth yn apsen a'i adef. [2529]Sef y6 llesged, peth a goller o 6all. [2530]Sef y6 adneu, peth a roder y gad6 y arall.

[144v] 2531Llyma† y gynifer fford y dylu keidweid vod: y gad6 geni a meithryn††, ac y gad6 kynn koll, a chadw g6estei, a chad6 tir a daear gann dyn, a chad6 breint, a chad6 alldydiaeth gan*n* dyn, a chad6 heint me6n ll6dyn. 2532Llyma y ry6 wyr y braint a dylu vod yn geid6eit: y gad6 geni a meithrin a chad6 kynn koll, g6yr vn vreint a'r amdiffynn6r; y gad6 g6estei, dyn*n*ion y ty; y gad6 tir a daear gann dyn, vchel6yr o amhin*n*iogeu tir a gyfarffo tervyneu y tir a'r tir y bont ynn y gad6; y gad6 breint, g6yr breina6c kani chyngein y anvreiniol gad6 breint; y gad6 alltydiaeth, gwyr adv6yn dianllad; y gad6 heint me6n ll6dyn, kymydogion dianllad ad6yn; ac ad6yn*n* y dylu vod pob keid6ad.

2533Val† hynn y dylir am gyfran. 2534Kyfran*n*y a dylir yn*n* gyntaf r6ng brodyr. 2535Y mab ieuaf y dylu de6is y dydyn ac a vo o dai ar yr 6yth er6 k*yfreith* os ychel6rdir vyd, ac o hynaf y hynaf de6issent y tydynneu ac y ba6b a vo o dai ar y dydyn. 2536A g6edy hynny ranned y mab ieuaf y tir g6ac ymhob lle, ac o hyn*n*af y hynnaf de6issent†. 2537A g6edy hynny kefender6 a dylu adran*n*y, euth*u*r na ssymyd neb o'i dydyn rac y gilid kans kymeint y6 y tydyn*n*eu ac na dylu neb vod yn adeil6r y gilid. 2538Ac vellu y dylu kyferder6 adran*n*. 2539G6edy'r dryded rann kad6ed pa6b y ran*n* ganta6 yn g*yfreith*a6l tr6y geid6eit [145] o ymhinogeu tir. 2540Os mab eillt vyd, pedeir er6 a dylu vod ymhob tydyn, a ran*n*u ac adran*n*u a de6issa6 vel y rai ychot.

2541Ac val hynn y dylir am gyhyd. 2542Ni dylir kyhyd yn vn lle onid yn y dref gyfrif, ac yn*n* y dref honno y dylu pa6b gymeint a'e gilid ac nid kystal. 2543Ac yn y dref honno y dyly y meibon dir ymy6yd eu tadeu, euth*u*r y mab ieuaf y dylu aros mar6 y dad kans yn lle y tad y dylu vod. 2544Y neb a al6o am dir tref gyfrif, ef a dylu kael y dydyn yn y lle g6ac y myno heb dai arno, a g6edy hynny kyhyd a pha6b. 2545A g6edy y g6rthotto y tir a gal6 am dir g6edy hynny, nid oes ida6 gael y tir a vy yn*n* y la6 gynt oni byd g6ac heb y gymryd o neb.

2546Llyma'r† gynifer ford y dylu argl6[yd] da y dyn yn g*yfreith*a6l: na6 affeith galanas, a na6 affeith tan, a na6 affeith lledrad, a na6 tafodia6c, ac 6yth bynvarch, a'e heba6c, a'e vyal, a'e s6llt, a'e eurgra6n, a thor llong heb diangk y pherchen, ac a vyro morgymla6d y'r tir me6n tri llan6 a thri threi heb vediant y neb arna6, a doydeng my dir6y am drais ac am ledrad ac am ymlad, a'u r6ydau, a'u amobrau, a'u ebedi6ay, a'u gamlyriau, a'u vy6ch lyd, a'u vy6ch g6ylau, a'e varoni, a'e ebran, a'e waith gann y g6yr y dyluo, a chreith y helynt, a g6erth halogi y tir (sef y6 hynny, pynt) o acha6s g6aedlydia6'r tir a llad kelein, ac a gaer o da'r llofryd o'r pryd y gilid, a da [145v] halawcty, a ffoa6dyr, a fflema6r, a mel a moch gann y taeogion y 6erthy ymlaen arall ida6, a thafa6t 6eli, a g6erth tervyneu a'r ffinieu a'e kospeu, a phob da diberchenna6c, a tholl y velineu.

2531 † *Gadawyd gofod ar gyfer priflythyren liw (Ll), ond nis llanwyd.*
2531 †† meithrym
2533 † *Gadawyd gofod ar gyfer priflythyren liw (V), ond nis llanwyd.*
2536 † de6issenst
2546 † *Gadawyd gofod ar gyfer priflythyren liw (Ll), ond nis llanwyd.*